CYNGOR BRO MORGANNWG

# ADRODDIAD BLYNYDDOL

## CYNLLUN GWELLA - RHAN II

## 2020 - 2021




VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG


@CBroMorgannwg | Cyngor Bro Morgannwg | improvements@valeofglamorgan.gov.uk | 01446 700111 | www.valeofglamorgan.gov.uk

## Cynnwys


**1.0 CYFLWYNIAD……………………………………………………………………………………… 2**

1.1 DIBEN YR ADRODDIAD HWN………………………………………………………………….. 2

1.2 STATWS CYFFREDINOL EIN CYNLLUN CYFLAWNI BLYNYDDOL 2020/21.............. 5

1.3 CRYNODEB O'N PERFFORMIAD O RAN CYNLLUN CYFLAWNI BLYNYDDOL 2020/21...................................................................................................................... 6

**2.0 EIN HYMATEB I BANDEMIG COVID-19………………………………………………................ 9**

2.1 ADFER A CHYFLE.......................................................................................................... 12

2.2 2.2 FFOCWS AR: WASANAETH TRAFNIDIAETH GYMUNEDOL GREENLINKS.... 15

**3.0 CANLYNIAD LLES 1: GWEITHIO GYDA A THROS EIN CYMUNEDAU………...... 18**

3.1 DATGANIAD SEFYLLFA………………………………………………………………… 18

3.2 CYFLAWNIADAU ………………………………………………………………………… 29

3.3 HERIAU……………………………………………………………………………….. 31

3.4 SBOTOLAU AR: CYNHWYSIANT DIGIDOL………………………………………….... 33

**4.0 CANLYNIAD LLES 2: ATEGU DYSGU, CYFLOGAETH A THWF ECONOMAIDD CYNALIADWY………………………………………………………....................... 36**

4.1 DATGANIAD SEFYLLFA………………………………………………………………… 36

4.2 CYFLAWNIADAU ………………………………………………………………………… 48

4.3 HERIAU…………………………………………………………………………….............. 52

4.4 SBOTOLAU AR: YSBRYDOLI I WEITHIO (YiW)……………………………………….... 54

**5.0 CANLYNIAD LLES 3: CYNORTHWYO POBL YN EU CARTREFI AC YN EU CYMUNEDAU … 59**

5.1 DATGANIAD SEFYLLFA………………………………………………………………… 59

5.2 CYFLAWNIADAU ………………………………………………………………………… 70

5.3 HERIAU……………………………………………………………………………............. 75

5.4 SBOTOLAU AR: GWASANAETHAU CEFNOGI POBL DRWY BYRTH A GWASANAETHAU TRAWMA.......................................................................................... 79

**6.0 CANLYNIAD LLES 4: PARCHU, GWELLA A MWYNHAU EIN HAMGYLCHEDD ………. 83**

6.1 DATGANIAD SEFYLLFA………………………………………………………………… 83

6.2 CYFLAWNIADAU ………………………………………………………………………… 93

6.3 HERIAU……………………………………………………………………………….. 95

6.4 SBOTOLAU AR: YSGOL GYNRADD YNYS Y BARRI "GWEITHIO GYDA'N GILYDD AR GYFER DYFODOL MWY DISGLAIR"...................................................................... 97

**7.0 YR HYN A DDYWEDODD YR ARCHWILWYR AMDANOM NI………………………………. 99**

7.1 CRYNODEB ARCHWILIO BLYNYDDOL (2019 - HYDREF 2020)................................ 99

7.2 TRACIWR CIPOLW……………………………………………………………………… 100

7.3 BARN Y PENNAETH ARCHWILIO MEWNOL AR Y CYNGOR: LLYWODRAETHU, RHEOLI RISG A RHEOLAETH FEWNOL 2020/2021 ………………………………… 101

7.4 DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL 2020/2021 ………………………………. 102

7.5 COFRESTR O RISGIAU CORFFORAETHOL: DATGANIAD CRYNHOI SEFYLLFA DIWEDD Y FLWYDDYN 2020/2021........................................................................ 103

**8.0 EIN BLWYDDYN MEWN RHIFAU: DANGOSYDDION PERFFORMIAD ………………. 108**

# I. CYFLWYNIAD

## 1.1 DIBEN YR ADRODDIAD HWN

Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (MLlL) a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (DLlCD) ill dau yn gosod dyletswyddau penodol ar y Cyngor mewn perthynas â gosod amcanion a dyletswyddau adrodd. O dan Ddeddf LlCD, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi ei Amcanion Lles blynyddol erbyn 31 Mawrth ac adolygu'r rhain yn flynyddol er mwyn sicrhau eu bod yn parhau'n berthnasol, a hefyd adrodd ar gynnydd o ran cyflawni ei amcanion lles o'r flwyddyn ariannol flaenorol. O dan y MLlL, mae’n rhaid i ni hefyd gyhoeddi dwy ddogfen bob blwyddyn: mae’r cyntaf o'r rhain yn Gynllun Gwella blaengar sy'n nodi ein blaenoriaethau gwella, a elwir yn Amcanion Gwella, ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf (sef ein Cynllun Cyflawni Blynyddol); ac mae'r ail yn adroddiad blynyddol i adlewyrchu perfformiad y Cynllun hwnnw (sef Adroddiad Perfformiad Blynyddol Bro Morgannwg).

Yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol hwn (2020/21) fydd yr adroddiad perfformiad terfynol a gyhoeddir o dan y MLlL. Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) (Lle) a ddaeth i rym o 1 Ebrill 2021. Mae hyn yn disodli'r ddarpariaeth perfformiad bresennol sy'n gysylltiedig â'r MLlL ac yn gosod dyletswyddau tebyg ar bob Awdurdod Lleol yng Nghymru. Mae'r darpariaethau perfformiad a llywodraethu newydd yn y Ddeddf wedi'u llunio o fewn dyletswyddau datblygu cynaliadwy ehangach Deddf LlCD ac yn cyd-fynd â'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol (a ddaeth i rym ar 31 Mawrth 2021) a'n trefniadau archwilio, rheoleiddio a phartneriaeth. Mae'r fframwaith perfformiad newydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor barhau i adolygu perfformiad, ymgynghori ac adrodd ar ein perfformiad drwy hunanasesu, a threfnu ac ymateb i asesiad perfformiad panel unwaith ym mhob cylch etholiadol. Mae'r dyletswyddau hyn wedi llywio'r gwaith o ddatblygu ein Cynllun Cyflawni Blynyddol ar gyfer 2021/22 (adroddwyd ym mis Hydref 2022) a datblygu trefniadau rheoli perfformiad newydd wrth i ni ddechrau gweithio i'w hymgorffori.

Yn unol â'n dull o ymdrin â model cynllunio ac adrodd mwy integredig, mae Amcanion Lles ein Cynllun Corfforaethol ar gyfer y cyfnod 2020/21 (o dan Ddeddf LlCD) a'n Hamcanion Gwella ar gyfer yr un cyfnod (o dan MLlL) yr un fath. Mae hyn wedi ein galluogi i ganolbwyntio ar nodi'r camau cywir i gyflawni ein hamcanion i wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Bro Morgannwg tra'n gwneud y mwyaf o'n cyfraniad i'r Nodau Lles. Rydym yn parhau i gryfhau ein mewnwelediad mewnol gan ganolbwyntio ar yr hirdymor, gan weithio'n well gyda phobl a chymunedau a gyda’n gilydd, gan geisio atal problemau a mabwysiadu dull mwy cydgysylltiedig. Mae'r dull hwn yn cyd-fynd â chanllawiau gan Lywodraeth Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

Nododd ein Cynllun Corfforaethol newydd ar gyfer 2020-25, Gweithio Gyda'n Gilydd ar gyfer Dyfodol Disgleiriach, bedwar Amcan Lles newydd. Cafodd y rhain eu llywio gan ymgysylltiad helaeth drwy gydol y flwyddyn flaenorol ac ystyriwyd: yr hyn a ddywedodd ein trigolion wrthym am ein gwasanaethau a'u blaenoriaethau; barn ein partneriaid; ein dealltwriaeth o'r ardal leol a'r gymuned leol; ymrwymiadau rydym wedi'u gwneud i gyflawni gyda'n partneriaid e.e. Cynllun Lles y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a Chynllun Ardal Caerdydd a'r Fro; ein hadroddiad perfformiad blynyddol o'r flwyddyn flaenorol; arfer gorau a'r hyn rydym yn ei wybod sy'n gweithio'n lleol; yr adnoddau sydd ar gael i ni; cyngor ac argymhellion gan Gomisiynwyr y Gymraeg, Plant, Pobl Hŷn a Chydraddoldebau a Hawliau Dynol a'n rheoleiddwyr. Drwy ein trefniadau cynllunio gwasanaethau a rheoli perfformiad, rydym hefyd wedi adolygu perthnasedd ein Hamcanion Lles, gan ganolbwyntio ar y canlyniadau, y cyflawniadau a'r heriau a fwriedir. Drwy'r gwaith hwn, rydym yn sicr bod ein Hamcanion Lles yn briodol a'u bod hefyd yn parhau i fod yn berthnasol i'r blaenoriaethau a amlinellir yng Nghynllun Lles y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) 2018-2023 ac y bydd yn ategu gwaith y BGC wrth symud ymlaen. Ein Hamcanion Lles a Gwella ar gyfer 2020/21 oedd:

- Amcan 1: Gweithio gyda, a thros ein cymunedau
- Amcan 2: Ategu dysgu, cyflogaeth a thwf economaidd cynaliadwy
- Amcan 3: Cynorthwyo pobl gartref ac yn eu cymuned

- Amcan 4: Parchu, gwella a mwynhau ein hamgylchedd

Ochr yn ochr â datblygu Cynllun Corfforaethol newydd yn 2020, rydym hefyd wedi ymateb i adborth drwy lunio Cynllun Cyflawni Blynyddol i gyd-fynd â'r Cynllun Corfforaethol pum mlynedd cyffredinol. Mae’r Cynllun Cyflawni Blynyddol yn ein galluogi i ganolbwyntio ar flaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn drwy roi manylion am y camau gweithredu yr ymgymerir â nhw bob blwyddyn i wella lles lleol a chyflawni pedwar Amcan Lles y Cyngor. Mae'r camau gweithredu ar gyfer 2020/21 wedi'u datblygu mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys aelodau etholedig, staff, partneriaid a thrigolion.

Mae'r Adolygiad Perfformiad Blynyddol hwn yn edrych yn ôl ar sut y gwnaethom wrth gyflawni ein Hamcanion Lles fel y nodir yng Nghynllun Cyflawni Blynyddol 2020/21 a'r bwriad yw cydymffurfio â'n dyletswyddau cyfreithiol o dan Ddeddf LlCD a’r MLlL yn ogystal â darparu asesiad o'n perfformiad i'n dinasyddion. Yn yr adroddiad rydym wedi ceisio creu darlun rhesymegol o sut mae ein meddwl integredig a’n prosesau cynllunio yn ein helpu i gymryd y camau angenrheidiol i gyflawni Amcanion Lles ein Cynllun Corfforaethol ac wrth wneud hynny i wneud y mwyaf o'n cyfraniad i'r nodau cenedlaethol. Ein dull o gynllunio integredig yw sicrhau ein bod, lle y bo'n bosibl, yn cysylltu ein Hamcanion Lles er mwyn cael yr effaith fwyaf posibl. O fewn Cynllun Corfforaethol 2020-25 rydym wedi symud tuag at lai o amcanion sydd gyda'i gilydd yn ffurfio pecyn gweithgarwch cydlynus i gyflawni pob un o'n canlyniadau lles lleol a gwneud y cyfraniad gorau posibl o ran cyflawni'r nodau lles cenedlaethol mewn ffordd mwy integredig. Bydd pob amcan yn cyfrannu at sawl nod ac er o dan bob amcan rydym wedi nodi nifer o gamau gweithredu penodol rydym hefyd yn cydnabod y bydd llawer o'r camau a nodwyd gennym yn cyflawni amrywiaeth o ganlyniadau sy'n adlewyrchu'r cysylltiadau rhwng iechyd, diwylliant, yr amgylchedd a lles economaidd. Mae'r dull hwn yn gyson â chanllawiau gan Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

O ystyried natur drawsbynciol ein blaenoriaethau ac ehangder y gweithgareddau sy'n cael eu cynnal i gyfrannu at gyflawni ein Hamcanion Lles, rydym wedi ceisio lleihau dyblygu yn yr adroddiad blynyddol drwy ganolbwyntio ar ganlyniadau pob Amcan Lles. Er enghraifft, er mwyn dangos ein cynnydd tuag at 'barchu, gwella a mwynhau ein hamgylchedd’ mae'r adroddiad yn tynnu sylw at berfformiad mewn perthynas â chyfres o weithgareddau cynlluniedig. Fodd bynnag, nid yw'r rhain yn annibynnol ar ei gilydd a dylid eu hystyried yn gyfannol yng nghyd-destun ein Hamcanion Lles eraill.

Mae ein hadroddiad Perfformiad Blynyddol 2020/21 yn ymgorffori ein gofynion adrodd statudol sy'n cynnwys; amlinellu ein cyfraniad tuag at gyflawni ein nodau Lles cenedlaethol; cynnydd yn erbyn ein cydweithrediadau strategol; yr hyn y mae ein harchwilwyr yn ei ddweud amdanom; sut rydym wedi defnyddio ein hadnoddau a sut rydym wedi ymgysylltu â'n trigolion. Oherwydd bod ein rhwymedigaethau adrodd data perfformiad cenedlaethol wedi'u hatal yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, prin yw'r data meincnodi sydd ar gael i gymharu ein perfformiad. O ganlyniad, rydym wedi asesu cynnydd o ran ein holl weithgareddau a drefnwyd ar gyfer y cyfnod ac wedi defnyddio data perfformiad lleol pan fo hwnnw ar gael. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn gyfle i ddathlu ein cyflawniadau gan gynnwys ein hymateb i bandemig COVID-19, y gwersi rydym wedi'u dysgu a'n cynlluniau ar gyfer adfer, yn ogystal â chydnabyddiaeth o'r heriau sylweddol sydd wedi helpu i lunio ein blaenoriaethau wrth symud ymlaen. Amlinellir cadarnhad o'n Hamcanion Lles ar gyfer 2021/22 yng Nghynllun Cyflawni Blynyddol blaengar y Cyngor a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2021.

Ar y cyfan, gwnaed cynnydd cadarnhaol o ran cyflawni’r ymrwymiadau sydd yn ein Cynllun Cyflawni Blynyddol ar gyfer 2020/21, gan roi statws perfformiad cyffredinol (neu CMG) i ni o **MELYN**. Mae hyn yn cyfrannu at gyflawni blaenoriaethau lles ein Cynllun Corfforaethol a gwella lles dinasyddion Bro Morgannwg. Rhoddwyd statws perfformiad Melyn i'n pedwar Amcan Lles: 'gweithio gyda'n cymunedau ac ar eu rhan, 'cefnogi dysgu, cyflogaeth a thwf economaidd cynaliadwy', 'cefnogi pobl gartref ac yn eu cymuned' a 'parchu, gwella a mwynhau ein hamgylchedd’, gan adlewyrchu'r cynnydd cadarnhaol a wnaed o dan yr amgylchiadau mwyaf heriol.

Rydym yn adolygu ein cynnydd yn rheolaidd ac yn adrodd i aelodau etholedig a'r cyhoedd ar welliannau a gyflawnwyd drwy gydol y flwyddyn, yr heriau yr ydym wedi'u hwynebu a sut rydym yn bwriadu mynd i'r afael â'r rhain. Caiff ein Hamcanion Lles (Gwella) eu cyflawni drwy Gynlluniau Gwasanaeth, sy’n nodi’n fanwl y camau a mesurau, adnoddau, amserlenni ac atebolrwyddau perthnasol o ran cyflawni o fewn y flwyddyn. Mae cynnydd

wrth gyflawni'r ymrwymiadau yn ein Cynllun Cyflawni Blynyddol yn destun ymarfer craffu ffurfiol chwarterol gan aelodau etholedig ac mae ein hadroddiadau yn cael eu cyhoeddi ar-lein yn www.bromorgannwg.gov.uk Yn unol â threfniadau monitro perfformiad corfforaethol, caiff cynnydd yn erbyn ein Hamcanion Lles ei adrodd yn chwarterol i'r Uwch Dîm Arwain (UDA) ac i aelodau etholedig drwy'r Pwyllgorau Craffu a'r Cabinet, lle bydd meysydd tanberfformiad yn cael eu herio, a chamau adferol yn cael eu cytuno fel y bo'n briodol.

Mae'r adroddiad hwn yn dangos ein gwaith mewn cyfnod o argyfwng byd-eang, a ddechreuodd ym mis Mawrth 2020. Ers hynny, rydym wedi gweithio'n galed i sicrhau bod gwasanaethau'n parhau i gael eu darparu a rhoi cymorth hanfodol i ddinasyddion y Fro gan gynnwys ein pobl fwyaf agored i niwed. Rydym wedi croesawu ffyrdd newydd, arloesol o weithio i gyflawni dros ein dinasyddion. Ar draws yr holl wasanaethau, mae cydweithwyr wedi addasu i weithio'n wahanol a defnyddio technoleg newydd i sicrhau y gall gwaith hanfodol y Cyngor barhau. Rydym wedi gorfod newid sut rydym yn gweithio i ymateb i anghenion ein preswylwyr sy'n esblygu'n gyflym.

Er bod y ddarpariaeth wedi oedi neu arafu mewn rhai meysydd, mewn meysydd eraill rydym wedi gallu gwneud cynnydd gwirioneddol. Er enghraifft, gwnaethom ailgylchu 70.8% o'n gwastraff sydd eisoes wedi rhagori ar darged ailgylchu Llywodraeth Cymru o 70% erbyn 2025. Cwblhawyd datblygiad y Sied Nwyddau, un o'r prosiectau adfywio stryd fawr trefol cynaliadwy cyntaf yn y DU ac enillodd y wobr 'creu twf economaidd' yn ogystal â'r wobr 'enillydd yr enillwyr' cyffredinol yng ngwobrau Ystadau Cymru 2020. Agorodd ysgol Uwchradd Whitmore, £30.5m o'r radd flaenaf, i ddisgyblion bedwar mis cyn y dyddiad a fwriadwyd. Yn ystod blwyddyn pan gynyddodd y niferoedd yn sylweddol, profodd llai o blant sy'n derbyn gofal (7.8%), dri lleoliad neu fwy o ganlyniad i'n ffocws ar gryfhau sefydlogrwydd lleoliadau. Gwnaethom hefyd gynyddu ein cronfa o ofalwyr maeth i dros 100, sydd wedi galluogi mwy o ddewis a pharu ar gyfer plant mewn gofal. Tanysgrifiodd bron i 80,000 o drigolion i App Cyswllt y Fro gan eu galluogi i gael y wybodaeth ddiweddaraf am ein bwletinau newyddion a gwybodaeth. Gwnaethom gynnal ein gostyngiad yn nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant o ran pobl ifanc 16 ac 17 oed gyda pherfformiad yn parhau o dan 1% (0.89% a 0.62% yn y drefn honno). Cafodd bron i 1,000 o denantiaid y cyngor waith wedi'i wneud ar eu cartrefi gyda chyfradd bodlonrwydd o 96%, gan sicrhau bod 100% o'n tai cyngor yn parhau i gydymffurfio â Safonau Ansawdd Tai Cymru. Gwnaethom gynghori 2,500 o fusnesau lleol gan gynnwys busnesau newydd ar sut i gael gafael ar gyllid a chynllunio busnes a chefnogwyd 328 o fusnesau newydd a 29 o sefydliadau cymunedol yn ariannol. Ers lansio ein Siop Un Stop ar gyfer cymorth tai ym mis Ebrill, mae bron i 1,000 o bobl (nid oedd 76% ohonynt erioed wedi cael cymorth o'r blaen) wedi cael cymorth sydd wedi atal digartrefedd yn llwyddiannus, wedi galluogi tenantiaethau i gael eu cynnal, cymorth iechyd meddwl, cyflogaeth a chymorth hyfforddiant cyflogadwyedd a chyngor ariannol. Ar gyfartaledd, roedd 35% o dai fforddiadwy ledled y Fro yn rhan o bob cais cynllunio perthnasol ar gyfer datblygiadau tai.

Bydd yr adferiad o'r pandemig yn dominyddu ein bywydau am beth amser i ddod ac rydym wedi bod yn agored yn yr adroddiad hwn o ran lle mae COVID-19 wedi effeithio ar ein perfformiad a, lle bo'n bosibl, rydym wedi nodi sut yr ydym yn mynd i fynd yn ôl ar y trywydd iawn. Mae dysgu o'n hymateb i COVID-19 wedi llywio ein blaenoriaethau adfer sy'n cael eu hadlewyrchu yn ein Cynllun Cyflawni Blynyddol 2021/22. Fodd bynnag, er bod effaith COVID-19 yn parhau i ddod i'r amlwg, rydym yn cydnabod y bydd y rhain yn parhau i gael eu hadolygu a'u hategu wrth i ni barhau i nodi camau gweithredu i helpu i gefnogi ein cymunedau.

Mae'r adroddiad hwn yn cyflawni ein dyletswydd statudol i adrodd ar ein perfformiad ond yn bwysicach, mae'n rhoi darlun cyfannol o ble'r ydyn ni a'r newidiadau y mae angen i ni eu gwneud gyda'n gilydd i gyflawni ein gweledigaeth o sicrhau 'Cymunedau Cryfach gyda Dyfodol Disglair'.

## 1.2 STATWS CYFFREDINOL EIN CYNLLUN CYFLAWNI BLYNYDDOL 2020/21

### Y statws CMG cyffredinol ar gyfer y Cynllun Cyflawni Blynyddol ar gyfer 2020/21

Ein Statws Crynodeb Amcan Lles

Cyflwynir isod grynodeb o'n perfformiad mewn perthynas â'n pedwar Amcan Lles yn y Cynllun Corfforaethol a pherfformiad cyffredinol Cynllun Cyflawni Blynyddol 2020/21. Mae'r Trywydd yn rhoi syniad o gyfeiriad y perfformiad o'i gymharu â'r chwarter blaenorol. Er enghraifft, lle mae ein Statws Coch Melyn Gwyrdd (perfformiad) wedi gwella, nodir hynny gan ↑ , lle mae ein Statws Coch Melyn Gwyrdd wedi aros yr un fath o'i gymharu â'r chwarter blaenorol fe'i dangosir gan ↔ a lle mae ein Statws Coch Melyn Gwyrdd wedi gostwng, fe'i cynrychiolir gyda ↓.

Ar ddiwedd 2020/21, statws perfformiad cyffredinol (CMG) y Cynllun Cyflawni Blynyddol sy'n cyd-fynd ag Amcanion Lles ein Cynllun Corfforaethol yw **MELYN**. Mae'r trywydd wedi aros yn sefydlog ar gyfer holl Gamau Gweithredu a Dangosyddion Perfformiad y Cynllun Gwasanaeth ers chwarter 3. Mae'r perfformiad hwn yn gadarnhaol o ystyried yr heriau parhaus a wynebwyd drwy gydol y flwyddyn oherwydd COVID-19.

| Camau Gweithredu Cyffredinol | CMG | Trywydd |
|---|---|---|
| Amcan 1 | A | ↔ |
| Amcan 2 | A | ↔ |
| Amcan 3 | A | ↔ |
| Amcan 4 | A | ↔ |
| Cynllun Cyflawni Blynyddol | A | ↔ |

| Dangosyddion Perfformiad Cyffredinol | CMG | Trywydd |
|---|---|---|
| Amcan 1 | A | ↔ |
| Amcan 2 | A | ↔ |
| Amcan 3 | A | ↔ |
| Amcan 4 | A | ↔ |
| Cynllun Cyflawni Blynyddol | A | ↔ |

| Amcan Cyffredinol | CMG | Trywydd |
|---|---|---|
| Amcan 1 | A | ↔ |
| Amcan 2 | A | ↔ |
| Amcan 3 | A | ↔ |
| Amcan 4 | A | ↔ |
| Cynllun Cyflawni Blynyddol | A | ↔ |

**Allwedd Perfformiad**

| Mesurau (CMG) | Trywydd | Camau Gweithredu (CMG) | Statws (CMG) cyffredinol Amcan Lles |
|---|---|---|---|
| Gwyrdd: Perfformiad yn bwrw'r targed neu'n rhagori arno | ↑: Mae perfformiad wedi gwella ar yr un chwarter y llynedd | Gwyrdd: Cam gweithredu wedi'i gwblhau neu ar y trywydd iawn i gael ei gwblhau erbyn y dyddiad terfyn. | Gwyrdd: yn nodi ein bod ni'n gwneud y gwaith sydd ei angen er mwyn cyflawni'r prif ganlyniadau sy'n ymwneud â'r Amcan Lles fel y nodir yn y Cynllun Corfforaethol. |
| Melyn: **Perfformiad o fewn 10% o'r targed** | ↔: Mae perfformiad yr un peth â'r un chwarter y llynedd | Melyn: Mân oedi ond mae camau yn cael eu cymryd i wneud y gwaith sydd ei angen. | Melyn: yn nodi ein bod ni'n gwneud y gwaith sydd ei angen ar y cam hwn i gyflawni'r Amcan Lles ond bod angen mynd i'r afael â rhai agweddau er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i wneud y gwaith i gyflawni'r Amcan Lles yn llawn. |
| Coch: Perfformiad heb fwrw'r targed gan 10% neu fwy | ↓: Mae perfformiad wedi gostwng o'i gymharu â'r un chwarter y llynedd | Coch: Nid oes llawer o gynnydd wedi'i wneud o ran camau gweithredu ac mae'n rhaid rhoi esboniad gan gynnwys unrhyw gam(au) adferol cynlluniedig a lle bo'n briodol, ddyddiad cwblhau diwygiedig. | Coch: yn nodi nad ydyn ni'n gwneud y gwaith sydd ei angen ar y cam hwn er mwyn cyflawni'r prif ganlyniadau sy'n ymwneud â'r Amcan Lles fel y nodir yn y Cynllun Corfforaethol. |

## 1.3 CRYNODEB O'N PERFFORMIAD O RAN CYNLLUN CYFLAWNI BLYNYDDOL 2020/21

Mae'r Statws CMG isod yn dangos y perfformiad ar gyfer Camau Gweithredu'r Cynllun Cyflawni Blynyddol a'r Mesurau Perfformiad ar gyfer 2020/21 a'r Perfformiad cyffredinol (CMG) ar gyfer y Cynllun Cyflawni Blynyddol.

| Holl Gamau Gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth a'r Holl Fesurau Perfformiad | | STATWS PERFFORMIAD | | | | | | | | Statws CMG Cyffredinol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | GWYRDD | | MELYN | | COCH | | Dd/B | | |
| Camau Gweithredu | Mesurau | Camau Gweithredu | Mesurau | Camau Gweithredu | Mesurau | Camau Gweithredu | Mesurau | Camau Gweithredu | Mesurau | Camau Gweithredu Mesurau |
| 234 | 156 | 141(60%) | 42 (62%) | 0 | 6 (9%) | 93(40%) | 20(29%) | 0 | 88 | MELYN |

| Holl Gamau Gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth a'r Holl Fesurau Perfformiad | STATWS PERFFORMIAD | | | | Statws CMG Cyffredinol ar gyfer pob Amcan Lles |
|---|---|---|---|---|---|
| | GWYRDD | MELYN | COCH | Dd/B | |
| Cyfanswm | Camau Gweithredu a Mesurau | Camau Gweithredu a Mesurau | Camau Gweithredu a Mesurau | Camau Gweithredu a Mesurau | |
| 390 | 183 (61%) | 6(2%) | 113(37%) | 88 | MELYN |

| CAMAU WEDI LLITHRO | |
|---|---|
| Rhesymau'n gysylltiedig â COVID-19 | 85/93 (91%) |
| Rhesymau nad ydynt yn gysylltiedig â COVID-19 | 8/93 (9%) |

| MESURAU PERFFORMIAD WEDI | |
|---|---|
| Rhesymau sy'n gysylltiedig â COVID-19 | 17/20 (85%) |
| Rhesymau nad ydynt yn gysylltiedig â COVID | 3/ 20(15%) |

## Dadansoddiad Perfformiad yn ôl Amcan Lles

**AMCAN LLES 1: Gweithio gyda, a thros ein cymunedau**

**Ein statws CMG cyffredinol ar gyfer 'Gweithio gyda, a thros ein cymunedau' yw MELYN**

| Camau Gweithredu a Mesurau sy'n cyd-fynd ag Amcan Lles 1 | | STATWS PERFFORMIAD | | | | | | Statws CMG Cyffredinol ar gyfer Amcan Lles 1 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | GWYRDD | | MELYN | | COCH | | |
| Camau Gweithredu | Mesurau | Camau Gweithredu | Mesurau | Camau Gweithredu | Mesurau | Camau Gweithredu | Mesurau | Camau Gweithredu a Mesurau |
| 100 | 16 | 61(61%) | 12 (75%) | 0 | 1 (6%) | 39(39%) | 3 (19%) | MELYN |

| CAMAU WEDI LLITHRO | |
|---|---|
| Rhesymau sy'n gysylltiedig â COVID-19 | 35/39 (90%) |
| Rhesymau nad ydynt yn gysylltiedig â COVID | 4/39(10%) |

| MESURAU PERFFORMIAD WEDI | |
|---|---|
| Rhesymau sy'n gysylltiedig â COVID-19 | 3/3 (100%) |
| Rhesymau nad ydynt yn gysylltiedig â COVID | 0/0 (0%) |

**AMCAN LLES 2: Ategu dysgu, cyflogaeth a thwf economaidd cynaliadwy**

**Ein statws CMG cyffredinol ar gyfer 'cefnogi dysgu, cyflogaeth a thwf economaidd cynaliadwy' yw MELYN**

| Camau Gweithredu a Mesurau sy'n cyd-fynd ag Amcan Lles 2 | | STATWS PERFFORMIAD | | | | | | Statws CMG cyffredinol ar gyfer Amcan Lles 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | GWYRDD | | MELYN | | COCH | | |
| Camau Gweithredu | Mesurau | Camau Gweithredu | Mesurau | Camau Gweithredu | Mesurau | Camau Gweithredu | Mesurau | Camau Gweithredu Mesurau |
| 41 | 21 | 25(61%) | 10 (48%) | 0 | 3 (14%) | 16(39%) | 8 (38%) | MELYN |

| CAMAU WEDI LLITHRO | |
|---|---|
| Rhesymau sy'n gysylltiedig â COVID-19 | 14/16 (88%) |
| Rhesymau nad ydynt yn gysylltiedig â COVID | 2/16 (12%) |

| MESURAU PERFFORMIAD WEDI | |
|---|---|
| Rhesymau sy'n gysylltiedig â COVID-19 | 6/8 (75%) |
| Rhesymau nad ydynt yn gysylltiedig â COVID | 2/8 (25%) |

**AMCAN LLES 3: Cynorthwyo pobl gartref ac yn eu cymuned**

**Ein statws CMG cyffredinol ar gyfer 'cefnogi pobl gartref ac yn eu cymuned' yw MELYN**

| Camau Gweithredu a Mesurau sy'n cyd-fynd ag Amcan Lles 3 | | STATWS PERFFORMIAD | | | | | | Statws CMG cyffredinol ar gyfer Amcan Lles 3 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | GWYRDD | | MELYN | | COCH | | |
| Camau Gweithredu | Mesurau | Camau Gweithredu | Mesurau | Camau Gweithredu | Mesurau | Camau Gweithredu | Mesurau | Camau Gweithredu Mesurau |
| 63 | 18 | 36(57%) | 12(67%) | 0 | 2(11%) | 27(43%) | 4 (22%) | MELYN |

| CAMAU WEDI LLITHRO | |
|---|---|
| Rhesymau sy'n gysylltiedig â COVID-19 | 26/27 (96%) |
| Rhesymau nad ydynt yn gysylltiedig â COVID | 1/27 (4%) |

| MESURAU PERFFORMIAD WEDI | |
|---|---|
| Rhesymau sy'n gysylltiedig â COVID-19 | 4/4 (100%) |
| Rhesymau nad ydynt yn gysylltiedig â COVID | 0/4 (0%) |

**AMCAN LLES 4: Parchu, gwella a mwynhau ein hamgylchedd**

**Ein statws CMG cyffredinol ar gyfer 'parchu, gwella a mwynhau ein hamgylchedd' yw MELYN**

| Camau Gweithredu a Mesurau sy'n cyd-fynd ag Amcan Lles 4 | | STATWS PERFFORMIAD | | | | | | Statws CMG cyffredinol ar gyfer Amcan Lles 4 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | GWYRDD | | MELYN | | COCH | | |
| Camau Gweithredu | Mesurau | Camau Gweithredu | Mesurau | Camau Gweithredu | Mesurau | Camau Gweithredu | Mesurau | Camau Gweithredu Mesurau |
| 29 | 13 | 19(66%) | 8(62%) | 0 | 0 | 10(34%) | 5(38%) | MELYN |

| CAMAU WEDI LLITHRO | |
|---|---|
| Rhesymau sy'n gysylltiedig â COVID-19 | 9/10 (90%) |
| Rhesymau nad ydynt yn gysylltiedig â COVID | 1/10 (10%) |

| MESURAU PERFFORMIAD WEDI | |
|---|---|
| Rhesymau sy'n gysylltiedig â COVID-19 | 4/5 (80%) |
| Rhesymau nad ydynt yn gysylltiedig â COVID | 1/5 (20%) |

## EIN HYMATEB I'R PANDEMIG COVID-19




Bu'r cyfyngiadau cenedlaethol a ddeilliodd o'r pandemig COVID-19 yn angenrheidiol i **amddiffyn ein cymunedau a mynd i'r afael â lledaeniad y feirws tra'n cyfyngu ar y pwysau a roddwyd ar y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a'r gwasanaethau gofal cymdeithasol**. Fodd bynnag, cafwyd effeithiau eang a arweiniodd at roi mwy o bwysau ar les pobl. Boed yn ariannol, yn gymdeithasol, yn addysgol neu'n gysylltiedig ag iechyd, mae yna bryderon penodol yn y byrdymor a'r tymor hwy am yr effaith y mae'r pandemig yn ei chael, ac y bydd yn parhau i'w chael, ar bobl ar draws Bro Morgannwg.

Er bod y pandemig wedi cael effaith ar bawb, mae yna ddangosyddion sy'n awgrymu bod yr **effaith hon wedi'i phrofi'n anghymesur gan rai pobl, grwpiau a chymunedau**.Gallai llawer - a fyddai wedi datgan lles economaidd, cymdeithasol a meddyliol a chorfforol da cyn y pandemig - bellach fod wedi profi caledi. I'r rhai a oedd yn cael trafferth cyn y pandemig, mae ymchwil a data yn awgrymu y bydd eu profiadau wedi gwaethygu o ganlyniad.



Ym mis Chwefror 2020, roedd ein gweithgarwch cychwynnol yn **ymateb i'r pandemig.** Gan weithio gyda'n gilydd, gwnaethom ailffocysu ac ailbwrpasu ein hadnoddau'n llwyddiannus a chyfeirio gweithwyr at y rheng flaen lle'r oedd eu hangen fwyaf. Mae ein gallu i ymateb yn gyflym i'r argyfwng wedi ei gefnogi ymhellach gan ein hymdrechion cydweithredol gyda'n partneriaid, gan gynnwys yn y sector iechyd a'r trydydd sector. **Drwy weithio'n agos gyda'n partneriaid, cymunedau a gwirfoddolwyr, rydym wedi gallu gwneud y mwyaf o'n hadnoddau a helpu'r rhai â'r angen mwyaf ar adeg o argyfwng byd-eang.**

Mae'r cyflawniadau isod yn amlygu sut rydym wedi parhau i ymateb i'r pandemig COVID-19 yn ystod 2020/21 tra'n dangos ymdrechion eithriadol staff i gefnogi anghenion ein preswylwyr.

# CYFLAWNIADAU

Llwyddon ni i adleoli staff i amrywiaeth o feysydd busnes-gritigol megis gofal cartref a gofal preswyl, ein Tîm Cymorth Argyfwng a'n Tîm Gwasanaethau Cymdogaeth (sbwriel ac ailgylchu). Yn ystod y pandemig, gwirfoddolodd 168 aelod o staff i gael eu hadleoli ac adleoliwyd tua 65 o staff i rolau newydd.



Gwnaeth 6,680 o blant gymryd rhan mewn heriau gweithgarwch corfforol rhithwir wedi'u hanelu at blant ysgol sydd â chyfleoedd cyfyngedig i gymryd rhan mewn gweithgarwch yn ystod y pandemig

Gwnaeth 3,480 o gyfranogwyr gymryd rhan yn yr her Milltir Ddyddiol, 2,000 o ddisgyblion yn y gystadleuaeth Pedair Her a 1,200 o ddisgyblion mewn cyfleoedd/gwyliau aml-gamp.

Prynodd y Tîm Diogelwch Cymunedol 5 camera Teledu Cylch Cyfyng i gynorthwyo'r Cyngor a'r Heddlu i reoli mannau problematig fel Parc Maslin y Barri, Parc Romilly y Barri, Gerddi Caerwent Dinas Powys, Trwyn y Rhws ac Ogwr. Mae'r camerâu wedi bod yn ased gwerthfawr o ran lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn ardaloedd, neu lle mae'r ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi parhau maent wedi cynorthwyo swyddogion i adnabod y rhai sy'n gyfrifol.

I gydnabod ymroddiad ein staff rheng flaen fel gweithwyr gofal a chasglwyr sbwriel rydym wedi **rhoi codiad cyflog o 10% iddynt yn ystod 2020**. Ni oedd yr awdurdod lleol cyntaf yng Nghymru i gymryd y cam hwn sy'n dangos ein diolch i'n cydweithwyr sydd wedi bod yn gweithio yn rhai o'r amgylchiadau mwyaf heriol.

Ar 31 Mawrth 2021 roeddem wedi dosbarthu 22,245,236 eitem o Gyfarpar Diogelu Personol (PPE), 12,883 o gynhyrchion glanhau a hylendid, yn ogystal â 109,000 o Becynnau Prawf DLlU.

Gwnaethom hefyd ddarparu cymorth PPE:

- 216 o bobl sy'n derbyn Taliadau Uniongyrchol
- 148 o ofalwyr di-dâl
- 19 o sefydliadau trydydd sector
- 50 o gartrefi gofal preswyl a nyrsio 42 o ddarparwyr gofal artref
- 57 o ysgolion a meithrinfeydd
- Yn ogystal â llawer mwy o staff rheng flaen yr awdurdod lleol

Mae'r tîm Byw'n Iach wedi cefnogi Chwaraeon Cymru i asesu ceisiadau am gyllid **'Cymru Actif'** gan sefydliadau'r Fro, sy'n ceisio cefnogi sefydliadau drwy'r argyfwng Covid a helpu i ailgychwyn gweithgarwch ac ymateb yn arloesol i symud ymlaen. **Mae 33 o sefydliadau'r Fro wedi derbyn £224,599 hyd yma.**

Rydym wedi cydweithio â'r cwmni adeiladu ISG, sy'n gweithio ar ddau o'n prosiectau Ysgolion yr 21ain Ganrif, i addasu ap sy'n bodoli eisoes **sy'n cael ei ddefnyddio fel adnodd gan staff ysgol i gefnogi gweithrediad diogel ysgolion a galluogi disgyblion i symud o gwmpas ein hysgolion yn saff.** Mae'r ap yn cynnig gwybodaeth gyffredinol ac enghreifftiau o sut i reoli ymbellhau cymdeithasol mewn ysgol, yn ogystal ag amlygu arfer da mewn amrywiaeth o senarios ystafell ddosbarth.

Ers i'r cyfnod clo ddechrau (a hyd at fis Ebrill 2021) rhoddwyd 67,000 o dalebau archfarchnad i bron i 4,000 o ddisgyblion i gymryd lle prydau bwyd a dderbynnir fel arfer yn yr ysgol ac i gefnogi teuluoedd yn ystod y gwyliau ysgol. Gan dynnu adnoddau at ei gilydd a chydweithio â gwasanaethau eraill ar draws y Cyngor, gwnaethom sefydlu taliadau electronig ar gyfer tua 4,000 o ddisgyblion yn gyflym fel y gellid gwneud taliadau yn ystod cyfnodau ynysu a gwyliau ysgol.



Mae llety gwely a brecwast yn parhau i gael ei ddarparu ar gyfer pobl ddigartref yn unol â Chynllun Digartrefedd Covid-19 Llywodraeth Cymru. Mae 126 o ystafelloedd gwesty bellach wedi'u bloc-archebu tan 30 Medi 2021. Dyrennir gweithwyr cymorth allweddol i bob cleient mewn gwesty, ac maent yn gallu cael sesiynau cymorth wyneb-yn-wyneb ddwywaith yr wythnos yn y gwesty gan Pobl. Ers mis Mawrth 2020, darparwyd llety gwely a brecwast i dros 517 o bobl.

Fe ymrwymon ni i bartneriaeth â Bwrdd Iechyd Caerdydd a’r Fro i ddefnyddio safle'r Fro yng Nghanolfan Chwaraeon Colcot fel Canolfan Brofi COVID a Chanolfan Hamdden Holm View fel Canolfan Imiwneiddio sydd wedi cyfrannu at leihau lledaeniad y feirws a chynllun brechu torfol llwyddiannus.

Gan weithio mewn partneriaeth â LIC, GGM ac Age Connects, ffoniodd ein Tîm Cymorth Argyfwng dros 6,000 o bobl ar y Rhestr Hunan-warchod i gynnig cymorth gyda bwyd, pecynnau, siopa a chyfeillgarwch yn ystod y cyfnod clo. Gwnaethom hefyd gefnogi 157 o bobl i ddychwelyd adref o'r ysbyty drwy ddarparu PPE i'w teulu a ffrindiau.

Fel ymateb i'r heriau sy'n gysylltiedig â'r cyfnod clo, ym mis Gorffennaf 2020 sefydlwyd Pafiliwn Chwarae'r Fro i gefnogi teuluoedd yr oedd angen seibiant arnynt dros gyfnod gwyliau'r ysgol.

Dros 4 o’r gwyliau ysgol, cynigiodd y tîm 27 diwrnod o ddarpariaeth (135 awr) a 540 o becynnau bwyd. Ers ei sefydlu, maent wedi cefnogi 60 o blant ac wedi ymgysylltu â 458 o gyfranogwyr, 43% ag anghenion ychwanegol.

Wedi parhau i gefnogi gweithgarwch corfforol ar gyfer plant difreintiedig drwy fenthyg 32 o fagiau offer i 158 o blant a dosbarthu 158 o becynnau offer llythrennedd corfforol mewn lleoliadau Dechrau'n Deg. Buom hefyd yn gweithio gyda gwasanaethau ieuenctid i ddarparu mwy na 120 o fagiau chwaraeon, gan gynyddu cyfleoedd gweithgarwch corfforol i bobl ifanc yr oedd angen cymorth ychwanegol arnynt yn ystod y cyfnod clo.

Rydym wedi parhau i godi proffil gwirfoddoli drwy’r wefan Arwyr y Fro ac mae dros 2,000 o wirfoddolwyr wedi gwirfoddoli i gefnogi trigolion sy'n agored i niwed yn eu cymunedau. Gwnaethom hefyd roi grant o £2,000 i Wasanaeth Gwirfoddol Morgannwg i gefnogi grwpiau gwirfoddol bychain fel Bro Radio, Bwrdd Crwn y Barri, Cymdeithas Trigolion Glannau'r Barri, Grŵp Pentref Sili, Neuadd Bentref Llandŵ a Chymdeithas Rhieni ac Athrawon Oakfield.




Yn ystod 2020/21, cynhaliodd y Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir (GRhR) 54 o Asesiadau Atal a Rheoli Haint mewn lleoliadau gofal a gwnaed 2,098 o ymweliadau â busnesau i wirio cydymffurfiaeth â rheoliadau mewn perthynas ag ymbellhau cymdeithasol a chau busnesau.
Yn ystod y pandemig, cafodd 28 o swyddogion eu secondio o GRhR i gefnogi Profi, Olrhain, Diogelu ledled ardaloedd awdurdodau Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd a’r Fro.

Mae ein tîm Dysgu a Sgiliau wedi gweithio'n agos gyda'n hysgolion i sefydlu 14 o ganolfannau gofal plant ar gyfer plant gweithwyr allweddol mewn ysgolion ledled y Fro. Mae'r cyfleusterau hyn, sy'n cael eu rhedeg gan staff yr ysgol a'r cyngor, yn rhoi cymorth hanfodol i'r rhai sy'n gweithio mewn rolau allweddol i'n cadw ni i gyd yn ddiogel.

Yn ystod 2020/21, gwnaethom barhau i weithio mewn partneriaeth â’n hysgolion i gyflawni gwelliannau yn unol ag Agenda Ddigidol Addysg Llywodraeth Cymru. Gwnaethom ddarparu 6,500 o ddyfeisiau i ddisgyblion ac athrawon i gefnogi dysgu.
Ail-geblwyd 49 o ysgolion i wella cyflymder y rhwydwaith a dosbarthwyd gweinyddion i ysgolion uwchradd perthnasol gyda 38 o weinyddion yn cael eu dosbarthu i'n hysgolion cynradd.

Yn ystod 2020/21 fe wnaethom hepgor yr holl ffioedd ar gyfer 416 o larymau Teleofal (£59.95 fel arfer). Mae ein gweithredwyr hefyd wedi ymdrin â 161,371 o alwadau gan ddefnyddwyr gwasanaeth gyda bron i 1,000 o’r galwadau yn arwain at weithredu brys (gan y Gwasanaeth Tân, yr Heddlu, Ambiwlans), ac arweiniodd 8,084 o alwadau at weithredu anargyfyngus. Mae'r wybodaeth hon yn amlygu'n glir pa mor hanfodol fu'r gwasanaeth i'n dinasyddion mwyaf agored i niwed a hefyd sut y gall technoleg chwarae rhan mor bwysig o ran caniatáu i bobl barhau i fyw yn eu cartrefi'n annibynnol tra'n eu cadw'n ddiogel.

Cofleidiwyd atebion a thechnoleg ddigidol a'n galluogodd i wella ansawdd ac effeithlonrwydd y gwasanaethau gofal a chymorth a ddarparwyd, e.e. cyflwyno'r ap Insight, a wnaeth alluogi pobl ag anableddau dysgu i ddatblygu eu sgiliau digidol a chael mynediad at weithgareddau ar-lein; prosiect See Me a wnaeth alluogi defnyddwyr gwasanaeth i greu proffiliau am yr hyn sy'n bwysig iddynt drwy fideo sy'n helpu i deilwra gofal a chymorth i anghenion yn effeithiol; cynnal asesiadau gwasanaethau digidol ac adolygiadau statudol; cyflwyno fideogynadledda rhwng preswylwyr cartrefi gofal a'u teuluoedd i gynnal rhyngweithio cymdeithasol a pherthnasoedd; mwy o osodiadau Teleofal i gefnogi diogelwch ac annibyniaeth; cyflwyno fideo-gynadledda i gadw mewn cysylltiad â defnyddwyr gwasanaeth a chynnal eu hymgysylltiad â gwasanaethau; a chyflwyno gwasanaethau ar-lein newydd i ddefnyddwyr ein Gwasanaethau Dydd a'n Gwasanaethau Gofalwyr.

Gwnaeth ein tîm PPE dros 6
o alwadau hefyd i ddarpa
gofal, dosbarthwyd dros 106
o becynnau prawf, cefnog
148 o ofalwyr di-dâl a chefnog
157 o bobl a oedd yn gada
ysbyty.

Drwy'r Porth Gofalwyr, gwnaethom gefnogi gofalwyr yn ein cymunedau i
mynediad i 1-3 awr o gymorth wedi'i deilwra i'w hanghenion, a wnaeth gy
rhywfaint o seibiant pan roedd y pandemig ar ei anterth. Bu'n bosibl i 20
gofalwyr yr effeithiwyd arnynt yn andwyol gan y pandemig gael gafael ar gym
ariannol ychwanegol a dosbarthwyd 20 o Chromebooks a ddarparwyd
Lywodraeth Cymru i gefnogi gofalwyr ifanc.



## 2.1 ADFER A CHYFLE

Mae ein Strategaeth Adfer Coronafeirws wedi'i strwythuro o gwmpas tri cham o ran rheolaeth y Cyngor o'r pandemig: **Ymateb, Pontio ac Adfer.** Gan fyfyrio ar y dysgu o'r cyfnod ymateb, buom yn ymgynghori'n eang ar gyfres o themâu adfer sydd wedi'u halinio ag Amcanion Lles y Cyngor a dynnwyd o Gynllun Corfforaethol 2020-25.

Wrth i'r Cyngor **symud allan o'r cam ymateb ac i'r camau pontio ac adfer,** rydym yn cydnabod ei bod bob amser yn bosibl i newidiadau gael eu gwrthdroi ac y byddai hyn yn gweld symudiad yn ôl i gam ymateb. Ond wrth i ni barhau i symud ymlaen, byddwn yn mynd ar drywydd **cyfres o 19 o flaenoriaethau adfer strategol, gan fanteisio ar gyfleoedd a lleihau'r bygythiadau** sy'n gysylltiedig â'r feirws. Bydd y gwaith hwn yn gofyn am **gynnwys, ymgysylltu a chyfathrebu effeithiol, deall materion ein partneriaid a chydweithio â'r gymuned i ganolbwyntio ar y tymor hwy** tra'n ceisio deall ac atal achosion sylfaenol materion.

Mae pandemig y Coronafeirws yn debygol o gael effaith hirdymor ddofn ar ein gwasanaethau, ond mae wedi rhoi **cyfle i drawsnewid gwasanaethau ar gyflymder a graddfa a fyddai y tu hwnt i'r dychymyg mewn amgylchiadau 'arferol'. Mae'n bwysig nad yw'r hyn a ddysgir o'n cam ymateb yn cael ei golli a'n bod, ar bwrpas, yn creu'r fersiwn nesaf o normal.** Ni fydd yr adferiad yn dilyn un trywydd chwaith; bydd heriau yn ein hwynebu a allai rwystro ein cynnydd ar adegau, ac ar adegau eraill roi cyfleoedd i ni. Bydd y ffordd yr ydym yn ymateb i'r heriau hyn yn hanfodol i'r ffordd yr ydym yn gweithio ein ffordd allan o'r argyfwng.

Amlinellir isod rai o'r **prif heriau** rydym yn rhagweld y bydd y Cyngor yn eu hwynebu dros y misoedd a'r blynyddoedd nesaf:

- Mae natur barhaus y pandemig yn parhau i osod pwysau andwyol ar wasanaethau'r Cyngor a herio'n sylweddol sut rydym yn cyflawni ein rolau a'n swyddogaethau statudol. Yn erbyn **cefndir o'r pwysau ariannol presennol, mae costau ariannol y pandemig yn ddigynsail yn y cyfnod modern** ac mae'n amlwg bod yr effaith ariannol yn debygol o barhau drwy gydol 2021/22 ac i'r dyfodol, waeth beth fo llwybr y pandemig.
- Mae'r pandemig yn parhau i brofi sut rydym yn cynnal ein gwasanaethau, felly mae'r sefyllfa unigryw hon yn rhoi cyfle i ni edrych tuag at ffyrdd newydd o weithio a darparu'r gwasanaethau sydd bwysicaf i'n dinasyddion. Yr her wrth symud ymlaen yw sut i **gynnwys ac ymgysylltu â'n gweithlu a'n dinasyddion wrth lunio'r newidiadau hyn i drawsnewid ein gwasanaethau, fel y byddant yn gynaliadwy yn y dyfodol**. Bydd graddfa'r trawsnewid sydd ei angen ond yn bosibl gydag ymwneud a chefnogaeth ein gweithlu a'r dinasyddion rydym yn eu gwasanaethu.
- Mae technoleg ddigidol wedi bod yn eithriadol o bwysig wrth ymdopi â'r unigedd a achoswyd gan y cyfyngiadau COVID-19 ac mae llawer o'n gwasanaethau wedi addasu drwy 'fynd ar-lein' i gyfyngu ar gyswllt wyneb-yn-wyneb ac amddiffyn ein dinasyddion. Fodd bynnag, wrth i ni symud tuag at ddefnyddio mwy o dechnoleg ddigidol, **mae perygl y gallai hyn waethygu'r broblem o allgáu digidol.** Mae angen i ni gofio y gallai'r symudiad hwn roi ein dinasyddion mwyaf agored i niwed a difreintiedig o dan anfantais gan nad oes ganddynt fynediad i'r rhyngrwyd na'r sgiliau i fanteisio ar dechnoleg a gwasanaethau ar-lein.
- Mae'r pandemig wedi golygu bod y rhan fwyaf o'n gweithlu wedi gweithio gartref yn ystod y flwyddyn hon. I rai, mae hyn yn rhywbeth i'w groesawu ac wedi cynnig gwell cydbwysedd bywyd/gwaith, fodd bynnag, mae eraill wedi cael trafferth. Datgelodd yr Arolwg Lles diweddaraf a gynhaliwyd ym mis Mai 2021 fod yr **heriau mwyaf a wynebir gan staff yn cynnwys allgáu cymdeithasol, diffyg cyswllt â chydweithwyr a gorbryder ynghylch y pandemig.** Ar ôl ymgysylltu a gwrando ar yr hyn y mae ein staff ei eisiau, rydym wedi bod yn glir ynglŷn â'n bwriad i symud tuag at gymysgedd o weithio o bell a gwaith swyddfa (lle bo'n briodol). Wrth i ni symud tuag at ddulliau newydd a'u treialu, **bydd angen i ni ystyried yr effaith y mae'r argyfwng hwn wedi'i chael ar ein staff a'u cefnogi gyda'u lles gan sicrhau trosglwyddiad llyfn i'r hyn a fydd yn y pen draw yn ffordd newydd o weithio i'r rhan fwyaf o'n gweithlu.**
- Rydym yn gweld **mwy o anghydraddoldebau iechyd ac economaidd yn dod i'r amlwg a mwy o angen am gymorth ac ymyrraeth mewn argyfwng i deuluoedd, gan gynnwys plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed,** fel y gwelwyd yn y cynnydd sylweddol yn y galw am y gwasanaethau hyn ar draws y Cyngor. Mae sawl peth wedi arwain at y cynnydd hwn a disgwylir i'r effaith ar blant, pobl ifanc a'u teuluoedd, ac felly ein gwasanaethau, fod yn barhaus.
- Roedd yna bryderon am y **dirywiad yn iechyd cymdeithasol, emosiynol a meddyliol plant a phobl ifanc** cyn y pandemig, ond mae arolygon diweddar a gynhaliwyd gyda phobl ifanc 3-18 oed wedi dangos dirywiad pellach. **Her allweddol sy'n dod i'r amlwg i ysgolion yw'r nifer cynyddol o blant a phobl ifanc sy'n dangos anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl cymhleth iawn** sydd yn ei dro yn cael effaith sylweddol ar eu gallu i ddysgu ac i ryngweithio'n gadarnhaol ag oedolion a chyfoedion.
- Mae'r pandemig COVID-19 wedi amharu'n sylweddol ar addysg a dysgu ar bob lefel. Mae'n hysgolion wedi cael eu defnyddio i bwrpas gwahanol am gyfnod o amser, yn gofalu am blant gweithwyr allweddol a'r rhai mwyaf agored i niwed. Mae hefyd wedi gweld symud oddi wrth addysgu yn yr ystafell ddosbarth i ddysgu yn y cartref, lle mae ysgolion wedi galluogi plant i barhau â'u dysgu o bell. Er bod hyn wedi bod yn gadarnhaol, ni fydd y dull newydd yn disodli'r amser dysgu a gollwyd o'r ysgol ac **mae perygl gwirioneddol y daw anghydraddoldebau addysgol i'r amlwg ymysg ein dysgwyr mwyaf agored i niwed yn y tymor hwy**. Y rhwystr wrth symud ymlaen yw sut rydym yn **ail-ymgysylltu â'n dysgwyr mwyaf agored i niwed a chefnogi'r rhai sydd ar ei hôl hi'n academaidd yn ogystal â'r rhai ag anghenion dysgu cymhleth ac ychwanegol orau**. Problem arall dros y misoedd nesaf fydd y ffordd orau o **gefnogi iechyd meddwl a lles ein disgyblion a'n hathrawon, tra byddant yn parhau i addasu i ffyrdd newydd o ddysgu ac yn delio â gofynion ynysu parhaus.**
- Rydym yn disgwyl **mwy o alw am Wasanaethau Iechyd Meddwl yn ogystal â galw cynyddol am ofal a chymorth i'r rhai sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth o ganlyniad i'r pandemig**. Er enghraifft, mae

ymchwil ddiweddar yn awgrymu bod oriau gofalu gofalwyr wedi cynyddu, sydd wedi effeithio ar eu hiechyd meddwl, ac maent yn teimlo'n fwy blinedig o ganlyniad i COVID-19. Mae hyn yn arwain at fwy o alw am ofal.

- Gwyddom fod cysylltiadau rhwng **oedran, afiechyd, salwch meddwl, cyfeiriadedd rhywiol, amddifadedd materol a statws priodasol sy'n gysylltiedig â theimladau cynyddol o unigrwydd.** Mae pryderon y gallai cyfraddau hunanladdiad gynyddu (fel y gwelir mewn epidemigau rhyngwladol blaenorol) wrth i'r pandemig barhau ac effeithiau tymor hwy ar yr economi a phobl ddod i'r amlwg.
- Croesawyd y pecynnau cymorth ariannol a gynigiwyd gan y llywodraeth o ran cynnig rhyddhad ariannol i fusnesau lleol. Fodd bynnag, ni fydd y lefel hon o gymorth ariannol ar gael am gyfnod amhenodol ac mae adferiad economaidd araf yn debygol o beryglu bywoliaeth llawer o fusnesau a phobl. Bydd angen i ni barhau i weithio'n galed i **ysgogi ein heconomïau lleol a sicrhau swyddi yn y tymor hwy ar adeg pan fo'n hadnoddau'n debygol o leihau.** Er enghraifft, roedd y sector manwerthu wedi bod yn dirywio cyn COVID-19, ac er gwaethaf y cynnydd cadarnhaol rydym wedi'i wneud i wella ein trefi lleol, mae'r gostyngiad cyflym yn nifer yr ymwelwyr wedi bod yn niweidiol i'n siopau. Er gwaethaf codi cyfyngiadau, mae mwy o bobl wedi troi tuag at siopa ar-lein, felly **bydd angen rhywfaint o anogaeth ar siopwyr i ddychwelyd i ganol eu trefi lleol i roi cyfle i'n siopau, caffis a bwytai oroesi.**
- Ym mis Mehefin 2021, roedd 3,665 o bobl (4.5% o'r boblogaeth oedran gweithio'r Fro) allan o waith ac yn chwilio am waith. Mae'r ffigur hwn wedi gostwng dros y misoedd diwethaf ond mae pryder **y bydd effaith ariannol y pandemig yn cael ei theimlo gan y rhai sy'n byw ar aelwydydd incwm isel.** Yr her sy'n wynebu'r Cyngor yw sut i **gynllunio ar gyfer galw cynyddol am ein gwasanaethau cymorth megis cyngor a chymorth budd-daliadau, mynediad at hyfforddiant/cyrsiau i ddatblygu sgiliau newydd a chyflogadwyedd i'r rhai a gollodd eu swyddi ac sydd ag anawsterau ariannol.**
- Mae pryder hefyd y bydd **effaith economaidd y pandemig yn debygol o gael ei theimlo'n anghymesur gan bobl ifanc (pobl ifanc 18-24 oed).** Mae pobl ifanc 18-24 oed yn tueddu i fod ar ddechrau eu bywydau gwaith ac yn cael eu cyflogi'n gyffredin yn y sector lletygarwch, sector sydd wedi bod ar gau i raddau helaeth yn ystod y pandemig. Mae pobl ifanc yn debygol o wynebu'r farchnad swyddi anoddaf mewn cenhedlaeth a bydd llawer yn ymuno â'r farchnad gyflogaeth ar adeg pan fo swyddi'n brin, a chystadleuaeth yn uchel. Yr her o ran hyn fydd sut i weithio'n effeithiol gyda'n partneriaid allweddol i gefnogi'r **broses o greu digon o gyfleoedd pwynt mynediad i ateb y galw cynyddol am swyddi.** Bydd yr heriau hyn yn y pen draw yn **effeithio ar y ffordd rydym yn cynllunio ac yn darparu rhaglenni cymorth ac ymyriadau targedig i'n pobl ifanc fwyaf agored i niwed sydd mewn angen**.
- Yn unol â'r duedd genedlaethol, gwelwyd cynnydd digynsail mewn Ymddygiad Gwrthgymdeithasol ym Mro Morgannwg. **Cododd nifer yr achosion o 1,933 yn Ebrill 2019 - Mawrth 2020 i 5,555 yn Ebrill 2020-Mawrth 2021. Roedd hyn yn gynnydd o 187% gyda rhai misoedd, fel mis Mai 2020, yn cynnwys cynnydd o hyd at 378% o'i gymharu â'r un mis yn y flwyddyn flaenorol.**Arweiniodd y cyfyngiadau a osodwyd yn ystod y cyfnodau clo at nifer fawr o adroddiadau o drigolion yn mynd yn groes i ganllawiau COVID-19, ac arweiniodd tywydd crasboeth yr haf at nifer o gasgliadau mawr iawn o bobl a oedd, yn ogystal â mynd yn groes i ganllawiau COVID, yn cynnwys unigolion a oedd yn ymddwyn yn wrthgymdeithasol ar ffurf camddefnyddio alcohol, graffiti, sbwriel, aflonyddwch sŵn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol arall. Fel rhan o'r Bartneriaeth Bro Ddiogelach rydym wedi gweithio'n agos gyda'n partneriaid (gan gynnwys yr Heddlu) a'r gymuned leol i leihau ac atal casgliadau mawr ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. **Yr her wrth symud ymlaen yw sut y gall y Cyngor roi atebion tymor hwy ar waith a fydd yn rhwystr effeithiol i ymddygiad gwrthgymdeithasol tra'n gweithio mewn partneriaeth â chydweithwyr yn y meysydd Tai a Gorfodi a phartneriaid yn Heddlu De Cymru i orfodi'r mesurau a roddwyd ar waith.**
- Ar draws y DU mae goroeswyr trais yn y cartref wedi dweud bod y pandemig wedi effeithio ar eu camdriniaeth ac mae llawer sy'n byw gyda'u camdriniaeth yn dweud bod y cam-drin wedi gwaethygu. Yn y Fro, dim ond cynnydd bach rydym wedi'i weld yn nifer yr Hysbysiadau Diogelu'r Cyhoedd ac atgyfeiriadau a roddwyd i ddioddefwyr cam-drin/trais domestig o gymharu â'r un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol ond rydym yn cydnabod bod cam-drin domestig yn drosedd a danadroddir ac efallai na fydd y ffigurau hyn yn adlewyrchu gwir faint y broblem. Tra bod pobl wedi'u cyfyngu i'w cartrefi, roedd

ganddynt lai o fynediad at wasanaethau a rhwydweithiau cymorth. O ganlyniad, gallai oedolion a phlant sydd mewn perygl o gam-drin domestig a cham-drin phlant fod wedi cael eu gadael yn teimlo'n ynysig mewn sefyllfaoedd peryglus. Yr her i'r Cygnor yw **ymgysylltu â'r grŵp hwn o unigolion sy'n aml yn 'anodd eu cyrraedd' a'u hannog i ofyn am gymorth a chefnogaeth yn gynnar i arwain at ganlyniadau ar y cyd a fydd yn eu helpu i'w cadw'n ddiogel a gwella eu lles**.

- Yn awr, yn fwy nag erioed, rydym yn cydnabod pwysigrwydd ein hamgylchedd a'n mannau gwyrdd yn ogystal â'r effaith negyddol y gallwn ei chael arnynt. Gwyddom hefyd fod cysylltiadau rhwng amgylchedd gwael a'n cymunedau mwy difreintiedig. Ein **her fydd gwella ymgysylltiad ar draws ein cymunedau, yn enwedig gyda phlant a phobl ifanc, i godi ymwybyddiaeth o argyfyngau hinsawdd a natur a chefnogi newid ehangach**. Mae'n rhaid i ni hefyd **barhau i wneud newidiadau sylweddol os ydym am gyflawni ein targed uchelgeisiol o allyriadau sero net erbyn 2030.**
- Cyn argyfwng y Coronafeirws, trefnodd a chefnogodd y Cyngor raglen flynyddol ac amrywiol o ddigwyddiadau sydd wedi cyfrannu at hybu'r economi leol a chynyddu'r arlwy twristiaeth ym Mro Morgannwg. Yn ôl **Arolwg STEAM 2019, cafodd twristiaeth effaith economaidd o £275 miliwn yn y Fro yn 2019, gan gefnogi 3,191 o swyddi**. Mae hyn yn amlygu pwysigrwydd twristiaeth i'r economi leol ac yn codi pryderon ynglŷn â'r effaith bosibl y gallai'r cyfnod clo fod wedi'i chael ar fusnesau'r Fro. Mae cyflwyno cyfyngiadau, gan gynnwys cyfyngiadau aros-yn-lleol, hefyd wedi cael effaith uniongyrchol ar y rhaglen ddigwyddiadau yn y Fro gyda'r holl Ddigwyddiadau Cyngor a digwyddiadau a drefnir yn allanol naill ai wedi'u canslo am y flwyddyn neu wedi'u gohirio. Wrth symud ymlaen, **nod y Cyngor yw darparu rhaglen ddigwyddiadau wedi'i hailffocysu gyda'r nod o gynnig digwyddiadau diogel sy'n canolbwyntio ar y gymuned ac sy'n cefnogi economi Canol Trefi, yr arfordir a pharciau gwledig yn unol â deddfwriaeth berthnasol Digwyddiad COVID-19 Llywodraeth Cymru.**
- Dechreuodd y Pandemig ar adeg pan oedd y DU yn dal i drafod cytundeb masnach Brexit posibl gyda'r Undeb Ewropeaidd. Ar ôl misoedd o drafod, cyhoeddwyd cytundeb masnach ôl-Brexit ar 24 Rhagfyr 2020 yn diffinio sut byddwn yn byw, yn gweithio ac yn masnachu gyda'r UE. Daeth i rym ar 1 Ionawr 2021 a bydd yn anochel yn cyflwyno heriau aruthrol wrth i ni geisio delio â Brexit a COVID-19 ar yr un pryd. Mae yna **risg, wrth i'n sylw a'n hadnoddau gael eu defnyddio i fynd i'r afael ar unwaith â'r blaenoriaethau sy'n deillio o COVID-19, na fydd modd i ni baratoi nac addasu i newidiadau polisi a deddfwriaethol sydd ar ddod o ganlyniad i Brexit.**Roedd pwysau ar y gweithlu mewn rhai rhannau o'r gwasanaethau cymdeithasol yn heriol cyn Brexit. Ar ôl Brexit mae'r pwysau hyn wedi gwaethygu, fel y rhagwelwyd.
- Mae ymchwil wedi canfod, yn ystod y cyfnod clo cyntaf, fod pobl yn gwneud mwy nag o'r blaen i helpu eu cymuned. **Rhwng mis Mai 2020 a mis Ionawr 2021, atebwyd 860 o alwadau gan Dîm Cymorth Arwyr y Fro** gyda'r nifer fwyaf o alwadau yn cael eu hateb ym mis Mai 2020 (451 o alwadau). Gostyngodd nifer y galwadau dros fisoedd yr haf a'r hydref ac mae llai o bobl yn dweud eu bod yn gwirfoddoli nawr o gymharu â'r cyfnod clo cyntaf. Yr her fydd sut y byddwn **yn annog ysbryd cymunedol ac yn cynnal y gwirfoddoli** a welwyd ar draws cymunedau mewn ymateb i COVID-19.

Mae'r argyfwng COVID-19 yn parhau i herio ein rhagolygon yn sylfaenol, nid yn unig o ran pwy a beth rydym yn ei werthfawrogi mewn cymdeithas, ond y ffordd y gellir darparu gwasanaethau cyhoeddus. Erbyn hyn, mae'r adferiad yn y dyfodol yn dibynnu ar sut mae llywodraethau a chymdeithas yn ymateb i'r pandemig a'i sgil-effaith economaidd. Ein bwriad yw defnyddio'r argyfwng hwn i ailadeiladu a chynhyrchu rhywbeth gwell, gan ddod allan ohono fel sefydliad cryfach i'n trigolion a'n cydweithwyr.

## 2.2 FFOCWS AR: WASANAETH TRAFNIDIAETH GYMUNEDOL GREENLINKS

Greenlinks yw Cynllun Trafnidiaeth Gymunedol y Cyngor a ddathlodd **10 mlynedd o wasanaeth yn dawel bach ym mis Mehefin 2020**. Mae'r cynllun yn cynnig **gwasanaeth trafnidiaeth sy'n ymateb i'r galw** i drigolion y Fro, gan ddarparu trafnidiaeth i'r rhai nad oes ganddynt fynediad at drafnidiaeth gyhoeddus leol neu breifat a'r rhai nad ydynt yn gallu cael mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus oherwydd anableddau corfforol neu feddyliol.

Wedi'i sefydlu gyntaf drwy Gronfa Datblygu Gwledig Ewrop (CDGE), mae'r Cyngor yn cydnabod gwerth Gwasanaeth Trafnidiaeth Gymunedol Greenlinks ac yn parhau i'w gefnogi drwy gyllid Adran 106, a sicrhawyd yn ddiweddar tan fis Mawrth 2023.



Cyn y pandemig COVID-19, roedd Greenlinks yn cynnal **1,000 o deithiau y mis yn rheolaidd,** gan ddarparu ar gyfer hyd at **350 aelodau gweithredol a 25 aelod grŵp**. Yn 2019/20, cynhaliodd Greenlinks bron **11,300 o deithiau** (cynnydd ar y 10,069 o deithiau yn 2018/19) a gweithiodd gydag adrannau a sefydliadau eraill y Cyngor i wneud y defnydd gorau o'r cynllun. Mae gan Greenlinks 7 cerbyd hygyrch, un gyrrwr â thâl a hyd at 16 o wirfoddolwyr.

Ym mis Mawrth 2020 ataliwyd y gwasanaeth o ganlyniad i'r pandemig, fodd bynnag, **gan weithio ar y cyd ag adrannau eraill y Cyngor,** cafodd ein gyrrwr, staff swyddfa a rhai o'r cerbydau eu harallgyfeirio i ddarparu cymorth ar gyfer dyletswyddau brys megis dosbarthu offer ailgylchu i breswylwyr; dosbarthu Cyfarpar Diogelu Personol i Ysgolion; darparu bws i'r Tîm Glanhau tra bod eu bws eu hunain yn cael ei drwsio; codi hysbysiadau a gollwng taflenni ar gyfer ymgynghoriadau. Ers mis Gorffennaf 2020 (hyd yma), mae'r gwasanaeth Greenlinks hefyd wedi helpu i ddosbarthu Cyfarpar Diogelu Personol ac felly wedi cyfrannu at y gwaith o ddosbarthu **22,245,236 o eitemau o Gyfarpar Diogelu Personol yn ystod 2020/21.**

Yn ystod mis Medi 2020, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, ailgyflwynwyd gwasanaeth asesu risg COVID-19. Er bod nifer y bobl ar y bws ar unrhyw un adeg wedi lleihau'n sylweddol oherwydd gofynion ymbellhau cymdeithasol, mae'n dal i ddarparu **gwasanaeth y mae mawr ei angen ar deithwyr ledled y Fro wledig** gan ganiatáu i breswylwyr gael mynediad i amwynderau lleol fel siopau, apwyntiadau iechyd ac ymweld ag anwyliaid mewn cartrefi gofal (pan fo'n ddiogel gwneud hynny). Mae'r math hwn o ddarpariaeth yn **achubiaeth hanfodol ac mae'n gwneud llawer i atal allgáu cymdeithasol y gwyddom ei fod yn gyffredin mewn ardaloedd gwledig**. Er i'r gwasanaeth gael ei atal unwaith eto ym mis Rhagfyr 2020, camodd Greenlinks i'r adwy eto drwy helpu gyda'r rhaglen brechu torfol, cludo preswylwyr o'u cartrefi i Ganolfan Hamdden Holm View ar gyfer eu brechiadau COVID-19 a sicrhau eu bod yn dychwelyd adref yn ddiogel. Gallai preswylwyr hefyd gael mynediad i'r gwasanaeth ar gyfer apwyntiadau brechu gyda'u meddyg teulu os oedd angen.

Mae gwaith partneriaeth wedi bod yn hanfodol i lwyddiant y gwasanaeth Greenlinks, gan ganiatáu i'r cynllun gael manteision pellgyrhaeddol ar draws y Fro, er enghraifft mae gennym **drefniant parhaus gyda Dinas Powys Voluntary Concern (DPVC)** sydd wedi parhau drwy gydol y pandemig. Mae DPVC yn rhannu un o'n cerbydau sy'n caniatáu i'r sefydliad gludo trigolion lleol i'r Ganolfan Feddygol ar ben Murch Road (nad oes llwybrau trafnidiaeth gyhoeddus yn mynd iddi). Cyn y pandemig bu Greenlinks yn **gweithio mewn partneriaeth â'r Gwasanaethau Cymdeithasol** i ddarparu trafnidiaeth i ofalwyr ifanc sy'n mynychu gwasanaethau seibiant a chyda **Golwg Cymru** i ddarparu trafnidiaeth i aelodau rhannol ddall a/neu sydd â nam ar y symudedd i fynychu grwpiau cymunedol yn y Fro. Edrychwn ymlaen at ailddechrau'r **cydweithrediadau hyn a chydweithio â'n partneriaid i gynorthwyo'r gymuned a chyflawni set gyffredin o nodau, pan fydd yn ddiogel gwneud hynny.**

Mae recriwtio gyrwyr gwirfoddol yn broses barhaus, **gan weithio gyda phartneriaid fel Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg (GGM) a Chanolfannau Gwaith i recriwtio gwirfoddolwyr newydd** a bodloni gofynion y gwasanaeth. Gall gwirfoddolwyr cymwys hefyd elwa o gynllun Bancio Amser y Cyngor, lle gallant ennill credydau am yr amser a wirfoddolwyd. Mae'r defnydd o gredydau wedi'i atal drwy gydol y pandemig, ond rhagwelir y bydd y cymhelliant hwn yn ailddechrau pan fydd yn ymarferol gwneud hynny.

Wrth i ni symud i'n cam adfer, rydym yn cydnabod bod gwasanaeth Greenlinks yn parhau i fod yn **rhan annatod o gynllun trafnidiaeth gyhoeddus y Cyngor**, gyda'r hyblygrwydd i addasu a thyfu. **Gan gynnwys ein cymuned, byddwn yn parhau i wrando ac ymateb i'w hanghenion cludiant gan alluogi preswylwyr i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi yn y tymor hwy.** Bydd defnyddio Greenlinks a gwasanaethau Trafnidiaeth Gymunedol eraill hefyd yn hanfodol i ddarparu gwasanaethau trafnidiaeth i deithwyr lle nad ydynt yn bodoli, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, a helpu i lenwi'r bylchau lle gallai gwasanaethau bws rheolaidd gael eu colli ar ôl i'r pandemig ddod i ben.

# 3.0 AMCAN LLESIANT 1: GWEITHIO GYDA, A THROS EIN CYMUNEDAU

**Ein statws perfformiad cyffredinol ar gyfer yr Amcan Llesiant hwn yw MELYN**

## 3.1 DATGANIAD SEFYLLFA

Ni allem edrych yn ôl ar 2020/21 heb sôn am yr effaith y mae pandemig y coronafeirws (COVID-19) wedi'i chael ar gyflawni'r ymrwymiadau blynyddol sy'n cyd-fynd â'n hamcan lles i 'weithio gyda a thros ein cymunedau'. Er bod y pandemig wedi newid yn sylweddol y ffordd rydym yn gweithio ac yn darparu ein gwasanaethau; mae hefyd wedi rhoi cyfleoedd i ni adnewyddu a thrawsnewid sut rydym yn eu darparu.

Gydol y flwyddyn rydym wedi parhau i weithio gyda thros ein cymunedau wrth ystyried pwysigrwydd cynnwys, cyfathrebu ac ymgysylltu effeithiol i ddeall ac ymateb i anghenion amrywiol ein cymuned. Wrth symud ymlaen, byddwn yn parhau i ymgynghori â'n rhanddeiliaid, yn croesawu arloesi ac yn gweithio gyda'n partneriaid i sicrhau bod gwasanaethau'n diwallu anghenion y genhedlaeth bresennol ac yn gadael o'u hôl waddol gadarnhaol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Er gwaethaf heriau sylweddol y flwyddyn, rydym wedi penderfynu ein bod, ar y cyfan, wedi gwneud cynnydd cadarnhaol o ran cyflawni ymrwymiadau'r Cynllun Cyflawni Blynyddol sy'n cyfrannu at Amcan Llesiant 1 ar gyfer y cyfnod 2020/21. Mae hyn wedi cyfrannu at statws **Melyn** ar gyfer yr amcan ar ddiwedd y flwyddyn. Mae 61% (61 o 100) o weithgareddau a gynlluniwyd wedi'u cyflawni'n llwyddiannus. Ar draws yr amcan, aseiniwyd statws coch i gamau gweithredu er mwyn adlewyrchu llithriant ac roedd hyn gyfystyr â 39% (39) o'r holl weithgareddau a gynlluniwyd ar gyfer 2020/21. O'r 39 o gamau gweithredu sy'n cyfrannu at yr Amcan Llesiant, a gafodd statws perfformiad Coch, roedd 35 (90%) yn uniongyrchol o ganlyniad i fesurau ailflaenoriaethu gwasanaethau a wnaed mewn ymateb i effaith y pandemig COVID-19 parhaus.

O ran dangosyddion perfformiad (DP), priodolwyd statws Gwyrdd i 75% (12/16) o ddangosyddion sy'n cyd-fynd ag Amcan 1 a phriodolwyd statws Melyn i 6% (1) ohonynt, a statws Coch i 19% (3). O ran y 3 Dangosydd Perfformiad y priodolwyd statws Coch iddynt, cafodd COVID-19 effaith ar bob un o'r mesurau hyn. Mae gwaith ynghlwm â'r dangosyddion a'r camau gweithredu a oedd wedi llithro yn parhau'n flaenoriaeth ac felly maen nhw wedi'u cario ymlaen i'w Cynlluniau Gwasanaeth priodol ar gyfer 2021/22.

Yn anochel, mae'r pandemig wedi ymddangos yn helaeth yn ein gweithgarwch eleni, ond rydym hefyd am gydnabod y gwaith rhagorol sydd wedi digwydd o dan bwysau anhygoel ac ar gyflymder eithriadol. Rydym yn ddyledus i'n gweithlu ymroddedig, ein cymuned, ein partneriaid a'n gwirfoddolwyr sydd wedi bod yn rhan o'n gwaith hyd yn oed cyn i'r pandemig ddechrau ym mis Mawrth 2020. Gan weithio gyda'n gilydd rydym wedi cefnogi ein gilydd yn ystod cyfnod o argyfwng, ac rydym i gyd wedi dysgu llawer o'n profiadau.



Er gwaethaf heriau, mae'r rhan fwyaf o weithgareddau ymgysylltu arfaethedig gyda chymunedau'r Fro, defnyddwyr gwasanaethau a phartneriaid wedi mynd rhagddynt lle bo hynny'n bosibl, yn bennaf drwy fformat rhithwir, ac mae adborth yn cael ei ddefnyddio i lywio'r gwaith o ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol. Yn ystod y flwyddyn rydym wedi ymgysylltu'n llwyddiannus â dinasyddion a rhanddeiliaid, yn enwedig y rhai sy'n agored i niwed, ar fentrau gan gynnwys; Strategaeth Hygyrchedd sydd wedi llywio ein rhaglen adnewyddu asedau ysgolion; cynnig celf gyhoeddus yn Paget Road, Penarth; sicrhau parhad darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol yn y dyfodol a darpariaeth ganolog ar gyfer Llesiant a thrawma sy'n cynnwys canolfan adnoddau yn Ysgol Gladstone, a reolir gan Ysgol Y Deri. Gofynnwyd hefyd am farn dinasyddion ynghylch Canolfan Ddysgu a Llesiant newydd ar safle Court Road yn y Barri o fis Ionawr 2023 ac ymgynghorwyd yn helaeth â staff, athrawon ac ysgolion drwy amrywiaeth o wahanol sianeli i ddatblygu ein Cynllun Her Newid yn yr Hinsawdd, cynllun argyfwng i leihau allyriadau carbon

ar draws yr ardal ac annog newid mewn ymddygiad. Mae'r ymgyngoriadau hyn wedi llywio ein cynigion ac yn dangos y gwahaniaeth y mae'r gweithgaredd hwn yn ei wneud wrth wneud penderfyniadau.

Er na wnaethom gynnal ein harolwg bob dwy flynedd ar farn y cyhoedd y llynedd, mae canlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2020 yn dangos boddhad cadarnhaol iawn gan breswylwyr mewn nifer o feysydd er enghraifft, roedd 88% o oedolion 16 oed a throsodd yn fodlon â Bro Morgannwg fel lle i fyw ac roedd 82% yn fodlon ar y gallu i gyrraedd/ cyrchu'r cyfleusterau a'r gwasanaethau yr oedd eu hangen arnynt. Mae'r perfformiad hwn yn gyson â'n harolwg diwethaf yn 2018/19 a amlygodd foddhad uchel (98%) gyda'r Fro fel lle i fyw a boddhad o 87% o ran mynediad at wasanaethau'r cyngor. Yn ogystal, mae canfyddiadau cynnar yr arolwg Llesiant parhaus sy'n cael ei gynnal fel rhan o Asesiad Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus 2022 (sy'n fyw tan 19 Medi 2021 ar hyn o bryd) yn dangos lefelau boddhad cadarnhaol mewn ardaloedd tebyg. Mae boddhad â'r Fro fel lle i fyw ynddo ar hyn o bryd yn 83% a boddhad â gwasanaethau'r Cyngor ar 65% (hyd at 2 Awst 2021, cafwyd dros 1,100 o ymatebion i'r arolwg).

Rydym wedi gweithio'n galed i fod yn fwy agored a chynhwysol yn ein dulliau ymgysylltu ac mae gennym ystod eang o ddulliau a phrosesau ymgysylltu hygyrch ar waith i sicrhau bod ein penderfyniadau a'n blaenoriaethau strategol a rheoli yn adlewyrchu anghenion ein cymunedau amrywiol; fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod hwn yn parhau i fod yn faes i'w wella. Gyda hyn mewn golwg, rydym wedi gwella ein canolfan gyfathrebu ymhellach ac wedi hyrwyddo'r Cyngor yn rhagweithiol drwy amrywiaeth eang o gyfryngau. Yn ogystal, rydym wedi rhoi cyhoeddusrwydd eang i'r cyfleoedd sydd ar gael i breswylwyr fynegi eu barn ar unrhyw agwedd ar fusnes y Cyngor gan gynnwys blaenoriaethau'r gyllideb a gwasanaethau.

Oherwydd newid masnachfraint, y bu pobl ifanc yn ymgyrchu drosto ers tro byd, eleni oedd y tro cyntaf i rai 16 ac 17 oed bleidleisio yn etholiad Senedd Cymru. Er mwyn hyrwyddo'r newid hwn ac ymgysylltu ymhellach â phobl ifanc, cynhaliodd tîm Cofrestru Etholiadol y Cyngor wobr cyn etholiad y Senedd, gan gymell pobl ifanc 14-17 oed i gofrestru ar gyfer eu pleidlais drwy gynnig cyfle i ennill 1 o 5 i-pad. Llwyddodd yr ymgyrch lwyddiannus hon i annog 3,239 o bobl ifanc i ymuno â'r gofrestr etholiadol gyda 1,969 o bobl 16 a 17 oed felly'n gallu pleidleisio yn etholiad diweddar y Senedd a hefyd yr etholiad Llywodraeth Leol sydd ar y gweill, a gynhelir ym mis Mai y flwyddyn nesaf. Mae ein tîm Cofrestru Etholiadol yn awyddus i ymweld ag ysgolion cyn etholiadau'r dyfodol, ar ôl i gyfyngiadau Covid gael eu llacio, i roi cyflwyniadau ac i dywys pobl ifanc drwy'r broses bleidleisio, a lliniaru pryderon pobl ifanc o ran yr hyn i'w ddiwgwyl mewn canolfan bleidleisio. Mae'r newid yn y fasnachfraint hefyd wedi caniatáu i'n pobl ifanc gymryd rhan mewn democratiaeth, gan roi llais iddynt a chaniatáu iddynt bleidleisio tuag at benderfyniadau a fydd yn effeithio ar eu dyfodol.

Yn ystod y flwyddyn nesaf, byddwn yn parhau i ymgysylltu â chymunedau i'w helpu i gymryd rhan mewn ystod ehangach o brosesau cynllunio strategol, er mwyn cyflawni'r gwelliannau y cytunwyd arnynt ar gyfer ein cymunedau, ein busnesau a'r economi. Bydd hyn yn arbennig o bwysig os ydym am fanteisio i'r eithaf ar ein hadnoddau i'n galluogi i bontio'n llwyddiannus o'n hymateb argyfwng i'r pandemig coronafeirws tuag at adferiad.

Drwy gydol y flwyddyn rydym wedi gweithio i adolygu ein Fframwaith Cymhwysedd Gwasanaethau Cwsmeriaid gyda'r nod o lansio safonau ac ymddygiadau gwasanaeth corfforaethol newydd sy'n canolbwyntio ar safon uchel o wasanaeth cwsmeriaid i bob cwsmer. Mae ein tîm datblygu galwedigaethol hefyd wedi dechrau sgyrsiau gydag uwch swyddogion ynghylch sut rydym yn ymgorffori hyn ymhellach yn y sefydliad. Bydd y gweithgaredd hwn yn parhau yn ystod 2021/22.

Roedd 'chwyldro digidol' yn trawsnewid ein bywydau ymhell cyn COVID-19, er bod cyflymder y trawsnewid wedi'i gyflymu'n sylweddol gan y pandemig. Mae'r 'chwyldro digidol' hwn yn trawsnewid y ffordd y mae nifer o bobl yn byw eu bywydau, o'r modd y prynwn nwyddau a gwasanaethau i'r modd rydym yn cyfathrebu ag eraill. Mae hefyd yn gyfle mawr i awdurdodau lleol fanteisio ar dechnolegau newydd ac egin dechnoleg i ail-ddylunio gwasanaethau cyhoeddus mewn ffordd sy'n bodloni disgwyliadau trigolion.



Gwyddom fod gan dechnoleg ddigidol y potensial i alluogi'r Cyngor a'n partneriaid i ddarparu gwasanaethau mewn ffordd fwy effeithlon, cynhyrchiol a chost-effeithiol ac am y rhesymau hyn, rydym wedi cydnabod 'digidol' fel prosiect galluogi allweddol o fewn rhaglen newid trawsnewidiol y Cyngor, Ail-lunio. Yn unol â'n Strategaeth Ddigidol 2017-20, rydym wedi parhau i gyflwyno a ggwneud y gorau o botensial Office 365 a Teams i hyrwyddo gweithio cynaliadwy ac ystwyth ar draws y Cyngor a chyda'n partneriaid. Mae'r gweithgaredd hwn wedi ein galluogi i symud ein gwasanaethau yn eu blaen, cefnogi ein staff fel eu bod yn dod yn fwy ymwybodol yn ddigidol a pharhau i ddarparu gwasanaethau o safon.

Er gwaethaf y cyfleoedd hyn, cyflwynir set unigryw o heriau i awdurdodau lleol yn y maes hwn. Mae hyn yn cynnwys argaeledd adnoddau ariannol ac adnoddau eraill i fanteisio ar y dechnoleg ddiweddaraf i ddarparu gwasanaethau. Cydnabyddir hefyd fod ‘blychau sgiliau digidol’ yn y gweithle, yr angen i gydymffurfio â safonau diogelwch data caeth ac, yn fwyaf arwyddocaol, toriadau digynsail i gyllidebau. Gwyddom hefyd y gallai'r newid i wasanaethau digidol ar-lein fod wedi cael effaith negyddol ar rai o'n trigolion nad sy’n mwynhau'r manteision y mae technoleg ddigidol yn eu cynnig am eu bod wedi'u hallgáu'n ddigidol, boed hynny oherwydd diffyg is-adeiledd, dewis personol neu allgáu economaidd a chymdeithasol. Gyda hyn mewn golwg, rydym wedi ymrwymo i roi'r sgiliau a'r technolegau digidol sydd eu hangen ar drigolion i wella eu bywydau ac rydym yn cydnabod bod angen parhaus i gynnal a gwella ein datblygiadau ymhellach ar ôl y pandemig os ydym am sicrhau cynaliadwyedd gwasanaethau allweddol.

Mae ein Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol yn sbardun allweddol i sicrhau ein bod yn gweithredu dull cynaliadwy o reoli ein hasedau er mwyn cefnogi'r gwaith o wireddu amcanion ein Cynllun Corfforaethol, yn enwedig yn yr hinsawdd ariannol heriol hon. Cyflawnir llawer o'r gwaith i ofalu am ein hasedau a'u gwella drwy ein Rhaglen Gyfalaf, sy'n cynnwys projectau adfywio cymunedol, rhaglen fuddsoddi ysgolion, rhaglen gwella tai, rhaglen gwella priffyrdd a phrosiectau sy'n buddsoddi yn seilwaith Bro Morgannwg.

Yn ystod y flwyddyn rydym wedi parhau i ddefnyddio ein heiddo a'n hasedau i gefnogi newidiadau yn y gwasanaethau a ddarperir, er enghraifft yn ystod y pandemig, cefnogodd Adran Eiddo'r Cyngor sefydlu gwasanaethau newydd, megis dosbarthu PPE. Mae'r tîm hefyd wedi gweithio'n agos gyda chydweithwyr o'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Llywodraeth Cymru) a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro i alluogi defnyddio asedau eiddo'r Cyngor ar gyfer safleoedd Prawf Lleol, Safleoedd Prawf Symudol a Chanolfan Brechu Torfol. Gwnaed y gwaith hwn yn gyflym ac roedd yn cynnwys mewnbwn sylweddol gan swyddogion ar draws y Cyngor. Mae'r berthynas sydd wedi datblygu gyda chydweithwyr ar draws y sector cyhoeddus yn ystod y cyfnod hwn wedi bod yn gadarnhaol iawn ac mae cyfleoedd cydweithio pellach sy'n gysylltiedig ag asedau yn parhau i gael eu harchwilio.

Mae'r rhwydwaith priffyrdd lleol yn ased gwerthfawr arall i'n cymuned ac yn ystod y flwyddyn rydym wedi gwneud cynnydd rhagorol o ran cyflawni ein Rhaglen Ail-osod wyneb Priffyrdd. Mae'r defnydd cost-effeithiol parhaus o driniaethau arwyneb micro asffalt yn ogystal â blaenoriaethu ffyrdd wedi ei dargedu gyda gwaith cynnal a chadw wedi'i gynllunio er mwyn atal unrhyw ddirywiad yn eu cyflwr cyffredinol wedi arwain at ostyngiad sylweddol yng nghanran ein ffyrdd A a C prysur nad ydynt brif heolydd a oedd gynt mewn cyflwr gwael. Rhagwelir y bydd triniaethau arwyneb micro asffalt yn parhau, gan sicrhau cyflawniadau tebyg sy'n darparu dyraniadau cyllideb tebyg mewn blynyddoedd ariannol yn y dyfodol.

Mae'n bosibl bod oedi wedi bod ar ddirywiad ein priffyrdd hefyd yn ystod y pandemig oherwydd am nifer o fisoedd roedd pobl yn gweithio o bell gartref ac yn teithio llai oherwydd cyfyngiadau ar symud. Er bod COVID-19 yn ddi-os wedi cael effaith negyddol iawn ar gymdeithas, mae hefyd wedi atgyfnerthu faint o botensial a allai fod ar gyfer newid yn y ffordd yr ydym yn byw, a gallu cymdeithas a'r economi i addasu. Bu twf enfawr mewn gweithio gartref, siopa ar-lein, addysg o bell a newid i gludiadau mwy lleol. Yr her fydd rhoi'r cydbwysedd cywir o fesurau a strategaethau ar waith a fydd yn adeiladu ar y newidiadau cadarnhaol a wnaed eisoes hyd yma yn y maes hwn. Rydym yn parhau i weithio ar y cyd yn lleol ac ar draws y rhanbarth i gefnogi mesurau gwyrddach sy'n

galluogi dosbarthiad mwy cytbwys o fannau cyhoeddus ar draws y gwahanol foddau trafnidiaeth, i hyrwyddo teithio llesol o fewn ein cymunedau a thrwy hynny fanteisio ar ei fanteision hysbys i'n dinasyddion a'n cymunedau.

Rydym hefyd wedi defnyddio ein hasedau tir i wneud cyfraniad mwy cadarnhaol i'r amgylchedd drwy gynlluniau megis lleihau'r defnydd o ynni, plannu coed a phrosiectau ail-wylltu. Gan weithio mewn partneriaeth â Phartneriaeth Natur Leol y Fro rydym hefyd wedi cyflwyno trefn arloesol ar gyfer torri glaswellt i amrywiaeth o fannau gwyrdd ym Mro Morgannwg er mwyn creu dolydd llawn blodau gwyllt. Mae ymchwil wedi dangos nad cynefinoedd bywyd gwyllt gwerthfawr yn unig yw dolydd gwyllt, ond maent yn effeithlon iawn o ran amsugno a storio carbon. Hyd yn oed ar ôl i'r ddôl gael ei thorri bob blwyddyn bydd yn parhau i amsugno carbon deuocsid bob tro y bydd twf newydd, gan greu pridd cyfoethog sy'n llawn carbon. Mae cynlluniau fel hyn yn cyfrannu at wrthbwyso ein hôl troed carbon, un o'n nodau o dan Amcan pedwar "Gweithio i leihau allyriadau carbon y sefydliad i sero net cyn 2030 ac annog eraill i ddilyn ein harweiniad fel rhan o leihau effaith negyddol ein gweithgareddau ar yr amgylchedd". Mae'r enghraifft hon hefyd yn dangos y dull cyfannol yr ydym yn ei gymryd i gyflawni'r amcanion yn ein Cynllun Corfforaethol a sut mae cynlluniau fel y Cynllun Her Hinsawdd, y Cynllun Bioamrywiaeth a'r Strategaeth Seilwaith Gwyrdd yn bwydo i'r gwaith a wnawn yn y maes hwn.

Un o'n hasedau mwyaf yw ein staff ac hyd at 31 Mawrth 2020, cyflogai Cyngor Bro Morgannwg 5,870 o bobl yn uniongyrchol. Unwaith eto, mae'r pandemig wedi pwysleisio ymhellach bwysigrwydd gofalu am ein Llesiant a'n hiechyd meddwl, felly rydym wedi parhau i fuddsoddi'n helaeth yn ein staff drwy fentrau datblygiad a llesiant wrth weithio ar Strategaeth Adnoddau Dynol newydd. Mae lles staff yn cael ei hyrwyddo'n rheolaidd gan uwch reolwyr ac mae ein Hyrwyddwyr Lles 40+ yn parhau i gefnogi staff a threfnu gweithgareddau Lles fel Ioga, ymwybyddiaeth ofalgar, dosbarthiadau HIIT, Gofod Meddwl Diwrnod Hymp, gweithdai maeth a chyllid ar-lein a sesiynau Llesiant Coetiroedd awyr agored (pan fo cyfyngiadau wedi caniatáu). Mae'r mecanweithiau cymorth hyn yn cysylltu'n dda â nodau eraill yn ein Cynllun Corfforaethol. Er enghraifft, mae sesiynau Llesiant Coetiroedd a gynhelir yn rheolaidd ym Mharc Gwledig Porthceri yn ein galluogi i "ddiogelu, gwarchod a gwella ein hamgylchedd naturiol lle bo modd" (Amcan 4) yn ogystal â gwella bioamrywiaeth a gwrthbwyso allyriadau carbon oherwydd natur y gwaith a wneir gan wirfoddolwyr o staff e.e. Mae staff hefyd yn mynd yn torchi llewys go iawn gan gyrraedd ein nod yn Amcan 3 i "annog pobl o bob oed i gael ffyrdd actif ac iach o fyw i hyrwyddo gwell lles corfforol a meddyliol" i ddod yn bwysicach nag erioed wrth i gydweithwyr addasu i ffyrdd newydd o weithio ac ymrafael â phryder a straen sy'n cael ei sbarduno gan y pandemig coronafeirws.



Gyda'r wybodaeth ddiweddaraf a gasglwyd o'r Arolwg Lles staff, rydym wrthi'n ystyried sut y byddwn yn trosglwyddo i ddull newydd o weithio cyfunol. Datgelodd yr arolwg diweddaraf a gynhaliwyd ym mis Mai 2021 y byddai'n well gan 91% o'r ymatebwyr barhau i weithio gartref (41%) neu ddychwelyd at ddull cyfunol o weithio gartref a gwaith swyddfa (50%) yn y dyfodol. Datgelodd yr arolwg hefyd mai'r heriau mwyaf a wynebir gan staff oedd ynysu cymdeithasol, diffyg cyswllt â chyd-weithwyr a phryder ynghylch y pandemig. Wrth wrando ar yr hyn y mae ein staff yn ei ddweud y maent am ei gael, rydym wedi bod yn glir ynglŷn â'n bwriad i barhau â dull cyfunol (lle bo'n briodol). Wrth i ni symud tuag at hyn, bydd angen i ni ystyried yr effaith y mae'r argyfwng hwn wedi'i chael ar ein staff a'u cefnogi gyda'u Lles gan sicrhau trosglwyddiad llyfn i'r hyn a fydd yn y pen draw yn ffordd newydd o weithio i'r rhan fwyaf o'n gweithlu.



Bu gostyngiad sylweddol yn lefelau absenoldeb staff ar draws pob cyfarwyddiaeth yn y cyngor yn ystod 2020/2021. Mae'r cyfraddau'n dangos gostyngiad o golli 10.51 diwrnod fesul swydd gyfwerth ag amser llawn yn 2019/20 i golli 8.59 diwrnod fesul swydd gyfwerth ag amser llawn yn 2020/21. Straen nad oedd yn gysylltiedig â gwaith oedd y rheswm mwyaf cyffredin dros

absenoldeb oherwydd salwch gyda 26% o'r staff yn nodi hyn fel eu rheswm dros absenoldeb yn ystod y flwyddyn. Yr ail a'r trydydd rheswm dros absenoldeb yw rhesymau cyhyrysgerbydol (16%) a straen sy'n gysylltiedig â gwaith (13%). Mae'r wybodaeth hon yn ddefnyddiol ar gyfer deall y rhesymau dros absenoldeb oherwydd salwch yn ogystal ag edrych ar ffyrdd o gynorthwyo iechyd a lles cyflogeion a hysbysu Iechyd Galwedigaethol a'r gwasanaeth Cwnsela i Weithwyr.

Ystyrir bod y pandemig byd-eang COVID-19 parhaus wedi chwarae rhan fawr yn y lefelau absenoldeb is cyffredinol yn ystod 2020/21. Pan fo gweithiwr wedi profi symptomau COVID-19 a/neu gael prawf cadarnhaol, gallant ymgymryd â chyfnod hunanynysu deg diwrnod nad yw'n cyfrif tuag at absenoldeb neu sbardunau salwch. Yn ogystal, gall staff fod yn gweithio gartref ar hyn o bryd lle roddir gwybod am salwch, mae hyn yn arbennig o wir am yr absenoldebau tymor byr ac fe'i gelwir yn "bresenoliaeth". Presenoliaeth yw pan fo aelod o staff yn y gwaith, yn hytrach na chymryd math o absenoldeb neu absenoldeb oherwydd salwch ac rydym yn cydnabod y gallai hyn arwain at golli diwrnodau cynhyrchiol. Cyflwynwyd nifer o fentrau gan y Cyngor i reoli'r prif sbardunau wrth fynd i'r afael â phresenoliaeth, megis gwella rhaglenni a mynediad digidol, rhaglenni ffordd o fyw a llesiant a rheoli'r defnydd o wyliau blynyddol. Mae rheolwyr llinell bob amser yn allweddol wrth ofalu am iechyd a lles gweithwyr a bydd y gwaith caled a'r gefnogaeth barhaus gan y Tîm Arweinyddiaeth Strategol, Adnoddau Dynol, Rheolwyr ac Undebau Llafur yn bwysig er mwyn cadw golwg ar lefelau absenoldeb y Cyngor yn y dyfodol.

Gyda staff ar flaen ein meddwl, gallwn adrodd bod cynnydd wedi'i wneud o ran creu diwylliant ac amgylchedd cynhwysol yn y gweithle ar gyfer holl weithwyr y Cyngor. Yn ystod y flwyddyn rydym wedi dechrau ymgysylltu â grwpiau amrywiaeth o fewn y Cyngor ac mae eu meddyliau wedi cyfrannu at ein Strategaeth Llyfr Diwylliant a Denu Talent Mae'r gwaith hwn hefyd yn cysylltu â'r adolygiad i strategaeth wobrwyo a buddiannau'r Cyngor o safbwynt recriwtio a chadw staff. Bydd y gwaith hwn yn parhau yn 2021/22 ynghyd â'n hymrwymiad i fuddsoddi yn ein staff a chreu Rhaglen Datblygu Gweithwyr newydd.

Bydd cyni yn parhau, wedi'i waethygu gan effaith y pandemig byd-eang diweddar a Phrydain yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. O ganlyniad, mae'n bwysicach nag erioed ein bod yn caffael yn gynaliadwy. Rydym yn gwneud mwy o ddefnydd o fanylebau safonol ar gyfer nwyddau a gwasanaethau priodol, gan ddefnyddio partneriaeth a chydweithredu fel ffordd o sicrhau arbedion maint a sicrhau cynaliadwyedd rhai o'n gwasanaethau ar gyfer y dyfodol. Yn ogystal, rydym wedi adolygu ein trefniadau caffael ac rydym yn pwysleisio dull mwy cyfannol wedi'i ategu gan weithdrefnau a phrosesau gwell sy'n adlewyrchu egwyddorion datblygu cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae caffael hefyd yn cyfrannu at ein hymdrechion i liniaru effeithiau negyddol y newid yn yr hinsawdd, gan gynnwys cyfeiriadau at leihau'r defnydd o blastig untro er enghraifft. Mae caffael yn un o'r agweddau cynllunio corfforaethol allweddol sy'n cael eu hystyried gan ein Bwrdd Dirnadaeth, ac mae hyn yn sicrhau ein bod yn defnyddio dull integredig o gynllunio i gyflawni ein Hamcanion Llesiant a gwneud y cyfraniad mwyaf posibl i'r saith nod llesiant cenedlaethol. Er ei bod yn gynnar yn y broses, bydd ein dull gweithredu yn helpu i sicrhau ein bod yn caffael mewn ffyrdd fydd yn cefnogi lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Bro Morgannwg a'n trigolion ar gyfer y tymor hir.

Mae pandemig y Coronafeirws wedi rhoi cyfle i drawsnewid gwasanaethau ar gyflymder a graddfa ac mae'n bwysig nad yw'r dysgu o hyn yn cael ei golli gydag unrhyw ddychwelyd i normalrwydd. Mae ein strategaeth Ail-lunio Gwasanaethau bresennol wedi darparu fframwaith i'r Cyngor ers 2015, gan ddarparu ymateb rhagweithiol i ymgyrch llymder llywodraeth San Steffan a greodd gyfnod o bwysau ariannol digynsail yn y sector cyhoeddus. Mae'n amserol nawr i ailystyried ein cyfleoedd, y pwysau arnom a'n heriau ar gyfer y blynyddoedd i ddod ac ailffocysu ein gwaith ail-lunio. Mae'r gwaith hwn eisoes wedi dechrau drwy fabwysiadu dull mwy integredig o ddatblygu'r Cynllun Corfforaethol a chefnogi'r Cynllun Cyflawni Blynyddol gyda'r ddau Gynllun yn cynnwys cyfres o ymrwymiadau trawsnewidiol sy'n gysylltiedig â newid sy'n rhoi cyfle i ddylanwadu ar a llywio cyfeiriad y Cyngor yn y dyfodol.

Rydym bellach yn gweithio ar ddatblygu fersiwn nesaf ein Hail-lunio yn unol â'n Strategaeth Adfer a'n Cynllun Cyflawni Blynyddol, gan nodi heriau uchelgeisiol newydd ar gyfer rhaglen drawsnewid y Cyngor yn cwmpasu tri maes gwaith: Ail-lunio gyda'n cymuned, gyda'n gwaith a gyda'n hadnoddau. Mae'r tri maes trawsnewid yma yn

crynhoi pob rhan o waith y Cyngor ac yn adlewyrchu awydd i wneud mwy o gysylltiadau ar draws ein cymuned a chyda'n partneriaid. Byddant yn cael eu galluogi drwy ein defnydd o dechnoleg ddigidol, gan gefnogi ein gweithlu a'n partneriaid i ddatblygu a dysgu, datblygu ein diwylliant sefydliadol ymhellach, cynnwys, ymgysylltu a chyfathrebu'n effeithiol a sicrhau bod trefniadau rheoli rhaglenni a llywodraethiant cryf ar waith. Mae gwaith i baratoi'r portffolio ar gyfer 2021/22 ac ymlaen yn mynd rhagddo ar hyn o bryd.

Er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud penderfyniadau tecach a mwy cynhwysol, rhoddwyd llawer o bwyslais ar integreiddio oblygiadau'r asesiad cydraddoldeb (drwy Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb) i sicrhau bod penderfyniadau ar unrhyw newidiadau i wasanaethau neu bolisi yn dryloyw a'n bod yn ystyried anghenion a hawliau gwahanol aelodau o'n cymunedau. Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn heriol i bob un ohonom, ac mae wedi dod i'r amlwg, er ein bod i gyd yn yr un storm, nad ydym yn yr un cwch. Mae'n amlwg mai y rhai sydd eisoes yn wynebu anghydraddoldeb (er enghraifft oherwydd eu rhyw, eu hoedran, eu hanabledd, eu hil neu'r rhai mewn sefyllfaoedd agored i niwed oherwydd tlodi) sydd wedi cael eu heffeithio i'r graddau mwyaf. Mae'r arloesedd a ddangoswyd yn ystod y cyfnod anodd hwn drwy gydweithio ar draws pob sector wedi tynnu sylw at y ffaith bod newid yn bosibl a bod modd iddo ddigwydd yn gyflym gyda'r ymrwymiad, y brwdfrydedd a'r adnoddau cywir. Drwy gydol y flwyddyn ddiwethaf, mae ein hasesiadau effaith COVID-19 wedi bod yn allweddol wrth lywio ein hymateb corfforaethol i'r pandemig a hefyd wrth ddarparu'r sylfaen o dystiolaeth i lywio ein hadferiad. Rydym yn ymgysylltu â'n partneriaid a'n cymunedau i adeiladu ar y cynnydd cadarnhaol a wnaed yn ystod y flwyddyn ddiwethaf gan ganolbwyntio'n gadarn ar fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a'i leihau er mwyn sicrhau bod lles ein dinasyddion yn y dyfodol yn cael ei ddiogelu.

Yn unol â'r blaenoriaethau yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol, rydym hefyd wedi parhau i ymgysylltu â phlant, pobl ifanc a theuluoedd, gan gynnwys y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig. Er bod y pandemig wedi golygu cyfyngu ar ein gallu i gwrdd wyneb yn wyneb, rydym wedi cynnal cyswllt rheolaidd o bell drwy amrywiaeth o lwyfannau digidol. Mae Fforwm Ymgynghorol Cydraddoldebau'r Cyngor wedi parhau i gyfarfod i drafod a llywio gwaith y Cyngor ar amrywiaeth o faterion cydraddoldeb a chorfforaethol. Rydym hefyd wedi sefydlu grŵp ffocws gyda rhieni y mae eu plant yn destun lleoli â rheoliadau ar rieni ac rydym yn falch o fod wedi ymgysylltu â rhiant a fydd yn cyd-lywio'r grŵp hwn. Mae cydweithredu wedi parhau yn ystod 2020/21, gan gydweithio'n rhanbarthol a chyda Chyngor Caerdydd i gefnogi anghenion ffoaduriaid yn unol â'r fenter Ailsefydlu Byd-eang ranbarthol. Mae pob ffoadur sefydlog yn y rhanbarth wedi parhau i gael ei gefnogi o bell gydag integreiddio, cyflogaeth, tai a chymorth addysg gydol y flwyddyn.




Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar ddatblygu ystod o weithgareddau i wella cynwysoldeb yn y gweithle. Ym mis Rhagfyr 2021, cwblhawyd rhaglen hyfforddi yn canolbwyntio ar ymwybyddiaeth o hil a rhagfarn anymwybodol, a gynhaliwyd ar ein rhan gan Show Racism the Red Card, mynychwyd y rhaglen gan yr Aelodau a'r holl Brif Swyddogion. Mae StaffNet bellach yn cynnwys tudalen Ymwybyddiaeth o Hiliaeth, sy'n dathlu hanes, diwylliant a chyflawniad pobl dduon, tra hefyd yn cynnwys ein hanes lleol gyda phobl ddu sy'n gysylltiedig â'r Barri.

Yn fwy diweddar, rydym wedi ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar eu Cynllun Cydraddoldeb Hiliol drafft gyda'r nod o wneud Cymru'n genedl wrth-hiliol a gwneud Llywodraeth Cymru a phob corff cyhoeddus yn sefydliadau gwrth-hiliol erbyn 2030. Ynghyd â phob awdurdod lleol arall yn 2020, addawodd Cyngor Bro Morgannwg ymrwymiad i wrth-hiliaeth drwy lofnodi addewid #ZeroRacismWales ac ers hynny mae wedi cefnogi datblygiad Rhwydwaith Lleiafrifoedd Ethnig ar gyfer staff. Fel Cyngor, rydym yn falch ac yn ffyrnig o wrth-hiliol ac yn parhau i hyrwyddo a chefnogi'r rhwydwaith staff sy'n gweithio'n agos gyda'n tîm Uwch Arweinwyr.
Mewn ymateb i'r materion sy'n codi o fudiad Black Lives Matter rydym hefyd wedi dechrau ar y gwaith o adolygu enwau strydoedd, cerfluniau a henebion ledled y Sir.

Fodd bynnag, bydd Cynllun Llywodraeth Cymru yn gofyn am ymdrech hyd yn oed yn fwy unedig i ddod yn wrth-hiliol o fewn amserlen gymharol fer.' Er bod llawer o'r Cynllun yn ymwneud â'r hyn y bydd Llywodraeth Cymru

yn ei wneud, mae heriau i bob corff cyhoeddus wella ymgysylltiad a chyfranogiad, yn ogystal â gwasanaethau ac arferion cyflogaeth. Bydd y gwaith hwn yn parhau yn y tymor hir gan sicrhau ein bod yn dod yn Gymru fwy cyfartal a chymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau.

Mae Amcanestyniadau Llywodraeth Cymru o 2018-2028 yn dangos y rhagwelir y bydd cynnydd yn nifer y bobl 65+ oed ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru, gyda'r cynnydd canrannol mwyaf ym Mro Morgannwg (cynnydd o 20.5%). Mae'r ymchwil hon wedi hoelio sylw ein gwaith gyda'n partneriaid drwy'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (PSB) i sicrhau ein bod yn parhau iweithio gyda'n gilydd i ennill statws O Blaid Pobl Hŷn i'r Fro a chymryd camau i fod yn fwy cyfeillgar i blant ac yn fwy cyfeillgar i ddementia. Yn ystod mis Ebrill 2021, cytunodd partneriaid y BGC i fwrw ymlaen â chais i gyflawni Statws O Blaid Pobl Hŷn ac ers hynny mae gwaith wedi dechrau i gynnwys Fforwm Strategaeth 50+ y Fro a'r Grŵp Heneiddio'n Dda Caerdydd a'r Fro amlasiantaethol gyda chefnogaeth y tîm yn Swyddfa'r Comisiynydd Pobl Hŷn. Byddwn yn parhau i adeiladu ar y cysylltiadau cymunedol a atgyfnerthwyd gyda phobl hŷn yn ystod y pandemig yn ystod 2021/22 ac yn mapio lle mae angen i ni fod yng nghyd-destun adferiad o COVID-19.

Er gwaethaf y cyfyngiadau coronafeirws parhaus, rydym wedi parhau i wella a hyrwyddo Gwasanaethau Cymraeg a chynyddu sgiliau Cymraeg staff y Cyngor. Ym mis Ionawr 2021, roedd 41 o staff wedi cofrestru ar y cwrs croeso Cymraeg a oedd ar gael ar-lein i bob aelod o staff gyda modiwl pwrpasol ar gyfer staff y Gwasanaethau Cymdeithasol mewn ymateb i'r Fframwaith Mwy Na Geiriau. Nod y fframwaith hwn yw sicrhau bod sefydliadau'n cydnabod bod iaith yn rhan annatod o ofal a bod pobl sydd angen gwasanaethau mewn lleoliadau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael eu cynnig nhw yn Gymraeg. Er mwyn cefnogi Strategaeth y Gymraeg, mae'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ei hun wedi cofrestru ar gwrs Iaith Gymraeg ac wedi ymrwymo i ddysgu a chefnogi'r iaith o fewn y gyfarwyddiaeth. Bydd y cynnydd hwn, yn ogystal â'n hymrwymiad i arwain ar ein Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA/*WESP*) 10 mlynedd ac ehangu'r ddarpariaeth addysg Gymraeg, yn ein helpu ar ein ffordd i gyflawni nod cenedlaethol o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Yn ystod y flwyddyn, mae staff yn y Gwasanaethau Plant wedi cymryd rhan mewn Prosiect Iaith Gymraeg a oedd yn cynnwys datblygu adnoddau Cymraeg yn gysylltiedig â mabwysiadu. Rydym hefyd wedi parhau i ddarparu ystod o wasanaethau ieuenctid lleol drwy gyfrwng y Gymraeg i bobl ifanc 11-25 oed i gefnogi eu lles. Rydym wedi ac yn parhau i ddefnyddio ein llwyfannau digidol a mwy o bresenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol i ennyn diddordeb pobl ifanc ac rydym wedi darparu gweithgareddau grŵp rhithwir, sesiynau carreg y drws, gwybodaeth a chyfeirio at wasanaethau yn y ddwy iaith.

Pasiwyd Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) gan y Senedd ar 18 Tachwedd 2020 a chafodd Gydsyniad Brenhinol ar 21 Ionawr 2021. Mae'r Bil yn ymdrin ag amrywiaeth o bynciau, o ddiwygio etholiadol, cyfranogiad y cyhoedd, llywodraethiant, cydweithio a pherfformiad i weithio rhanbarthol. Er bod nifer o'r darpariaethau wedi dod i rym, bydd y mwyafrif yn dod i rym drwy offerynnau statudol Gweinidogol drwy gydol 2021/21. Er gwaethaf y pwysau sy'n gysylltiedig â COVID-19, rydym wedi gwneud cynnydd da o ran ymateb i ddarpariaethau newydd y Ddeddf. Er enghraifft, rydym wedi sefydlu grŵp prosiect i fwrw ymlaen â Chynllun Gweithredu sy'n adlewyrchu gwahanol ddarpariaethau'r Ddeddf; rydym wedi ailfrandio ac adnewyddu telerau ein teitl newydd Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio; ymestyn yr hawl i bleidleisio i'n dinasyddion iau 16-17 oed a datblygu Fframwaith Perfformiad newydd i adlewyrchu gofynion monitro perfformiad newydd y Cynllun Corfforaethol.

Mae ein fframwaith perfformiad yn ein galluogi i echdynnu data a diweddariadau gweithredu ar draws ystod eang o wasanaethau y gellir eu bwydo wedyn i sawl agwedd drawsbynciol ar y Cynllun Corfforaethol. I ategu hyn, datblygwyd templed adrodd perfformiad chwarterol mewn ymgynghoriad â gweithgor Aelodau Etholedig (yn cynnwys Cadeiryddion y Pwyllgor Craffu ac Is-gadeiryddion ac arweinwyr grwpiau pleidiau gwleidyddol) i alluogi adrodd mwy cyfannol ar berfformiad ac annog craffu effeithiol yn erbyn Cynllun Cyflawni Blynyddol y Cyngor. Mae natur drawsbynciol yr adroddiad yn ein galluogi i ddangos yn well sut mae sawl agwedd ar yr hyn rydym yn ei wneud yn cyfrannu at gyflawni ein Hamcanion Llesiant fel yr amlinellir yn ein Cynllun Corfforaethol a thuag at

Nodau Llesiant Llywodraeth Cymru.  Yn ogystal, fel rhan o'n gwaith i wella’n dirnadaeth yn fewnol i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau, rydym yn adolygu ein Strategaeth Rheoli Risg ac archwaeth am risg i adlewyrchu'r newidiadau a wnaed i'n ffyrdd o weithio yng ngoleuni pandemig COVID-19. Wrth symud ymlaen byddwn yn parhau i ddatblygu ein Cynllun Gweithredu a monitro pa mor barod yw  Cyngor Bro Morgannwg ar gyfer y darpariaethau amrywiol a nodir yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru).

Gan ategu'r gwaith a grybwyllir uchod, mae Bwrdd Mewnwelediad y Cyngor, sy'n cynnwys cydweithwyr o bob rhan o'r Cyngor, yn goruchwylio nifer o drefniadau rheoli busnes integredig ar draws y Cyngor gan sicrhau bod arweinyddiaeth ac atebolrwydd cryf a'n bod yn gweithio gyda'n gilydd i wneud newidiadau ac adroddiadau effeithiol ac ystyrlon i'r Tîm Arweinyddiaeth Strategol.  Mae'r dull integredig hwn o gynllunio busnes corfforaethol hefyd yn dwyn ynghyd ein holl flaenoriaethau strategol allweddol, ein pum ffordd o weithio ac adnoddau i'n galluogi i wneud cysylltiadau a chymryd camau priodol i sicrhau manteision lluosog i ddinasyddion y Fro.  Yn ystod y flwyddyn rydym wedi parhau i ddatblygu ein swyddogaeth dirnad i wella'r broses o wneud penderfyniadau ymhellach gan ganolbwyntio ar sawl ffrwd waith allweddol gan gynnwys COVID-19, ymadawiad Prydain o'r Undeb Ewropeaidd, Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru), rheoli asedau, Prosiect Sero, Llesiant ac Ail-lunio. Y Mae pandemig COVID-19 wedi tynnu sylw'r byd, fel erioed o'r blaen, at yr angen am ddata cywir ac amserol i lywio penderfyniadau a datrys problemau.  Achubwyd ar y cyfle i ddatblygu defnydd y Cyngor o ddata 'mewnwelediad' neu ddata dirnad i ddeall yr effaith (yn nhermau cymunedol ac economaidd) y mae'r pandemig wedi'i chael ar drigolion Bro Morgannwg. Rydym wedi cynhyrchu asesiadau sy'n synthesis o ystod o ddata byd-eang, y Deyrnas Gyfunol, Cymru a data lleol o amgylch cyfres o themâu i nodi'r effeithiau a llywio'r camau gweithredu yn y dyfodol i symud ymlaen yn ein Cynllun Cyflawni Blynyddol (2021/22). Ni fu gan y Bwrdd rôl fwy hanfodol i'w chwarae wrth lunio gwaith y Cyngor, gan sicrhau ein bod yn gwneud y mwyaf o'n cyfraniad tuag at ein Hamcanion Llesiant a'r saith nod Llesiant cenedlaethol.




Fel pob awdurdod lleol ar hyd a lled y wlad, mae'r Fro wedi bod ar flaen y gad yn yr ymateb i'r pandemig coronafeirws sydd wedi rhoi pwysau aruthrol ar ei gyllid. Fu cefnogi cymunedau a chadw gwasanaethau hanfodol ar waith erioed yn fwy pwysig ond mae hyn wedi arwain at wariant nas rhagwelwyd a cholli incwm i'r Cyngor.  Croesawyd pecynnau cymorth brys ariannol a roddwyd gan San Steffan a Llywodraeth Cymru megis y Grant Caledi Brys a ddyfarnwyd yn ystod 2020/21. Mae'r cymorth hwn bellach wedi'i gadarnhau ar gyfer 2021/22, fodd bynnag, mae effaith ariannol hirdymor y pandemig yn gwaethygu sefyllfa ariannol sydd eisoes yn heriol ac yn effeithio ar gadernid ariannol y Cyngor.   Cyfanswm yr arian ychwanegol, a gawsom gan Lywodraeth Cymru ar gyfer COVID-19 i dalu am wariant ychwanegol ac incwm a gollwyd oedd £19M a defnyddiwyd hyn i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau'r Cyngor. Dosbarthwyd £45M arall yn lleol gan y Cyngor ar ran Llywodraeth Cymru i gefnogi busnesau lleol.

Roedd setliad 2020/21 gan Lywodraeth Cymru am y tro cyntaf ers blynyddoedd lawer yn gynnydd mewn cyllid sy'n cynrychioli cynnydd o £6.626M (4.29%), gan gyfrif addasiadau, ar y flwyddyn flaenorol. Yn seiliedig ar y lefel ariannu hon, roedd y Cyngor yn 21ain allan o 22 o Gynghorau yng Nghymru ar gyllid y pen o'r boblogaeth, sy'n £191 y pen yn is na chyfartaledd Cymru o £1,426 (£168 y pen yn is na 2019/20). Gyda setliad ariannol cadarnhaol, llwyddodd y Cyngor i osod targed arbedion is ar gyfer y flwyddyn o £247,000, heb ofyn am unrhyw arbedion gan ysgolion. Llwyddodd gwasanaethau i gyrraedd y targed hwn yn ystod 2020/21 ond mae cyllidebau'n parhau o dan bwysau sylweddol yn y cyfarwyddiaethau Dysgu a Sgiliau, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gwasanaethau Cymdogaeth.  Ar ddiwedd 2019/20, cyflwynodd y Cyngor adroddiad dros dro yn nodi sefyllfa o adennill costau o ran y gyllideb refeniw, ar ôl trosglwyddo £12.206 miliwn i gronfeydd wrth gefn, yn amodol ar yr archwiliad cyfrifon yn 2021).

Gwariom £228.232 miliwn ar ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yn y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021. Gyda phoblogaeth o 133,587, mae hyn yn cyfateb i £1,708 y pen (£1691 yn 2019/20). Yn unol â'n blaenoriaethau, roedd Dysgu a Sgiliau a Gofal Cymdeithasol i gyfrif am 74.03% (78.1% yn 2019/20) o wariant y Cyngor a gyllidebwyd yn 2020/21, gan gyflawni ein blaenoriaethau allweddol fel yr amlinellir yn y Cynllun Corfforaethol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau y bydd yn darparu cyllid ar gyfer gwariant ychwanegol yr aed iddo ac incwm a gollwyd ar gyfer 2021/22. Ar ôl y dyddiad hwn, nid oes cyllid ychwanegol wedi'i gadarnhau ac mae'n anodd rhagweld beth fydd effaith y pandemig, yn enwedig os yw'r economi leol yn mynd i ddirwasgiad, os na ellir gostwng gwariant yn rhwydd yn ôl i'r lefel cyn y pandemig ac os nad yw ffrydiau incwm yn adlamu'n ôl yn gyflym. Mae'r Cyngor bellach yn cynllunio sut y bydd yn gallu darparu gwasanaethau wrth symud ymlaen gan y bydd effeithiau'r argyfwng yn para'n hir ac yn bellgyrhaeddol. Rydym o'r farn bod gennym ddigon o falansau a chronfeydd wrth gefn; fodd bynnag, byddant yn cael eu rhoi dan bwysau yn ystod y misoedd nesaf gyda lefel yr ansicrwydd ynghylch cyllid yn y dyfodol. Caiff hyn ei asesu ymhellach fel rhan o'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig a fydd yn cael ei ddiweddaru yn ystod y flwyddyn i ddod.



Mae'r Cyngor wedi cydnabod ers tro y gwerth sydd i gydweithio wrth ddarparu gwasanaethau effeithlon ac effeithiol i'n trigolion. Mae gweithgarwch cydweithredu wedi cynyddu'n gyflym mewn ymateb i'r hinsawdd ariannol heriol ac yn fwy diweddar, i COVID-19. Yn ystod y flwyddyn rydym wedi parhau i weithio mewn partneriaeth ag amrywiaeth o sefydliadau cyhoeddus, preifat a thrydydd sector ar sail leol, ranbarthol a chenedlaethol yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sy'n nodi cydweithio fel un o'r ffyrdd allweddol o weithio i gefnogi datblygu cynaliadwy. Adroddwyd am gynnydd yn erbyn ein prosiectau strategol allweddol bob chwarter i'r Cabinet ynghyd â Chrynodeb o Fentrau Gweithio Strategol sy'n cynnig trosolwg o'r gweithgaredd y mae'r Cyngor yn ymwneud ag ef.

Mae ein hymateb lleol i heriau ac effaith COVID-19 wedi lleihau ar draws holl wasanaethau a chyfrifoldebau'r Cyngor. Rydym wedi ymateb yn gyflym i greu gwasanaethau newydd i gefnogi polisi cenedlaethol er enghraifft, gan gefnogi ein dinasyddion mwyaf agored i niwed. Rydym wedi goresgyn materion ymarferol sy'n ymwneud â gwneud penderfyniadau democrataidd drwy symud i lwyfan digidol gan sicrhau bod atebolrwydd democrataidd yn parhau i fod yn ganolog i wneud penderfyniadau; rydym wedi ail-lunio ac ailgynllunio gwasanaethau craidd mewn ymateb i COVID-19; arwain ar waith i gefnogi rheoli heintiau; chwarae rhan ganolog yn y gyflogaeth a'r cymorth economaidd a roddwyd i drigolion a busnesau a defnyddio ein harweinyddiaeth a'n dylanwad i sefydlu partneriaethau sydd wedi ac sy'n parhau i wneud gwahaniaeth i'n dinasyddion.

Drwy ddefnyddio ein gwybodaeth a'n harbenigedd lleol, rydym wedi chwarae rolau sylweddol mewn partneriaethau ar draws y sector cyhoeddus, preifat, gwirfoddol a chymunedol i ymateb yn gyflym i effeithiau esblygol y pandemig. Ochr yn ochr â'n hymateb i'r pandemig, rydym wedi parhau i gydweithio i fynd i'r afael â rhai o'r materion cymhleth sy'n wynebu ein dinasyddion a'n cymunedau. Mae'r partneriaethau strategol hyn wedi ein galluogi i weithredu mewn ffordd fwy effeithiol ac effeithlon, gan sicrhau cynaliadwyedd gwasanaethau, sicrhau arbedion ariannol, cyfrannu at ein holl Amcanion Llesiant ac at les cyffredinol ein dinasyddion.

Yn ystod y flwyddyn, mae'r Cyngor wedi cyfrannu at nifer o fentrau gan gynnwys partneriaeth Arwyr y Fro gyda Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg i ddarparu cysylltiadau hanfodol rhwng y gymuned a grwpiau'r trydydd sector a gwasanaethau'r Cyngor i'n trigolion. Ar draws ardal Heddlu De Cymru, mae'r Cyngor wedi parhau i chwarae rhan weithredol yn y Fforwm Cadernid Lleol yn ystod y cyfnod ymateb i'r pandemig ac yn awr yn ystod y cyfnod adfer. Mae arweinydd Cynllunio At Argyfwng y Cyngor, Cydlynydd Fforwm Gwydnwch Lleol De Cymru (a gyflogir gan Gyngor Bro Morgannwg) a Rheolwr Gyfarwyddwr y Cyngor i gyd wedi bod yn rhan o'r camau ymateb ac adfer ac o ganlyniad maent wedi cyfarfod yn rheolaidd â swyddogion Llywodraeth Cymru i lywio ac adrodd yn ôl ar y sefyllfa ar lefel ranbarthol a chenedlaethol.

Mae Cynllun Ymateb a Rheoli'r Coronafeirws ar waith ar draws y rhanbarth sy'n cynnwys Tîm Rheoli Digwyddiadau (TRhD/*IMT*) yn cael ei gynnull bob pythefnos i adolygu'r epidemioleg ystadegol a disgrifiadol gyfredol ar draws y rhanbarth. Mae'r TRhD yn cynnwys y Bwrdd Iechyd, Iechyd y Cyhoedd, Awdurdodau Lleol, Tân ac Addysg Uwch sy'n adrodd i Grŵp Arweinyddiaeth Strategol. Rôl y mecanwaith hwn yw gwneud penderfyniadau lleol mewn ymateb i'r pandemig a gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru ar gyfer gweithredu lle mae hyn o fewn pwerau Gweinidogion.

Mae'r Cyngor hefyd yn parhau i gyfrannu at y trefniadau rhanbarthol ar gyfer Profi, Olrhain, Diogelu (POD/*TTP*) fel un o'r mecanweithiau mwyaf arwyddocaol sydd ar gael i atal y feirws rhag lledaenu. Mae'r trefniadau hyn yn dwyn ynghyd gydweithwyr o wahanol sefydliadau partner, gan gynnwys y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir, Iechyd y Cyhoedd, Adnoddau Dynol, Cyfathrebu a Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r Cyngor yn arwain y ffrwd waith gyfathrebu ar gyfer POD ar ran y bartneriaeth ac mae'r gwaith hwn wedi llywio'r cyfathrebu sy'n gysylltiedig â'r rhaglen frechu dorfol, gyda'r Cyngor yn gweithio ochr yn ochr â'r Bwrdd Iechyd Prifysgol i hyrwyddo pwysigrwydd brechu i drigolion ledled Bro Morgannwg.

Mae enghreifftiau pellach o'n partneriaethau presennol yn cynnwys Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Bro Morgannwg a sefydlwyd drwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac y mae'r Cyngor yn aelod statudol ohono. Drwy ei Gynllun Llesiant, bydd y BGC yn gwella lles economaidd, amgylcheddol, diwylliannol a chymdeithasol Bro Morgannwg. Yn yr un modd, mae mentrau'r Gronfa Gofal Integredig, y Grŵp Cydweithredol Rhanbarthol a Gwasanaeth Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru yn helpu i fodloni gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Sefydlwyd Consortiwm Canolbarth y De (CCD/*CSC*) yn 2012 ac mae'n Wasanaeth Addysg ar y Cyd ar gyfer pum awdurdod lleol. Ers ei sefydlu yn 2012 bu gwelliant da a chyson bob blwyddyn o ran canlyniadau dysgwyr ar bob lefel ac ym mhob awdurdod lleol sy'n rhan o'r Consortiwm. Gwyddom fod COVID-19 wedi cael effaith sylweddol ar draws y rhanbarth, ac mae hyn wedi gwaethygu rhai o'r heriau y mae ein plant a'n pobl ifanc yn eu hwynebu. Mae llawer o'n cymunedau'n wynebu heriau sylweddol sy'n gysylltiedig â thlodi; mae eraill ymhlith y rhai mwyaf llewyrchus yn y wlad. Drwy gydol y pandemig, mae ysgolion wedi gweithio'n ddiflino i ddarparu cyfleoedd addysgol i blant a phobl ifanc mewn amrywiaeth o ffyrdd. Wrth i ni ymgorffori ein gwersi o'r pandemig, byddwn yn parhau i weithio gyda'n gilydd i sicrhau bod y grym gan ysgolion i barhau i wella deilliannau i bob dysgwr.

Mae Partneriaeth Strategol Trais yn y Cartref yn bartneriaeth amlasiantaethol sy'n gyfrifol am ddatblygu ymateb strategol cadarn i atal a mynd i'r afael â thrais domestig ym Mro Morgannwg. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Gwasanaeth Cydlynu Asesu ac Atgyfeirio Cam-drin Domestig wedi derbyn a phrosesu 1204 o atgyfeiriadau HDC lle rhoddwyd caniatâd gan y dioddefwr. Gwnaeth y gwasanaeth 3143 o atgyfeiriadau er mwyn i'r dioddefwr dderbyn y gwasanaeth iawn ar yr adeg iawn, gan gyfrannu beri i ddioddefwyr deimlo'n fwy diogel a sicrhau canlyniadau gwell i ddioddefwyr a'u teuluoedd. Cafodd 435 o achosion eu cyfeirio at y Gynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg (MARAC) ar gyfer dioddefwyr risg uchel yn ystod yr un cyfnod. Roedd yr achosion hyn yn cynnwys 875 o blant. Mae system newydd o gyfarfodydd ddwywaith yr wythnos wedi'i rhoi ar waith lle trafodir achosion drwy alwad fideo ar-lein amlasiantaethol i alluogi achosion i gael eu trafod yn gyflymach a lleihau nifer yr achosion sy'n cael eu trafod yng nghyfarfodydd y MARAC bob pythefnos. Ers mis Medi, pan weithredwyd y system newydd hon, trafodwyd 225 o achosion ac aeth 74 ohonynt ymlaen i'w trafod yn MARAC, gan ddangos gwyriad o 67% o achosion i ffwrdd o MARAC. Er mwyn cefnogi dioddefwyr i aros yn eu cartref eu hunain, cafodd 95 o ddioddefwyr galedu targed (diogelu priodol) ar eu cartrefi er mwyn iddynt deimlo'n ddiogel a dwedodd 92% o ddioddefwyr a



gynigiodd adborth am y system galedu targed eu bod yn teimlo'n fwy diogel yn sgil y caledu targed a bod 95% yn hapus â'r gwasanaeth.

Mae llwyddiannau pellach yn cynnwys: gwaith y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol (grŵp clwstwr awdurdodau lleol) sy'n llywio polisi a chamau gweithredu i ddiwallu anghenion sgiliau a chyflogadwyedd y rhanbarth dros y tair blynedd nesaf; y Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir sydd wedi bod ar flaen y gad o ran gorfodi rheoliadau'r Coronafeirws ac wedi cynnal bron i 2,100 o ymweliadau â busnesau i wirio cydymffurfiaeth, secondio 28 o swyddogion i gefnogi'r fenter Profi, Olrhain a Diogelu a thrwy ei threfn arolygu sicrhau fod 97% o sefydliadau bwyd yn cydymffurfio'n fras â safonau hylendid; a Phrosiect Gwyrdd sydd wedi parhau i gefnogi gwaith y Cyngor i gyflawni ymrwymiadau 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff' Llywodraeth Cymru.

Rydym hefyd yn cydnabod pwysigrwydd a manteision hirdymor seilwaith hamdden cryf ar les dinasyddion ac wrth ddatblygu'r agenda honno. O ganlyniad, rydym wedi cefnogi ein darparwr, Legacy Leisure, drwy'r flwyddyn ddiwethaf ac rydym yn mabwysiadu ymagwedd sy'n canolbwyntio ar bartneriaeth wrth weithio i nodi'r hyn a fydd yn gweithio orau iddyn nhw ac, yn y tymor hir, ein cymunedau i ddatblygu ein blaenoriaethau. Drwy ein dysgu o'r pandemig, rydym yn mynd ag egni, pwrpas ac ymrwymiad o'r newydd tuag at weithio mewn partneriaeth gan adeiladu ar ein cyflawniadau diweddar wrth i ni symud tuag at adferiad a thu hwnt.

Gan edrych ymlaen at 2020/21 a'r tu hwnt i hynny, mae'r heriau ariannol ac economaidd sy'n wynebu'r Cyngor yn parhau, sef cyllid y sector cyhoeddus yn dal i leihau ar yr un pryd ag y mae newidiadau demograffig yn cynyddu'r galw am wasanaethau craidd y Cyngor. Law yn llaw â phwysau allweddol ar wasanaethau, bydd i ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd (UE) a phandemig byd-eang COVID-19 ddiwedd Mawrth 2020 oblygiadau sylweddol gan greu cyfnod ansicr o'n blaen. Yr hyn sy'n amlwg yw y bydd graddfa ac ehangder effeithiau COVID-19, ar y Cyngor a phob agwedd ar fywyd ein cymunedau, yn ogystal â'r heriau a fodolai cyn COVID-19, yn golygu y bydd ymdrechion i adfer ar ôl yr argyfwng yn unigryw o heriol. Mewn ymateb, mae'r Cyngor yn defnyddio'r gwersi a ddysgwyd o'i ymateb i'r argyfwng i lywio ei strategaeth adfer mewn nifer o ffyrdd; yn gyntaf, o ran parodrwydd am bandemig a rheoli argyfyngau ac yn ail, o ran cynnwys rhanddeiliaid allweddol a'n cymunedau er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i brif ffrydio'r arfer da a fabwysiadwyd yn ystod yr argyfwng. Gyda'n gilydd byddwn yn trawsnewid y ffordd y mae'r Cyngor yn gweithredu i sicrhau cymunedau cynaliadwy gyda dyfodol disglair ym Mro Morgannwg.

## 3.2 CYFLAWNIADAU

# Amcan 1: Gweithio gyda, a thros ein cymunedau

Mae 70% o'r staff yn parhau i weithio gartref, gan groesawu arferion gwaith digidol a dywedodd 91% o'n gweithlu ein y byddai'n well ganddynt gael cyfuniad o weithio gartref ac yn y swyddfa yn y dyfodol. Bydd y gostyngiad sylweddol mewn teithio, argraffu a defnyddio adeiladau yn cael effaith gadarnhaol ar leihau ein hallyriadau carbon a bydd felly'n cyfrannu at flaenoriaethau Prosiect Sero.

Parhau i ymgysylltu â'n cymuned drwy Gyswllt UnFro. Yn ystod 2020/21, cynyddodd tanysgrifwyr Cyswllt UnFro gan 16,960 (27%) a'r tanysgrifiadau gan 48,000.Mae ein cyfradd ymgysylltu ar gyfer bwletinau yn dal yn uchel yn 69%.

**Mae gennym welliannau cyflymach yn ein cyfraddau defnyddio technoleg ddigidol i ddatblygu gwasanaethau ar-lein ac ymgysylltu â phreswylwyr a defnyddwyr gwasanaethau. Mae'r gwaith hwn wedi llywio modelau gweithredu gwasanaethau yn y dyfodol. Er gwaethaf y galw cynyddol am wasanaethau, datryswyd 86% o ymholiadau'r cwsmeriaid i Cyswllt Un Fro ar y cyswllt cyntaf a datryswyd 95% o'r galwadau i ddesg gymorth TGCh o fewn yr amserlenni cytunedig.**



Erbyn 19 Ebrill, roedd 3,239 o bobl ifanc 14-17 oed wedi cofrestru i bleidleisio am y tro cyntaf ym Mro Morgannwg, roedd 1,969 ohonynt yn 16 ac 17 oed ac felly'n gymwys i bleidleisio yn etholiad y Senedd ar 6 Mai 2020 ac yn yr etholiad sydd i ddod ym mis Mai 2021.

Mewn partneriaeth ag ysgolion i gyflawni gwelliannau yn unol ag Agenda Ddigidol Addysg Llywodraeth Cymru. Yn ystod y flwyddyn mae 49 o ysgolion wedi'u hail-geblu gyda chebl rhwydwaith Cat6 i wella cysylltiad ac effeithlonrwydd y rhwydwaith. Mae gweinyddwyr hefyd wedi'u gosod ar gyfer ysgolion uwchradd perthnasol a 38 o weinyddwyr ar gyfer ysgolion cynradd. Rydym hefyd wedi darparu 6,500 o ddyfeisiau i ddisgyblion ac athrawon ar draws y sir i gefnogi dysgu.

Mae'r Arolwg Barn Gyhoeddus diweddaraf a gynhaliwyd yn

2019/20 yn dangos bod 87% o'r cwsmeriaid yn fodlon ar y gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor. Mae hyn yn gadarnhaol o ystyried y cyd-destun, sef cyllid sydd wedi ei leihau'n sylweddol a galw cynyddol am wasanaethau'r Cyngor.

Ym mis Ionawr 2021, roedd 41 o staff wedi cofrestru ar y cwrs croeso Cymraeg a oedd ar gael ar-lein i bob aelod o staff gyda modiwl pwrpasol i staff y Gwasanaethau Cymdeithasol mewn ymateb i'r Fframwaith Mwy Na Geiriau. Rydym hefyd wedi parhau i ddarparu ystod o wasanaethau ieuenctid lleol yn y Gymraeg i bobl if[...] Gefnogi eu llesiant.




O dan y Cyfamod y Lluoedd Arfog cynorthwyom 12 o bobl mewn perthynas â hawliadau Budd-dal Tai (8 achos) a Gostyngiad y Dreth Gyngor (10 achos) a chynorthwyo 6 teulu o Bersonél y Lluoedd Arfog drwy eu cofrestru gyda Homes4U a rhoi mynediad iddynt i dai cymdeithasol.

Mae defnydd cost-effeithiol o driniaethau arwyneb micro asffalt a blaenoriaethu Targedig ar gyfer ffyrdd y mae angen ymyrraeth benodol arnynt (gyda gwaith cynnal a chadw wedi'i gynllunio i atal unrhyw ddirywiad) wedi arwain at ostyngiad sylweddol yng nghanran y ffyrdd A a C nad ydynt yn briffyrdd a oedd gynt mewn cyflwr gwael. Yn 2020/21, dim ond 5.1% o ffyrdd A oedd mewn cyflwr gwael o gymharu â 6% y llynedd a dim ond 8.1% o ffyrdd C oedd mewn cyflwr



Mae gwaith wedi parhau i wella rhagolygon cyflogaeth pobl ifanc. Crëwyd 30 cyfle lleoliad gwaith ar gyfer pobl 18-24 oed gyda 30 o gyfleoedd eraill yn cael eu hysbysebu hyd yma. Darparwyd 20 rôl prentisiaeth hefyd.



Bu gostyngiad sylweddol yn lefelau absenoldeb staff ar draws pob cyfarwyddiaeth yn y cyngor yn ystod 2020/2021. Mae'r cyfraddau'n dangos gostyngiad o golli 10.51 fesul swydd gyfwerth ag amser llawn yn 2019/20 i 8.59 diwrnod fesul CALl yn 2020/21.

Sefydlwyd Big Fresh Catering Company (yn 2019) i fod yn weithrediad masnachol sy'n hunan gynnal, yn darparu prydau maethlon ar gyfer disgyblion ysgol y Fro heb ddibynnu ar gymhorthdal gan y Cyngor.

Yn ystod 2021 cymeron nhw awenau'r caffi ym Mhier Penarth a ganiataodd iddynt gyfrannu at gynnal a chadw'r Pafiliwn, ond hefyd bu o fudd uniongyrchol i ddisgyblion gan y bydd yr holl warged a gynhyrchir yn mynd tuag at greu cinio ysgol iach o'r safon orau.

Ymgysylltom yn llwyddiannus â rhanddeiliaid allweddol ar-lein ynghylch mentrau gan gynnwys Strategaeth Hygyrchedd sydd wedi cyfrannu gwybodaeth ar gyfer ein rhaglen adnewyddu asedau, mae cynnig celf gyhoeddus yn Paget Road, Penarth yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd, yn ogystal â diogelu'r ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol at y dyfodol.

Cynhaliwyd yr etholiadau cyfunol ar gyfer y Senedd a Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu ddydd Iau 6 Mai 2021 gyda nifer pleidleiswyr lwyddiannus, sef 54.4%. Roedd 78 o orsafoedd pleidleisio wedi'u gosod o amgylch Bro Morgannwg a chyflogwyd 214 o bobl i sicrhau bod etholwyr yn cael eu cadw'n ddiogel yn ystod pandemig Covid-19.Cafodd Etholaeth Bro Morgannwg gyfanswm o 43,068 o bleidleisiau a chynhaliwyd y gwiriadau dros 3 diwrnod mewn 2 wahanol leoliad i sicrhau y cydymffurfid â'r rheolau ymbellhau cymdeithasol.

Yn ystod 2019/20, dywedodd mwyafrif trigolion y Fro eu bod yn teimlo'n ddiogel iawn neu'n weddol ddiogel gartref (98%), yn cerdded yn eu hardal leol (96%) ac yn teithio gyda thrafnidiaeth gyhoeddus (97%). Roedd y perfformiad hwn yn adlewyrchu canlyniadau'r arolwg blaenorol yn 2016/17. Diogelwch wrth gerdded yn yr ardal leol.

Mae bron i 40 o Hyrwyddwyr Llesiant staff wedi cael hyfforddiant a ddarperid gan Amser Newid Cymru. Gan weithio gyda'i gilydd maent wedi lansio tudalennau "Eich Lles" ar StaffNet Plus, cefnogi a chyfeirio cydweithwyr a chyflawni a hyrwyddo mentrau llesiant drwy gydol y flwyddyn.

Mae trosiant staff gwirfoddol ar gyfer 2020/2021 yn 5.35%, sy'n sylweddol is na'r 8.9% a adroddwyd yn 2019/2020.



**Er gwaethaf y cyfyngiadau, rydym wedi parhau i ddarparu gwasanaethau ieuenctid lleol i bobl ifanc 11-25 oed sy'n cefnogi eu llesiant drwy sesiynau a gweithdai clybiau ieuenctid ar-lein. Parhaodd y Rhaglen Ymgysylltu â Phobl Ifanc i gynnig eu rhaglen ABCh yn ddigidol ac yna ailgychwynnont y sesiynau wyneb yn wyneb pan ganiataodd y cyfyngiadau hynny. Mae cynlluniau fel Ysbrydoli i Gyflawni ac Ysbrydoli i Weithio hefyd wedi cefnogi pobl yn ddigidol ac wedi darparu pecynnau llesiant a gweithgareddau ar draws y sir.**

## 3.3 HERIAU

Mae nifer o heriau wedi'u cyflwyno o ganlyniad uniongyrchol i'r pandemig ac mewn achosion eraill roedd llawer yn heriau a oedd yn bodoli eisoes sydd wedi'u gwaethygu ymhellach gan COVID-19. Er bod ansicrwydd parhaus y pandemig yn dal i fodoli, cafwyd cyfleoedd i ddysgu o'r profiad i archwilio a sefydlu ffyrdd newydd o weithio a fydd yn ein galluogi i drawsnewid ein gwasanaethau yn y dyfodol. Gan ein bod yn debygol o orfod dysgu byw gyda COVID-19 am flynyddoedd lawer i ddod, y brif her fydd sicrhau y gallwn ddiogelu ein gwasanaethau yn y dyfodol rhag unrhyw effeithiau negyddol neu darfu ar ddarparu gwasanaethau. Wrth i ni bontio o'n hymateb brys i adfer, mae'n rhoi cyfle unigryw i ni ddatblygu ein dealltwriaeth o'r heriau sydd o'n blaenau a sut fel Cyngor rydym yn bwriadu addasu, esblygu a newid ein hymateb dros amser.

---

Mae **Strategaeth Ddigidol** y Cyngor yn nodi sut y bydd technoleg yn cefnogi ac yn galluogi'r Cyngor i dyfu a datblygu yn y blynyddoedd i ddod. Her allweddol yn y maes hwn yw **cyflymdra datblygiadau technoleg newydd sy'n tynnu sylw at yr angen i ail ymweld yn barhaus â'r defnydd busnes o dechnoleg ar draws y Cyngor er mwyn manteisio i'r eithaf ar ein cyfleoedd i wella effeithlonrwydd a hygyrchedd gwasanaethau i ddinasyddion y Fro.** Mae technoleg newydd yn newid anghenion y gweithlu ac yn cyflwyno heriau o ran y sgiliau sydd eu hangen i gefnogi a defnyddio'r dechnoleg i'r eithaf. Mae'r angen i ddatblygu achosion busnes ariannol cadarn yn her y bydd y Cyngor yn parhau i weithio i ymateb iddi. Bydd ein pwyslais parhaus ar ymagwedd 'un cyngor' drwy'r Strategaeth Ddigidol yn canolbwyntio ar greu profiad didrafferth i ddinasyddion y Fro wrth ddefnyddio gwasanaethau'r Cyngor, datblygu ffyrdd mwy effeithlon o weithio a cheisio lleihau costau yn gyffredinol. Bydd defnyddio mecanweithiau ymgysylltu, megis y sesiynau datblygu rheolwyr, ein fframweithiau cymhwysedd craidd i reolwyr a gweithwyr a'n cynllun arfarnu a datblygu staff, yn allweddol i sicrhau bod y sgiliau sydd eu hangen gan y sefydliad i wneud y defnydd gorau o dechnoleg. Bydd y Strategaeth Ddigidol yn cael ei hadnewyddu yn 2021/22.

---

Mae sicrhau cynhwysiant digidol yn broses ychwanegol sydd hefyd yn gofyn i staff gael yr hyfforddiant a datblygu'r sgiliau sydd eu hangen i gefnogi cwsmeriaid. Mae cynhwysiant digidol yn sail i Strategaeth Ddigidol y Cyngor ac yn dylanwadu ar y ffordd y mae'n cynllunio ac yn darparu gwasanaethau ac yn rhoi'r sgiliau a'r seilwaith i gwsmeriaid er mwyn iddynt ddefnyddio'r gwasanaethau hynny. Hefyd, mae dull cydlynol o newid sianelau yn allweddol i helpu i sicrhau arbedion effeithlonrwydd tra'n rhoi cymorth wedi'i dargedu drwy'r dulliau mwyaf priodol hefyd. Er bod cynnydd cadarnhaol wedi'i wneud, rydym yn cydnabod **bod mwy i'w wneud o hyd i wella hunangynhaliaeth ar-lein i gyfran o drigolion y Fro** ac yn allweddol i hyn fydd sicrhau ein bod yn gweithio'n effeithiol gyda'n partneriaid i rannu gwybodaeth ac adnoddau i fanteisio i'r eithaf ar ein cyfleoedd i wella effeithlonrwydd a hygyrchedd gwasanaethau i holl ddinasyddion y Fro.

Rydym yn cydnabod bod llawer o'n gwasanaethau wedi gorfod addasu a newid yn gyflym mewn ymateb i'r pandemig sydd wedi arwain at ddarparu llawer o'n gwasanaethau ar-lein, ac wrth i ni barhau i symud tuag at ddefnyddio mwy o dechnoleg ddigidol mae **risg o allgáu digidol ac anghydraddoldeb**. I lawer o ddinasyddion, mae defnyddio gwasanaethau digidol yn fwy cyfleus. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol o'r anfanteision posibl i'n dinasyddion mwyaf agored i niwed a difreintiedig nad ydynt yn gallu gwe-lywio gwasanaethau ar-lein. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'n dinasyddion i sicrhau bod modd defnyddio'n holl wasanaethau'n gyfartal.

---

Mae'r pandemig COVID-19 wedi golygu y bu cynnydd sydyn mewn gweithio o bell a allai sicrhau arbedion cost i'r Cyngor. Fodd bynnag, mae'r newid cyflym hwn yn golygu y bydd angen ystyried lliniaru **effeithiau'r cynnydd mewn gweithio o bell ar les staff y cyngor**, yn enwedig o ran cydbwysedd bywyd a gwaith a iechyd meddwl.

Rydym hefyd yn cydnabod y gallai presenoliaeth effeithio cynhyrchiant staff ac y bydd angen i Reolwyr Llinell fod â'r sgiliau sydd eu hangen i gefnogi staff.

Ein gweithlu yw ein hased fwyaf. I ddechrau roedd yr her yn canolbwyntio ar sut y gallem gadw ein gweithwyr rheng flaen allweddol yn ddiogel tra'n parhau i weithredu ein gwasanaethau hanfodol. Wrth i ni symud o argyfwng tuag at adferiad ac wrth i fwy o'n gweithrediadau ddechrau ailgychwyn, yr her fydd penderfynu sut y gallwn **reoli'r broses o ddychwelyd staff nad ydyn nhw'n gallu ymgymryd â'u dyletswyddau gartref i'r gweithle yn ddiogel.** Rydym yn rhagweld dull cyfunol o weithio o gartref ac yn y swyddfa, ond rydym hefyd yn cydnabod bod y profiad wedi bod yn heriol i rai aelodau staff gan eu bod wedi gorfod cydbwyso gofynion gwaith ag addysgu gartref a/neu gyfrifoldebau gofalu eraill. Wrth symud yn ein blaen bydd angen i ni ystyried yr **effaith gymdeithasol y mae'r argyfwng hwn wedi'i gael ar ein staff a sut y gallwn barhau i forol am a chysylltu â'n gweithlu, tra'n cefnogi eu hiechyd meddwl a'u lles**.

Fel y rhan fwyaf o awdurdodau lleol eraill yn y Deyrnas Gyfunol, mae'r Fro yn wynebu **adnoddau cyfyngedig a galw cynyddol am y rhan fwyaf o'i gwasanaethau** a bydd angen iddi ddod o hyd i'r ffyrdd mwyaf effeithlon o weithio tra'n cydymffurfio â gofynion statudol a disgwyliadau cynyddol ei dinasyddion a'i chymunedau. Mewn ymateb i'r heriau hyn, rydym yn parhau i weithio gyda'n partneriaid, ein trigolion a'n cymunedau i sicrhau ein bod yn gallu ymateb i'r heriau hyn heb beryglu ansawdd y gwasanaethau a ddarparwn neu a gomisiynwn.

Bydd y pandemig diweddar yn profi sut rydym yn gweithredu ein gwasanaethau nawr ac yn y dyfodol, felly mae'r sefyllfa unigryw hon yn rhoi cyfle inni edrych tuag at ffyrdd newydd o weithio a darparu'r gwasanaethau sydd bwysicaf i'n dinasyddion. Yr her wrth symud ymlaen yw sut rydym yn **cynnwys ein gweithlu a'n dinasyddion ac ymgysylltu â nhw i lunio'r newidiadau hyn i drawsnewid ein gwasanaethau, fel y byddant yn gynaliadwy yn y dyfodol.** Mae maint y trawsnewidiad sydd ei angen ond yn bosibl gyda help a chymorth ein gweithlu, y dinasyddion a'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

Bydd y pandemig COVID-19 diweddar yn cael effaith ddofn ar y galw am ein gwasanaethau nawr ac yn y dyfodol. **Bydd cynnal a gwella lefelau gwasanaethau a'u perfformiad tra'n rheoli'r galw am wasanaethau ar adeg pan nad oes digon o adnoddau yn dod yn fwyfwy heriol**. O ganlyniad i'r pandemig rydym yn rhagweld y bydd mwy o anghydraddoldebau iechyd ac economaidd a mwy o angen am gymorth argyfwng i deuluoedd, mwy o alw am Wasanaethau Iechyd Meddwl yn ogystal â galw cynyddol am ofal a chymorth i'r rhai sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth. Rhagwelwn y bydd effaith COVID-19 yn cael ei theimlo'n anghymesur gan y rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas.

**Mae disgwyl i'n sefyllfa ariannol fynd yn fwy heriol fyth o ystyried yr effeithiau sy'n dod i'r amlwg sy'n deillio o'r pandemig COVID-19 diweddar.** Fel pob awdurdod lleol ar hyd a lled y wlad, mae'r Fro wedi bod ar flaen y gad yn yr ymateb i'r pandemig coronafeirws sydd wedi rhoi pwysau aruthrol ar ei gyllid. Fu cefnogi cymunedau a chadw gwasanaethau hanfodol ar waith erioed yn fwy pwysig ond mae hyn wedi arwain at gynnydd uchel yn y galw a gwariant angenrheidiol nas rhagwelwyd i'r Cyngor. Ar yr un pryd, fodd bynnag, rydym yn wynebu gostyngiadau sylweddol ac uniongyrchol mewn incwm sy'n debygol o effeithio ar ein gallu i fodloni cyllideb gytûn 2021/22. Mae'r pecynnau cymorth ariannol brys a roddwyd gan San Steffan a Llywodraeth Cymru i helpu awdurdodau lleol i ymateb wedi'u croesawu. Fodd bynnag, mae'r cymorth hwn yn debygol o fod ar gael am amser byr yn unig, gan gyfrannu o bosibl at **gynnydd sylweddol yn y diffyg ariannol ac effeithio ar wydnwch ariannol y Cyngor.**

Mae gallu'r Cyngor i gyflawni ei **Raglen Ail-lunio** yn parhau'n her ddi-ildio o ystyried y cyfnod parhaus o gynni a'r galw cynyddol am wasanaethau ar draws y rhan fwyaf o wasanaethau'r Cyngor. Mae effaith ddigynsail y pandemig COVID-19 diweddar yn **gyfle i'r Cyngor adolygu'n sylfaenol y ffordd y mae'n gweithredu a sicrhau**

**synergedd rhwng ei strategaeth adfer a thrawsnewid y sefydliad yn y tymor hwy.** Bydd hyn yn sicrhau bod y camau a gymerir yn gyson ac wedi'u hintegreiddio yn unol â gweledigaeth y Cyngor o Gymunedau Cryf â Dyfodol Disglair.

---

Mae'r gwaith o ran gwneud y gorau o gyfleoedd i **gynhyrchu incwm** a **masnacheiddio** yn mynd rhagddo fel rhan o'r Rhaglen Ail-lunio. Mae cryn dipyn o waith yn cael ei wneud i ddatblygu'r maes hwn sy'n gymharol newydd i'r Cyngor.

---

Bydd cynigion datblygol Llywodraeth Cymru ym maes **Diwygio Llywodraeth Leol** yn parhau'n faes gweithgarwch allweddol, ac yn effeithio ar wasanaethau'r Cyngor yn benodol wrth nodi ac ymroi i unrhyw weithgarwch cydweithio a fydd o fudd i'r Cyngor yn yr hirdymor. O ystyried yr hinsawdd economaidd bresennol o adnoddau cyfyngedig, galwadau sy'n cynyddu ar wasanaethau a disgwyliadau cymunedol cymhleth, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddatblygu cydweithrediadau a phartneriaethau strategol newydd fel ymateb allweddol i'r heriau hyn.

## 3.4 SBOTOLAU AR: CYNHWYSIANT DIGIDOL

Mae'r pandemig wedi cyflymu ein hymchwil a'n buddsoddiad **i'r defnydd hirdymor o atebion digidol** i wella'r gwasanaethau a ddarperir, yr ymatebolrwydd, y tlodi a llesiant. Gyda'r cyfnod cloi a mesurau cadw pellter cymdeithasol ar waith yn genedlaethol, ehangodd y Cyngor ei seilwaith TGCh a'i uwchraddio yn gyflym i alluogi staff i weithio o bell, sicrhau parhad gwasanaethau a chysylltu â phobl ar-lein lle'r oedd yn briodol gwneud hynny.




Ar ddechrau'r pandemig, ysgolion oedd y cyntaf i gau ac roeddem yn pryderu nad oedd gan rai plant fynediad at ddyfeisiau digidol na Wi-Fi i'w galluogi i barhau i ddysgu gartref. Mae cynhwysiant digidol yn elfen allweddol o Strategaeth Ddigidol y Cyngor felly aethom ati ar unwaith i ddarparu gliniaduron, tabledi a dyfeisiau Wi-fi i'r rhai mewn angen. **Gan weithio ar y cyd** gyda Gwasanaeth Ambiwlans Cymru ac A & LH Environmental Services Ltd fe lwyddon ni hefyd i sicrhau 107 o liniaduron ail-law wedi'u hadnewyddu ar gyfer ein hysgolion. Nid yn unig y mae'r cynllun hwn wedi bod o fudd i'n dysgwyr, ond mae'n dystiolaeth o'n **cydwybod amgylcheddol. Mae gallu ailddefnyddio offer yn hytrach na'i ailgylchu yn gam bach ond cadarnhaol tuag at leihau ein heffaith amgylcheddol** a chyflawni ein nodau o dan ymbarél **Prosiect Sero.**

Yn ystod y flwyddyn fe wnaethom barhau i **"fuddsoddi yn ein hysgolion i ddarparu'r amgylchedd dysgu cywir ar gyfer yr 21ain ganrif"** gan ategu ein Rhaglen Ysgolion y 21ain Ganrif fydd yn gweld dros £135 miliwn yn cael ei fuddsoddi mewn ysgolion ledled y Fro rhwng Ebrill 2019 a Mawrth 2024. I **gefnogi cynhwysiant digidol,** gwnaethom fuddsoddi mewn gwelliannau i seilwaith rhwydwaith yn unol ag agenda Addysg Ddigidol Llywodraeth Cymru ac rydym bellach wedi darparu **dros 6,500 o ddyfeisiau disgyblion ac athrawon** i gefnogi dysgu o bell. Rydym hefyd wedi gwella cysylltiadau rhwydwaith mewn **49 o'n hysgolion drwy ail-geblu a gosod dyfeisiau di-wifr yn ogystal â gweinyddion gosodedig ym mhob ysgol uwchradd berthnasol ynghyd â 38 o ysgolion cynradd** i sicrhau eu bod yn addas ar gyfer y dyfodol.

Roeddem hefyd yn gyflym i addasu ein cyrsiau ar gyfer ein dysgwyr sy'n oedolion. Er enghraifft Addaswyd 32 o gyrsiau Cymraeg i oedolion (a ddarperir gan Dysgu Cymraeg ac athrawon y Cyngor) o wersi ystafell ddosbarth i

fformat Zoom, gan ganiatáu i oedolion barhau i ddysgu gartref. Er bod pobl wedi'u cyfyngu i'w cartrefi ac yn methu â chymdeithasu wyneb yn wyneb, roedd y sesiynau hyn yn rhoi cyfle i ddysgwyr sgwrsio a chymdeithasu hefyd. Mae adborth wedi dangos bod y cam hwn wedi bod o fudd cadarnhaol i iechyd meddwl a lles ein dysgwyr, gan **atal teimladau o unigrwydd ac arwahanrwydd cymdeithasol** yn ystod y pandemig.

Ar ddechrau'r achos rydym hefyd yn **buddsoddi £100,000 yn ein gwasanaethau llyfrgell** fel y gallent ehangu gwasanaethau ar-lein a chynnig dosbarthiadau digidol i'n dinasyddion. Mae'r buddsoddiad wedi ein galluogi i gynyddu nifer y cylchgronau digidol ac e-gomics; cynnig tanysgrifiad am ddim i Ancestry.com; cynnig grwpiau a fforymau darllen ar-lein; cyflwyno sesiynau Rhigwm ac Arwyddo ac amser stori dwyieithog yn ddigidol a chynnal gweithdai Lego i blant.

Yn ystod y flwyddyn rydym wedi parhau i archwilio cyfleoedd i wneud y defnydd gorau o'n llwyfannau digidol a **gwella ein hymgysylltiad â chwsmeriaid at ddibenion cyfathrebu** i alluogi mynediad i wasanaethau allweddol y Cyngor. Er enghraifft, yn ystod y cyfnod clo, fe gyflwynon ni Office 365 a Teams i hyrwyddo gweithio cynaliadwy ac ystwyth ar draws y Cyngor; cyflwyno sianel You Tube i gefnogi pobl ag anableddau dysgu dwys a lluosog i gyflawni eu canlyniadau personol; darparu gwasanaethau allgymorth gwerthfawr iawn ar gyfer Gorwelion Newydd a Thŷ Rondel ochr yn ochr â rhaglen o weithgareddau digidol; mwy o osodiadau teleofal i gefnogi pobl sy'n agored i niwed i fyw'n ddiogel ac yn annibynnol; sefydlu a hyrwyddo porth ar-lein sy'n galluogi cwsmeriaid SRS i ryngweithio a chael mynediad at wasanaethau'n ddigidol; gwella ein gwasanaeth teledu cylch cyfyng mewn modd cadarnhaol gan leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol ac achosion o dorri rheolau COVID-19 mewn ardaloedd lle ceir problemau ledled y Fro; cynnal asesiadau ac ymyriadau statudol yn ddigidol er mwyn sicrhau parhad gofal; a chefnogi defnyddwyr y Gwasanaeth Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff drwy amrywiaeth o weithgareddau rhithwir byw er mwyn helpu **"annog pobl o bob oed i gael patrymau byw actif ac iach i hyrwyddo gwell lles corfforol a meddyliol".**

Yn fwy diweddar rydym wedi lansio Wi-fi am ddim ar draws y sir gan gynnig gwasanaeth cyflymach o 400Mbps, o'i gymharu â'r uchafswm band blaenorol o 56 Mbps. Gellir manteisio arno yn ein holl adeiladau, 25 o boethfannau sy’n cynyddu, ac mae'n **gam arall tuag at gynhwysiant digidol**.

Wrth i ni symud ymlaen ac wrth i'r byd digidol ddod yn norm, rydym yn cydnabod yr heriau sy'n gysylltiedig â chynhwysiant digidol yn enwedig i'n dinasyddion mwyaf agored i niwed. Gyda hyn mewn golwg, **rydym yn mabwysiadu dull integredig drwy gynnwys** a gweithio gyda chydweithwyr yn y gwasanaethau i oedolion, gwasanaethau ieuenctid a thai yn ogystal â sefydliadau fel Cymunedau Digidol Cymru, Cymdeithas Dai Newydd a'r Fforwm Pobl Hŷn i adnewyddu ein hymgyrch Cael y Fro Ar-lein (CYFA). Mae mynd i'r afael â'r mater hwn mewn ffordd integredig yn ein galluogi i wneud y mwyaf o'n hadnoddau a chyfrannu at Amcanion Llesiant eraill y Cyngor megis '**i weithio gyda'n cymunedau ac ar eu rhan'** ac **'i gefnogi dysgu, cyflogaeth a thwf economaidd cynaliadwy'.**

Gan weithio’n **gydweithredol**, rydym yn adnewyddu ein tudalen we CYFA ac yn dwyn ynghyd **"siop un stop" ar gyfer cynhwysiant digidol yn y Fro** a fydd yn caniatáu i ddinasyddion weld lle gallant gael gafael ar ddyfeisiau i'w benthyca neu am ddim a lle gallant gael cymorth i ddefnyddio dyfeisiau a gwasanaethau digidol. Rydym hefyd yn ail-lansio ein menter Hyrwyddwyr Digidol.

**Gan gydweithio â'n cymunedau, ein rhanddeiliaid a’n partneriaid a’u cynnwys** nhw yn ein penderfyniadau, rydym yn hyderus y gallwn barhau i ddarparu cymorth a mynediad at wasanaethau digidol ar-lein. Bydd ein mentrau cyfunol a'n buddsoddiad sylweddol yn y maes hwn hefyd yn cael **effaith ataliol hirdymor** gan sicrhau bod ein gwasanaethau'n fwy cynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Wrth i ni ddarparu'r cymorth a'r dechnoleg i gael pobl ar-lein a'u gwneud yn fwy ymwybodol yn ddigidol, rydym hefyd yn galluogi dinasyddion i gael mynediad at

ffynonellau cyflogaeth ac addysg tra'n helpu i fynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol a'r agenda tlodi drwy sicrhau bod gan ddinasyddion fynediad i'r cyfraddau gorau ar gyfer cyfleustodau, benthyca a gwasanaethau eraill.

# 4.0 AMCAN LLESIANT 2: CEFNOGI DYSGU, CYFLOGAETH A THWF ECONOMAIDD CYNALIADWY

**Ein statws perfformiad cyffredinol ar gyfer yr Amcan Llesiant hwn yw MELYN**

## 4.1 DATGANIAD SEFYLLFA

Cydnabyddir yn gyffredinol bod rhoi addysg a’r cyfle i ddatblygu’r set gywir o sgiliau i bobl ar gyfer eu dyfodol yn ffactor arwyddocaol o ran eu canlyniadau bywyd gan gynnwys iechyd, sefyllfa economaidd-gymdeithasol a disgwyliad oes yn ogystal â lles cyffredinol. Yn yr un modd, mae cael gweithlu medrus iawn yn ffactor pwysig wrth bennu twf busnes a thwf economaidd, gan y daw ein heconomi yn fwy cynhyrchiol wrth i gyfran y gweithwyr addysgedig a medrus gynyddu. O ganlyniad, mae sicrhau y gall pob dinesydd gyrchu cyfleoedd gydol oes er mwyn datblygu ei sgiliau a’u gallu yn hanfodol i sicrhau ffyniant Bro Morgannwg yn y dyfodol ac i gyflawni’r amcan hwn a’n tri Amcan Llesiant arall.

Mae’r newidiadau rydym wedi'u profi ers dechrau pandemig COVID-19 gyda rhai o’r mwyaf annisgwyl a dwys a welwyd ers yr Ail Ryfel Byd. Yn ogystal â heriau iechyd cyhoeddus enbydus, mae'r Cyngor wedi gorfod ymateb i newidiadau economaidd a chymdeithasol enfawr o ganlyniad i gadw pellter cymdeithasol a pholisïau eraill sy’n ceisio lleihau drosglwyddiad COVID-19. Mae hyn wedi cynnwys cefnogi busnesau drwy'r cynllun ffyrlo, gorfodi cau busnesau nad ydynt yn rai hanfodol, a rhoi'r gorau i addysgu wyneb yn wyneb ym mhob un o'n lleoliadau addysg ar gyfer y rhan fwyaf o blant a phobl ifanc rhwng mis Mawrth a mis Medi 2020, ac eto yn gynnar yn 2021. Oherwydd y pandemig, bu newid sylweddol ym mywydau beunyddiol pobl gyda niferoedd sylweddol yn gweithio o bell o gartref yn hytrach nag mewn swyddfa ac mae siopa wedi'i wneud fwyfwy ar-lein yn hytrach nag yn ein siopau manwerthu a chanol ein trefi. Mae dull cyfunol, hynny yw, cyfuniad o ddysgu digidol (anghysbell) ac wyneb yn wyneb yn prysur ddod yn norm i'n plant a'n pobl ifanc. Mae'r un peth yn wir o ran mynediad i'n gwasanaethau mewn lleoliadau sydd yn draddodiadol wedi dibynnu ar nifer yr ymwelwyr a chyswllt wyneb yn wyneb, er enghraifft, canolfannau hamdden, lleoliadau twristiaeth, y celfyddydau, digwyddiadau a'r celfyddydau perfformio. Er bod y digideiddio ar garlam hwn wedi bod yn gadarnhaol o ran lleihau ein heffaith ar yr amgylchedd a chynnig hyblygrwydd o ran sut rydym yn gweithio, mae wedi cael effaith andwyol ar ein cymunedau ac economïau canol trefi. Rhagwelwn hefyd y bydd tynnu nôl ar y cymorth ariannol a roddwyd gan y llywodraeth yn ystod y pandemig yn debygol o arwain at gynnydd pellach mewn diweithdra, gan effeithio'hyd yn oed yn fwy ar ein heconomi leol. Yn gyffredinol, bydd effaith y pandemig yn gwaethygu anghydraddoldebau sy'n bodoli eisoes o ran cael mynediad i addysg, hyfforddiant a chyflogaeth a fydd yn ei dro yn effeithio'n negyddol ar iechyd a lles meddyliol a ffyniant ein dinasyddion, yn enwedig grwpiau sy'n agored i niwed. Gan ddod ar gefn dros ddegawd o lymder i wasanaethau cyhoeddus a rhewi ar gyflogau, mae hyn yn creu heriau sylweddol i'n hadferiad a'n twf economaidd. Bydd mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau hyn drwy ein strategaeth a'n cynlluniau adfer yn gofyn am fuddsoddiad a chydweithrediad parhaus ar draws pob sector, gan adeiladu ar y brwdfrydedd presennol i weithio'n wahanol ac yn greadigol i ymateb i'n heriau sylweddol.



Er gwaethaf heriau sylweddol y flwyddyn, rydym wedi penderfynu ein bod, ar y cyfan, wedi gwneud cynnydd cadarnhaol o ran cyflawni ymrwymiadau'r Cynllun Cyflawni Blynyddol sy'n cyfrannu at Amcan Llesiant 2 ar gyfer y cyfnod 2020/21. Mae hyn wedi cyfrannu at statws **Melyn** ar gyfer yr amcan ar ddiwedd y flwyddyn. Mae 61% (25 o 41) o weithgareddau a gynlluniwyd wedi'u cyflawni'n llwyddiannus. Ar draws yr amcan, aseiniwyd statws coch i gamau gweithredu er mwyn adlewyrchu llithriant ac roedd hyn i gyfrif am ychydig o dan 39% (16) o’r holl weithgareddau a gynlluniwyd ar gyfer 2020/21. O'r 16 o gamau gweithredu sy’n cyfrannu at yr Amcan Llesiant, a gafodd statws perfformiad Coch, roedd 14 (88%) yn uniongyrchol o ganlyniad i fesurau ailflaenoriaethu

gwasanaethau a wnaed mewn ymateb i effaith y pandemig COVID-19 parhaus. Mae gwaith o ran y meysydd hyn yn parhau'n flaenoriaeth a chawsant eu cario ymlaen o fewn Cynlluniau Gwasanaeth priodol ar gyfer 2021/22.

Priodolwyd statws Gwyrdd i 48% (10/21) o ddangosyddion perfformiad a oedd yn cyd-fynd ag Amcan Llesiant 2, a phriodolwyd statws Melyn i **3% (14)** a statws Coch i 38% (8). O ran y 4 mesur y priodolwyd statws Coch iddynt, roedd effaith COVID-19 wedi effeithio ar 4 sydd wedi cyfrannu at golli targedau a gytunwyd.

Am y rhan fwyaf o'r llynedd, fel blaenoriaeth hanfodol, rydym wedi canolbwyntio ar hanfodion cadw ysgolion ar agor mewn ffordd ddiogel a chefnogi addysg gartref ar gyfer y rhan fwyaf o'n dysgwyr. Ar yr un pryd, rydym hefyd wedi cydweithio i sicrhau ein bod yn gwbl barod i ymateb i'r heriau o addysgu ein dysgwyr gartref am gyfnodau byr neu hir pe bai'r angen yn codi yn y dyfodol o ystyried ansicrwydd datblygiad pandemig COVID-19. Gan edrych i'r dyfodol, bydd y cymorth sydd ei angen i sicrhau bod ein dysgwyr yn trosglwyddo'n llwyddiannus i fywyd yr ysgol, yn ymgysylltu ac yn 'dal i fyny' ar ddysgu a gollwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn hollbwysig er mwyn cyflawni deilliannau addysgol cryf a lleihau'r bylchau dysgu rhwng gwahanol grwpiau o'n plant a'n pobl ifanc. Beth bynnag fo'u cefndiroedd, eu hanghenion neu eu profiadau penodol yn ystod y pandemig, **ein huchelgais yw i bob dysgwr wneud cynnydd da yn eu haddysg a magu hyder i gyflawni eu potensial yn llawn a chyfrannu at Fro Morgannwg fwy llewyrchus, gwydn a chyfartal**. Mae'r weledigaeth hon yn cyd-fynd ag egwyddorion allweddol y Cwricwlwm i Gymru newydd.

Eleni, oherwydd y pandemig a newidiadau i ofynion adrodd data, prin yw'r data i ddangos y cynnydd, y tueddiadau a'r canlyniadau rydym wedi'u cyflawni. Fodd bynnag roedd **Adolygiad Estyn o Gymorth i Gymunedau Sy'n Dysgu mewn Ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion ym Mro Morgannwg** (Ionawr 2021) yn ystod y pandemig yn gadarnhaol ac er na ddaeth i ddyfarniad ar gefnogaeth y Cyngor i gymunedau dysgu fel rhan o'r adolygiad, tynnodd sylw at nifer o gameos arfer nodedig yn ymwneud â: cefnogi trefniadau iechyd a diogelwch; defnydd lleol o'r system Profi, Olrhain, Diogelu (POD/*TTP*); cefnogi dysgwyr sy'n agored i niwed; ymateb i angen; asesu lefel ymgysylltu a llesiant dysgwyr; cymorth broceriaeth i wella'r ddarpariaeth dysgu o bell; cefnogi iechyd meddwl pobl ifanc, a chefnogi ysgolion i ailagor yn ddiogel. Ers cynnal yr adolygiad, mae gwelliannau pellach wedi'u cyflawni yn y meysydd hyn i wella dulliau dysgu a phrofiadau disgyblion, ac rydym yn adeiladu ar y datblygiadau arloesol llwyddiannus hyn fel rhan o'n rhaglen adfer (recriwtio, adfer a chodi safonau) a pharatoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru newydd a fydd yn cael ei weithredu o fis Medi 2022. Mae dull cydweithredol gyda'n Partneriaid Gwella o Gonsortiwm Canolbarth y De ac arweinwyr ysgolion wedi bod yn allweddol wrth wneud cynnydd da yn y maes hwn. Dros y flwyddyn ddiwethaf, yn unol ag egwyddorion craidd y Cwricwlwm i Gymru newydd, rydym wedi **cryfhau ein hymgysylltiad â chymunedau, rhieni a gofalwyr, a dysgwyr i ddeall eu profiadau a'u blaenoriaethau ar gyfer dysgu ac mae hyn yn llywio ein cynllun adfer dysgu.** Byddwn yn parhau i adeiladu ar y dull cydweithredol hwn a'i ymgorffori wrth i ni symud tuag at weithredu'r cwricwlwm newydd.



Ni fyddai'r cynnydd cadarnhaol a gyflawnwyd o dan amgylchiadau mor heriol wedi digwydd heb **ymroddiad ac ymrwymiad staff yn ein hysgolion, ar draws Cyd Wasanaeth Addysg y Cyngor a Chonsortiwm Canolbarth y De** a oedd nid yn unig yn cefnogi dysgu plant a phobl ifanc gartref ond a fu hefyd yn gwirfoddoli yn y canolfannau gofal plant; dosbarthu talebau prydau ysgol am ddim a dosbarthu parseli bwyd; a chynnal rôl gofal a chymorth i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn ystod y cyfnod heriol hwn. Mae hyn mewn llawer o achosion wedi cynnwys gweithio oriau hir ac addasu i sefyllfaoedd sy'n newid yn gyflym am fisoedd diddiwedd. Mae eu creadigrwydd a'u hymdrechion yn adlewyrchiad cryf o'r ymrwymiad cyfunol i'n gweledigaeth a'n huchelgais i gefnogi pob dysgwr i gyflawni ei botensial waeth beth fo'r amgylchiadau. Wrth edrych i'r dyfodol, bydd angen i ni ystyried y goblygiadau o ran lles staff, yn enwedig os profir rhagor o achosion yn y flwyddyn i ddod.

Eleni yn fwy nag unrhyw flwyddyn arall rydym wedi gweld gweithio mewn partneriaeth ar ei orau ar draws sefydliadau cyhoeddus, gwirfoddol a thrydydd sector a grwpiau cymunedol ym Mro Morgannwg. Mae'r ymateb wedi bod mor drawiadol ag y bu'r pandemig yn heriol. Mae'r gwaith wedi canolbwyntio ar lle mae'r angen mwyaf am gymorth. Er enghraifft, rydym wedi gweithio gydag ysgolion yn **cyflymu'r broses o integreiddio technoleg ddigidol o fewn ein sefydliadau dysgu** i alluogi pob dysgwr, gan gynnwys plant, pobl ifanc ac oedolion i barhau i ddysgu yn unol â'r strategaethau 'dysgu cyfunol' newydd. Er mwyn sicrhau na chaiff unrhyw blentyn ei adael ar ôl, rydym wedi sicrhau y gall pob dysgwr gael mynediad ar adnoddau dysgu sy'n seiliedig ar y cwricwlwm trwy **ddarparu 6,500 o ddyfeisiau i ddisgyblion ac athrawon i gefnogi plant sydd heb offer neu gysylltedd TGCh.** Mae dulliau dysgu o bell yn parhau i gael eu gwella ac mae'n cael ei deilwra mewn ymateb i adborth disgyblion a rhieni. Mae staff yr ysgol wedi cael mynediad at ystod o ddysgu proffesiynol sydd wedi canolbwyntio ar gyflwyno ac asesu effeithiol o bell ar gyfer dysgu. **Rydym wedi cymryd camau i sicrhau, cyn belled ag y bo modd, na fydd unrhyw ddysgwr o dan anfantais mynediad at dechnoleg, boed hynny oherwydd lle mae'n byw, ei oedran, ei anghenion dysgu ychwanegol, neu ei broffil demograffig ac rydym wedi targedu ein cefnogaeth gyda hyn mewn golwg.**

Yn ogystal â chymorth i sicrhau bod dysgwyr sy'n agored i niwed yn cael mynediad teg at ddysgu, mae adnoddau sylweddol yn cael eu defnyddio i fonitro'r dysgwyr hynny nad ydynt wedi dychwelyd i'r ysgol. Mae cydweithio ag ysgolion, gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc, gwasanaethau Iechyd a gwasanaethau eraill y cyngor wedi bod yn allweddol i sicrhau bod ein plant, yn enwedig disgyblion sy'n agored i niwed, wedi cael cymorth effeithiol. Er enghraifft, mae gwaith y **Grŵp Tactegol Plant Sy'n Agored i Niwed**, a oedd yn cefnogi plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed i fynd i ysgolion canolfan, darpariaeth chwarae yn ystod gwyliau'r ysgol a'u helpu i ddychwelyd i ysgolion, wedi parhau i weithio i sicrhau dull cydlynol o gefnogi ein plant sy'n agored i niwed. Drwy gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, mae'r grŵp hefyd wedi **cefnogi ysgolion i gynnig darpariaethau gwyliau mewn pum ysgol (4 ysgol ar draws y Barri ac 1 yn Llanilltud Fawr), gyda dros 500 o ddisgyblion yn cymryd rhan**. Mae'r Tîm **Cyrhaeddiad, Llesiant ac Ymgysylltu (CLlY/*AWE*)** sydd newydd ei greu yn darparu lles a chefnogaeth ar gyfer presenoldeb ac ymgysylltu mewn ffordd hyblyg, gan ymateb i anghenion a materion COVID-19 sy'n esblygu, er enghraifft, i gefnogi'r cynnydd yn nifer y disgyblion sy'n dewis cael eu haddysgu yn y cartref ac i gefnogi ymgysylltiad â dysgu o bell. Ochr yn ochr â hyn, mae'r Tîm Cynhwysiant ehangach hefyd wedi cefnogi teuluoedd i ail-ymgysylltu'n effeithiol ag ysgolion fel y gwelwyd mewn rhai achosion, lle mae'r amser a dreuliwyd heb fod mewn ysgol ac effeithiau posibl y pandemig wedi creu pryder mewn teuluoedd ynglŷn â'r dychweliad. Roedd ein dull cydweithredol o ddatrys problemau, er enghraifft, yn sicrhau bod teuluoedd sy'n agored i niwed yn gallu cyrchu gweithgareddau a ganiatawyd o fewn cyfyngiadau COVID-19, megis ymuno a gallu cael gafael ar lyfrau ynghyd â chlybiau a gweithgareddau llyfrgell ar-lein. Drwy gydol y pandemig, rydym wedi darparu talebau bwyd i dros 3,000 o blant yn ogystal â pharseli bwyd ar gyfer teuluoedd disgyblion sy'n cael eu taro galetaf gan yr argyfwng. Er mwyn gwella'r ddarpariaeth ymhellach, rydym wedi llwyddo i gyflwyno taliadau electronig uniongyrchol i rieni disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn ystod cyfnodau cau'r ysgol. Mae'r system talebau prydau ysgol am ddim a ddefnyddir ar anterth y pandemig wedi'i chadw fel mesur dros dro i reoli unrhyw broblemau.

Rydym wedi parhau i roi pwyslais cryf ar **cefnogi lles cymdeithasol, emosiynol a meddyliol ein dysgwyr**. Mewn ymateb i angen cynyddol, mae gallu'r **Gwasanaeth Ymgysylltu** sy'n gweithio gydag ysgolion i ddiwallu anghenion cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl (CEIM/*SEMH*) plant a phobl ifanc yn y Fro wedi ei gynyddu ac mae ysgolion wedi cael adnoddau cynhwysfawr law yn llaw â mwy o oruchwyliaeth i feithrin gwydnwch emosiynol staff. Newidiodd ein Panel Cymdeithasol Emosiynol Iechyd Meddwl (PCEIM/*SEMHP*) i lwyfan rhithwir yn ystod y pandemig er mwyn sicrhau y gallai'r panel aml-asiantaeth barhau i ystyried a mynd i'r afael ag atgyfeiriadau gan ysgolion y disgyblion hynny sydd â'r anghenion CEIM mwyaf arwyddocaol. Mae'r disgyblion hyn yn aml o gefndiroedd bregus lle mae llesiant yn broblem sylweddol. Mae gan bob disgybl fynediad at 'Motional', offeryn ar-lein ar gyfer adnabod, asesu a gwella iechyd a lles emosiynol plant a phobl ifanc sydd yn galluogi atgyfeiriadau amserol i'r Gwasanaeth Ymgysylltu a'r panel cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl. **Mae gwasanaethau cwnsela cyfrinachol wedi eu cynyddu** i ateb y galw cynyddol am y gwasanaeth ymhlith dysgwyr, yn enwedig dysgwyr uwchradd a'r rhai ym mlwyddyn 6. Mae dysgwyr iau mewn ysgolion cynradd yn cael eu cefnogi gan

therapydd chwarae sydd newydd ei benodi. Mae'r galw cynyddol yn amlygu effaith y pandemig ar ddysgwyr sy'n profi anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl. Ers dychwelyd ym mis Medi, mae gwaith wedi canolbwyntio ar ail-ymgysylltu â dysgwyr a chefnogi eu hanghenion emosiynol a lles. Ochr yn ochr â hyn, mae ysgolion wedi cael cymorth i reoli Grant **Rhaglen Dysgu Carlam Llywodraeth Cymru** sydd wedi'i dargedu i gefnogi grwpiau blwyddyn 7, 11, 12 ac 13, gan gydnabod y bydd dysgwyr wedi profi lefelau amrywiol o golli dysgu. Wrth gydnabod ein huchelgeisiau ar gyfer y flwyddyn i ddod, ni all yr un ohonom danbrisio'r dasg sydd gennym i oresgyn heriau COVID-19 i'n dysgwyr. Fodd bynnag, rydym yn adeiladu ar y berthynas gadarnhaol ac sy'n tyfu a sefydlwyd gennym yn ystod y pandemig, sydd wedi bod yn ganolog i'n cyflawniadau yn 2020/21. Bydd y perthnasoedd hynny'n greiddiol i'n hymgyrch barhaus i sicrhau bod pob dysgwr ym Mro Morgannwg yn cael y cyfle i wireddu ei botensial yn llawn.

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod **mynediad priodol a chyfartal at ddarpariaeth o ansawdd i'n dinasyddion ar draws pob lleoliad dysgu**. Enghraifft o hyn yw ein gwaith gyda darparwyr amgen drwy'r cyfnodau a effeithiwyd gan y cyfyngiadau clo. Drwy ein trefniadau comisiynu trylwyr a sicrhau ansawdd, rydym wedi sicrhau bod pobl ifanc sy'n agored i niwed ar draws y sbectrwm yn derbyn naill ai becynnau dysgu personol neu rai o bell gan ddarparwyr amgen er mwyn diwallu eu hanghenion, gan hwyluso parhad addysgol. Er mwyn sicrhau ein bod yn diwallu anghenion ein dysgwyr, rydym wedi parhau i ymgysylltu â disgyblion a'u rhieni/gofalwyr a'n partneriaid ar welliannau a gwasanaethau allweddol er mwyn sicrhau bod eu barn yn llywio'r ddarpariaeth yn y dyfodol. Drwy'r broses yma rydym hefyd wedi gwella ansawdd y wybodaeth sydd ar gael i rieni i'w galluogi i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth am addysg eu plentyn. Mae hefyd wedi cryfhau gwaith partneriaeth gyda chanolbwyntio ar ddiwallu anghenion disgyblion, yn enwedig plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed a'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, drwy ymagwedd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae ein dysgwyr sy'n oedolion hefyd wedi elwa ar ddarpariaeth sydd wedi'i thargedu'n fwy. Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi **ymgynghori ar ein cynigion ar gyfer gwelliannau i ysgolion o dan Raglen Ysgolion y 21ain Ganrif**, sicrhau'r ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol i'r dyfodol, **Strategaeth Hygyrchedd ar gyfer ein sefydliadau dysgu**, **effaith y Grant Amddifadedd Disgyblion** a'r defnydd ohono**, iechyd a lles ein disgyblion**, **polisïau derbyn i ysgolion** a **chyfleoedd dysgu a gyflawnir drwy bartneriaeth Dysgu Oedolion a Chymunedol Caerdydd a'r Fro**, i enwi rhai yn unig. Mae cynwysoldeb yn nod allweddol o gynyddu ansawdd ein darpariaeth. O ganlyniad, rydym yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi'r rôl allweddol y mae ein partneriaid, ein rhieni a'n gofalwyr a'n dysgwyr yn ei chwarae wrth lywio'r ddarpariaeth, gan sicrhau bod datblygiad a darpariaeth yn deg ac o ansawdd uchel ar draws pob lleoliad dysgu.

Mae **darpariaeth y blynyddoedd cynnar** yn flaenoriaeth allweddol gan y Cyngor, gan ein bod yn cydnabod pwysigrwydd ac effaith addysg blynyddoedd cynnar o ansawdd da ar ddatblygiad plant ifanc, yn enwedig bywydau plant difreintiedig yn gyffredinol. Mae tystiolaeth yn awgrymu, erbyn i bobl ifanc ddifreintiedig sefyll eu harholiadau TGAU yn 16 oed, eu bod, ar gyfartaledd, 18.4 mis y tu ôl i'w cyfoedion ac mae tua 40% o'r bwlch hwnnw eisoes wedi dod i'r amlwg erbyn eu bod yn bump oed. Mae'r blynyddoedd cynnar yn cael cymaint o effaith ar gyflawniad addysg plentyn yn 11 oed bron ag a wnaeth yr ysgol gynradd – ac mae'r effaith hyd yn oed yn fwy i'r rhai sydd mewn perygl o ddatblygu anawsterau dysgu. O ganlyniad, rydym wedi canolbwyntio ar gydweithio â phartneriaid ar draws y sector cyhoeddus, y sector gwirfoddol a'r trydydd sector i fynd i'r afael ag anfantais drwy gynlluniau grant Plant a Chymuned Llywodraeth Cymru megis **Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf, Gofal Plant a Chwarae a Hyrwyddo Ymgysylltiad Cadarnhaol â Phobl Ifanc a Chymunedau dros Waith**. Mae'r rhain wedi ceisio lliniaru anfantais i deuluoedd sy'n agored i niwed drwy wasanaethau ymyrraeth ac atal cynnar i'w galluogi i gael yr un cyfleoedd bywyd â'r rhan fwyaf. Er gwaethaf heriau'r flwyddyn ddiwethaf sydd wedi gweld nifer sylweddol uwch o atgyfeiriadau i'n gwasanaethau, rydym wedi parhau i ymgysylltu â theuluoedd yn ddigidol ac ar sail allgymorth pan fo angen rhoi cymorth y mae mawr ei angen.

Mae ein gwaith drwy **Fforwm y Blynyddoedd Cynnar a Phecyn Cymorth y Blynyddoedd Cynnar** yn parhau i chwarae rhan allweddol yn ein helpu i nodi'n gynharach sut y gallwn gynllunio a chefnogi anghenion dysgu a llesiant dysgwyr y blynyddoedd cynnar yn effeithiol, yn enwedig plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Mae gweithio mewn partneriaeth â rhieni a gofalwyr ac ymgynghori â hwy am brofiad plant yn y blynyddoedd cynnar, wedi helpu i gynllunio ar gyfer dysgu effeithiol yn ogystal â nodi'r cymorth sydd ei angen ar rieni er mwyn parhau â datblygiad dysgu eu plant gartref. Mae ein ffocws ar leihau rhwystrau amgylcheddol a chymdeithasol i gynhwysiant a chynnig cyfleoedd dysgu hygyrch i'n holl blant gyflawni eu potensial llawn wrth baratoi ar gyfer dysgu pellach, yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol a bydd yn helpu i leihau anghydraddoldebau o ran cael mynediad i addysg yn y tymor hir.

Ochr yn ochr â gwaith sylweddol i gefnogi dysgwyr i ail-ymgysylltu a dal i fyny, mae gwaith wedi parhau i weithredu'r **Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol**. Mae hyfforddiant cynhwysfawr wedi'i ddarparu i gryfhau rôl Cydgysylltwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol ymhellach mewn ysgolion fel y nodir yn y Ddeddf. Mae **Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolion** (CCU/*PCP*) a **Cynlluniau Datblygu Unigol** (CDUau/*IDPs*) yn cael eu treialu ym mhob ysgol ac mae **mapio darpariaeth yn cael ei ddatblygu i alluogi darpariaeth, ymyrraeth ac olrhain disgyblion sydd wedi'u targedu'n well er mwyn cyflawni gwell deilliannau dysgu gan ddisgyblion**. Drwy gydol y flwyddyn, bu ffocws cryf ar gefnogi dysgwyr gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol a'u teuluoedd i fanteisio ar gyfleoedd dysgu ac ymgysylltu â nhw. Mae disgyblion wedi cael cymorth drwy amrywiaeth eang o ddulliau gan gynnwys galwadau ffôn llesiant dyddiol, sesiynau 'gwirio' ar-lein byw, gweithgareddau dysgu wedi'u targedu ar lwyfannau digidol, galwadau fideo gan Gynorthwywyr Cymorth Dysgu un i un i gefnogi gwaith a llesiant ac ymweliadau cartref a benthyca adnoddau ychwanegol. Un enghraifft o'r cydweithio cryf hwn yw gwaith y Gwasanaeth Ieuenctid mewn partneriaeth ag Uned Cyfeirio Disgyblion Y Daith, a oedd yn sicrhau bod yr holl ddysgwyr agored i niwed ar y gofrestr yn cael gwiriadau llesiant rheolaidd ac yn derbyn prydau ysgol fel y bo'n briodol. Cefnogwyd y gwaith hwn gan y **Gwasanaeth Ymgysylltu**, sydd â'r rôl ddeuol o feithrin gallu mewn ymagweddau sy'n seiliedig ar drawma mewn ysgolion yn ogystal â darparu ymyriadau i ddiwallu anghenion dysgwyr cymhleth a bregus o fewn fframwaith sy'n seiliedig ar dystiolaeth, sy'n ymgorffori dealltwriaeth o Drawma Datblygiadol, profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, ymlyniad a niwrowyddoniaeth iechyd meddwl a iechyd gwael. Byddwn yn adeiladu ar y rhaglen newid hon drwy sefydlu Canolfan Dysgu a Llesiant yn ffurfiol o fis Medi 2021.

Yn unol â'n dyletswyddau, rydym wedi adolygu ein **fframwaith cynllunio lleoedd ysgolion a pholisïau derbyn** i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn deg i bob dysgwr, bod digon o leoedd ysgol i'n holl ddisgyblion, ac i ystyried yr heriau a allai ddod gyda charfan newydd o ddisgyblion. Er bod cyflymder genedigaethau yn y Fro wedi arafu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae tuedd tuag at gynnydd o hyd yn nifer y disgyblion, gyda niferoedd cynyddol ag anghenion dysgu ychwanegol. Yn y cylch derbyn diweddaraf ar gyfer 2021, roeddem yn gallu cynnig lle yn eu dewis ysgol (dewis cyntaf) i 95% o ymgeiswyr dosbarth derbyn ac 87% o ymgeiswyr uwchradd ar y diwrnod cynnig cenedlaethol. Dim ond 104 o ddisgyblion uwchradd na chafodd unrhyw gynnig o le ar y diwrnod cynnig cenedlaethol, er mai dim ond 12 o'r 104 o ddisgyblion oedd yn byw ym Mro Morgannwg. Mae'r ffigurau hyn yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer bodloni dewis rhieni. Gan edrych ymlaen at y flwyddyn i ddod, mae nifer o gynigion yn cael eu gweithredu fel rhan o'r Rhaglen Ad-drefnu a Buddsoddi mewn Ysgolion a'r Rhaglen Ysgolion y 21ain Ganrif i ateb y galw cynyddol am leoedd i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol a darpariaeth Gymraeg.

**Mae gwella cyfraddau presenoldeb a lleihau absenoldeb parhaus** mewn ysgolion yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Fodd bynnag, o ran y rhan fwyaf o'r flwyddyn academaidd, roedd ysgolion wedi'u cau i'r rhan fwyaf o ddysgwyr, yr her fu sicrhau bod gan bob disgybl ym Mro Morgannwg yr adnoddau a'u bod yn cymryd rhan effeithiol mewn rhaglen o 'ddysgu cyfunol' (wedi'i deilwra mewn ymateb i adborth disgyblion a rhieni), fel nad oeddent yn cael eu gadael ar ôl. Mae'r pandemig wedi gweld cynnydd o 22% yn nifer y disgyblion (yn enwedig plant iau) sy'n cael addysg ddewisol gartref (ADdG/*EHE*) wrth i deuluoedd gadw eu plant adref lle bynnag yr oedd hynny'n bosib. Fodd bynnag, yr hyn sy'n peri pryder yw'r effaith anhysbys gaiff hyn ar ddatblygiad plant a

pharodrwydd i fynd i’r ysgol yn y blynyddoedd i ddod. Mae hyn wedi ychwanegu pwysau sylweddol gyda'r angen i ddarparu cymorth unigol i blant a'u teuluoedd. Mae gwaith y **Gwasanaeth Cyrhaeddiad, Llesiant ac Ymgysylltu** (CLlY/*AWE*), y **Tîm Ymyrraeth Ieuenctid** (TYI/*YIT*), a’r **Gwasanaeth Lles Addysg** (GLlA/*EWS*) wedi chwarae rhan allweddol yn y gwaith o ddarparu llesiant a chymorth ar gyfer presenoldeb ac ymgysylltu mewn ffordd hyblyg, gan ymateb i anghenion a phroblemau disgyblion, er enghraifft, i gefnogi'r cynnydd yn nifer y disgyblion ADdG ac i gefnogi ymgysylltiad â dysgu o bell. Darparwyd cymorth ychwanegol hefyd drwy'r **Grŵp Tactegol Grwpiau Agored i Niwed** sydd wedi cefnogi plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed a'u teuluoedd i gael mynediad i ganolfannau ysgol, darpariaeth chwarae yn ystod gwyliau'r ysgol ac wedi eu helpu i ddychwelyd i ysgolion. Mae’r gwaith yma wedi parhau er mwyn sicrhau ymagwedd cydlynol o gefnogi ein plant

Mae plant a phobl ifanc yn parhau i elwa o amgylcheddau dysgu o ansawdd uchel drwy fuddsoddiad cyfalaf sylweddol mewn ysgolion drwy'r **Rhaglen Ad-drefnu a Buddsoddi mewn Ysgolion a Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru**, sy'n un o'r rhai uchaf a mwyaf uchelgeisiol yn y wlad. Mae ein cydweithrediad â chontractwyr, sefydliadau’r trydydd sector a’r sector cyhoeddus ar y fenter wedi helpu i ddarparu ystod o fanteision i’r gymuned sy’n cyfrannu at wella canlyniadau i drigolion, yr amgylchedd a’r economi leol. Yn ystod y flwyddyn, mae'r rhaglen wedi darparu 10,000 wythnos o swyddi newydd a 5,300 wythnos o gyfleoedd hyfforddi, wedi bod yn gyfrifol am 44 o fentrau cymunedol, gan gynnwys cefnogi 3 gardd gymunedol gyda gwaith gwella ac o ran rhoi i elusennau lleol. Mae defnyddio contractwyr lleol (90%) a llafur (56%) lleol hefyd wedi cyfrannu at economi'r Fro. Mae'r cyflawniadau hyn wedi cael eu cydnabod gyda dyfarnu y **'Ddarpariaeth Gaffael Orau' i’r Cyngor yng ngwobrau GO Cymru 2021.**

Rydym ar y trywydd cywir i gwblhau project **Cymunedau Dysgu Uwchradd Y Barri** erbyn mis Gorffennaf 2022, sydd wedi gweld buddsoddiad o £88.6 miliwn mewn tair ysgol uwchradd i greu canolfannau dysgu modern ag ôl troed carbon isel er mwyn ateb galw yn y dyfodol ac i alluogi ein plant a’n pobl ifanc i gyflawni eu potensial yn llawn wrth ddarparu cyfleusterau lleol gwell a hygyrch hefyd i’r gymuned ehangach eu mwynhau. Law yn llaw â’r buddsoddiad hwn, mae gwaith hefyd wedi dechrau ar **ehangu ac ailwampio ein Hysgol Arbennig, Ysgol y Deri** (£11 miliwn) i ateb y galw sy’n tyfu’n gyflym am leoliadau i ddisgyblion cymhleth; **Ysgol Sant Baruc** (£7.4 miliwn), Y**sgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant** (£4.2 miliwn) ac **Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas** (£4.2 miliwn) i gwrdd â’r cynnydd a ragwelir mewn niferoedd disgyblion. Mae **Canolfan newydd ar gyfer Dysgu a Llesiant** (£4.4 miliwn) hefydd yn cael ei datblygu i fodloni anghenion rhai o ddisgyblion mwyaf agored i niwed y Fro. Bydd y gwelliannau hyn o ran seilwaith nid yn unig yn cyfrannu tuag at ostwng ein hôl troed carbon a chynyddu mynediad at gyfleusterau cymunedol modern, yn wir, byddant yn gwella’n gwaith tuag at adeiladu canolfannau dysgu sy’n canolbwyntio ar y gymuned, gan lwyddo i harneisio pŵer ysgolion, teuluoedd a chymunedau sy’n cydweithio tuag ar ddyfodol disglair. Bydd y cyfleusterau modern yn cynyddu cyfleoedd i breswylwyr gyfranogi mewn dysgu gydol oes , chwaraeon, hamdden a gweithgareddau diwylliannol, teithio llesol a chynyddu mynediad ar fannau gwyrdd ac amgylchedd glân i amlygu ychydig.



Fel rhan o'r rhaglen i wella ein hamgylcheddau dysgu, rydym yn **gweithio tuag at ddatgarboneiddio ein hysgolion newydd** sy'n cefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i **sicrhau sector cyhoeddus di-garbon net yng Nghymru erbyn 2030** ac Amcan Llesiant ein Cynllun Corfforaethol, 'i barchu, gwella a mwynhau ein hamgylchedd'. Gwnaethom gynnydd da o ran dylunio **ysgol ddefnydd carbon isel yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant ac o ran adeiladu'r ysgol carbon sero net gyntaf yng Nghymru yn Ysgol Gynradd Llancarfan.** Cydweithiom hefyd i wella'r amgylchedd lleol a llwybrau teithio llesol o amgylch ysgolion drwy blannu 500 o goed (ac mae 700 yn fwy ar y gweill), mabwysiadom Strategaeth Bioamrywiaeth, gosodwyd podiau sgwter, raciau beiciau, podiau beiciau a beiciau cydbwysedd. Bydd y gwelliannau cymunedol hyn hefyd yn cyfrannu at amcanion llesiant eraill ein Cynllun Corfforaethol.

Rydym yn parhau i weithio ar y cyd i gyflawni ein dyletswyddau statudol a **lliniaru'r risg y bydd pobl ifanc yn cael eu hunain heb fod mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant (NEETs)**. Gellir priodoli ein llwyddiant hyd yma i weithio mewn partneriaeth effeithiol drwy'r Fframwaith Dilyniant ac Ymgysylltiad Ieuenctid sy'n canolbwyntio ar atal ac ymyrryd yn gynnar ochr yn ochr â chynnig addysg amgen cynhwysfawr. Mae ymyriadau lleol fel y **Cynllun Kickstart, cynnig y gwasanaethau ieuenctid, cynllun prentisiaeth y Cyngor, rhaglen adeiladu tai'r Cyngor, Rhaglen Ysgolion y 21ain Ganrif a rhaglenni Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) Ysbrydoli i Gyflawni (YiG/*I2A*) ac Ysbrydoli i Weithio (YiW/*I2W*)** oll wedi datblygu cysylltiadau cryf â gwasanaethau eraill y cyngor gan gynnwys digartrefedd, gwasanaethau ieuenctid, troseddau ieuenctid, budd-daliadau a gwasanaethau cymdeithasol sy'n ein galluogi i sicrhau gwell canlyniadau i bobl ifanc. Fodd bynnag, mae wedi bod yn flwyddyn heriol gyda llai o gyfleoedd hyfforddiant, cyflogaeth a phrentisiaeth ar gael i bobl ifanc. **Mae cyfyngiadau COVID-19 wedi cyfyngu ar y cyfleoedd prentisiaeth sydd ar gael yn y cyngor, drwy'r rhaglen ysgolion y 21ain ganrif a hefyd gyda chyflogwyr lleol**. Yr arwyddion cynnar yw y bydd y pandemig yn effeithio'n andwyol ar ragolygon gyrfa ein pobl ifanc. Mae pobl ifanc sydd mewn addysg ar hyn o bryd neu sy'n agosáu at y cyfnod pontio i addysg bellach neu addysg uwch wedi canfod bod eu hastudiaethau wedi'u oedi neu'n parhau'n rhannol yn ddigidol. O ganlyniad, efallai fod llawer wedi colli allan ar gyngor a chymorth gyrfaoedd wyneb yn wyneb i bontio'n effeithiol i addysg bellach neu uwch, hyfforddiant neu gyflogaeth. Byddai'r rhan fwyaf hefyd wedi colli allan ar y cwricwlwm datblygiad personol, gan gynnwys rhyngweithio â chyflogwyr a phrofiad gwaith, sy'n hanfodol i ddewis y llwybr gyrfa academaidd neu alwedigaethol priodol. Pobl ifanc sydd â rhwystrau ychwanegol neu sy'n dod o gefndiroedd difreintiedig sydd yn debygol o gael eu heffeithio fwyaf. Er gwaethaf ein hymdrechion gorau i gadw mewn cysylltiad yn ystod y pandemig, mae rhai o'r bobl ifanc hyn yn annhebygol o gael y cyngor a'r cymorth sydd eu hangen arnynt, a allai gael effaith andwyol ar eu siawns o symud ymlaen i addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth.

Yn ystod y flwyddyn, aeth 140 o bobl ifanc ymlaen i addysg bellach neu hyfforddiant, a chyflawnodd 136 gymwysterau drwy'r rhaglen YiG. Mae YiW wedi parhau i gefnogi'r cynnydd ar gyfer dysgwyr ôl-16 ym Mro Morgannwg ac mae eisoes wedi rhagori ar ei dargedau ar gyfer dwy flynedd y prosiect sy'n weddill. Er ein bod wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer yr atgyfeiriadau i YiW oherwydd lefelau uwch o ddiweithdra ymhlith pobl ifanc, sgil-effaith uniongyrchol i'r pandemig, cyflawnodd 100 o bobl ifanc gymwysterau, sicrhaodd 101 gyflogaeth ac aeth 26 ymlaen i addysg bellach neu hyfforddiant drwy'r cynllun hwn. Er bod ein perfformiad o ran NEETs Blynyddoedd 11 (1.4% i 1%) a 12 (0.8% i 0.62%) wedi parhau i wella yn 2020, dyblodd nifer y bobl ifanc NEET a adawodd yr ysgol ym mlwyddyn 13 (1.55% i 3.10%). Mae gwaith hefyd wedi mynd rhagddo i barhau i wella rhagolygon cyflogaeth pobl ifanc gyda 30 o gyfleoedd lleoliadau gwaith Kickstart wedi'u creu ar gyfer pobl ifanc 18–24 oed gyda 30 o gyfleoedd pellach yn cael eu hysbysebu hyd yn hyn. Crëwyd 20 o rolau prentisiaeth hefyd o fewn y Cyngor o dan gynllun prentisiaeth y cyngor ei hun. Fel rhan o'r Rhaglen Ysgolion y 21ain Ganrif, crëwyd 63 o brentisiaethau eraill fesul £1miliwn a fuddsoddwyd. Mae'r perfformiad hwn yn gadarnhaol iawn o ystyried ei gyd-destun yn y pandemig byd-eang a'i effaith gysylltiedig. Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod bod angen gwneud llawer mwy os ydym am sicrhau nad yw ein pobl ifanc dan anfantais bellach oherwydd y pandemig. Mae camau gweithredu prydlon Llywodraeth Cymru a chyhoeddiadau o fuddsoddi mewn sgiliau a mesurau i greu swyddi, prentisiaethau a chyfleoedd i bobl ifanc i'w croesawu. Fodd bynnag, dim ond os cânt eu lleoleiddio drwy adeiladu ar ddeallusrwydd lleol a modelau cyflenwi lleol y gall y rhain fod yn llwyddiannus, gan weithio mewn partneriaeth. Rydym yn gweithio gyda chyflogwyr lleol, sefydliadau addysg a hyfforddiant a thrwy Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Dinas-Ranbarth Caerdydd i sicrhau ein bod yn canolbwyntio ein buddsoddiad ar fynd i'r afael â bylchau a chyfleoedd sgiliau a nodwyd, er enghraifft, harneisio'r cyfleoedd o drawsnewid digidol carlam a ddaw yn sgil COVID-19, i ddiwallu anghenion yr economi leol a chenedlaethol yn y tymor hir.



Trwy ein **Strategaeth Buddsoddi Cymunedol**, rydym yn cefnogi cyfleoedd datblygu sgiliau, hyfforddiant, cyflogaeth a gwirfoddoli i denantiaid y cyngor ac mae'r gwaith hwn wedi parhau yn ystod y pandemig, er yn ddigidol. Hyd yma mae bron i 370 awr o hyfforddiant wedi'i sicrhau drwy gymalau hyfforddi drwy ein rhaglen

datblygu tai; mae 110 o drigolion wedi cael gwaith; 961 wedi ennill cymwysterau galwedigaethol achrededig; 7 wedi dod yn hunangyflogedig; Mae 7 wedi sicrhau prentisiaethau ac mae 230 wedi cael cymorth gydag ysgrifennu CV, sgiliau cyfweld a 'bŵt camps' cyflogadwyedd. Addasodd y fenter Cymunedau dros Waith (CdW) yn gyflym i ddarparu model cyfunol o weithio yn ystod y pandemig gan alluogi cefnogaeth i ddefnyddwyr gwasanaethau barhau, yn bennaf y di-waith hirdymor a phobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant. Gan weithio'n agos gyda phartneriaid gan gynnwys Canolfan Byd Gwaith, KickStart a thîm Dysgu Oedolion a Chymunedol Bro Morgannwg, darparwyd adnoddau allweddol, er enghraifft, cyflwyno'r chromebook digidol ar gyfer CdW, gweithdai CV ar-lein a sesiynau cyflogadwyedd, ochr yn ochr â mentoriaeth wedi'i thargedu er mwyn helpu i sicrhau cyfleoedd cyflogaeth, lleoliadau gwaith a hyfforddiant i gleientiaid sydd angen cymwysterau neu hyfforddiant i hwyluso cyflogaeth. Mae'r defnydd ar dechnoleg gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol e.e. Facebook, wedi bod yn arbennig o lwyddiannus wrth ymgysylltu â'r gynulleidfa darged ac yn un y gallwn fod yn edrych i'w datblygu.

Nid yw cydnabod pwysigrwydd a buddsoddi mewn uwchsgilio ac ailsgilio dysgwyr ôl-16 ac oedolion er mwyn sicrhau adferiad economaidd erioed wedi bod mor bwysig ag y mae ar hyn o bryd. Gwyddom y bydd sgiliau ein pobl ifanc a'n hoedolion yn eu galluogi i wneud cyfraniad gwerthfawr i'w cymunedau, yn economaidd ac yn gymdeithasol, a hefyd yn helpu i wella cadernid cymunedol mewn ymateb i COVID-19. Ochr yn ochr â'n ffocws ar ddatblygu sgiliau pobl ifanc ar gyfer y dyfodol, rydym wedi parhau i **gynyddu cyfleoedd dysgu cymunedol sydd ar gael i oedolion ac mae'r nifer sy'n manteisio mewn sawl ardal yn parhau i fod yn uchel**. Mae dysgu cymunedol yn parhau i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau dinasyddion Bro Morgannwg drwy gefnogi datblygiad sgiliau gydol oes ein pobl ifanc, oedolion, dysgwyr cyflogedig a'r di-waith, gan wella eu rhagolygon ac yn y pen draw eu hiechyd a'u llesiant. Er gwaethaf tarfu ar y pandemig, mae Partneriaeth Gymunedol Dysgu Oedolion y Fro, a Choleg Caerdydd a'r Fro wedi sicrhau parhad dysgu drwy weithredu modelau dysgu ar-lein a chyfunol. Amlygwyd rhai enghreifftiau ohonynt yn adroddiad cylch gwaith Estyn ar ddysgu cyfunol ôl-16. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod ein dinasyddion yn parhau i fwynhau cyfleoedd dysgu gydol oes ac rydym yn cydweithio ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol i'n galluogi i gynnal a chynyddu'r cyfleoedd sydd ar gael gan ganolbwyntio'n benodol ar gynhwysiant digidol, a ddaeth i'r amlwg yn hynod o sydyn yn ystod y cyfnodau clo. Mae'r Gwasanaeth wedi derbyn rhywfaint o gydnabyddiaeth genedlaethol gyda 2 diwtor yn derbyn tystysgrifau canmoliaeth uchel yng ngwobrau tiwtoriaid Cymru ac 1 o'n dysgwyr yn ennill gwobr dysgwr cenedlaethol y flwyddyn yn y categori Sgiliau Hanfodol.

Gan adlewyrchu'r darlun ar draws y rhan fwyaf o'r Deyrnas Gyfunol, ers mis Mawrth 2020, **mae diweithdra yn y Fro wedi codi ac mae llai o swyddi gwag ar gael i'r rhai sydd wedi dod yn ddi-waith**. Ym Mro Morgannwg, mae nifer y bobl sy'n hawlio cymorth sy'n gysylltiedig â diweithdra wedi cynyddu 103% ers mis Mawrth 2020. Adlewyrchir y cynnydd hwn yn nifer y bobl sy'n hawlio Credyd Cynhwysol (tua 10,074 o bobl, 12.3% o boblogaeth oedran gweithio'r Fro ddiwedd Ebrill 2021). Gellir gweld y gyfran fwyaf o bobl sy'n derbyn CC yn yr ardaloedd hynny o'r Fro sydd wedi'u nodi fel y 'Mwyaf Difreintiedig' ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019. Ochr yn ochr â phwysau cynyddol ar incwm aelwydydd, er enghraifft drwy golli swyddi a ffyrlo, bu cynnydd mewn costau byw o ganlyniad i'r pandemig, gydag adrodd am gynnydd mewn biliau ynni, costau bwyd a chostau cysylltedd digidol. Mae'r pwysau ariannol hyn a phwysau eraill wedi cyfrannu at gynnydd yn nifer y bobl sy'n cyflwyno fel rhai sy'n ddigartref oherwydd eu bod ar ei hôl hi o ran rhent neu daliadau morgais. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi cefnogi trigolion mwy agored i niwed ledled y Fro wrth i effaith y pandemig barhau i ddatblygu. Helpodd y **Rhaglen Grant Cymorth Tai** dros 1,000 o drigolion agored i niwed i fynd i'r afael â'r problemau - lluosog weithiau - a wynebant megis dyled, cyflogaeth, rheoli tenantiaeth, camddefnyddio sylweddau, cam-drin domestig a phroblemau iechyd meddwl. Mae cymorth wedi canolbwyntio ar sicrhau a chynnal tai addas, datblygu'r sgiliau sydd eu hangen i gynnal tenantiaeth, sydd wedi cynnwys cyngor ariannol a chymorth ar ddyledion, hyfforddiant a gwirfoddoli i wella cyfleoedd cyflogadwyedd a chyflogaeth, ac iechyd a llesiant. Hyd yma mae '**Siop Un Stop**' y Cyngor ar gyfer cymorth sy'n gysylltiedig â thai a sefydlwyd ym mis Ebrill 2020, wedi bod yn hanfodol i ddiwallu'r galw cynyddol am gymorth gan ei fod yn darparu ystod eang o opsiynau cymorth i ddiwallu anghenion amrywiol preswylwyr. Mae'r ôl-ofal ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth nad oes angen gwasanaethau sy'n gysylltiedig â thai arnynt mwyach drwy eu cyfeirio at wasanaethau lleol priodol, hefyd

yn helpu i gynnal y cynnydd a welwyd gan y rhan fwyaf o ddefnyddwyr gwasanaethau. Mae rhai wedi mynd ymlaen i fod yn eiriolwyr dros y gwasanaeth ac maent yn gwirfoddoli'n llwyddiannus yn eu cymunedau.

Ochr yn ochr â'r uchod, mae nifer o fentrau ar draws y cyngor sydd â'r nod o roi cymorth i bobl ddi-waith a'r rhai sydd bellaf o'r farchnad lafur er mwyn eu helpu i ddychwelyd i gyflogaeth gan gynnwys **Y Ganolfan Gyflogadwyedd, Nôl ar y Cledrau, Sgiliau ar gyfer y Gweithle, Cymunedau'r Fro dros Waith**, y mae pob un ohonynt yn darparu cymorth i feithrin sgiliau a doniau i wella cyflogadwyedd a rhagolygon preswylwyr yn y pen draw. Mae'r mentrau hyn yn cydweithio ochr yn ochr â gwasanaethau eraill y cyngor i leihau'r rhwystrau i gyflogaeth er mwyn sicrhau canlyniadau llwyddiannus a chynaliadwy i ddefnyddwyr gwasanaethau.

Un o ganlyniadau mwyaf cadarnhaol a thrawiadol pandemig COVID-19 fu **y cynnydd yn nifer y bobl sy'n gwirfoddoli** i gefnogi pobl sy'n agored i niwed. Mae hyn yn dod â chyfleoedd enfawr i harneisio'r ased hwn ond hefyd rhai heriau o ran meithrin gallu a sicrhau ei fod yn cael ei ysgogi'n effeithiol, er enghraifft, wrth lunio gwasanaethau lleol a gwella cymunedau. Rydym wedi gweld newidiadau cadarnhaol i wirfoddoli, gyda **chynnydd cyffredinol mewn niferoedd gwirfoddoli gan ystod amrywiol o bobl, llawer ohonynt yn gwirfoddoli am y tro cyntaf**. Wrth i wasanaethau symud ar-lein felly hefyd nifer y rolau gwirfoddol sy'n cael eu cyflawni o bell. Mae hyn wedi agor ffyrdd newydd o wirfoddoli, drwy arferion digidol ac anghysbell, ac wedi cyflwyno grŵp mwy amrywiol o ran sgiliau a demograffeg nag a fyddai fel arall wedi bod yn ymwneud â gwirfoddoli. Er mwyn sicrhau ein bod yn cynnal ac yn adeiladu ar y newidiadau hyn, rydym yn cydweithio ar draws gwasanaethau'r cyngor, y trydydd sector a'r sector gwirfoddol a'n cymunedau i gynyddu'r cyfleoedd sydd ar gael i holl ddinasyddion y Fro gymryd rhan. Yn ystod y flwyddyn, penodwyd **Swyddog Ymgysylltu a Gwirfoddoli Digidol** i ehangu ein cynllun bancio amser, sydd ond ar agor i denantiaid y Cyngor ar hyn o bryd. Ochr yn ochr â hyn, rydym wedi canolbwyntio ar ddatblygu mwy o gyfleoedd digidol a chyfleoedd eraill na fydd cyfyngiadau COVID-19 yn effeithio arnynt, er enghraifft, drwy ein llyfrgelloedd cymunedol, Cymuned Ddysgu'r Fro, Rhaglen Fuddsoddi ysgolion y 21ain Ganrif, gwasanaethau cymdeithasol, y Rhaglen Buddsoddi Cymunedol ac Adfywio, prosiectau hawliau tramwy a pharciau gwledig i enwi rhai. Wrth edrych i'r dyfodol, rydym yn cydnabod bod llawer o waith cadarnhaol yn digwydd ar draws ein gwasanaethau y mae angen eu dwyn ynghyd mewn strategaeth wirfoddoli gydlynol ar gyfer y Cyngor ac rydym yn bwrw ymlaen â hyn.

Rydym am i drigolion elwa ar dwf economaidd cynaliadwy a chynhwysol. Mae hyn yn golygu hyrwyddo cynaliadwyedd amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol fel rhan o ymrwymiad hirdymor i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, sicrhau twf da ac adeiladu cymunedau cadarn. Rydym yn uchelgeisiol wrth gynllunio sut mae angen i seilwaith Bro Morgannwg ddatblygu yn unol â hynny a chydweithio i sicrhau ei fod o fudd i bawb. **Datblygwyd ein Strategaeth Seilwaith Gwyrdd** ddrafft â'r ymagwedd yma yn bendant mewn golwg. Mae gennym **hanes cryf o gyflawni prosiectau adfywio llwyddiannus** ym Mro Morgannwg ac rydym wedi parhau i weithio mewn partneriaeth yn lleol ac yn rhanbarthol drwy **Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (PRC/*CCR*)** i ddatblygu ymyriadau trafnidiaeth, seilwaith, cymorth busnes, adfywio, cynllunio a thai. Y tu hwnt i ddarparu rhaglen ariannu, mae datblygiadau fel ymadawiad Prydain o'r Undeb Ewropeaidd (UE), colli cyllid yr UE ac yn fwy diweddar y pandemig COVD-19 byd-eang wedi golygu y bydd y Fargen Ddinesig yn arbennig o bwysig o ran hwyluso adferiad rhanbarthol ac economïau lleol cynaliadwy a gwydn dros y blynyddoedd nesaf. Elfen berthnasol i'r Fro dan y Fargen Ddinesig yw'r angen i **hyrwyddo'r Maes Awyr a Sain Tathan fel canolfannau ar gyfer twf economaidd a chreu swyddi, gan wella mynediad strategol i'r Fro ac adfywiad parhaus y Barri.** Yn ogystal â chael cyfradd uchel o gymudo oherwydd diffyg cyfleoedd cyflogaeth sgiliau uwch, mae gan y Barri hefyd bedair ardal cynnyrch ehangach is sy'n dod o fewn y 10% uchaf o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, yn enwedig o ran incwm, iechyd, addysg, tai a chyflogaeth. Drwy'r buddsoddiad parhaus yn ein seilwaith busnes, rhaglen adeiladu tai'r Cyngor, cyfleusterau addysg y 21ain ganrif a sgiliau'r cwricwlwm a'r gweithlu (ochr yn ochr â chysylltiadau cryf presennol ag academyddion sy'n canolbwyntio'n fasnachol), rydym yn mabwysiadu dull ardal gyfan i sicrhau'r effaith adfywiol fwyaf bosibl gan y mentrau hyn ar gyfer trigolion, cymunedau a busnesau yn y tymor hir. Gan edrych i'r dyfodol, rydym yn cydnabod bod cyfleoedd pellach i integreiddio'n agosach drwy gaffael er mwyn manteisio i'r eithaf ar ddatblygiadau'r gadwyn gyflenwi leol a chymalau hyfforddi a recriwtio cysylltiedig

sy'n ffafrio trigolion lleol.  Yn y tymor canolig i'r hirdymor, bydd y gwelliannau hyn yn helpu i leihau'r bwlch o ran dyhead a chyflawniad nid yn unig yn y Barri ond ar draws Bro Morgannwg yn gyffredinol.

Mae datblygiadau allweddol fel Parc Busnes y Maes Awyr wedi symud ymlaen gyda chynhyrchu Uwchgynllun Maes Awyr a gwaith parhaus y Cyngor o ddatblygu canllawiau cynllunio atodol ynghylch datblygiadau'r Maes Awyr a’r parc busnes cysylltiedig.   Cymeradwyodd y Cyngor ganiatâd cynllunio hefyd ar gyfer nifer o adeiladau diwydiannol/masnachol yn Sain Tathan (hangar 2,500 metr sgwâr GIA a hyd at 37,500 metr sgwâr o gyfleusterau cyflogaeth gweithredol GIA ar ochr y maes awyr).  Mae caniatâd cynllunio hefyd yn cael ei ystyried ar hyn o bryd ar gyfer Parc Busnes 44.79ha ac adeilad diwydiannol/masnachol (hyd at 3,000 metr sgwâr) yn Sain Tathan.  Mae trafodaethau gwaredu tir uwch hefyd yn mynd rhagddynt gyda Choleg Caerdydd a'r Fro ynghylch y bwriad i drosglwyddo tir ar gyfer campws addysgol o'r radd flaenaf ger y maes awyr.

Ochr yn ochr â'r datblygiadau hyn, rydym wedi **cefnogi busnesau lleol yn rhagweithiol drwy argyfwng COVID-19 drwy eu hyrwyddo, eu cyfeirio a'u cynorthwyo i gael gafael ar grantiau a chymorth arall sydd ar gael iddynt**. Fel rhan o becynnau ysgogi cyllidol amrywiol Llywodraeth Cymru a San Steffan i gefnogi busnesau drwy'r pandemig, rydym wedi gweinyddu dros £45 miliwn o gymorth grant COVID i fusnesau lleol.  Rydym hefyd wedi galluogi mynediad at ryddhad ardrethi, benthyciadau tarfiadau busnes a mecanweithiau cymorth cyflogau o £2biliwn ledled Cymru. **Mae addasu ein cynnig cymorth busnes ar-lein ochr yn ochr â rhoi cyngor ar arferion gweithio diogel wedi ein galluogi i ymgysylltu â mwy o fusnesau ar draws ystod o sectorau yn llwyddiannus ac mae hyn yn rhywbeth yr ydym yn bwriadu adeiladu arno wrth i ni ganolbwyntio ar adferiad sy'n gynaliadwy yn y tymor hir**.  Gyda rhagolygon economaidd ansicr yn cael eu rhagweld yn y blynyddoedd i ddod, y flaenoriaeth uniongyrchol i'r Fro yw parhau i weithio ar y cyd i gefnogi adferiad ein busnesau gan ganolbwyntio ar eu helpu i addasu i'r dirwedd sy'n esblygu ac adeiladu gwydnwch yn eu gweithrediadau.

Yn unol â'r ymrwymiadau yn **Prosiect Sero**, ein cynllun datgarboneiddio, rydym hefyd yn adeiladu ar gyfleoedd a gyflwynir o fewn fframwaith Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (PRC/*CCR*) i gyflawni gwelliannau trafnidiaeth gynaliadwy ar draws Bro Morgannwg. Byddwn yn canolbwyntio ar gyflawni newid moddol i ffurfiau mwy cynaliadwy ar drafnidiaeth gan gynyddu teithiau ar droed, ar feic a chludiant llai llygredig. Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi **cwblhau astudiaethau WelTAG ar gynlluniau a fydd yn cyflawni gwelliannau trafnidiaeth ar draws** Bro Morgannwg gan gynnwys Penarth drwodd i  Fae Caerdydd, cyffordd 34 yr M4 i'r A48, ffordd osgoi Dinas Powys a chyfnewidfa drafnidiaeth yn Nociau'r Barri.  Yn ogystal, mae'r Cyngor wedi **ymrwymo £3.44miliwn o arian A106 i gynlluniau trafnidiaeth gynaliadwy yn ystod y flwyddyn**, hynny yw, seilwaith cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus, gyda chynlluniau'n cael eu cyflawni'n llwyddiannus mewn nifer o ardaloedd gan gynnwys Dinas Powys, y Wig a'r Rhws. Rydym wedi cydweithio ar gynhyrchu mapiau rhwydwaith integredig a gwneud y defnydd gorau posibl o grantiau Llywodraeth Cymru i wella teithio llesol a'r seilwaith trafnidiaeth yn y Fro. Mae Cynlluniau Teithio Llesol wedi'u cyflwyno yn y Bont-faen, Llanilltud Fawr, Penarth Heights, Lavernock Road/Cosmeston, Sully Road/Ysgol Sant Joseff a South Road/Hays Road/Sully Moors Road.




Gan adeiladu ar ddatblygiadau arobryn Pump House y Barri, rydym wedi parhau i weithio gyda datblygwyr i adfywio'r 19 erw o dir yn llwyddiannus gerllaw Doc y Barri yn gwr trefol defnydd cymysg cyffrous, fel rhan o’r rhaglen Fuddsoddiad Adfywio wedi ei Dargedu. Er gwaethaf y pandemig, mae datblygiadau newydd wedi parhau drwy gydol y flwyddyn yn y Cwr Arloesedd. Mae **Datblygiad y Goods Shed**, a agorodd yn haf 2020, wedi troi hen adeilad Sied Nwyddau reilffordd yn gymysgedd cyffrous o unedau masnachol, busnes a phreswyl ynghyd â phentref cynwysyddion llongau at ddibenion masnachol, busnes a hamdden. Yn ogystal, mae bloc newydd o 42 o fflatiau marchnad fforddiadwy a phreifat yn cael eu codi yn rhan o'r cynllun ar gyfer Cymdeithas Dai Newydd. Ochr yn ochr â chreu swyddi, cartrefi, cyfleoedd busnes ac adeiladu sgiliau'r gweithlu, mae niwtraliaeth carbon yn athroniaeth allweddol yn y datblygiad newydd y gellir ei weld yn adferiad sied y peiriant a defnyddio cynwysyddion llongau fel fframwaith ar gyfer yr adeilad newydd.  Mae hyn yn unol ag

ymagwedd y Cyngor sy'n hyrwyddo pwysigrwydd seilwaith gwyrdd wrth hybu adferiad economaidd gwyrdd cynaliadwy. Mae'r datblygiad eisoes wedi **ennill cydnabyddiaeth genedlaethol yn ennill gwobr 'Creu Twf Economaidd' Ystadau Cymru 2020 a hefyd 'enillydd yr enillwyr' cyffredinol, a ddyfarnwyd i'r prosiect gorau ar draws pob categori.** Dangosodd y prosiect yn glir y pum ffordd o weithio drwy fabwysiadu dull o greu lleoedd, yn enwedig cyfranogiad cryf gan y gymuned; cydweithredu gwirioneddol; integreiddio drwy ystod eang o ddefnyddiau cymysg a'i ddull adfywio hirdymor.

**Mae Cytundebau Adran 106** yn parhau i chwarae rhan bwysig yn y gwaith o reoleiddio datblygiad a gwella seilwaith cymunedol i ddiwallu anghenion dinasyddion y Fro, gan gynnwys tai fforddiadwy yn arbennig. Yn ystod y flwyddyn, derbyniodd y Cyngor gyfraniadau ariannol gwerth £2,193,701.13 i greu seilwaith cymunedol a thai fforddiadwy. Yn y 12 mis rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020, llofnodwyd cyfanswm o 20 o gytundebau cyfreithiol sy'n gysylltiedig â chaniatâd cynllunio. Cyfanswm gwerth y cyfraniadau ariannol yn y cytundebau cyfreithiol hyn yw £310,404.80. **Cafodd £5,427,020.94 ei wario ar gynlluniau yn ystod 2020/21**, gyda chyfraniadau Adran 106 yn llawn (neu'n rhannol) yn **cefnogi gwelliannau i rwydweithiau trafnidiaeth gyhoeddus, cerdded a beicio, lleoedd ysgol newydd, celf gyhoeddus a gwelliannau i fannau agored.** Mae'r cynlluniau wedi cynnwys uned ryngweithiol newydd yn y Parc Canolog, y Barri; Ardal Gemau Aml-ddefnydd newydd yn y Wig a Chaeau Chwarae’r Brenin Siôr V; croesfan newydd a reolir gan olau traffig yn y Wig; gwelliannau teithio llesol yn Sain Tathan a chroesfannau newydd a gwelliannau i lwybrau troed yn Ninas Powys, i enwi ond rhai. Mae arian A106 wedi'i wario ar nifer o Brosiectau Band B Ysgolion yr 21ain Ganrif, gan gynnwys gwaith sy'n dechrau ar y safle i ad-drefnu addysg gynradd yn y Fro Orllewinol; y cynnig i ehangu ac ail-adeiladu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant ac ehangu Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg. Yn ogystal â chyfraniadau ariannol, mae'r Cyngor hefyd wedi gweithio gyda datblygwyr i gyflawni rhwymedigaethau 'taliadau mewn nwyddau neu wasanaethau' ar safleoedd datblygu. Er enghraifft, cwblhawyd 113 o unedau tai fforddiadwy yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Enghraifft arall yw celf gyhoeddus, lle mae datblygwyr wedi cwblhau gwaith ar y safle, megis y llwybr sydd wedi'i gwblhau yn y datblygiad ar dir i'r gogledd-orllewin o'r rheilffordd, yn y Rhws, gan Taylor Wimpey.

Cyn y pandemig, bu ein ffocws fel Cyngor ar symud i fodel cyflawni mwy ystwyth sy'n cefnogi ein dinasyddion a'n cymunedau i sicrhau newid cadarnhaol drostynt eu hunain, gan gyfrannu at gymunedau mwy cadarn a chynaliadwy. Rydym wedi gweithio gyda chymunedau i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i gael gafael ar gyllid grant i gefnogi gwelliannau cymunedol. Mae cyfleoedd drwy'r **fenter Cymunedau Gwledig Creadigol, ein Cronfa Grant Cymunedau Cryf, Cronfa Buddsoddiad Rhanbarthol wedi'i Dargedu Llywodraeth Cymru a'n Strategaeth Fuddsoddi Gymunedol** er enghraifft, wedi ein galluogi i ymgysylltu a chydweithio â'n cymunedau i gyd-ddylunio a chyflawni gwelliannau cymunedol ar draws Bro Morgannwg. Mae'r dull hwn wedi'i gyflymu ymhellach gan y gwaith cadarnhaol a wnaed gyda'n cymunedau yn ystod y pandemig. Wrth edrych i'r dyfodol, byddwn yn adeiladu ar y ffordd hon o weithio drwy ganolbwyntio ar feithrin gallu, annog menter gymdeithasol a grymuso ein cymunedau i ganolbwyntio ar dwf economaidd cynhwysol, gwydn a chynaliadwy wrth i ni wella a thrawsnewid yn sgil COVID-19.

**Bydd gan adferiad ein strydoedd mawr o'r pandemig rôl hanfodol i'w chwarae yn ein hadferiad economaidd**. Yn ystod y flwyddyn, gwnaed amrywiaeth o fuddsoddiadau penodol COVID-19 yng nghanol trefi ledled y Fro, gan ganolbwyntio nid yn unig ar helpu busnesau i fasnachu, ond hefyd i annog y cyhoedd i ddychwelyd i ganol ein trefi. Dim ond rhai o'r prosiectau a ariannwyd yw porth gwell i’r orsaf yn Llanilltud Fawr a Parklets ym Mhenarth. Comisiynwyd gwaith i edrych ar bob tref a nododd fuddsoddiad posibl yn y dyfodol pe bai cyllid ar gael. Cynhaliwyd ymgyrchoedd marchnata i hyrwyddo pob tref i bobl yn y rhanbarth a thu hwnt. Mae'r gwelliannau a weithredwyd yn ystod 2020 yn cynnwys y twnnel golau sy'n cysylltu Broad Street â datblygiad Good Sheds. Mae gwaith dichonoldeb hefyd wedi'i wneud ar farina ar gyfer y Barri. Mae'r Cyngor yn parhau i baratoi ar gyfer rhaglenni ariannu Llywodraeth San Steffan yn 2021/2022. Mae Cymunedau Gwledig Creadigol yn parhau i weithio ar brosiectau peilot gan gynnwys gŵyl gyd-weithio, a mentrau'r Fro Fwyd. Wrth edrych i'r dyfodol, rydym yn cydnabod, wrth i fwy o bobl aros yn lleol, fod cyfle i fuddsoddi mewn elfennau eraill sy'n gwneud strydoedd mawr yn lefydd arbennig. O ganlyniad, gallai ailsefydlu rôl ein strydoedd mawr fel canolfannau ar gyfer cysylltiad

cymdeithasol ac atgyfnerthu a dathlu eu gwreiddiau a'u cymeriadau unigryw wneud llawer i annog pobl i aros yn lleol a gwario eu harian lle maent yn byw. Bydd hyn hefyd yn hyrwyddo mwy o deithiau lleol, gan alluogi pobl i adael y car gartref ac annog cerdded neu feicio, a fydd hefyd yn effeithio'n gadarnhaol ar leihau allyriadau carbon.

Mae twf cynyddol mewn twristiaeth yn cefnogi twf economaidd a chyfleoedd cyflogaeth. Ym Mro Morgannwg, mae twristiaeth yn cyfrannu'n helaeth at swyddi a'n heconomi leol, gan gyflogi bron i 3,000 o bobl. **Ein busnesau twristiaeth yw rhai o'r busnesau sydd wedi eu taro galetaf gan bandemig COVID-19, gan gael effaith yn lleol nid yn unig ar y busnesau uniongyrchol sy'n gysylltiedig â thwristiaeth, ond hefyd y gymuned ehangach sy'n dibynnu ar y diwydiant drwy waith a chyflenwad nwyddau gan ddarparwyr lleol.** Yn sgil cyfnodau clo, cyfyngiadau cadw pellter cymdeithasol a chau busnesau nad ydynt yn hanfodol, mae llawer o fusnesau wedi dioddef colledion i incwm personol a disgwyliedig ac er gwaethaf ymyriadau ariannol Llywodraeth Cymru a Llywodraeth San Steffan, gorfu i lawer o bobl a gyflogir yn y sector naill ai i fynd ar ffyrlo neu golli eu swyddi yn ystod 2020. Wrth i'r cyfyngiadau gael eu llacio bu cynnydd sylweddol yn y galw am 'wyliau adref' hir yn y gwledydd hyn ac mae busnesau bellach yn wynebu'r broblem o recriwtio i swyddi gwag i ateb y galw cynyddol. Dangosodd arolwg effaith y Baromedr Twristiaeth (Coronafeirws (COVID-19) a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf 2021 na all tua chwarter (22%) o fusnesau twristiaeth gael staff ac mae ychydig dros hanner (51%) yn cael anhawster sylweddol i wneud hynny. Yn fwy cadarnhaol, mae lefel resymol o hyder ynghylch rhedeg busnes twristiaeth yn broffidiol am weddill y flwyddyn gyda 27% o weithredwyr yn hyderus iawn a 42% arall, yn weddol hyderus. Fodd bynnag, mae rhai sectorau'n dal i wynebu heriau ailagor oherwydd eu bod yn dal i golli eu marchnad allweddol e.e. tripiau ysgolion neu gymhlethdodau gyda chyfyngiadau cadw pellter. Wrth edrych i'r dyfodol, dangosodd y Baromedr Busnes Twristiaeth fod 67% o'r busnesau hynny sy'n cymryd archebion ar hyn o bryd ar gyfer 2021 yn dweud bod ganddynt lai o archebion nag a fyddai ganddynt fel arfer ar yr adeg hon o'r flwyddyn, gyda'r mwyafrif yn dweud bod pobl yn parhau i fod yn wyliadwrus ynghylch archebu. Rydym yn cydnabod mai'r allwedd i ddychwelyd i sector twristiaeth ffyniannus fydd cael dull rheoli cyrchfannau cryf, sy'n gwasanaethu ac yn cyfathrebu'n dda â busnesau a chymunedau lleol. Gan weithio gyda'n partneriaid a rhanddeiliaid allweddol, rydym yn cymryd ymagwedd ddeublyg gyda chynllunio sy'n canolbwyntio ar gamau gweithredu ar unwaith i ailosod a sbarduno adferiad, drwy gamau ymarferol a chydgysylltiedig i sicrhau bod ein busnesau twristiaeth yn barod ac yn gallu croesawu ymwelwyr yn ôl yn ddiogel. Mae hyn wedi'i gyplysu â gwaith ar fframwaith strategol diwygiedig i gefnogi datblygiad tymor hwy ein cynnig twristiaeth ar ôl COVID-19, drwy ein **Cynllun Rheoli Cyrchfan**.

Gan edrych ymlaen at 2021/22 a thu hwnt, un o'r prif heriau i'r Cyngor a'i bartneriaid yw lliniaru effaith COVID-19 ar ein heconomi leol, fel y gall busnesau ffynnu unwaith eto a darparu cyfleoedd cyflogaeth a dod â bywiogrwydd i'n cymunedau lleol. Mae Bro Morgannwg mewn sefyllfa ffodus o ran ei gweithlu medrus iawn. Fodd bynnag, wrth ddatblygu ein cynlluniau ar gyfer adferiad, rydym hefyd yn cydnabod bod anghydraddoldebau'n bodoli mewn ardaloedd ledled y Fro ac mae angen dybryd i uwchsgilio ein gweithlu presennol ac yn y dyfodol os ydym am fanteisio ar ein cyfleoedd i wella'n wyrdd. Rydym yn cydweithio ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol i fynd i'r afael â'n heriau a chyflwyno ymyriadau cadarnhaol â ffocws a fydd yn cefnogi creu Cymunedau cynaliadwy a chryf ym Mro Morgannwg, yn unol â'n gweledigaeth.

## 4.2 CYFLAWNIADAU

### Amcan 2: Cefnogi dysgu, cyflogaeth a thwf economaidd cynaliadwy

"Nodwyd 9 o'n hysgolion fel Ysgolion Arloesi Llywodraeth Cymru (Ysgol Gynradd Albert, Ysgol Gynradd Ynys y Barri, Ysgol Gynradd Tregatwg, Ysgol Gyfun y Bont-faen, Ysgol Gynradd Rhws Ysgol Gynradd Romilly, Ysgol Gynradd Gatholig Sant Joseph, Ysgol Stanwell ac Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg) i rannu dulliau arloesol o weithio tuag at weithredu fframwaith y cwricwlwm newydd. Yn ogystal â chyfrannu at y fframwaith, mae Ysgol Sant Joseff hefyd wedi cyflwyno ei chwricwlwm pwrpasol ei hun, gan ei gwneud yn un o ddim ond 16 Ysgol Arloesi'r Cwricwlwm yng Nghymru

Mae'r Cyngor wedi creu 630 o lefydd ysgol ynradd cyfrwng Cymraeg ychwanegol gan gynnwys buddsoddi bron i £6 miliwn mewn dwy ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd. Mae hyn ar adeg pan fo nifer y siaradwyr Cymraeg o bob oed yn parhau i gynyddu.

Mae arweinwyr a nodwyd ym mhob un o'n hysgolion cynradd ac uwchradd wedi hyrwyddo anghenion bron i 100 o ofalwyr ifanc ac wedi ymgysylltu'n rhagweithiol â gwasanaethau arbenigol i adolygu a

gwella'r ddarpariaeth. Mae ein holl ysgolion uwchradd yn gweithio tuag at weithredu'r Rhaglen Gofalwyr Ifanc mewn Ysgolion ac mae hyn wedi gwella cymorth yn yr ysgolydd ar gael i ofalwyr ifanc gan arwain at lefelau cyrhaeddiad gwell.

Er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i fodloni anghenion ein dysgwyr sydd fwyaf agored i niwed, disgwylir i Uned Adnoddau Arbenigol yn Ysgol Uwchradd Whitmore agor ym mis Medi 2021. Mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo ar ehangu Ysgol y Deri a chyfleuster newydd, y Ganolfan Dysgu a Llesiant, a fydd yn cynyddu'r capasiti ymhellach i gefnogi ein dysgwyr mwyaf agored i niwed.

Mae cydweithio â chontractwyr, prosiectau'r trydydd sector a'r sector cyhoeddus ar draws y Fro o dan fenter ysgolion yr 21ain Ganrif wedi helpu i sicrhau manteision cymunedol sylweddol gan gynnwys dros 10,000 wythnos o swyddi newydd a 5,300 wythnos o gyfleoedd hyfforddi. Cyfrannwyd at yr economi gan ddefnyddio contractwyr (90%) a llafur (56%) lleol. Mae contractwyr hefyd wedi darparu 44 o fentrau cymunedol, gan gynnwys cefnogi 3 gardd gymunedol a gwneud gwaith gwella a rhoi i elusennau lleol. Mae'r cyflawniadau hyn wedi cael eu cydnabod yn y Cyngor, gan ennill 'darpariaeth Caffael Gorau' yng ngwobrau GO Cymru 2021.

Dechreuodd gwaith adeiladu Ysgol Gynradd Llancarfan, yr ysgol gynradd ddi-garbon net gyntaf yng Nghymru, ym mis Tachwedd 2020. Rydym hefyd wedi cefnogi ysgolion presennol i ddatgarboneiddio drwy ddatblygu a dosbarthu adnoddau newid ymddygiad ynni. Mae'r gwaith hwn yn cyd-fynd â menter ehangach newid yn yr hinsawdd y Cyngor, sef Prosiect Sero.

Fel rhan o ddatblygu mannau gwyrdd i gefnogi dysgu'r disgyblion, rydym wedi cynhyrchu a dosbarthu adnoddau i ysgolion i'w helpu i wella a defnyddio eu mannau awyr agored ar gyfer natur, dysgu a chwarae. Mae ysgolion cynradd y Wig a Marcroes wedi sefydlu llawer o ardaloedd dysgu awyr agored gan gynnwys prosiect cynefin gyda disgyblion Blwyddyn 3, prosiect chwarae awyr agored meithrin ac Ysgol Goedwig. Mae'r gwaith hwn yn cefnogi menter Prosiect Sero'r Cyngor

VALE of GLAMORGAN BRO MORGANNWG Prosiect Zero Project

Rydym wedi parhau i wneud y mwyaf o'n buddsoddiad mewn TGCh mewn ysgolion trwy raglen Newid TGCh Ysgolion Llywodraeth Cymru trwy HWB ac rydym yn cyflwyno gweinyddwyr yn raddol ar draws pob ysgol yn y Fro er mwyn cefnogi'r gwaith hwn. Cynyddom y buddsoddiad yn seilwaith y rhwydwaith ar draws pob ysgol ar ddechrau'r pandemig i gefnogi strategaethau dysgu cyfunol a darparu 6,500 o ddyfeisiau disgyblion ac

Yn unol â'n hymrwymiad i hyrwyddo a diogelu iechyd a lles corfforol, emosiynol a chymdeithasol ein plant a phobl ifanc, mae pob ysgol ym Mro Morgannwg, gan gynnwys Ysgol Gweithredu dros Blant Headlands ac Ysgol Breifat Westbourne (60/60 o leoliadau), wedi parhau i gymryd rhan yng Nghynllun Ysgolion Iach Bro Morgannwg. Hyd yma, mae bron pob un wedi cyflawni camau 1-5 ac mae'r mwyafrif yn gweithio tuag at y

Wobr Ansawdd Genedlaethol a roddir i ysgolion sydd wedi cyflawni'r safonau uchaf ymhob un o saith agwedd iechyd a llesiant Ysgolion Iach am o leiaf 9 mlynedd o brofiad: Mae pedair ysgol yn y Fro wedi derbyn y wobr glodfawr hon, sef Ysgol Gynradd Ynys y Barri, Ysgol Gynradd Gladstone, Ysgol Gynradd

Fel rhan o Raglen Ad-drefnu a Buddsoddi mewn Ysgolion a Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, rydym wedi parhau i
wella'r amgylchedd dysgu ar gyfer disgyblion mewn ysgolion ledled y Fro, sy'n cefnogi gweithrediad llwyddiannus strategaethau ar gyfer gwella ysgolion a chanlyniadau addysgol gwell. Rydym yn parhau ar y trywydd cywir ar gyfer cwblhau project Cymunedau Dysgu Uwchradd Y Barri erbyn mis Gorffennaf 2022, gan fuddsoddi £88.6 miliwn mewn tair ysgol uwchradd i greu canolfannau dysgu modern er mwyn ateb galw yn y dyfodol a galluogi ein plant a'n bobl ifanc i wireddu eu llawn
botensial. Bydd y cyfleusterau newydd hefyd yn darparu cyfleusterau lleol gwell ar

Mae 100% o'r ysgolion yr ydym yn darparu ar eu cyfer (46 ysgol gynradd, 1 ysgol arbennig a 5 ysgol uwchradd) yn parhau
i gydymffurfio â'r rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru). Yn ogystal, mae 100% o'r ysgolion uwchradd yr ydym yn darparu ar eu cyfer yn parhau I gydymffurfio â'r safonau bwyd sydd yn rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru).

Rydym yn gweithio gyda'n hysgolion i ddatblygu dulliau ar sail gwybodaeth am drawma ar gyfer atal a lliniaru Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE), sy'n flaenoriaeth allweddol gan y Cyngor. Yn ystod y flwyddyn, gweithredom raglen hyfforddi gynhwysfawr sy'n seiliedig ar drawma ac iechyd meddwl ac adnoddau i gefnogi ysgolion i fodloni anghenion lles emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc. Ysgol Gynradd Gladstone yw ysgol gyntaf y Fro I gyflawni'r Wobr Ysgol sy'n Deall Trawma i gydnabod ei rhaglen feithrin gyda'r nod o gefnogi disgyblion i fagu gwydnwch a'u helpu i gyflawni eu potensial llawn.



Yn unol â'n hymrwymiad i ddarparu gwasanaethau arlwyo o safon, cafodd yr holl staff arlwyo presennol a newydd eu hyfforddi at Safon Hylendid Bwyd Lefel 2. Yn ogystal, mae'r holl arolygiadau iechyd a gynhelir mewn ysgolion yn ystod y flwyddyn wedi cyflawni safon Lefel 4 neu Lefel 5.

Rydym yn Plannu dros 1,200 o goed gan Coed Cadw fel rhan o'n prosiectau Ysgolion y 21ain Ganrif a fydd yn helpu i greu ardaloedd bywyd gwyllt ac yn cyfrannu hefyd at ansawdd aer gwell o amgylch ysgolion.

Datblygom Wasanaeth Ymgysylltu sy'n seiliedig ar wybodaeth am drawma a darpariaeth ar gyfer plant y Cyfnod Sylfaen ag anghenion cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl, y gyntaf yng Nghymru.

Cydweithiom i gefnogi pobl ifanc i sicrhau cyflogaeth, lleoliadau gwaith a hyfforddiant i hwyluso cyflogaeth. Cafodd 100 gymwysterau, sicrhaodd 101 gyflogaeth ac aeth 26 ymlaen i addysg bellach neu hyfforddiant drwy'r cynllun Ysbrydoli i Weithio. Aeth 140 arall ymlaen i addysg bellach neu hyfforddiant a chyflawnodd 136 gymwysterau drwy'r rhaglen

Mae gwaith wedi parhau I wella rhagolygon cyflogaeth pobl ifanc, er gwaethaf yr economi heriol. Crëwyd 30 cyfle lleoliad gwaith Kickstart ar gyfer pobl ifanc 18-24 oed ac mae 30 arall wedi eu hysbysebu hyd yma. Crëwyd 20 rôl prentisiaeth hefyd o fewn rolau'r cyngor.

Roedd 350 o denantiaid a gafodd gyngor ariannol yn ystod y flwyddyn yn dal i fod yn 'fyw' chwe mis yn ddiweddarach, sy'n dangos bod Cyngor Ariannol yn ymyriad hynod effeithiol i gynnal tenantiaethau.

Gostyngodd canran y rhai a adawodd flwyddyn 11 heb fynd i addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET), o 1.40% yn 2019 i 1.00% yn 2020. Yn ogystal, gostyngodd canran y bobl ifanc a adawodd flwyddyn 12 ac a gâi eu categoreiddio fel NEET hefyd o 0.80% yn 2019 i 0.62%. Mae'r perfformiad hwn yn gadarnhaol iawn o ystyried ei cyd-destun y pandemig byd-eang a'i effaith gysylltiedig. Gellir priodoli'r gostyngiad parhaus yn lefelau disgyblion blynyddoedd 11 a 12 nad ydynt yn mynd i addysg, cyflogaeth na hyfforddiant i weithio mewn partneriaeth effeithiol drwy'r Fframwaith Ymgysylltiad a Dilyniant Ieuenctid sy'n canolbwyntio ar atal ac ymyrryd yn gynnar ochr yn ochr â chynnig

Datblygu a chyhoeddi cyfeirlyfr o ddarpariaeth addysg amgen ar gyfer disgyblion oedran ysgol statudol. Mae'r adnodd defnyddiol hwn yn galluogi ysgolion i gael mynediad at ddarpariaeth addysg amgen i ddisgyblion ag anghenion cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl a allai elwa ar lwybrau dysgu mwy pwrpasol. Gweithiodd y Coleg Paratoi Ysgogol ar gyfer Hyfforddiant (MPCT), y darparwr ymgysylltu mwyaf yn y Fro, gyda dros 187 o ddisgyblion ac mae 132 wedi ennill cymwysterau hyd yma, a dylai'r gweddill gwblhau eu cymwysterau yn ystod 2021/22. Bu 84 o ddisgyblion yn rhan o raglen llwybrau 14-16 Coleg Caerdydd a'r Fro (CCF), cynnydd gan 9% ers y flwyddyn flaenorol. Cwblhaodd 22 o bobl ifanc eu rhaglen Prentisiaeth Iau o gymharu a'r wyth a wnaeth y flwyddyn flaenorol.

Drwy Uned Benthyca Arian Anghyfreithlon Cymru, rydym wedi parhau i gefnogi dioddefwyr benthycwyr arian didrwydded ac wedi sefydlu menter beilot gydag Undebau Credyd I gynorthwyo unigolion i fenthyca drwy'r llwybr hwn. Drwy ddulliau digidol, rydym wedi llwyddo i ddarparu hyfforddiant a sesiynau codi ymwybyddiaeth ar gyfer asiantaethau partner a chymerodd llawer o bobl ran.

Mae Grŵp Tactegol Plant sy'n Agored i Niwed a oedd yn cynorthwyo plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed i gael mynediad i ysgolion ardal, darpariaeth chwarae yn ystod gwyliau'r ysgol ac yn cynorthwyo eu dychwelyd i ysgolion wedi parhau i weithio i sicrhau dull cydlynol o gefnogi ein plant sy'n agored i niwed. Drwy gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, mae'r grŵp hefyd wedi cefnogi ysgolion i gynnig darpariaethau gwyliau mewn 4 ysgol ar draws y Barri ac 1 yn

Bydd ein canolfan adnoddau awtistiaeth yn croesawu disgyblion ym mis Medi mewn safle newydd a gwell yn Ysgol Uwchradd Whitmore.




Gostyngom yn sylweddol ein hôl troed carbon gan ailgylchu 99% o wastraff adeiladu a gafodd ei gynhyrchu yn Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, neu adferom yr ynni i leihau allyriadau wrth echdynnu deunydd crai ac i osgoi defnyddio safleoedd tirlenwi. Dyfarnodd Llywodraeth Cymru tua £1m yn ychwanegol i'r Cyngor i gefnogi mesurau datgarboneiddio fel rhan o'r Rhaglen.

Cefnogom bron i 2,100 o fusnesau ar draws y sectorau masnach i gydymffurfio â Rheoliadau'r Cyfyngiadau Coronafeirws gan amddiffyn eu gweithwyr, eu cwsmeriaid a'u cleientiaid.

Datblygom astudiaethau a fydd yn arwain at welliannau trafnidiaeth yn y Fro gan gynnwys o Benarth i Fae Caerdydd ac astudiaethau WelTAG Cam Dau a Mwy ar gyfer yr Cyffordd 34 yr M4 i'r A48 a ffordd osgoi Dinas Powys.

Sicrhaom gyllid adfer canol trefi gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwaith yng nghanol trefi'r Barri, y Bont-faen, Llanilltud Fawr a Phenarth. Roedd cyfradd yr unedau gwag yn ein Canolfannau Manwerthu Tref a'r Cylch yn 9.61% ar ddiwedd y flwyddyn, o'i chymharu â'r cyfartaledd yng Nghymru, a oedd yn 15.9%.




Cwblhawyd datblygiad y Sied Nwyddau mawr ei ddisgwyl yn brydlon gyda chefnogaeth y Cyngor a'r Strategaeth Buddsoddi Rhanbarthol Targedig. Y datblygiad yw un o'r strydoedd mawr trefol cynaliadwy gyntaf yn y DU lle gall pobl weithio, bwyta, byw a chwarae ac mae yno gymysgedd o siopau bwyd a diod annibynnol, bwtîcs manwerthu a ffordd o fyw a mannau i wneud busnes. Enillodd y prosiect y 'wobr creu twf economaidd' yn ogystal â gwobr gyffredinol 'enillydd yr enillwyr' yng ngwobrau Ystadau Cymru 2020.

2,500 o fusnesau gyngor ar gyllid a chymorth busnes drwy'r broses grant dewisolthrwy Evolutive. Cafodd 328 o fusnesau Newydd gymorth gan y cyngor a chafodd 29 o sefydliadau a arweinir yn gymunedol gymorth ariannol.

Ers ei lansio ym mis Ebrill 2020, mae 'siop un stop' y Fro ar gyfer cymorth tai wedi cynghori bron i 1,000 o unigolion. Nid yw 76% o'r bobl a gafodd y gwasanaeth erioed wedi cael cymorth o'r blaen. Hyd yma rydym wedi: cefnogi a chyflawni canlyniadau llwyddiannus ar 160 o'r achosion digartrefedd; diwallu'n llwyddiannus anghenion sy'n gysylltiedig â chymorth tenantiaeth 956 o'r 976 o bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth; cafodd 302 o bobl eu cyfeirio at gymorth iechyd meddwl a chawsant ganlyniadau llwyddiannus; llwyddodd 260 o bobl i gael cymorth cyflogaeth yn llwyddiannus gan gynnwys hyfforddiant cyflogadwyedd; llwyddodd 445 o bobl i gael mynediad llwyddiannus at gyngor a chymorth cyllidebu, budd-daliadau a grantiau; aethom i bartneriaeth â banc bwyd y Fro i gydlynu a dosbarthu parseli bwyd i'r rhai mewn

Gweithiom gyda'r trydydd sector i ddatblygu, cefnogi a hyrwyddo cyfleoedd I wirfoddolwr yn y gymuned e.e. siopa cymunedol Age Connects ar gyfer yr henoed a dinasyddion y Fro sy'n agored i niwed i leihau unigrwydd a theimlo'n ynysig a gwella iechyd meddwl.

Hyrwyddom gyfleoedd i bobl ag anabledd dysgu fanteisio ar gyfleoedd gwirfoddoli cymunedol ac mae diddordeb pellach mewn cyfleoedd sydd ar y gweill gyda'r Ymddiriedolaeth Dai, y Sied Nwyddau ac elusennau lleol.

## 4.3 HERIAU

### Amcan 2: Cefnogi dysgu, cyflogaeth a thwf economaidd cynaliadwy

Bu pryderon am y dirywiad yn **iechyd cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl (CEIM/*SEMH*) plant a phobl ifanc** cyn y pandemig, ond mae arolwg diweddar a gynhaliwyd gan y Comisiynydd Plant (Ionawr 2021) wedi dangos dirywiad pellach. Her allweddol sy'n dod i'r amlwg i ysgolion yw'r nifer cynyddol o blant a phobl ifanc sy'n dangos anawsterau CEIM (Cymdeithasol, Economaidd, Iechyd Meddwl) cymhleth iawn sydd yn ei dro yn cael effaith sylweddol ar eu gallu i ddysgu ac i ryngweithio'n gadarnhaol ag oedolion a chyfoedion. O ganlyniad, gwelwyd nifer cynyddol o blant a phobl ifanc a oedd yn anodd eu cynnwys mewn lleoliadau prif ffrwd. Dangosir hyn gan y niferoedd cynyddol o atgyfeiriadau o ysgolion i'r Panel Iechyd Meddwl Emosiynol Cymdeithasol PCEIM lle caiff darpariaethau arbenigol eu hystyried yn ogystal â lleoliadau mewn sefydliadau cynradd ac uwchradd sy'n fedrus iawn wrth gefnogi disgyblion ag anghenion CEIM sylweddol. Mae hyn wedi arwain at **lefelau cynyddol o wahardd, cynnydd yn y ceisiadau am wasanaethau arbenigol a lleoliadau arbenigol, cynnydd yn nifer y plant a phobl ifanc sy'n cael eu haddysgu mewn lleoliadau heblaw am yn yr ysgol (AHY), mwy o ddisgyblion yn cyrchu darpariaeth y tu allan i'r ysgol (ATAY) a nifer uwch o rieni sy'n dewis addysgu eu plant gartref (ADdG).** Mae'n amlwg hefyd bod plant yn dangos yr anawsterau hyn ar oed dipyn yn iau, a oedd yn rhoi **pwysau cynyddol ar leoliadau'r blynyddoedd cynnar ac ysgolion cynradd.** Rydym yn cydnabod bod angen dybryd i'n holl ysgolion weithio o fewn fframwaith sy'n seiliedig ar dystiolaeth, sy'n ymgorffori dealltwriaeth o Drawma Datblygiadol, Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, Ymlyniad a niwrowyddoniaeth iechyd meddwl ac iechyd gwael. Rydym eisoes wedi gwneud cynnydd sylweddol yn y maes hwn, er enghraifft rydym wedi sefydlu Gwasanaeth Ymgysylltu sy'n seiliedig ar drawma ac mae ein darpariaeth ar gyfer plant y cyfnod sylfaen sydd â CEIM y cyntaf yng Nghymru. Byddwn yn parhau i weithio gydag Ysgolion a'n partneriaid i **ehangu'r dull sy'n seiliedig ar drawma ar draws Bro Morgannwg a chefnogi ein dysgwyr mwyaf agored i niwed.**

---

Y Fro yw'r awdurdod sydd â'r cyllid isaf fesul disgybl yng Nghymru o hyd. Er bod y lefel isel o gyllid a dderbynnir yn dangos bod gwerth da am arian yn cael ei gyflawni wrth ddarparu ein gwasanaethau, mae'r angen i barhau i **godi lefelau cyrhaeddiad yn erbyn cefndir o ostyngiad cenedlaethol parhaol mewn cyllid addysg a chynnydd o ran disgyblion sy'n mynychu ysgolion y Fro yn rhoi heriau sylweddol i'r dyfodol.** Nid yw'r lefelau cyllid isel parhaus yn gynaliadwy yn y tymor hir, yn enwedig o ystyried effeithiau COVID-19 sy'n dod i'r amlwg, a gallent fygwth gwasanaethau allweddol wrth i amser fynd rhagddo Gan fwrw golwg ymlaen, mae San Steffan eisoes wedi awgrymu y bydd rhewi ar gyflogau'r sector cyhoeddus a mwy o lymder i dalu am y pandemig coronafeirws. Mae hynny'n golygu y bydd llai fyth o arian yn dod i Gymru ar gyfer addysg a gwariant arall.

---

Yn sgil y ffaith mai Cymru yw'r unig wlad yn y DG nad yw'n cynnal TAG Safon Uwch yn 2021, nid yw'n glir a fydd yr asesiadau sy'n eu disodli a chymwysterau TGAU fel rhan o'r cwricwlwm newydd yn cael eu parchu a'u gwerthfawrogi gan Addysg Uwch yma fel y cânt mewn mannau eraill. Mae angen sicrhau nad yw hyn yn rhoi ein pobl ifanc dan **anfantais wrth gystadlu am leoedd addysg uwch gyda chyfoedion a oedd yn sefyll arholiadau cydnabyddedig.**

---

Mae yna **angen i sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn ailymgysylltu a dal i fyny ar ddysgu a gollir** yn ystod y cyfnodau clo a hunan-ynysu er mwyn sicrhau nad ydynt o dan anfantais pellach. Er bod rhywfaint o arian wedi'i ddyrannu gan Lywodraeth Cymru i gefnogi adferiad dysgu, bydd anferthedd yr hyn sydd angen ei gyflawni yn y tymor byr i ganolig yn **gofyn am fuddsoddiad sylweddol a pharhaus dros nifer o flynyddoedd.** Roedd cyllidebau ysgolion eisoes dan bwysau sylweddol ac mae effaith **COVID-19 wedi gwaethygu'r sefyllfa ymhellach. Bydd symud ymlaen gyda diwygiadau radical i'r cwricwlwm gyda hyn oll yn gefnlen yn heriol i bawb dan sylw a gallai beryglu ei lwyddiant.**

---

Cyn y pandemig, roedd safonau cyflawniad ar draws y Fro yn ddarlun o welliant, ond bu **effaith y pandemig ar gynnydd disgyblion yn sylweddol, yn enwedig grwpiau sy'n agored i niwed,** ac mae angen sicrhau mewnbwn effeithiol gan Gyd-wasanaeth Addysg Consortiwm Canolbarth y De mewn ysgolion i **cefnogi'r broses o adfer**

**dysgu a gollwyd a chyflawni'r effaith a'r gwelliannau gofynnol o ran parhau i godi lefelau cyrhaeddiad ar draws Bro Morgannwg, gan gynnwys gwell canlyniadau arolygiadau gan Estyn**. O dan y fframwaith arolygu newydd, a gyflwynwyd ym mis Medi 2017, dim ond 2 ysgol a gafodd eu barnu'n rhagorol ar gyfer y meysydd arolygu safonau addysgu a phrofiadau dysgu. Yn ogystal, mae angen sicrhau bod ysgolion yn cael eu cefnogi ac yn parhau i ganolbwyntio ar weithio tuag at system o hunan-welliant.

Rydym yn gweld **galw cynyddol am ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a disgwyliadau cynyddol cwsmeriaid sy'n parhau roi pwysau ychwanegol ar adnoddau addysg canolog ac ar gyllidebau ysgolion unigol.** Mae'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg yn rhoi rhagor o ddyletswyddau ar yr awdurdod lleol sy'n cael effaith ar y timau i gyflawni gwasanaethau yn unol â'r disgwyliadau hyn. **Mae COVID-19 wedi cael effaith andwyol ar weithredu'r Ddeddf ADY** ac mae'r gwaith hwn bellach yn cael ei gyflwyno'n raddol er mwyn rhoi mwy o amser i baratoi ar gyfer effaith lawn y Ddeddf. Mae hwn yn faes newid arbennig o gymhleth a bydd angen yr ymagwedd cam wrth gam wrth weithredu'r Ddeddf.

**Mae'r galw am leoedd arbenigol ar gyfer plant a phobl ifanc yn cynyddu, ac wedi ei ddwysáu gan y pandemig ac mae ateb y galw hwn yn hynod heriol.** Mae'r angen am leoliadau y tu allan i'r sir (ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion na ellir eu bodloni o fewn y Fro) hefyd yn parhau i roi pwysau ar arbedion cyllideb y Gyfarwyddiaeth Dysgu a Sgiliau. Mae'r gyllideb hon yn gyfnewidiol a gall newidiadau i nifer fach o leoliadau disgyblion effeithio'n sylweddol arnynt. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ystyried lle bynnag y bo modd, ddewisiadau amgen priodol yn y sir i fodloni anghenion addysgu plant tra'n lleihau costau.

**Mae presenoldeb disgyblion yn parhau i fod yn faes ffocws. Mae'r pandemig wedi effeithio ar ein gallu i leihau ymhellach nifer y disgyblion sydd â phresenoldeb isel.** Cyn y pandemig, roedd presenoldeb disgyblion wedi gostwng ychydig mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. Mae hyn wedi'i waethygu ymhellach gan bandemig COVID-19, sydd wedi dangos bod angen amrywiaeth o ddulliau dysgu i sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc, yn enwedig grwpiau agored i niwed a difreintiedig, yn cymryd rhan mewn dysgu. Gan weithio mewn partneriaeth ag ysgolion, mae'r Gwasanaeth Cyrhaeddiad, Llesiant ac Ymgysylltu yn ymgysylltu ac yn cefnogi plant, pobl ifanc a'u teuluoedd i wella presenoldeb.

Mae tystiolaeth glir fod **COVID-19 wedi effeithio ar bobl ifanc o ran cyrchfannau addysg cadarnhaol yn enwedig Blwyddyn 13 (18 oed).** Dyblodd nifer y bobl ifanc NEET ym mlwyddyn academaidd 2019/20 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol o 1.5% i 3%. Mae hwn yn faes lle'r ydym yn cynyddu'r gefnogaeth. Rydym hefyd yn canolbwyntio ein hymdrechion ar nodi'r disgyblion hynny a restrir fel rhai 'anhysbys' o ran canlyniadau cyrchfannau cadarnhaol ac rydym yn cydweithio i leihau'r niferoedd hyn.

Mae Prydain yn gadael yr Undeb Ewropeaidd ddiwedd Ionawr 2020 yn parhau i gyflwyno **heriau o ran cyllid ar gyfer nifer o fentrau megis Teuluoedd yn Gyntaf, Ysbrydoli i Gyflawni ac Ysbrydoli i Weithio** sydd yn draddodiadol wedi'u hariannu drwy gyllid grant Cronfa Gymdeithasol Ewrop. Mae peidio â gwybod o le y bydd y cyllid yn dod, lefel y cyllid a hyd y cyllid, os bydd unrhyw beth ar gael, yn creu ansefydlogrwydd ac ansicrwydd yn nhermau cynllunio gwaith yn y dyfodol a fydd o bosibl yn cael effaith ar gynnal y lefelau uchel o berfformiad a gyflawnir hyd yn hyn wrth gyflawni'r mentrau hyn. Mae angen sicrhau bod strategaethau ymadael priodol ar waith ar gyfer yr holl brosiectau a ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop.

Er bod ein hysgolion wedi ymateb i her COVID-19 trwy fabwysiadu llwybrau dysgu amgen yn gyflym, fel dysgu o bell i sicrhau bod disgyblion yn parhau i gael eu cefnogi i ddysgu, mae'n annhebygol y bydd y rhain yn disodli'r dysgu a gollwyd o'r ysgol ac mae perygl go iawn y bydd hyn o bosibl â chanlyniadau hirdymor ar gyfer y canrannau yr effeithir arnynt ac yn debygol o **gynyddu anghydraddoldebau addysg ac o bosibl sbarduno ymddieithrio ymhlith plant a phobl ifanc.**

Her allweddol dros y flwyddyn i ddod fydd sicrhau bod i**echyd meddwl a lles plant a phobl ifanc yn parhau i gael eu cefnogi, yn enwedig yng nghyd-destun y trefniadau presenoldeb ysgol newydd a'r pwysau parhaus ar wasanaethau gofal cymdeithasol ac iechyd.**

Wrth ddarparu ar gyfer y newid o ran strategaeth ar gyfer dysgu cyfunol wrth i ni symud ymlaen, **bydd angen uwchsgilio staff yn barhaus er mwyn datblygu'r sgiliau a'r arbenigedd arbenigol** sydd eu hangen i ddatblygu offer a strategaethau o fewn lleoliadau ysgol, yn yr awdurdod lleol ac o fewn Consortiwm Canolbarth y De.

Rydym yn parhau i gynnig nifer ac ystod gynyddol o gyfleoedd dysgu i oedolion drwy ddysgu cymunedol ac mae cyfraddau manteisio yn uchel, yn ogystal â'n cyfraddau llwyddiant. Fodd bynnag, **mae perygl go iawn na fydd y cyfleoedd hyn yn gynaliadwy ar gyfer y tymor hir o ystyried gostyngiadau cyllid parhaus.** Mae hyn yn bygwth rhagolygon llawer o ddinasyddion y Fro yn y dyfodol, y gallai fod angen i lawer ohonynt ailhyfforddi i weithio y tu hwnt i oedran ymddeol yn ogystal â phobl ddi-waith y mae angen cymorth arnynt i hyfforddi ar gyfer rôl newydd. Mae cynyddu cyfleoedd i bobl gyflawni eu potensial llawn yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol i'r Cyngor ac rydym yn parhau i weithio mewn partneriaeth i sicrhau bod pobl sydd am ddefnyddio addysg oedolion fel sbardun i wella eu sgiliau yn parhau i gael mynediad i'r cyfleoedd hynny.

Er ein bod, yn gyffredinol, wedi ymateb yn llwyddiannus i her COVID19 drwy symud dysgu o ystafelloedd dosbarth i gartrefi ar y raddfa a oedd yn ofynnol dros gyfnod byr o amser, **mae cynnal a gwella dysgu o bell i bob disgybl dros y flwyddyn i ddod yn cyflwyno heriau dynol a thechnegol enfawr,** yn enwedig o ystyried y galwadau llethol ar bortholion addysg sy'n bod yn barod.

**Erys heriau o ran diwallu anghenion ein disgyblion sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol** wrth i ni symud ymlaen gyda'r trefniadau presenoldeb newydd mewn ysgolion. Gwnaethom fenthyg offer pan gaeodd ysgolion, fodd bynnag, bu'n rhaid dychwelyd y dyfeisiau hynny gan fod eu hangen hefyd yn yr ystafell ddosbarth i'n galluogi i gyflawni ein strategaeth ddysgu gyfunol. Rydym hefyd wedi darparu Wi-Fi i rai teuluoedd hyd at fis Awst 2021, fodd bynnag, mae anghenion y disgyblion hyn y tu hwnt i hynny yn peri heriau ariannol a gweithredol. Mae problem hefyd gyda'r gadwyn gyflenwi ar gyfer dyfeisiau digidol a'r amser arweiniol (4-6 mis ar hyn o bryd) o ystyried y galw byd-eang.

**Bydd lleihau cyllidebau yn effeithio ar ein gallu i gynllunio'n effeithiol yn y tymor canolig i'r tymor hwy** a allai beryglu hyfywedd a llwyddiant posibl unrhyw gynlluniau cymunedol yn y dyfodol, yn enwedig mewn ardaloedd adfywio sydd â diweithdra uchel. Gallai'r ansicrwydd a'r anallu i reoli'r newid hwn gael **effaith andwyol ar sefydlu cyfleoedd cyflogaeth mwy cynaliadwy** yn yr hirdymor a chyfyngu yn y pen draw ar ein gallu i leihau tlodi ac anghyfartaledd.

## 4.4 SBOTOLAU AR: YSBRYDOLI I WEITHIO (YiW)

Cydnabuwyd ers tro bod gwella sgiliau yn hanfodol er mwyn adeiladu twf cynaliadwy a chymunedau cadarn. Gwyddom hefyd fod sicrhau bod addysg yn hygyrch i bawb yn hanfodol i gymdeithas deg (Cymru Gyfartal), gan sicrhau nad oes neb yn cael eu gadael ar ôl. Ein huchelgais yw bod gan Fro Morgannwg boblogaeth addysgedig a medrus gyda phawb yn cael cyfle i ddysgu, datblygu eu sgiliau, cael mynediad i gyflogaeth a chymryd rhan yn eu cymunedau. Am resymau economaidd a chymdeithasol, mae'n hanfodol felly bod y rhai sydd heb gyflogaeth yn cael cymorth i ennill y sgiliau cywir i ddod o hyd i waith cynaliadwy gyda'r rhagolygon i symud ymlaen, a bod cyflogwyr yn gallu manteisio ar y llafur medrus sydd ei angen arnynt i helpu eu busnesau i lwyddo.

Mae pobl ifanc wedi dioddef yn anghymesur o ddiweithdra o ganlyniad i bandemig COVID-19. Dangoswyd bod treulio amser nad yw mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant (NEET) yn cael effaith andwyol ar les corfforol a meddyliol. Mae'r effaith hon yn fwy pan fydd yr amser a dreulir yn NEET yn iau neu'n para am fwy o amser. Mae cysylltiad rhwng yr amser a dreulir yn NEET ac iechyd gwael, yn rhannol oherwydd tebygolrwydd uwch o

ddiweithdra, cyflogau isel, neu waith o ansawdd isel yn ddiweddarach mewn bywyd. Gall bod yn NEET hefyd gael effaith ar ymddygiad afiach a chymryd rhan mewn troseddu. Gan fod y siawns o fod yn NEET yn dilyn graddiant cymdeithasol, gallai lleihau cyfran y bobl NEET helpu i leihau anghydraddoldebau iechyd. Mae gan Fro Morgannwg rai ardaloedd sydd gyda'r mwyaf difreintiedig yng Nghymru ac felly mae angen i ni sicrhau ein bod yn darparu'r cymorth a'r anogaeth sydd eu hangen i alluogi plant a phobl ifanc difreintiedig i wella eu sgiliau i'w galluogi i gyflawni eu potensial fel y gallant gymryd rhan weithredol mewn cymdeithas. Mae data o 2020 (blwyddyn academaidd 2019/20), yn dangos, er ein bod yn parhau i gynnal y gostyngiad mewn NEETs ar gyfer Blwyddyn 11 (1.4% i 1%) a Blwyddyn 12 (0.80% i 0.62%), ond mae'r ffigur ar gyfer Blwyddyn 13 wedi dyblu (1.55% i 3.10%).

Rydym wedi adeiladu ymagwedd **gydweithredol** yn **cynnwys** ysgolion, darparwyr addysg bellach, cyflogwyr lleol, y Ganolfan Waith a darparwyr dysgu galwedigaethol a rhai amgen eraill wrth ddatblygu ein strategaeth i leihau cyfran y bobl ifanc sy'n NEET. Rydym yn gweithio drwy Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Dinas-ranbarth Caerdydd i sicrhau ein bod yn canolbwyntio ein gwaith ar fynd i'r afael â bylchau sgiliau a nodwyd i ddiwallu anghenion yr economi leol a chenedlaethol ar gyfer y **hirdymor**. Ein ffocws ar **ymyrraeth gynnar ac atal**, hynny yw, mae mynd i'r afael â'r rhwystrau y mae pobl ifanc yn eu hwynebu wrth geisio symud i addysg neu gyflogaeth, gan ddarparu cynnig addysg amgen cynhwysfawr ac olrhain cynnydd yn sicrhau canlyniadau cadarnhaol o ran cyrchfannau yn gyffredinol. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod angen gwneud mwy, yn enwedig yng ngoleuni effaith barhaus y pandemig ar y rhagolygon i'n pobl ifanc. Mae'r enghraifft isod yn dangos sut mae mabwysiadu ymagwedd gydweithredol sy'n canolbwyntio ar y person ar gyfer pobl ifanc sydd mewn perygl yn gallu eu hatal rhag dod yn NEET a chyfrannu at ganlyniadau cyrchfan cadarnhaol a gwell cyfleoedd bywyd.

**TAITH CLEIENT: YiW (I2W)**

Cyfeiriwyd Kelly at brosiect YiW drwy Ganolfan Waith Penarth ym mis Ebrill 2018. Cyfeiriwyd Kelly am gymorth ynghylch sgiliau a hyfforddiant cyflogadwyedd oherwydd bod plentyn ifanc ganddi. Penderfynwyd rhwng yr Anogwr Gwaith a Kelly y byddai prosiect YiW yn fwy addas oherwydd yr hyfforddiant a'r cymorth un i un y gall prosiect YiW ei gynnig, yn hytrach na phrosiectau tebyg eraill sy'n cynnig gofal plant yn benodol fel rhan o'u darpariaeth. Nodwyd hyn er mwyn rhoi cymorth i Kelly ailymuno â'r farchnad swyddi ar ôl i'w phlentyn ddechrau yn y feithrinfa ym mis Medi 2019. Nid oedd unrhyw hunanhyder na hunanwerth gan Kelly oherwydd iddi fod allan o gyflogaeth am flynyddoedd lawer, yn ogystal â'i phrofiadau personol yn y gorffennol gyda theulu a pherthnasoedd. Mae Kelly newydd droi'n 23 oed ac yn byw mewn fflat hunangynhwysol gyda'i phlentyn tair oed. Roedd Kelly yn ansicr o'i dewisiadau o ran gyrfaoedd oherwydd ei phlentyn a nesa peth i ddim cymorth teuluol o ran gofal plant. O'i hymgysylltiad â'r prosiect, ynghyd ag archwilio gwahanol opsiynau, mynegodd Kelly ddiddordeb mewn gweithio gyda phlant drwy addysgu.

Mae Kelly wedi cael cefnogaeth drwy brosiect YiW am flwyddyn. Yn ystod y cyfnod hwn, roedd cefnogi Kelly yn golygu cyfarfodydd un-i-un yn ogystal â'i bod yn mynychu nifer o gyrsiau hyfforddi sydd wedi'i datblygu fel unigolyn drwy feithrin ei hyder yn ogystal â rhoi cipolwg iddi ar y proffesiwn addysg. Mae cyfanswm yr amser sydd wedi mynd at gefnogi Kelly yn dod i dros 140 awr hyd yn hyn, sy'n cynnwys yr hyfforddiant y mae wedi'i fynychu.

O ddechrau'r prosiect i ymgysylltu â Kelly, mae wedi croesawu'n llawn y gefnogaeth a gynigir iddi ac mae wedi mynychu pob apwyntiad a hyfforddiant a drefnwyd ar ei chyfer. Er iddi ddechrau gyda hyder isel iawn, mae hyn wedi gwella 100% ac mae wedi siarad yn nigwyddiad ymarferwyr rhanbarthol YiW i dynnu sylw at yr effaith gadarnhaol y mae'r prosiect wedi'i chael ar ei bywyd. Mae Kelly wedi canolbwyntio'n wirioneddol ar fynychu cyrsiau hyfforddi a fyddai'n cael effaith yn ei dewisiadau gyrfaol, sy'n helpu i sicrhau eu bod mor berthnasol â phosibl ac yn dangos ei ffocws ar yr yrfa y mae'n dymuno ei dilyn. Mae angen ymrwymiad hirdymor ar rai o'r cyrsiau y mae wedi'u mynychu ac mae wedi manteisio'n llawn ar y cyfleoedd hyn i addysgu ei hun a'i rhoi yn y sefyllfa orau bosibl i gael gwaith o fewn y proffesiwn addysg.

O fewn ei chynllun gweithredu a ddatblygwyd dros gyfnod o amser oherwydd ei ansicrwydd, cytunodd Kelly y byddai'n mynychu hyfforddiant addas a oedd yn ymwneud â'i dewis gyrfa. Mae'r cyrsiau y mae wedi'u mynychu a'u cwblhau yn cynnwys: Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed (POVA) lefel dau, wedi'i achredu Codi Ymwybyddiaeth Diogelu Mewnol, heb ei achredu; Bwyd ac Arlwyo lefel dau, wedi'i achredu; Codi a Chario lefel dau, wedi'i achredu; Cymorth Cyntaf Brys yn y Gwaith, lefel tri, wedi'i achredu; Hyfforddiant Addysg Oedolion (AET, PTLLS gynt) lefel tri, wedi'i achredu; Bwyd a Maeth lefel dau, wedi'i achredu. Bydd Kelly yn cwblhau ei chymhwyster Cynorthwy-ydd Cymorth Dysgu (LSA), lefel dau, yr haf hwn, ynghyd â Seicoleg Plant, lefel un, sydd wedi'u hachredu drwy Highfields ac a fydd yn arbennig o berthnasol i'w dewis gyrfa.

Mae ymrwymiad Kelly i'w datblygiad yn amlwg yn ei phresenoldeb parhaus a'i hawydd i gwblhau'r cyrsiau hyn. Roedd y cwrs Maeth a gwblhaodd yn 10 wythnos, gyda sesiynau dwy awr a'r cwrs AET yn wyth diwrnod llawn, gan gynnwys aseiniadau ysgrifenedig a darparu gweithgareddau micro-addysgu. Mae'r cyrsiau hyn wedi helpu i ddatblygu ei hyder yn fawr ac wedi ei chefnogi'n fawr drwy brosiect YiW.

Bu'r cymorth ariannol a gafwyd drwy dalu am gost y cyrsiau AET a Maeth, ynghyd â darparu cludiant, i'r hyfforddiant ac i'w phlentyn gael cymorth gofal plant gan aelod o'r teulu. Nid oedd gan Kelly fynediad i liniadur na chyfrifiadur er mwyn cwblhau ei haseiniadau ar gyfer y cwrs AET. Am yr wythnosau cyntaf, gwnaeth ei haseiniadau mewn llawysgrifen ac roedd hefyd yn defnyddio darpariaeth gymunedol yn ei llyfrgell leol. Er mwyn helpu i wneud y broses hon yn symlach iddi, darparwyd gliniadur iddi ei ddefnyddio dros dro drwy gydol y cwrs AET. Bydd hyn hefyd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer ei chyrsiau LSA a Seicoleg Plant drwy'r haf.

Mae'r gefnogaeth y mae prosiect YiW yn ei darparu o ran trafnidiaeth i allu cael ofal plant wedi galluogi Kelly i oresgyn rhwystrau difrifol, a oedd yn ei llesteirio a'i hatal rhag dilyn ei gyrfa ddewisol gan nad oedd ganddi unrhyw brofiad na chymwysterau perthnasol i'w hystyried ar gyfer cyflogaeth o'r blaen.

Mae Kelly'n parhau i fod mewn cysylltiad rheolaidd â'r prosiect ac mae'n amlwg ei bod wedi dod yn bell gyda'i hyder, ei hunan-barch a chael cipolwg clir ar ei dilyniant gyrfaol a'r camau sy'n gysylltiedig â chyflawni hyn. Bydd cefnogaeth gan y prosiect yn parhau i Kelly er mwyn iddi gwblhau'r cymwysterau terfynol. Bydd y cymorth hefyd yn helpu gyda cheisiadau am swyddi a fyddai'n addas ar gyfer dechrau ym mis Medi.

***DIWEDDARIAD: Tachwedd 2020***

Parhaodd Kelly i gymryd rhan mewn cyrsiau hyfforddi, ond ym mis Mai 2019 cafodd ddiagnosis o ganser yr ofari, sy'n golygu y byddai angen iddi fynd drwy sawl mis o gemotherapi a llawdriniaeth. Parhaodd ei thriniaeth a chafodd sgan popeth yn glir ac yna llawdriniaeth i dynnu'r màs yn ddiweddarach yn 2019.

Yn ystod y cyfnod hwn, aeth y gefnogaeth i Kelly o fod yn seiliedig ar gyflogaeth i ganolbwyntio ar iechyd a lles. Cafodd y gefnogaeth ei chyfarwyddo'n llawn gan Kelly drwy'r cyfnod hwn ac roedd yn golygu y gallai barhau mewn cysylltiad â'i Hyfforddwr Dysgu, heb y pwysau o ymgysylltu'n llawn fel iddi wneud o'r blaen.

O fis Tachwedd 2019 ymlaen, llwyddodd Kelly i ddechrau mynychu cyrsiau eto, gyda chefnogaeth prosiect YiW. Roedd hyn yn cynnwys talu am drafnidiaeth ychwanegol iddi oherwydd ei hanghenion meddygol a sicrhau'r gefnogaeth barhaus i'w phlentyn hefyd. Cwblhaodd Kelly'r hyfforddiant LSA lefel dau yn llwyddiannus, hefyd y Cyflwyniad i Seicoleg Plant a hyfforddiant Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl Ieuenctid. O ganlyniad i hyn, roedd ffocws Kelly wedi newid, a phenderfynodd ei bod am fynd yn ôl i addysg amser llawn gan wneud cais am le ar y Radd Sylfaen mewn Seicoleg yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro. Cynorthwyodd YiW hi gyda hyn, gan gefnogi ei chostau trafnidiaeth cychwynnol nes i'w grantiau ddod i law a dod o hyd i gyllid i dalu am gost gliniadur i'w chefnogi.

Mae Kelly bellach wedi cwblhau ei blwyddyn gyntaf ac wedi mwynhau'r profiad hwn yn fawr. Mae hi hefyd wedi siarad ag aseswyr fel rhan o asesiad Marc Ansawdd Efydd y Gwasanaeth Ieuenctid am ei phrofiad a'r gefnogaeth a gafodd gan y gwasanaeth a'r prosiect.

Mae’r project **Ysbrydoli i Weithio (YiW/I2W)** wedi bod yn cefnogi pobl ifanc ym Mro Morgannwg, rhwng 16 a 24 oed, ers mis Ebrill 2017. Ariennir y project yn rhannol gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop. Nod y prosiect yw cefnogi pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ar hyn o bryd, i fynd i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Gwneir hyn drwy ddulliau amrywiol, gan gynnwys cymorth un i un wedi'i dargedu, sesiynau grŵp, cyrsiau hyfforddi, profiad gwaith, prentisiaethau i enwi rhai.

Mae gan lawer o'r bobl ifanc a gefnogir rwystrau rhag ymgysylltu, ac mae rhai ohonynt yn cynnwys profiadau gwael o addysg, strwythurau cymorth gwael yn eu bywyd, ymwneud â'r system gyfiawnder, defnyddio sylweddau, diffyg bywyd cartref sefydlog ac iechyd meddwl gwael. Mae YiW yn derbyn atgyfeiriadau gan weithwyr proffesiynol, yn fewnol ac yn allanol i'r Cyngor. Mae'r atgyfeiriadau hyn yn rhoi elfen o ddirnadaeth i anghenion y person ifanc, ond nid tan i'r Anogwr Dysgu gyfarfod a dechrau datblygu perthynas â'r person ifanc y daw'r ddealltwriaeth o'u hanghenion yn gliriach. Mae pob aelod o staff yn weithiwr ieuenctid cymwysedig ac maent yn defnyddio'r sylfaen sgiliau hon i feithrin perthynas ystyrlon â'r unigolyn. Mae rhai o'r tîm hefyd wedi mynychu hyfforddiant ychwanegol mewn sgiliau cwnsela er mwyn darparu sylfaen sgiliau arall i gefnogi'r bobl ifanc. Mae'r prosiect yn seiliedig ar ymgysylltu gwirfoddol ac nid yw'n gorfodi unigolyn i ymgysylltu, sy'n golygu bod unrhyw gymorth a ddarperir yn cael ei wneud ar gyflymder y person ifanc.

Mae gan bob person ifanc gynllun gweithredu wedi'i ddatblygu, sydd wedyn yn cael ei fonitro a'i adolygu wrth i'r cymorth fynd rhagddo. Er y bydd rhai elfennau'n croesi gyda phobl ifanc eraill, mae pob cynllun wedi'i osod gydag anghenion unigol y person ifanc yn flaenllaw. Fel rhan o hyn, nodir rhwystrau i ymgysylltu neu bethau a allai effeithio'n negyddol ar eu llesiant gyda chynlluniau'n cael eu rhoi ar waith i helpu i fynd i'r afael â'r rhain.

Gall y cymorth y mae pob person ifanc yn ei dderbyn amrywio'n aruthrol, ond caiff hyn ei addasu yn seiliedig ar anghenion yr unigolyn. Canfuwyd mewn sefyllfaoedd lle bo’r cymorth teuluol yn wael, neu ddim yn bodoli, neu lle bu profedigaeth lle na bu unrhyw strwythur cymorth uniongyrchol, fod yn rhaid i'r tîm staff adeiladu i mewn elfen o feithrin i'w hymgysylltiad gan y gallai hyn fod wedi bod ar goll o'u bywydau ers blynyddoedd lawer. O ran llesiant, mae mynd i'r afael â'r angen gwaelodol hwn yn sylfaenol oherwydd heb hyn, bydd yn gwneud cynnal unrhyw gynnydd i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant yn afrealistig. Mae gan bob person ifanc fan cychwyn gwahanol yn ei daith, sy'n golygu efallai na fydd rhai pobl ifanc yn barod i ymgysylltu â chymorth o lefelau amrywiol ar unwaith; gall weithiau gymryd wythnosau neu fisoedd o gyswllt un i un cyn bod person ifanc yn barod i gymryd rhan mewn cwrs hyfforddi neu sesiwn grŵp.

Gan fod perthynas wedi'i hadeiladu gyda'r person ifanc, efallai y daw'n amlwg bod gan yr unigolyn rai rhwystrau ehangach a allai fod yn effeithio ar eu llesiant. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys materion ariannol, sefyllfa tai, defnyddio sylweddau a materion iechyd meddwl. Mae prosiect YiW yn cydnabod nad ydynt bob amser y mwyaf addas i'w cefnogi yn y meysydd mwy arbenigol hyn ond bod ganddynt wybodaeth dda am bartneriaid ac asiantaethau eraill y gellir cyfeirio’r person ifanc atynt am gymorth. Mae'r tîm yn cefnogi pobl ifanc i fynychu cyfarfodydd gydag asiantaethau newydd neu wrth ddechrau lleoliadau profiad gwaith, er mwyn cael wyneb cyfarwydd er mwyn lleddfu unrhyw bryder ynghylch cwrdd â gweithwyr proffesiynol newydd. Yn dibynnu ar y cymorth ychwanegol sydd ei angen ac sy’n cael ei gynnig, efallai y byddai'n briodol i staff YiW dynnu eu cymorth yn ôl bryd hynny, fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r tîm yn parhau i gefnogi mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill i sicrhau bod y pecyn a'r cysondeb gorau yn ei le i'r unigolyn.

Rhan o'r ddarpariaeth a gynigir yw mynychu cyrsiau hyfforddi, sy'n helpu i gynyddu gwybodaeth mewn meysydd gwaith y mae ganddynt ddiddordeb i’w harchwilio, ennill cymwysterau ac ardystiadau sy'n berthnasol i waith yn ogystal â meithrin eu hyder mewn senario grŵp a hefyd gyda'u gallu eu hunain. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i'r rhai sy'n ddi-waith yn y tymor hir gan nad ydynt efallai wedi gallu gwneud hyn ers gadael addysg orfodol. O fewn y cyrsiau hyfforddi, mae'r prosiect yn cefnogi cludo pobl ifanc i allu mynychu ac yn darparu cinio a lluniaeth i bawb sy'n bresennol. Drwy wneud hyn, nid yw pobl ifanc na allant fforddio talu am eu cinio

eu hunain yn cael eu hamlygu o fewn y grŵp, gan arwain at amgylchedd llawer mwy cadarnhaol ac eto, gan ddileu unrhyw bryderon y gallai'r bobl ifanc hyn eu teimlo. Mae hefyd yn golygu bod gan y bobl ifanc ddigon o lefelau egni i gymryd rhan weithredol yn y dysgu a gynigir. Mae'r un egwyddor yn cael ei chymhwyso i gefnogi pobl ifanc i fynychu profiad gwaith, cyrsiau coleg a chyflogaeth. Gall y prosiect helpu i dalu costau penodol ar gyfer y sefyllfaoedd hyn, lle nad yw pobl ifanc yn gallu cefnogi eu hunain yn ariannol.

Gall bywydau pobl ifanc fod yn oriog iawn, gyda newidiadau'n digwydd heb fawr ddim rhybudd. Gall hyn fod o gael eu cyflwyno fel rhai digartref, o ymwneud â'r system cyfiawnder troseddol, oherwydd problemau iechyd corfforol yn ogystal â phryderon ariannol. Gyda chefnogaeth y prosiect, gall y tîm addasu a chefnogi pobl ifanc yn hyblyg wrth i'r newidiadau hyn ddigwydd, gan addasu blaenoriaethau i ganolbwyntio ar y rhai sydd fwyaf perthnasol i'r bobl ifanc ar yr adeg honno. Lle bo angen, mae'r tîm hefyd yn ceisio cymorth a chyllid ychwanegol o ffynonellau eraill, gan gynnwys elusennau a thimau lleol o fewn y Cyngor, er mwyn helpu i dalu am gostau eitemau penodol. Ymhlith yr enghreifftiau y mae'r prosiect wedi'u prynu ar gyfer pobl ifanc mae beiciau i bobl ifanc gael mynediad at gyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant; nwyddau gwyn i gefnogi pobl ifanc sy'n symud i adeiladau nad sydd â chyfarpar neu pan fydd eu heitemau eu hunain yn torri; gliniaduron i allu cael mynediad at gyrsiau a hyfforddiant ar-lein, yn enwedig ers pandemig COVID-19, sydd yn ei dro yn cefnogi'r bobl ifanc i fod yn llai ynysig.

Drwy bandemig COVID-19, mae cymorth wedi parhau i gael ei roi i'r bobl ifanc ac mae hyn wedi'i wneud drwy e-bost, galwadau ffôn, sesiynau ar-lein drwy Microsoft Teams a hefyd ymweliadau ar garreg y drws ar gyfer y rhai sy'n arbennig o agored i niwed. Yn ystod rhannau o'r pandemig, cyflwynwyd parseli bwyd a phecynnau hylendid i gefnogi rhai o'r bobl ifanc hyn a oedd yn ei chael yn arbennig o anodd, yn ogystal â chwrdd â phobl ifanc a oedd hynod o ynysig o fewn eu cymunedau lleol.

O ran effaith, ers i raglen YiW ddechrau, mae 240 o bobl ifanc wedi cofrestru, mae 25 wedi dechrau addysg bellach/hyfforddiant, mae 102 wedi ennill cymhwyster cydnabyddedig ac mae 106 wedi dechrau gweithio'n llawn amser.

## 5.0 AMCAN LLESIANT 3: CEFNOGI POBL GARTREF AC YN EU CYMUNED

**Ein statws perfformiad cyffredinol ar gyfer yr Amcan Llesiant hwn yw MELYN**

## 5.1 DATGANIAD SEFYLLFA

Ni allem ysgrifennu adolygiad yn edrych yn ôl ar 2020/21 heb sôn am yr effaith y mae pandemig y coronafeirws (COVID-19) wedi'i chael ar gyflawni'r ymrwymiadau blynyddol sy'n cyd-fynd â'n hamcan llesiant 'i gefnogi pobl gartref ac yn eu cymuned'. **Er bod y pandemig wedi effeithio'n sylweddol ar lefelau'r galw am ein gwasanaethau ac wedi herio sut yr ydym yn darparu'r gwasanaethau hynny**, nid yw wedi newid hanfod yr hyn a wnawn, sef cefnogi pobl gartref ac yn eu cymuned. Heb os, eleni, yn fwy nag erioed, rydym wedi gwneud gwahaniaeth ym mywydau llawer o ddinasyddion y Fro y mae'r gwasanaethau a ddarparwn wedi bod yn achubiaeth iddynt.

Mae gweledigaeth y Cyngor o gydweithio ar gyfer dyfodol disgleiriach wedi bod yn sail i'n holl weithgareddau yn ystod y flwyddyn o dan yr amcan llesiant hwn. Mae profiadau'r pandemig, a'r ffordd y llwyddodd partneriaid ar draws Bro Morgannwg, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol i gydweithio i ymateb, wedi bod yn esiampl o obaith yn ystod cyfnod heriol. Mae'r ffordd yr oedd gwasanaethau ar draws pob sector wedi gallu dwyn ynghyd a defnyddio eu sgiliau a'u hadnoddau ar y cyd mewn ffyrdd newydd a chreadigol yn llwyddiant y byddwn yn adeiladu arno. Fe **wnaethon ni ddosbarthu dros 21 miliwn o eitemau o gyfarpar diogelu personol a 106,000 o becynnau prawf, gan gefnogi bron i 160 achos o ryddhau cleifion o'r ysbytai, a chefnogi 50 o gartrefi preswyl a nyrsio, 42 o ddarparwyr gofal cartref, dros 200 o bobl sy'n derbyn taliadau uniongyrchol, 148 o weithwyr di-dâl a 19 o ddarparwyr trydydd sector** ymysg eraill. Mae adnabod pobl sy'n agored i niwed yn ein cymunedau, **yr ymateb ar y cyd gan bartneriaid a manteision gweithio'n agosach gyda chymunedau lleol yn ddull y byddwn yn parhau i'w ddatblygu ymhellach yn 2021/22 a thu hwnt** wrth i ni wella o'r pandemig.



Er gwaethaf heriau sylweddol y flwyddyn, rydym wedi penderfynu ein bod, ar y cyfan, wedi gwneud cynnydd cadarnhaol o ran cyflawni ymrwymiadau'r Cynllun Cyflawni Blynyddol sy'n cyfrannu at Amcan Llesiant 3 ar gyfer y cyfnod 2020/21. Mae hyn wedi cyfrannu at statws **Melyn** ar gyfer yr amcan ar ddiwedd y flwyddyn. Mae 57% (36 o 63) o weithgareddau a gynlluniwyd wedi'u cyflawni'n llwyddiannus. Ar draws yr amcan, aseiniwyd statws Coch i gamau gweithredu er mwyn adlewyrchu llithriant ac roedd hyn yn cyfrif am ychydig o dan 43% (27) o'r holl weithgareddau a gynlluniwyd ar gyfer 2020/21. O'r 27 o gamau gweithredu sy'n cyfrannu at yr Amcan Llesiant, a gafodd statws perfformiad Coch, roedd 26 (96%) yn uniongyrchol o ganlyniad i fesurau ail-flaenoriaethu gwasanaethau a wnaed mewn ymateb i effaith y pandemig COVID-19 parhaus. Mae gwaith mewn perthynas â'r meysydd yn parhau'n flaenoriaeth a chawsant eu cario ymlaen o fewn Cynlluniau Gwasanaeth priodol ar gyfer 2021/22.

Priodolwyd statws Gwyrdd i 67% (12/18) o ddangosyddion perfformiad sy'n cyd-fynd ag Amcan 3, a phriodolwyd statws Melyn i 11% (2) a statws Coch i 22% (4). Mewn perthynas â'r 4 mesur y priodolwyd statws Coch iddynt, roedd effaith COVID-19 wedi effeithio ar 3 perfformiad ac wedi cyfrannu at golli targedau.

Er bod COVID-19 wedi dominyddu ein gwaith ers mis Chwefror 2020 ac yn ymddangos yn eang yn ein cyfrif o'r flwyddyn, rydym hefyd eisiau **cydnabod y gwaith anhygoel sydd wedi digwydd mewn amgylchiadau eithriadol**. Fel yr ailadroddwyd yn gynharach, nid ydym wedi gwneud hyn ar ein pen ein hunain, mae ein

partneriaid wedi ein helpu i barhau i ddarparu gwasanaethau hanfodol a gwerthfawr i ddinasyddion y Fro i'w galluogi i wneud dewisiadau sy'n helpu i gyflawni eu potensial ac yn cefnogi eu hiechyd a'u lles. Mae **ein hymagwedd gynhwysol a chydweithredol sy'n cynnwys rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys defnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd a'n cymunedau wedi ein galluogi i gryfhau gwasanaethau presennol wrth ddatblygu cyfleoedd newydd ac arloesol er mwyn gwella canlyniadau i'n dinasyddion.** Bydd yr ymagwedd hon yn dod yn bwysicach fyth yn y flwyddyn i ddod a thu hwnt wrth i ni weithio i liniaru effaith ddigynsail y pandemig COVID-19 diweddar.

Ein nod yw galluogi dinasyddion y Fro i wneud dewisiadau gwybodus ac iach drostynt eu hunain, gan gyfrannu at leihau anghydraddoldebau iechyd a sicrhau disgwyliad oes iach gwell. Mae cefnogi pobl gartref ac yn eu cymunedau yn effeithiol yn chwarae rhan allweddol wrth gyfrannu at y nod hwn. Yn ystod y flwyddyn, mae ein **gwasanaethau wedi parhau i weithio mewn partneriaeth i gefnogi lles dinasyddion y Fro drwy fentrau atal ac ymyrryd yn gynnar mwy integredig a thrwy ddylanwadu ar benderfynyddion ehangach iechyd a lles megis yr amgylchedd, tai, cyflogaeth ac addysg gyda ffocws hirdymor**. Mae'r ymagwedd hon yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol sy'n ei wneud yn ofynnol i ni integreiddio ein gwaith fel nad yw un cam gweithredu unigol yn creu un effaith yn unig. Mae'r ymagwedd gyfannol hon o gyflawni ein Hamcanion Llesiant yn golygu y bydd llawer o'r cyflawniadau a adroddwyd o dan y canlyniad llesiant hwn hefyd yn cyfrannu at ein tri Amcan Llesiant arall. Drwy gydol yr adolygiad blynyddol hwn rydym wedi darparu enghreifftiau o'r ymagwedd hon ac yn disgrifio sut, drwy adeiladu partneriaethau cryf a defnyddio ein hasedau'n arloesol, yr ydym yn cefnogi llesiant a gwydnwch ein dinasyddion ac yn rhoi'r sgiliau a'r cyfleoedd cywir iddynt i'w helpu i gyflawni eu potensial mewn byd sy'n newid.

Gwyddom fod bwyta'n iach a bod yn fwy actif yn benderfynyddion pwysig o ran iechyd a lles, yn enwedig o ran atal niwed hirdymor. Trwy'r **Cynllun Symud Mwy Bwyta'n Dda** a'r **Cynllun Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol Bro Morgannwg** (sy'n nodi fframwaith ar gyfer gweithredu lleol), rydym yn mabwysiadu ymagwedd gydgysylltiedig gyda'n partneriaid i hyrwyddo a chefnogi dewisiadau bywyd iach i ddinasyddion o bob oed, gan ganolbwyntio ar gynyddu cyfraddau cyfranogi drwy amrywiaeth o gyfleoedd gan gynnwys yr amgylchedd, teithio llesol, chwarae, pobl a theuluoedd, y gweithle a'r gweithlu a chymunedau actif. Er gwaethaf heriau'r flwyddyn ddiwethaf, mae ein hymagwedd gydweithredol wedi ein galluogi i addasu prosiectau amrywiol sy'n cyd-fynd â'n hymrwymiadau blynyddol i wahanol fformatau gan gynnwys fformatau rhithwir. Rydym wedi datblygu a dosbarthu amrywiaeth o adnoddau sydd wedi'u rhannu'n eang i hyrwyddo'r manteision corfforol a meddyliol o gymryd rhan mewn cyfleoedd hamdden, chwaraeon a gweithgarwch corfforol. Mae'r ymagwedd hon wedi rhoi mwy o fynediad i ddinasyddion o bob oed a gallu at gyfleoedd gan fod llawer ohonynt yn rhai cost isel neu am ddim i gyfranogwyr gan ddileu'r rhwystr cost y mae rhai trigolion yn ei wynebu. Mae hefyd wedi targedu meysydd allweddol fel ysgolion, clybiau, plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed a phobl hŷn, drwy heriau aml-chwaraeon rhithwir, cystadlaethau, gwyliau a hyfforddiant hyfforddwyr. Mae hefyd yn bwysig cydnabod nad oes gan bob preswylydd fynediad at dechnoleg, ac nid oedd gan lawer ohonynt y profiad na'r wybodaeth o ran sut i gael mynediad drwy'r dull hwn. Mewn ymateb, mae prosiectau wedi cynnwys uwchsgilio preswylwyr yn y defnydd o dechnoleg fel rhan o'u darpariaeth, er enghraifft y Cynllun Hamdden 60 a Mwy, creu hyfforddwyr hyderus a mentrau'r Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff. Er y croesewir gweithgarwch wyneb yn wyneb, cydnabyddir y gall cyfleoedd ar-lein barhau i chwarae rhan bwysig wrth symud ymlaen, gan helpu i oresgyn rhwystrau a wynebir gan rai teuluoedd a thrigolion megis yr anallu i deithio i weithgareddau, diffyg amser i deithio i weithgareddau a diffyg hyder i gymryd rhan o flaen eraill.



Yn seiliedig ar y data diweddaraf a gyhoeddwyd (2020), mae gan 80.1% o blant 4/5 oed y Fro bwysau iach o gymharu â chyfartaledd Cymru, sy'n 72.4%. Mae gan 36% o oedolion y Fro bwysiau iach (cyfartaledd o 38% drwy Gymru) gyda 26% yn dweud eu bod yn bwyta pum dogn o ffrwythau a llysiau y dydd (cyfartaledd o 24% drwy Gymru). Mae 55% yn actif am o leiaf 150 munud yr wythnos (cyfartaledd o 53% drwy Gymru). Er bod

rhai o'r ffigurau hyn yn galonogol, rydym hefyd yn cydnabod bod llawer i'w wneud o ran creu amgylcheddau sy'n dileu rhwystrau i fwyta'n iach a symud mwy a fydd yn cael effaith sylweddol a chadarnhaol ar les dinasyddion y Fro ac yn helpu i leihau anghydraddoldebau. Rydym wedi ymrwymo i weithio gyda'n partneriaid i gyflawni hyn.

Mae’r angen i gadw pellter cymdeithasol a chyfyngiadau ar symud oherwydd **COVID-19 wedi cael effaith sylweddol ar ddarpariaeth hamdden** gydag incwm coll parhaus a chostau cynnal a chadw uchel sy'n gysylltiedig â rhedeg y cyfleusterau hyn. Mae'r cyfleusterau hyn nid yn unig yn bwysig o ran cynnal lles meddyliol a chorfforol a chysylltiad cymdeithasol ein cymunedau, maent yn chwarae rhan allweddol mewn adfywio a thwf economaidd, drwy swyddi a gwasanaethau a gwneud ardaloedd lleol yn lleoedd deniadol i fyw a gweithio ynddynt, a fydd hefyd yn helpu i ysgogi adferiad economaidd lleol. Rydym hefyd yn cydnabod pwysigrwydd a manteision hirdymor seilwaith hamdden cryf ar les dinasyddion ac wrth ddatblygu'r agenda honno. O ganlyniad, rydym wedi cefnogi ein darparwr, Legacy Leisure, drwy'r flwyddyn ddiwethaf ac rydym yn mabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar bartneriaeth wrth weithio i nodi'r hyn a fydd yn gweithio orau iddyn nhw ac, yn y tymor hir, ein cymunedau i ddatblygu ein blaenoriaethau.

I gydnabod manteision iechyd a lles mannau gwyrdd a seilwaith hygyrch o ansawdd da, rydym wedi datblygu **Strategaeth Seilwaith Gwyrdd.** Mae'r strategaeth hefyd yn cefnogi ein hymrwymiadau i gynnal mannau gwyrdd presennol a datblygu mannau gwyrdd newydd mewn modd cynaliadwy, cynyddu cyfleoedd a hygyrchedd i alluogi dinasyddion i gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden a chorfforol, gwella cynhwysiant cymdeithasol a chydlyniant cymunedol, buddsoddi mewn adfywio economaidd a hyrwyddo twf economaidd a mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Mae cyflawni ein strategaeth Seilwaith Gwyrdd yn brosiect hirdymor a bydd yn dibynnu ar bartneriaethau cryf ar draws pob sector a chyda'n cymunedau i lwyddo. Mae'r Cyngor wrth gymeradwyo'r strategaeth hon wedi ymrwymo i hyrwyddo seilwaith gwyrdd a bydd angen iddo sicrhau bod hyn wrth wraidd ei benderfyniadau drwy fabwysiadu dull integredig o reoli, gwella, ymestyn a hyrwyddo. Yn y pen draw, bydd hyn yn helpu i leihau anghydraddoldebau iechyd a gwella llesiant pob dinesydd gartref ac yn eu cymunedau.

Rydym yn cydnabod ein rôl allweddol o ran helpu i greu cymunedau cynaliadwy y mae pobl am fyw ynddynt. Drwy fuddsoddiad wedi'i dargedu rydym yn helpu i wella'r rhagolygon a'r cyfleoedd i drigolion a'u hysbrydoli i gyflawni eu potensial. Fe wnaethon ni lwyddo i gwblhau ein **Strategaeth Cyfoethogi Cymunedau** a datblygu strategaeth ddrafft newydd ar gyfer y dyfodol gan ganolbwyntio'n barhaus ar gefnogi gweithgareddau cyfoethogi cymunedau sy'n cyfrannu at gynnydd cymdeithasol a chreu cyfleoedd a all helpu i rymuso a gwella bywydau pobl leol, er mwyn helpu i adeiladu cymunedau cryf. Mae ein blaenoriaethau i helpu trigolion i gynyddu eu sgiliau a'u rhagolygon cyflogaeth, gwella iechyd a lles, cryfhau cymunedau a hyrwyddo cynhwysiant ariannol a digidol mewn cymunedau yn parhau i fod yn berthnasol wrth symud ymlaen, yn enwedig yng ngoleuni effaith barhaus y pandemig. O ran canlyniadau hyd yma, mae bron i 1,000 o drigolion wedi ennill cymwysterau galwedigaethol, mae 117 wedi sicrhau cyflogaeth a 7 wedi derbyn prentisiaethau. Mae trigolion hefyd wedi cymryd rhan mewn amrywiaeth o fentrau i wella eu hiechyd a'u llesiant gan gynnwys bancio amser (527 o wirfoddolwyr), chwaraeon a gweithgareddau corfforol (700). Fel rhan o gryfhau cymunedau roedd bron i 5,000 o bobl yn cymryd rhan mewn prosiectau cymunedol fel prosiect rhandir bysedd gwyrdd Gibby, prosiect gardd Llanilltud Fawr, prosiect pêl-droed ‘ciciau’, casgliadau sbwriel cymunedol ac amnestau sgip. Cymerodd 630 o drigolion ran mewn sesiynau hyfforddi cynhwysiant digidol, cafodd 3,870 gymorth a chyngor ariannol a chefnogwyd tenantiaid i hawlio bron i £1.2 miliwn mewn budd-daliadau lles.

Cydnabyddir yn gyffredinol bod darparu **teithio llesol** yn rhan bwysig o ymdrechion i annog pobl i fod yn fwy actif. Hefyd, mae tystiolaeth yn awgrymu bod cynyddu gweithgarwch corfforol yn cynnig y fantais ychwanegol o leddfu’n sylweddol baich clefyd cronig a hirdymor ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a thrwy leihau absenoldeb. O ganlyniad, mae ein ffocws drwy gydol y flwyddyn wedi bod ar gydweithio i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i wella’r seilwaith beicio, cerdded a



thrafnidiaeth gyhoeddus ledled y Fro a hyrwyddo'r rhain yn rhagweithiol drwy ein hysgolion ac yn y gymuned ehangach. Yn 2020/21 rydym wedi gweld cynlluniau gwella allweddol ym Mhenarth, Llanilltud Fawr, Saint-y-brid, Aberogwr, Sain Tathan, Sili a Dinas Powys sydd wedi gwella ein rhwydweithiau teithio llesol ymhellach. Mae gwaith hefyd wedi mynd rhagddo ar Gyfnewidfa Doc y Barri a Chogan fel rhan o waith rhanbarthol ar opsiynau trafnidiaeth gynaliadwy. Mae'r gwaith hwn yn rhan o'r strategaeth Seilwaith Gwyrdd sy'n cefnogi ein dyheadau i annog pobl allan o'u ceir.

Rydym yn cydnabod bod y ffordd yr ydym yn dylunio ein cymdogaethau a'n trefi yn allweddol i hyrwyddo arferion teithio iach ac felly'n gweithio tuag at **ddatblygu amgylcheddau mwy actif sy'n gwneud teithio llesol yn ddewis haws a mwy diogel i bob dinesydd**. Mae'r gwaith sy'n cael ei wneud ar lefel leol a rhanbarthol (drwy Brifddinas-Ranbarth Caerdydd a chyda datblygwyr) yn llywio sut rydym yn dylunio, adeiladu a chysylltu ein cymdogaethau a'n trefi a'r systemau trafnidiaeth sy'n cefnogi'r rhain er mwyn annog, cynyddu a chynnal cyfranogiad dinasyddion mewn teithio llesol ar gyfer y dyfodol. Er enghraifft, rydym yn hyrwyddo ac yn darparu mwy o ddatblygiadau defnydd cymysg, lle mae cyfleusterau lleol fel siopau, practisau meddygon teulu, ysgolion a gwasanaethau eraill wedi'u lleoli, gan fod y rhain yn bwysig o ran darparu pellteroedd teithio byr sy'n addas ar gyfer cerdded a beicio. Rydym yn parhau i ymgysylltu â'n cymunedau i sicrhau bod ymyriadau sy'n hyrwyddo ac yn cefnogi teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus yn deg ac nad ydynt yn cynyddu anghydraddoldebau iechyd. Bydd cyflawni ein hymrwymiad i gynyddu cyfleoedd ar gyfer teithio llesol dros y tymor hir yn galluogi preswylwyr i fwynhau'r manteision amlwg i gymdeithas sy'n gysylltiedig â mwy o gerdded a beicio megis llai o dagfeydd traffig, gwell ansawdd aer lleol, llai o allyriadau carbon, llai o ddamweiniau ar y ffyrdd, gwell cydlyniant cymdeithasol a gwell ardal gyhoeddus, sydd i gyd yn cyfrannu at well ansawdd bywyd yn gyffredinol. Ochr yn ochr â chefnogi pobl gartref ac yn eu cymuned, mae effaith y gwaith hwn hefyd yn cyfrannu at dri Amcan Llesiant arall y Cyngor.

Mae ein Strategaeth Ddiwylliannol '**Bro Uchelgeisiol a Diwylliannol Fywiog**' yn cydnabod y rôl bwysig y mae'r celfyddydau'n ei chwarae wrth wella iechyd a lles trigolion a'u cyfraniad i'r economi leol. Drwy gydol 2020/21, mae ein bywydau a'n cymdeithas yn gyffredinol wedi cael eu bygwth gan bandemig o raddfa ddigynsail. Mae'r gwydnwch a'r hyblygrwydd y mae dinasyddion y Fro wedi'u dangos yn dangos yn glir bod gan bob un ohonom y gallu i feddwl yn greadigol. Mae dealltwriaeth o rôl creadigrwydd ym mywydau pob un ohonom a hawl pawb i gael mynediad at hyn wrth wraidd ein Strategaeth. Wrth gwrs, rydym nawr yn wynebu byd gwahanol iawn, ond mae nodau ac egwyddorion ein Strategaeth yn parhau i fod ar flaen unrhyw benderfyniadau a gweithgareddau a gynllunnir wrth i ni geisio cefnogi ein sefydliadau celfyddydol lleol drwy'r argyfwng hwn a thu hwnt. Rydym am sicrhau bod holl drigolion y Fro yn parhau i gael cyfleoedd i fod yn greadigol a bod celf a'n treftadaeth ddiwylliannol a hanesyddol yn parhau i gael eu mwynhau a'u gwarchod ar gyfer y dyfodol. I'r perwyl hwn, rydym wedi ymgysylltu â'r holl randdeiliaid allweddol wrth adolygu'r strategaeth ac mae hyn yn llywio'r gwaith o ddatblygu model gweithredu newydd ar gyfer gwasanaethau celfyddydol a diwylliannol sy'n gynaliadwy ac yn niwtral o ran cost i'r Cyngor. Oherwydd mesurau COVID-19 a oedd mewn grym drwy gydol y llynedd, mae ein gwaith wedi canolbwyntio ar gefnogi 17 o brosiectau celfyddydol cyhoeddus a oedd yn cynnwys ymgysylltu â chymunedau mewn modd rhithwir yn gysylltiedig â chomisiynau gydag artistiaid, er enghraifft, ardaloedd eistedd Paget Road, gwaith celf Arcot Triangle, Parc Dingle, lloches Pen y Clogwyn Penarth, parc pêl-fasged Dinas Powys. Bydd y prosiectau hyn yn parhau i fywiogi ein mannau dinesig ac yn cyflwyno unigrywiaeth i'n cymunedau. Fe wnaethon ni gydweithio ag artistiaid ar arddangosfa ar-lein fawr, 'Celf yn y Cyfnod Cloi' a ffrydiwyd drwy YouTube ac rydym wedi cefnogi'r celfyddydau lleol drwy ddosbarthu Grantiau Gweithwyr Llawrydd Creadigol o Gronfa Adferiad Ddiwylliannol Cymru a Grant 'Cysylltu a Ffynnu' Cyngor Celfyddydau Cymru. Dros y flwyddyn i ddod byddwn yn cydweithio ag artistiaid lleol a sefydliadau celfyddydol i alinio gweithgareddau ymhellach i'n galluogi i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd ariannu sy'n dod o'r gronfa Adferiad Ddiwylliannol.



Rydym am i ddinasyddion y Fro allu cymryd rheolaeth dros eu hiechyd a'u lles drwy gydol eu bywydau a bod mor annibynnol â phosibl. I wneud hyn, mae angen iddynt gael y cymorth cywir yn y lle iawn ar yr adeg iawn. Er y gall y rhan fwyaf gyflawni eu potensial ar eu pennau eu hunain, mae angen help ar eraill, weithiau drwy gydol eu bywydau. Er mwyn **trawsnewid ac integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol** rydym wedi parhau i weithio mewn partneriaeth ar draws Bro Morgannwg gan ganolbwyntio ar greu system iechyd a gofal cymdeithasol gref, gynaliadwy, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n gwella canlyniadau i'n dinasyddion. Mae ein model gofal wedi'i gynllunio i gynnig mwy o ofal y tu allan i'r ysbyty lle bynnag y bo modd, darparu gwasanaethau integredig a chyfannol a gweithio mewn partneriaeth i gynnal iechyd, llesiant ac annibyniaeth cyhyd ag y bo modd. Rydym yn gwneud gwahaniaeth drwy ymrwymo i gynlluniau ar y cyd, sicrhau newid gan ddefnyddio timau cyfunol ar draws sefydliadau, a chyfuno adnoddau ar draws partneriaid Iechyd ac awdurdodau lleol gan gynnwys y trydydd sector lle bynnag y bo modd. Mae'r dull hwn yn sicrhau ein bod yn darparu gofal a chymorth mewn ffordd fwy cyson, gan foderneiddio sut y darperir gofal, darparu gofal sy'n haws ei gyrchu a'i lywio, a symud gofal mwy integredig i leoliadau cymunedol.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, cyflawnwyd mwy o ran integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol oherwydd effaith y pandemig yr oeddem yn canolbwyntio arno. Wrth fyfyrio, gwyddom fod **rhannu data a gwybodaeth** ar draws y sector ar gyfer ein cymunedau yn caniatáu i ni ategu a gwella'r cynnig a ddarperir gennym i fwy o ardaloedd o'n cymunedau, ymhell y tu hwnt i restr hunan-warchod Llywodraeth Cymru. Yr her yw sut yr ydym yn cael y sector i weithio mewn ffyrdd sy'n cael eu gyrru gan ddata a gwybodaeth i ddarparu gwasanaethau mwy integredig newydd ar draws cymunedau.

Ochr yn ochr â hyn, mae gwaith wedi parhau i wella **dulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn** sy'n sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu hintegreiddio'n llawn fel rhan o ddull o'r dechrau i'r diwedd o ddarparu gofal. Mae hyn yn unol â'n hymrwymiad i sicrhau, lle bynnag y bo modd, ein bod yn cefnogi dinasyddion i fyw'n annibynnol gartref ac am gyhyd â phosibl. Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi comisiynu a darparu ystod eang o wasanaethau i gefnogi pobl i gynnal eu hannibyniaeth, eu galluogi i fod yn rhan o gymdeithas, eu diogelu a diwallu amrywiaeth o anghenion gofal. Rydym wedi galluogi dewis a rheolaeth drwy hyrwyddo taliadau uniongyrchol sydd wedi annog defnyddwyr gwasanaeth i gymryd rhan weithredol yn eu hasesiadau a'r gwaith o gynllunio'u cymorth ac mae'r cyfraddau derbyn yn parhau i gynyddu. Mae gwella'r wybodaeth sydd ar gael i ddinasyddion drwy amrywiaeth o fecanweithiau gan gynnwys llwyfannau digidol wedi rhoi'r dewis a'r wybodaeth sydd eu hangen i annog mwy o bobl i hunanwasanaethu. Mae'r gwaith hwn wedi digwydd ochr yn ochr â'n hymateb parhaus i'r pandemig a rheoli'r her o ran capasiti wrth gyflawni busnes yn ôl yr arfer.

Er gwaethaf heriau'r pandemig, mae rhywfaint o waith wedi mynd rhagddo o ran **gosod y sylfeini ar gyfer model gweithredu newydd ar gyfer darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig i oedolion** gyda chyllid yn cael ei sicrhau i ddatblygu ymhellach y ffordd hon o weithio - '**Model Cynghrair'** yn y flwyddyn i ddod. Rydym yn defnyddio **dull sy'n seiliedig ar ganlyniadau o ran comisiynu a chontractio gwasanaethau** gyda phrosiectau fel '**Eich Dewis'** yn hanfodol wrth ein helpu i drawsnewid y ffordd rydym yn dylunio, datblygu a darparu gwasanaethau i bobl sydd angen help i aros yn iach, yn ddiogel ac yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain. Er bod gwaith yn y maes hwn wedi canolbwyntio ar barhad gwasanaethau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi llwyddo i gefnogi unigolion sy'n agored i niwed i aros gartref sydd wedi bod yn flaenoriaeth i lawer yn ystod y pandemig. Cyflawnwyd hyn drwy ddarparu pecynnau o ofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau sy'n diwallu anghenion asesedig defnyddwyr gwasanaeth sydd wedi rhoi mwy o ddewis a rheolaeth iddynt dros eu gwasanaethau lle bynnag y bo modd. Gan edrych ymlaen at 2021/22, rydym wedi llwyddo i nodi darparwyr newydd i'w cynnwys yn y gwasanaeth a fydd yn ein galluogi i ehangu'r modd y darperir y model gofal hwn sy'n seiliedig ar ganlyniadau.

Rydym wedi ymrwymo i ddarparu gofalwyr maeth mewnol i gefnogi ein plant i ffynnu a chyflawni eu potensial. Mae ymchwil yn dangos bod y dull hwn nid yn unig yn gwella canlyniadau i blant ond yn rhoi mwy o sefydlogrwydd o ran addysg y plant a'u cysylltiadau â ffrindiau a theuluoedd biolegol. Mae gweithio ar draws ôl troed rhanbarthol wedi ein galluogi i wella a chryfhau ymhellach ein gwaith o recriwtio a chadw

gofalwyr maeth. Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom gefnogi **datblygu cynnig craidd rhanbarthol ar gyfer gofalwyr maeth** sy'n canolbwyntio ar ddenu gofalwyr newydd a chadw'r rhai presennol. Gwnaethom hefyd ddatblygu a **gwella ein brandio lleol fel rhan o frand Maethu Cymru.** Rydym wedi cynyddu ein cronfa o ofalwyr maeth sydd wedi galluogi mwy o ddewis a pharu ar gyfer plant mewn gofal (cynyddodd nifer y gofalwyr maeth newydd gan 10 yn 2020/21 o gymharu â 6 yn y flwyddyn flaenorol). Mae gwaith sylweddol wedi'i wneud i gryfhau sefydlogrwydd lleoliadau drwy gymorth ychwanegol a chofleidiol i ofalwyr (roedd llai o blant sy'n derbyn gofal (7.8%) wedi cael eu rhoi mewn tri lleoliad neu fwy o ganlyniad i'n ffocws ar gryfhau sefydlogrwydd lleoliadau. Mae hyn yn parhau i fod yn faes ffocws, yn enwedig o ystyried y galw cynyddol am leoliadau yn ddiweddar.




Mae ein gofalwyr di-dâl (y mae tua 150 ohonynt wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor) yn amhrisiadwy, ac mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi amlygu’r angen i barhau i ddatblygu'r ffyrdd rydym yn eu cefnogi. Yn unol â'n **strategaeth gofalwyr ranbarthol**, rydym wedi hyrwyddo a chefnogi gwaith y **Porth Gofalwyr** (gwasanaethau allgymorth yn y gymuned i ofalwyr sy'n darparu gwybodaeth a chyngor a ddarperir gan Ymddiriedolaeth Gofalwyr De-ddwyrain Cymru). Mae'r gwasanaeth hwn wedi bod yn amhrisiadwy yn ystod y pandemig o ran cefnogi gofalwyr drwy'r argyfwng pan oeddent yn aml yn teimlo’n unig yn eu rôl ofalu. Mae gwaith hefyd wedi parhau gyda phartneriaid rhanbarthol, i sicrhau bod gofalwyr di-dâl o bob oed yn cael eu nodi'n gynnar, yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu parchu a'u cefnogi. Mae cerdyn Adnabod Gofalwyr Ifanc yn cael ei greu ar hyn o bryd fel rhan o'r gwaith hwn.

Rydym yn cydnabod bod gan **waith cydlynu gofal sy'n seiliedig ar dechnoleg y potensial i drawsnewid sut y darperir gwasanaethau gofal cymdeithasol** i'n dinasyddion ac rydym yn datblygu ein defnydd i optimeiddio effeithlonrwydd gwasanaethau a gwella profiad a chanlyniadau defnyddwyr gwasanaeth. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae technoleg wedi chwarae rhan bwysig yn y gwaith o gefnogi gwaith gwasanaethau gofal cymdeithasol, mewn cydweithrediad â defnyddwyr gwasanaeth, partneriaid lleol a chymunedau. Mae wedi ein galluogi i gynnal parhad gwasanaethau drwy helpu ein dinasyddion sy'n agored i niwed i gynnal gweithgareddau dyddiol sy'n bwysig iddynt yn ogystal â darparu gofal. Roedd hyn yn hanfodol er mwyn cydbwyso'r angen i ddiogelu a chefnogi gan osgoi achosi niwed drwy ledaeniad yr haint. Rydym hefyd wedi defnyddio technoleg mewn modd ataliol yng nghyd-destun ymyrraeth gynnar, gwydnwch unigol a mabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan arwain at ganlyniadau cadarnhaol i ddefnyddwyr gwasanaethau. Mae prosiectau fel y '**prosiect See Me'**, (sy'n cefnogi defnyddwyr gwasanaeth i greu proffiliau amdanynt eu hunain sy'n cyfleu gwybodaeth am bwy ydyn nhw, beth yw eu hoff a'u cas bethau, a beth sy'n bwysig iddyn nhw drwy fideo amdanyn nhw'u hunain) **datblygu tŷ pontio CLYFAR** (gan ddefnyddio atebion technoleg i gefnogi byw'n annibynnol), **yr Ap Insight** (uwchsgilio sgiliau digidol ar gyfer pobl ag anableddau dysgu), trefniant gyda Boots ar gyfer **system ddigidol ar gyfer rhoi meddyginiaeth** yn ein cartrefi gofal, cynnal **asesiadau ac adolygiadau achos o bell** a **darpariaeth teleofal** nid yn unig wedi gwella sgiliau digidol gweithwyr gofal cymdeithasol a defnyddwyr gwasanaethau, maent wedi bod yn allweddol wrth hyrwyddo dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn o ran gofal a chymorth sydd wedi ein galluogi i weithio'n fwy effeithiol mewn partneriaeth i gyd-gynhyrchu canlyniadau gwell. Wrth symud ymlaen, byddwn yn atgyfnerthu'r brwdfrydedd a'r newid diwylliant presennol sydd wedi galluogi'r trawsnewid digidol cyflym yn ystod y pandemig drwy weithio mewn partneriaeth i ddatblygu a chyd-gynhyrchu ein dull gweithredu ymhellach.

Rydym wedi ymrwymo **i roi gofal a chymorth i blant a theuluoedd mewn angen** sy’n adlewyrchu eu cryfderau a’u hamgylchiadau unigol. Nod ein dull gweithredu yw rhoi unigolion, teuluoedd a chymunedau

wrth wraidd gofal a llesiant, ac wrth wneud hynny cryfhau'r berthynas rhwng aelodau o'r gymuned honno, adeiladu cyfalaf cymdeithasol a chydnabod yr asedau y gall pobl eu cyflwyno i'r broses asesu. Mae’r '**dull sy'n seiliedig ar gryfderau'** hwn wedi bod mor bwysig yng nghyd-destun COVID-19 wrth i gymunedau ddod at ei gilydd i gefnogi ei gilydd dros y flwyddyn ddiwethaf. Ein prif ffocws eleni oedd ein hymateb brys i'r pandemig a sicrhau parhad gofal a chymorth i blant a phobl ifanc sy'n agored i niwed a'u teuluoedd. Er gwaethaf yr heriau hyn, rydym wedi gwneud cynnydd cadarnhaol o ran gweithredu fframwaith ymarfer cyson a fydd yn sail i'n gwaith ac yn helpu i lywio ymyriadau. Mae ein fframwaith ymarfer y cytunwyd arno yn cynnwys yr offer ymarfer, y technegau a'r dulliau o gefnogi ymarferwyr wrth gymhwyso dulliau sy'n seiliedig ar gryfderau yn ymarferol, er enghraifft, 'Bagiau Citiau' i atgyfnerthu pwysigrwydd llythrennedd emosiynol a chyfathrebu. Rydym hefyd wedi sicrhau gwasanaethau arbenigwyr mewn gwaith sy'n seiliedig ar berthnasoedd â phlant a theuluoedd a datblygu goruchwylwyr ymarfer i gefnogi’r gwaith o weithredu ein fframwaith. Rydym yn cydnabod bod hon yn daith a bydd ymgorffori'r ymarfer hwn yn cymryd amser a bydd angen ymdrech gydgysylltiedig ein hymarferwyr gofal cymdeithasol, gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc a'u teuluoedd, a phlant a phobl ifanc a'u teuluoedd.

Rydym yn cydnabod yr effaith y gall allgau cymdeithasol ei chael ar iechyd a lles ynghyd â'r manteision sy'n deillio o bobl yn cysylltu â’u cymunedau lleol ac yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys ynddynt ac yn rhan ohonynt. Gall y cysylltiadau a'r perthnasoedd hyn gefnogi pobl i aros yn ddiogel ac yn iach. Maent hefyd yn darparu cymorth a monitro anffurfiol sy'n helpu i liniaru risgiau salwch a phroblemau iechyd meddwl neu gorfforol. Mae baich sylweddol salwch meddwl yn golygu bod cryfhau gwydnwch unigolion a helpu pobl â salwch meddwl i wella yn parhau i fod yn flaenoriaethau allweddol i ni, yn enwedig o ystyried effaith barhaus pandemig COVID-19. Rydym yn cydnabod y **rôl allweddol sydd gan ein hysgolion, ein gweithleoedd a'n lleoliadau cymunedol wrth gefnogi iechyd meddwl yn rhagweithiol ochr yn ochr â'n systemau iechyd a gofal cymdeithasol** ac yn mabwysiadu dull system gyfan o hyrwyddo iechyd meddwl da ac atal iechyd meddwl gwael. Fel rhan o'n dull ataliol, rydym wedi gwella ymhellach yr **adnoddau a gwybodaeth sydd ar gael ar Dewis Cymru** (gwasanaethau cynghori a gwybodaeth llesiant personol) i helpu i gyfeirio pobl at y cymorth mwyaf priodol iddynt mewn ffordd glir ac effeithiol. Rydym wedi mabwysiadu ymagwedd gydweithredol gyda phartneriaid i hyrwyddo'r adnoddau hyn yn rhagweithiol drwy nifer o fecanweithiau gan gynnwys **Canolfan Gyswllt y Cyngor** (Cyswllt Un Fro), ein **siop un stop tai a chyngor** a'n gwasanaethau yn gyffredinol yn ogystal â thrwy nifer o lwyfannau digidol. Cyfeiriodd ein siop un stop ar gyfer tai a chyngor a lansiwyd ym mis Ebrill 2020 302 o bobl at gymorth iechyd meddwl gyda chanlyniadau llwyddiannus. Nid yw 76% o'r bobl a gafodd y gwasanaeth erioed wedi cael cymorth o'r blaen. Hyd yn hyn, mae 28 o athrawon a gweithwyr proffesiynol wedi cael eu hyfforddi fel **Cynorthwywyr Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl Ieuenctid** i helpu i adnabod yr arwyddion cynnar ac annog pobl ifanc i geisio cymorth mewn amgylchedd cefnogol. Rydym hefyd yn gweithio ar draws Iechyd a'r sector Gwirfoddol i gyflawni ein cyfrifoldebau statudol dros anghenion iechyd meddwl oedolion a phlant a helpu dinasyddion i gadw mewn cysylltiad yn eu cymunedau.



Yn ogystal â mesur ataliol llwyddiannus, rydym hefyd yn **adeiladu ar ein cynnig hamdden i gydnabod y manteision iechyd meddwl y mae cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden, chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn ei gael ar unigolion** ac rydym yn hyrwyddo cyfleoedd mewn modd rhagweithiol, er enghraifft, drwy sicrhau mynediad diogel i'n parciau a mannau gwyrdd agored, gwasanaethau ieuenctid, ehangu ein darpariaeth llyfrgelloedd ar-lein ac annog pob gweithgaredd corfforol. Bu cynnydd amlwg yn nifer y bobl sy'n cael mynediad i'n mannau gwyrdd a chyhoeddus ar gyfer ymarfer corff a chwaraeon yn ystod y pandemig ac rydym hefyd yn cydweithio i adeiladu ar y brwdfrydedd hwn i annog ein dinasyddion i ‘wirioni ar chwaraeon am oes’ a fydd yn cael manteision hirdymor ar eu hiechyd a'u lles yn y tymor hir.

Wrth wraidd deall trawma mae ffocws ar iechyd a lles a pherthnasoedd, ac ymgyrch i gefnogi twf a datblygiad plant a phobl ifanc, y mae llawer ohonynt yn dod o ardaloedd difreintiedig ac angen cymorth targedig

ychwanegol i'w helpu i gyflawni eu potensial. O ganlyniad, mae sicrhau bod ein hysgolion yn parhau i **weithio tuag at ddod yn lleoedd sy'n deall trawma ac yn feddyliol iach i bob disgybl** yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Rydym yn cydnabod, drwy fabwysiadu dull ataliol o gefnogi lles meddyliol yn ein hysgolion a'n sefydliadau dysgu yn gynharach, y bydd hyn yn helpu i wella deallusrwydd emosiynol ein plant a'n pobl ifanc, gan eu helpu i ddatblygu'r offer sydd eu hangen arnynt i'w helpu i ddod yn oedolion mwy gwydn. Mewn ymateb i angen cynyddol, rydym wedi **gallu cryfhau capasiti o fewn ein Gwasanaeth Ymgysylltu sy'n deall trawma** i weithio gydag ysgolion i ddiwallu anghenion cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc. Mae **darpariaeth ychwanegol ar gyfer cwnsela mewn ysgolion** hefyd wedi'i gomisiynu (drwy Barnardo's Cymru) i gynyddu capasiti. Mae Gwasanaeth Ymgysylltu sy'n deall trawma a darpariaeth ar gyfer plant y Cyfnod Sylfaen ag anghenion cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl, y cyntaf yng Nghymru. Ochr yn ochr â'r gwelliannau hyn, rydym wedi cyflwyno **rhaglen gynhwysfawr o hyfforddiant a chymorth i ysgolion ddatblygu dulliau sy'n deall trawma**, wedi lansio 'Motional', **pecyn cymorth ar-lein i ysgolion ar gyfer nodi, asesu a gwella iechyd a lles emosiynol** plant a phobl ifanc, llyfrgell gynhwysfawr o adnoddau i gefnogi dulliau sy'n deall trawma drwy'r **prosiect gwydnwch**, ac wedi **sefydlu panel aml-asiantaeth ffurfiol i frysbennu atgyfeiriadau a rhannu arfer gorau ac arbenigedd** ar fynd i'r afael ag anghenion cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl pobl ifanc er mwyn gwella eu lles. Mae **ymyriadau a arweinir gan seicoleg ar gyfer plant a theuluoedd sydd â'r angen mwyaf** nad ydynt yn bodloni meini prawf ar gyfer cymorth gan wasanaethau arbenigol fel Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) hefyd yn cael eu darparu drwy'r prosiect gwydnwch. Rydym hefyd wedi sefydlu trefniant gweithio mewn partneriaeth gyda'r GIG o ran y Prosiect Gwydnwch sy'n ceisio cefnogi disgyblion ag anghenion ICEM cymhleth yn y sector addysg uwchradd. I gydnabod dwyster y gwaith hwn ac effaith hyn ar les, rydym wedi **cynyddu darpariaeth goruchwyliaeth glinigol i staff addysg sy'n gweithio fel ymarferwyr sy'n deall trawma**. Bydd canolfan ar gyfer **Dysgu a Llesiant** hefyd yn agor yn ddiweddarach ym mis Medi 2021 a fydd yn gwella’r ddarpariaeth yn y maes hwn ymhellach.



Mae **llesiant a gwydnwch gweithwyr** yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol i'r Cyngor ac mae’r neges hon wedi’i hatgyfnerthu drwy fentrau, cymorth ac arweiniad amrywiol i reolwyr a gweithwyr drwy gydol y flwyddyn ddiwethaf. Mae hyn wedi cynnwys **cyngor ar iechyd a lles**, **cyflwyno mentrau llesiant**, **canllawiau rheoli llinell o bell, annog y defnydd o dechnoleg i gadw mewn cysylltiad â chydweithwyr, mentrau a arweinir gan gymheiriaid drwy 40 o hyrwyddwyr llesiant y cyngor, gwasanaeth sgrinio iechyd drwy'r gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol a gwasanaeth cwnsela cyfrinachol i weithwyr** 24 awr, 365 diwrnod y flwyddyn. Mae neges wythnosol gan y Rheolwr Gyfarwyddwr sy'n cydnabod timau ac yn ac yn diolch iddynt tra'n parhau i ddarparu diweddariadau corfforaethol a swyddogol wedi cael croeso mawr. Er bod absenoldeb salwch wedi gwella yn ystod y flwyddyn i 8.59 diwrnod fesul gweithiwr CALl o gymharu â 10.51 diwrnod yn y flwyddyn flaenorol, rydym yn cydnabod bod posibiliad bod mwy o ddiwrnodau nad ydynt yn rhai cynhyrchiol yn cael eu colli oherwydd presenoliaeth (lle mae aelod o staff yn sâl ond yn mynychu’r gwaith, yn hytrach na chymryd math o absenoldeb gwyliau neu salwch) a chyflwynwyd nifer o fentrau i reoli'r sbardunau allweddol wrth fynd i'r afael â'r presenoliaeth hwn, megis gwella rhaglenni / mynediad digidol, rhaglenni ffordd o fyw a llesiant a rheoli'r defnydd o wyliau blynyddol.

Mae ein hymateb i COVID-19 wedi bod yn gatalydd ar gyfer newid o ran ein gweithlu ac wedi ein galluogi i ail-ddychmygu sut y bydd yn edrych yn y flwyddyn i ddod a thu hwnt. Bydd hwn yn weithlu sy'n cael ei gefnogi i ragori a chadw’n iach, gweithio mewn ffordd wedi'i thrawsnewid a darparu gwasanaethau gwell. Bydd hyn yn cynnwys cynlluniau ar gyfer gweithio'n ddiogel mewn swyddfeydd, cynnig iechyd a lles newydd wedi'i gyd-gynhyrchu gyda gweithwyr ac undebau llafur, ffyrdd o weithio a fydd yn cefnogi staff i weithio hyd yn oed yn fwy hyblyg ar draws gwahanol leoliadau a gwasanaethau, a chanllaw cyflogeion a rheolwyr. Mae ein cynlluniau'n cael eu llywio gan ein harolwg staff diweddar a oedd â thua 1,160 o ymatebwyr gyda bron i dri chwarter y rhain yn gweithio gartref. Er bod y rhan fwyaf yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a bod ganddynt yr offer cywir i weithio o bell, fe wnaeth nifer sylweddol hefyd restru allgau cymdeithasol a chyfathrebu â

chyd-weithwyr fel eu dwy her fwyaf. Hefyd, byddai'n well gan y rhan fwyaf gael cymysgedd o weithio gartref ac yn y swyddfa fel model o weithio wrth symud ymlaen. Gan edrych ymlaen at 2021/22, un her allweddol o hyd yw ffurfioli'r ffyrdd newydd o weithio, hynny yw, cytuno ar yr ymddygiadau, yr arferion a'r systemau a fydd yn cefnogi'r cyfuniad o gyfuniadau gwahanol o leoliadau gwaith a blaenoriaethau darparu gwasanaethau yn ogystal â lles gweithwyr.

Rydym yn parhau i weithio mewn partneriaeth yn lleol ac yn rhanbarthol i amddiffyn ein dinasyddion sy'n agored i niwed rhag niwed. Trwy ein **trefniadau Diogelu Corfforaethol**, rydym yn sicrhau bod **Gweithdrefnau Diogelu Cymru** wedi'u hymgorffori'n gyson ar draws y Cyngor. O dan yr amgylchiadau heriol, mae gwaith drwy gydol y flwyddyn wedi canolbwyntio ar sicrhau dull cyson ledled y cyngor drwy ymarfer gweithredol, adolygu polisïau a gweithdrefnau a darparu hyfforddiant i gefnogi ymarferwyr gan gynnwys mewn lleoliadau addysg. Mae **Strategaeth Ecsbloetio Ranbarthol** wedi'i lansio a rhaglen codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant wedi'i chreu. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth i adolygu blaenoriaethau'r **Bwrdd Diogelu Rhanbarthol** i adlewyrchu effaith barhaus y pandemig.

Mae ein **Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir** wedi parhau i chwarae rhan allweddol yn y gwaith o hyrwyddo'r broses o amddiffyn defnyddwyr, gan sicrhau bod busnesau'n gallu masnachu mewn amgylchedd sy'n deg a bod nwyddau defnyddwyr yn ddiogel. Mae'r Gwasanaeth hefyd wedi chwarae rôl reoleiddio well a chanolog o ganlyniad i ystod o **reoliadau COVID-19 newydd** gyda'r nod o reoleiddio safleoedd masnachu, mannau awyr agored cyhoeddus a digwyddiadau. Mae'r rhain wedi cynnwys **sicrhau cyfarpar diogelu personol sy'n cydymffurfio, cydymffurfiaeth busnes â chyfyngiadau, cefnogi'r strategaethau Profi, Olrhain, Diogelu ac Imiwneiddio Torfol ac ymateb i sgamiau a cham-drin ariannol** sydd wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y pandemig.

Rydym yn rhoi blaenoriaeth uchel i gadw ein cymunedau'n ddiogel ac rydym yn gweithio mewn partneriaeth i greu atebion cynaliadwy i **leihau trosedd ac anhrefn a chefnogi dioddefwyr trosedd ac anhrefn**. Rydym am i gymunedau'r Fro fod yn lleoedd ffyniannus a chynhwysol lle mae pobl o bob oed, cefndir a gallu yn cymryd rhan ac yn helpu ei gilydd, yn teimlo eu bod wedi'u cynnwys, yn wydn ac yn ddiogel ac yn ymfalchïo yn eu hardal leol. Mae ein gwaith drwy **Partneriaeth Bro Ddiogelach** yn cymryd ymagwedd integredig sy'n canolbwyntio ar atal ac ymyrraeth gynnar, gorfodi ar y cyd fel dull safonol a chymorth amserol i ddioddefwyr gyda'r nod o leihau trosedd ac anhrefn yn y tymor hir. Mae ein dull partneriaeth cryf wedi bod yn allweddol o ran helpu i lywio'n effeithiol yr heriau diogelwch cymunedol a wynebwyd dros y flwyddyn ddiwethaf. Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom ymdrin â nifer sylweddol o bryderon diogelwch cymunedol ynghylch ymddygiad dinasyddion a diffyg cydymffurfiaeth â deddfwriaeth COVID-19 yr ymdriniwyd â hwy'n effeithiol (rhoddwyd gwybod am dros 1,400 o ddigwyddiadau ymddygiad gwrthgymdeithasol ac roedd bron i 1,000 ohonynt yn ymwneud â mynd yn groes i reolau COVID-19).

Fe wnaethon ni weithredu Strategaeth Gyfathrebu i wella **ymgysylltu â thrigolion ar faterion cydlyniant cymunedol.** Fel rhan o'r gwaith hwn, rydym wedi bod yn rhagweithiol ar y cyfryngau cymdeithasol a llwyfannau digidol eraill drwy gydol y flwyddyn ar amrywiaeth o faterion diogelwch cymunedol. Mae ein gwaith â ffocws gyda thrigolion drwy'r swyddog cydlyniant cymunedol wedi helpu i ddatrys problemau'n gyflym, gan leihau nifer y problemau tensiwn cymunedol sy'n cael eu huwchgyfeirio. Oherwydd y pandemig, derbyniwyd mwy o atgyfeiriadau monitro tensiwn (43) yn ystod y flwyddyn, sef cynnydd o 72% o'r 25 a dderbyniwyd yn yr un cyfnod y llynedd, yn ymwneud yn bennaf ag achosion o fynd yn groes i gyfyngiadau COVID-19. Rydym wedi cynyddu nifer y bobl sy'n cofrestru â Cyswllt UnFro gan aelodau Cynllun Gwarchod Cymdogaeth gan wella eu mynediad at wybodaeth a diweddariadau (gan gynnwys yr adroddiad misol ar y prif bwyntiau Diogelwch Cymunedol), cymorth lle bo angen a hyfforddiant.

Yn unol â'n hymrwymiad i **wella canlyniadau unigolion a theuluoedd sydd wedi cael eu heffeithio gan drais a cham-drin**, rydym wedi gweithredu mesurau caledu targed (diogelu) mewn 97 eiddo (allan o 431 o achosion risg uchel a aseswyd) ac mae cleientiaid wedi dweud eu bod yn hapus â'r gwasanaeth a'i fod wedi gwneud iddynt deimlo'n fwy diogel. Mae gwaith hefyd wedi parhau drwy'r prosiect 'Drive' i gefnogi cyflawnwyr cam-drin domestig niwed mawr, risg uchel a difrifol i wneud y newidiadau angenrheidiol sydd eu hangen i leihau'r tebygolrwydd o ailadrodd digwyddiadau ac amddiffyn dioddefwyr. Gwnaethom hefyd wella ein dulliau asesu a monitro sydd wedi galluogi ymyrraeth fwy cadarn a chynt ar gyfer achosion cam-drin domestig risg uchel. Cafodd 75% o achosion yn ymwneud ag unigolion a theuluoedd yr effeithiwyd arnynt gan drais a cham-drin gymorth yn llawer cynharach gan sicrhau gwasanaeth mwy ymatebol ac ateb llai dwys o ran adnoddau i bartneriaid ac asiantaethau cymorth.

Gan edrych ymlaen at 20201/22, er bod pryderon fel ymddygiad gwrthgymdeithasol a materion amgylcheddol yn dal i fod yn bryderon mawr, mae cam-drin domestig, effaith unigrwydd ac iechyd meddwl a mwy o anghydraddoldeb bellach wedi'u hamlygu fel heriau hirdymor. Gwyddom hefyd y bydd gan sgil-effeithiau economaidd a chymdeithasol COVID-19 oblygiadau tymor hwy ar gyfer trosedd a diogelwch cymunedol. Fel partneriaeth, mae gwaith yn mynd rhagddo i gasglu'r hyn a ddysgwyd o'n hymateb dros y flwyddyn ddiwethaf i lywio gwaith yn y dyfodol fel rhan o'n hadferiad o COVID-19.

Mae tystiolaeth dda bod tai o ansawdd da yn cael effaith uniongyrchol ar iechyd a lles cyffredinol aelwydydd sy'n gwella lles emosiynol, gan leihau'r risg o gyflyrau iechyd hirdymor a gwella cyrhaeddiad addysgol. Mae'r mater o lety hefyd yn allweddol o ran cyflawni ein hamcanion llesiant eraill gan fod cartref diogel, fforddiadwy o ansawdd yn y lleoliad cywir yn hanfodol ar gyfer ansawdd bywyd da. Mae'n fater pwysig, mae'n dylanwadu ar ddiogelwch, gwydnwch, iechyd, mynediad i addysg a chyflogaeth pobl a gall alluogi darparu gofal yn effeithiol.

Rydym yn parhau i **fuddsoddi yn ein cartrefi cyngor i sicrhau eu bod yn parhau i gydymffurfio â Safonau Ansawdd Tai Cymru** ac maent yn gweithio tuag at gartrefi cyngor amgylcheddol gynaliadwy fel rhan o'n cynllun Prosiect Sero. Yn ystod y flwyddyn, roedd 96% o denantiaid y cyngor (921/961 o ymatebwyr) yn hapus gyda gwaith wedi'i drefnu i wella eu cartrefi. Fe wnaethon ni **gwblhau datblygiadau Cam 1 Brecon Court a Holm View** fel rhan o'n Rhaglen Adeiladu Tai Cyngor newydd ac mae gwaith hefyd wedi **symud ymlaen ar gyflawni 55 o gartrefi cyngor newydd** ar draws tri safle yn y Barri. Roedd tri safle arall a oedd yn darparu 77 o gartrefi newydd ychwanegol yn aros am



benderfyniad ar ddiwedd y flwyddyn a thrwy'r system gynllunio drwy gytundebau A106, sicrhawyd 74 o dai fforddiadwy eraill yn Llan-faes. Mae'r datblygiadau tai hyn nid yn unig wedi cynyddu'r cyflenwad o lety rhent cyngor, maent wedi'u cynllunio i fod yn fwy amgylcheddol gynaliadwy a hyblyg i hwyluso byw'n annibynnol sy'n diwallu anghenion presennol a thymor hwy pobl. Er gwaethaf amgylchiadau anodd, rydym wedi bod yn rhagweithiol wrth ddod â rhai eiddo gwag yn ôl i ddefnydd yn unol â'n **Strategaeth Cartrefi Gwag**. Crëwyd 9 annedd o ganlyniad i drosi eiddo gwag eraill yn anheddau preswyl i'w defnyddio eto a daethpwyd â 86 eiddo gwag yn y sector preifat yn ôl i ddefnydd yn ystod y flwyddyn drwy gamau gweithredu uniongyrchol gan yr awdurdod lleol. Fodd bynnag, roedd 816 o eiddo yn y sector preifat yn wag am fwy na 6 mis yn ystod y flwyddyn yn bennaf oherwydd effaith y pandemig. Cymerwyd 19.5 diwrnod ar gyfartaledd (12.5 diwrnod ar gyfer atgyweiriadau a 7 diwrnod ar y cam cynnig) i osod eiddo gwag i'r cyngor yn erbyn targed o 21 diwrnod, a oedd yn gadarnhaol o ystyried yr amgylchiadau heriol. Mae'r pandemig wedi cyfrannu at **alw mawr am dai cymdeithasol ym mhob ardal** sydd wedi golygu bod ymgeiswyr ag anghenion meddygol uchel neu fand aur wedi cael blaenoriaeth. Drwy ein strategaeth Cartrefi Gwag, rydym yn darparu cymhellion i annog perchnogion i ddod ag eiddo yn ôl i ddefnydd (gan gynnwys drwy'r fenter Benthyciadau Troi Tai'n Gartrefi) sydd wedi gweld ymholiadau'n cynyddu'n sylweddol yn ddiweddar gan berchen-feddianwyr ledled y sir.

Wrth edrych ymlaen mae yna **heriau sylweddol yn wynebu'r Cyngor a'i bartneriaid o ran diwallu anghenion tai ym Mro Morgannwg.** Ar hyn o bryd, mae'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (AFDL 2019) yn dangos bod

angen o leiaf 890 o unedau ychwanegol o dai fforddiadwy y flwyddyn am y pum mlynedd nesaf, sy'n cynnwys 799 o unedau ar gyfer rhent cymdeithasol, 21 ar gyfer perchentyaeth cost isel a 70 uned o lety rhent canolraddol. Mae'r angen hwn wedi'i waethygu ymhellach gan ddigwyddiadau'r flwyddyn ddiwethaf. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, mae gwaith wedi dechrau gyda'n partneriaid i ddatblygu **Strategaeth Dai leol bum mlynedd** sy'n ceisio adeiladu ar y brwdfrydedd presennol i weithio'n wahanol ac yn greadigol i ateb yr heriau o ddarparu mwy o dai fforddiadwy sy'n diwallu anghenion lleol.

Mae ymdrechion y llywodraeth, cynghorau ac elusennau i amddiffyn pobl sy'n cysgu ar y stryd yn ystod argyfwng COVID-19 yn cael eu hystyried yn un o lwyddiannau 2020. Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod nad yw cefnogi pobl sy'n wynebu digartrefedd i lety diogel ond dros dro yn dod â digartrefedd i ben. Rydym nawr yn mynd i'r afael â'r **her o reoli nifer sylweddol o bobl mewn llety dros dro a sicrhau llety hirdymor i**



**bawb sy'n dal i fyw mewn llety dros dro** megis gwestai a llety gwely a brecwast. Mae hyn wedi bod yn un o effeithiau cyfyngiadau COVID-19, sydd wedi arwain at lai o lefydd gwag mewn llety addas hirdymor wrth i bobl symud llai. Yn ystod y flwyddyn, cyflwynwyd **Strategaeth Atal Digartrefedd** sy'n adeiladu ar y llwyddiant atal a gyflawnwyd yn y strategaeth flaenorol (Bro Morgannwg oedd yr awdurdod lleol a oedd yn perfformio orau o ran atal digartrefedd yn Adroddiad Ystadegol Llywodraeth Cymru, Awst 2019). Er gwaethaf yr heriau diweddar, rydym wedi creu **mwy o gyfleoedd i gael gafael ar gyngor a chymorth drwy wefan wedi'i diweddaru, wedi cyflwyno mwy o gymorthfeydd galw heibio a siop un stop newydd** (a agorwyd ym mis Ebrill 2020) sy'n hyrwyddo dull integredig o atal digartrefedd ac sy'n cynnwys partneriaid o'r sector gwirfoddol, Tai, Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd, Addysg a'r Gwasanaeth Prawf. Derbyniodd ein **Gwasanaeth Datrysiadau Tai** bron i 2,300 o ymholiadau digartrefedd yn gofyn am gyngor a chymorth. Mae'r gwasanaeth wedi lleoli 269 o aelwydydd mewn llety (gwely a brecwast). Mae 83 o aelwydydd yn dal mewn llety gwely a brecwast ac yn cael eu cefnogi'n dda drwy ymweliadau staff, cymorthfeydd galw heibio a gwasanaethau cymorth yn ôl yr angen. Mae gwaith hefyd wedi parhau i ddatblygu mwy o gyfleoedd tai yn y sector rhent preifat (SRhP), cafodd 53 o denantiaethau naill ai eu harbed neu eu sicrhau o'r newydd yn ystod 2020. Rydym yn parhau i sicrhau bod gan ein staff tai rheng flaen, yn ogystal â'n partneriaid darparwyr cymorth trydydd sector, yr offer a'r wybodaeth i ddarparu'r cymorth a'r cyngor angenrheidiol i atal digartrefedd yn llwyddiannus. Darperir cymorth i landlordiaid i'w cynorthwyo a'u hannog i barhau i weithio gyda'r Cyngor ac i ehangu eu portffolios tai. Mae proffil uchel yn parhau i gael ei roi ar **atal digartrefedd ymhlith pobl ifanc gan gynnwys pobl ifanc LHDTC+** drwy'r Prosiect Pwyslais (partneriaeth â Llamau sydd â chysylltiadau â phob ysgol uwchradd ledled Bro Morgannwg ac sy'n darparu sesiynau ymwybyddiaeth strwythuredig o ddigartrefedd a chymorth i ddisgyblion) a hyrwyddwr LHDTC+ y Cyngor. Drwy'r sesiynau hyn, mae staff addysgu hefyd yn gallu adnabod arwyddion digartrefedd posibl a ble i gyfeirio disgyblion a'u teuluoedd am gymorth. Mae 39 o bobl ifanc wedi cael cymorth hyd yma gyda chanlyniadau cadarnhaol. Drwy gynyddu gweithgarwch atal gan ganolbwyntio ar ymyrraeth gynharach, byddwn mewn sefyllfa well i nodi pwyntiau sbarduno a allai roi rhywun mewn perygl o fod yn ddigartref a chynnig cymorth cydgysylltiedig i'w atal.

Rydym hefyd yn wynebu risgiau a heriau eraill sydd wedi cael effaith ar ein gwasanaethau a chyflawni'r Amcan Llesiant hwn. Mae'r **heriau allweddol a wynebwyd gennym cyn COVID o ran iechyd ac anghydraddoldebau cymdeithasol, y galw cynyddol am ein gwasanaethau a chyllid cynaliadwy yn parhau** ac wedi'u gwaethygu ymhellach gan y pandemig. Er ein bod yn cydnabod bod angen camau gweithredu parhaus a chydlynol ar atal a rheoli'r anghydraddoldebau hyn, rydym hefyd yn ymwybodol iawn o'r **angen am fuddsoddiad parhaus a dulliau arloesol dros y tymor hir** i fynd i'r afael â'r materion hyn. Mae ansicrwydd sylweddol o hyd ynghylch effaith hirdymor y pandemig parhaus ar gyllid y Cyngor, yr economi leol, yr economi genedlaethol a'r hyn y bydd hyn yn ei olygu ar gyfer gwariant cyhoeddus yn gyffredinol yn y dyfodol. Gan edrych y tu hwnt i'r heriau uniongyrchol o adfer gwasanaethau, mae'r tarfu a achosir gan y pandemig a'r dysgu sy'n dod allan o'r profiad hwn, yn cynnig cyfle unigryw i gydweithio ar draws pob sector i adeiladu ar y llwyddiannau a gyflawnwyd yn ystod ein hymateb i'r pandemig. Yr **her fydd manteisio ar y cyfle hwn ar yr un pryd ag adfer gwasanaethau a rheoli'r risg barhaus o COVID-19 i sicrhau adfer ac adnewyddu**.

## 5.2 CYFLAWNIADAU

### Amcan 3: Cynorthwyo pobl gartref ac yn eu cymuned

Cyflwyno'r Cynllun Hamdden 60 a Hŷn sy'n targedu trigolion sy'n anweithgar neu'r lleiaf egnïol. Sefydlom 12 prosiect mewn lleoliadau addysg - cyflawnodd 1 ysgol (Ysgol Gynradd Oak Field) Wobr Ysgolion Iach cam 6, sy'n cydnabod eu dull ysgol gyfan o ran Bwyd a Ffitrwydd. Cynorthwywyd teuluoedd i barhau i fod yn actif drwy gydol y cyfnod cloi drwy 32 pecyn offer benthyciadau a ddosbarthwyd ymhlith lleoliadau Dechrau'n Deg a sesiynau 'Iach, Egnïol ac Awyr Agored' a alluogodd 64 o blant o ardal ddifreintiedig a dargedwyd thargedu i ddod yn fwy actif. Cymerodd 6,000 o gyfranogwyr ran mewn amrywiaeth o heriau drwy gydol y flwyddyn drwy ddull rhithwir o ymdrin â gwyliau a chystadlaethau blynyddol. Cysylltodd cynlluniau haf drwy bartneriaethau â 60 o blant drwy raglen o weithgareddau. Ymestynnom y cynllun llogi Nextbike mewn rhannau eraill o'r Fro. Hyrwyddom rwydweithiau teithio llesol a gweithredu cynlluniau i gefnogi mannau gwyrdd a gwella cyfleoedd ar gyfer chwarae ffurfiol ac anffurfiol gan gynnwys ardal chwarae Cosmeston, Parc Sglefrio ym mharc Dinas a gwelliannau ym mharc Romilly.

Gwellom a hyrwyddo ein gwefan Chwarae sy'n darparu adnoddau cynhwysfawr ar fanteision chwarae, syniadau chwarae yn ystod y pandemig, ble i logi offer am ddim , cyfleoedd chwarae yn y gymuned, cyfleoedd i blant a phobl ifanc gan gynnwys y rhai ag anableddau c anghenion ychwanegol a digwyddiadau. Darparom 800 copi o lyfr llythrennedd corfforol, 'Reggie to the Moon' am ddim ar gais. Mae'r adran ymgysylltu newydd yn rhyngweithio â chymunedau i helpu i lunio ein gwaith yn ogystal â hyrwyddo'r gwasanaethau sydd ar gael. Adroddodd yr arolwg 'Lefelau Gweithgarwch Corfforol a Phrofiadau yn ystod y Cyfnod Cloi' fod 68% o blant a phobl ifanc ac oedolion yn fwy actif neu'r un mor actif â chyn y cyfnod cloi.



Cydweithiom i gynyddu cyfleoedd a hyrwyddo cyfranogiad mewn gweithgareddau hamdden a chorfforol yn ein parciau, cyfleusterau hamdden awyr agored, mannau agored ac ar-lein Darparodd Chwarae'r Fro 27 diwrnod o ddarpariaeth (135 awr) a 540 o becynnau bwyd a gefnogodd 60 o blant a ymgysylltu â 458 o gyfranogwyr, 43% ag anghenion ychwanegol. Cymerodd 4,000+ o ddisgyblion ysgol ran mewn aml-chwaraeon Heriau'r ysgol. Cymerodd llawer ran yn y prosiect lles yn y gweithle gan gynnwys sesiynau gweithgareddau am ddim. Dosbarthom 158 o becynnau offer llythrennedd corfforol i gefnogi teuluoedd Dechrau'n Deg i gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol. Creom a dosbarthu cyfres o lyfrau stori i gefnogi datblygu sgiliau llythrennedd corfforol ymhlith plant anabl. Cyflwynom sesiynau ar-lein i gefnogi cleientiaid NERS (400+) a rhoesom gymorth drwy gyswllt parhaus gyda chleientiaid gan gynnwys cylchlythyrau a fideos cipolwg penodol i weithgareddau. Dosbarthom 120+ o fagiau chwaraeon i gynyddu cyfleoedd gweithgarwch corfforol yn ystod y cyfnod cloi i bobl ifanc sydd angen cymorth ychwanegol. Cyflwynom 16 o sesiynau chwaraeon a chwarae fel rhan o geidwaid chwarae'r haf yn y Wig a Chaerllion a chafwyd 476 cyfranogiad. Cafodd 33 sefydliad bron i £225,000 o gyllid 'Byddwch yn Actif Cymru' i gefnogi datblygu cyfleoedd a darpariaeth gwyliau'r ysgol i blant a phobl ifanc sy'n agored i niwed.






Gwnaethom welliannau yn ein parciau gwledig, mannau agored ac ardaloedd hamdden awyr agored a thrwy gydol y flwyddyn anogom ragor o bobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden a chorfforol yn yr awyr agored. Cwblhaom ardal gemau aml-ddefnydd yng Nghaeau Chwarae'r Brenin Siôr V, Llandochau; uwchraddio'r ardal chwarae yng Ngwenfô; gosod offer rhyngweithiol newydd yn y Parc Canolog, y Barri; prosiect chwarae awyr agored Parc Romilly; gwario tua £250,000 i uwchraddio'r ardal chwarae ym Mharc Gwledig Cosmeston



Mae gwella iechyd a lles yn ffocws allweddol yn ein Strategaeth Cyfoethogi Cymunedau. Ers lansio prosiect bancio amser y Fro yn 2018, mae 527 o wirfoddolwyr wedi cofrestru, wedi bancio 5,387 awr o amser gwirfoddoli, wedi cael 5,387 o gredydau amser ac mae 41 o sefydliad wedi cofrestru i gymryd rhan yn y cynllun. Dywedodd 78% o'r trigolion a oedd yn cymryd rhan bod eu hiechyd, eu llesiant a'u hyder wedi gwella. Lansiom hefyd Glwb Beicio sydd wedi ymgysylltu â 493 o blant a phobl ifanc ac wedi darparu 32 o sesiynau hyfforddi.Ffurfiom bartneriaeth ag ysgolion cynradd Oak Field a Colcot i sefydlu clybiau anogaeth ar ôl ysgol sy'n cefnogi 35 o blant.Mewn partneriaeth gyda Fitness Force darparom sesiynau ffitrwydd i 120 o breswylwyr. Cynigiom raglen 'Couch to 5K' i drigolion a chymerodd 21 ran. Cymerodd 3,521 o bobl ifanc ran mewn 123 o sesiynau pêl-droed fel rhan o gyfleoedd dargyfeiriol prosiect Kicks. Cymerodd 276 o wirfoddolwyr ran ym mhrosiect rhandir Bysedd Gwyrdd Gibby.





Mae'r gwasanaeth cludiant cymunedol, Greenlinks, a ddathlodd ei ddengmlwyddiant ym mis Mehefin 2020, wedi sicrhau cyllid i barhau i gynnig gwasanaeth cludiant sy'n ymateb i'r galw i'r drigolion y Fro nad oes ganddynt fynediad at drafnidiaeth gyhoeddus na phreifat leol. Mae'r gwasanaeth yn darparu 1,000 o deithiau y mis i breswylwyr ar gyfartaledd. Yn ystod y pandemig, helpodd y gwasanaeth i ddarparu 22,245,236 o eitemau Cyfarpar Diogelu Personol a gwnaeth nifer o deithiau yn mynd â phreswylwyr i ganolfannau brechu, i apwyntiadau meddygol ac i siopa.



Trwy gyllid Teithio Llesol r ydym wedi: darparu 48 o feiciau i Ysgolion mewn ardaloedd difreintiedig gan alluogi disgyblion i mgymryd â Hyfforddiant Hyfedredd Beicio ; darparu 100 beic cydbwyso a 100 helmed ddiogelwch i bob ysgol Gynradd yn y Fro; ymgysylltu ag ysgolion ym Mhenarth,Y Barri a Llanilltud Fawr i greu mapiau teithio llesol sy'n dangos llwybrau i ysgolion gyda'r mapiau a grëwyd a'u dosbarthu i'rysgolion; ailgyflwyno'r cynllun Cycle2Work ar gyfer gweithwyr y Cyngor. Rydym yn estyn cynllun Nextbike ar draws y Fro yn dilyn ei lansio'n llwyddiannus ym Mhenarth, gan ddechrau gyda gorsafoedd docio yn Ninas Powys a Sili.

Llwyddom i ddarparu cynlluniau trafnidiaeth gynaliadwy drwy broses adran 106 yn Ninas Powys a'r Rhws gan gynnwys croesfannau newydd a gwelliannau i gerddwyr, ffyrdd beicio a seilwaith.



Gwnaethom ddatblygu a gwella ein brandio lleol fel rhan o frand Maethu Cymru, sydd wedi helpu i leihau ein dibyniaeth ar leoliadau gofal maeth costus. Cynyddom ein cronfa o ofalwyr maeth gan 10, sydd wedi galluogi mwy o ddewis a pharu ar gyfer plant mewn gofal. Yn ystod y flwyddyn, dywedodd y rhan fwyaf o'n 107 o ofalwyr maeth eu bod yn teimlo'n wybodus ac yn hapus gyda'r cymorth yr oeddent wedi'i gael yn eu rôl.Yn ystod blwyddyn heriol, aeth llai o blant sy'n derbyn gofal (7.8%) dri neu ragor o leoliadau o ganlyniad i'n ffocws ar gryfhau sefydlogrwydd lleoliadau.

Cyflwynom daliadau uniongyrchol BACS i rieni disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim i gefnogi eu llesiant.



Gwellom gefnogaeth ar gyfer pob gofalwr drwy'r Porth Gofalwyr sydd wedi bod yn amhrisiadwy yn ystod y pandemig, gwnaethom gyfraniadau i helpu gofalwyr roedd y pandemig yn effeithio'n andwyol arnynt, sefydlom banel arbenigol gofal i sicrhau bod lleisiau gofalwyr yn cael eu clywed a'u bod yn siapio'r gwasanaethau y maent yn eu derbyn, ac chefnogom ddatblygu cerdyn adnabod gofalwyr rhanbarthol fel rhan o fenter gan Lywodraeth Cymru.



Cynyddom nifer y gosodiadau Teleofal gan 416 i sicrhau y gellir cefnogi unigolion sy'n agored i niwed drwy ddulliau digidol i fyw'n ddiogel ac yn annibynnol. I annog pobl i fanteisio ar wasanaethau Teleofal, gwnaethom hepgor y ffi osod.



Lleihaom ein dibyniaeth ar leoliadau y tu allan i'r ardal, gan barhau i alluogi a chefnogi plant i aros gyda'u teuluoedd lle roedd yn bosibl. Yn ystod 2020/21, cafodd **73.3%** o'r plant eu cefnogi i barhau i fyw gyda'u teulu



Gweithiom ar y cyd i ddarparu gofal cartref sy'n seiliedig ar ganlyniadau i breswylwyr fel rhan o agenda Cymru Iachach. Canolbwyntiom ar barhad gofal gyda phrosiectau megis 'Eich Dewis', a'r nod oedd rhoi mwy o ryddid i unigolion, hyrwyddo eu hannibyniaeth a gwella'u llesiant mewn ffordd sy'n bwysig ganddyn nhw. Rydym wedi nodi darparwyr newydd i estyn y model hwn o weithio yn y flwyddyn nesaf.Trwy ofal a chymorth hyblyg sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau a ddarperir i ddefnyddwyr gwasanaeth yn ystod y flwyddyn, doedd dim angen rhagor o ofal a chymorth ar 81.1% o'r oedolion ar ôl 6 mis.



Cefnogom les a gwydnwch gweithwyr drwy fentrau amrywiol gan gynnwys cyngor ar iechyd a lles, cyflwyno mentrau lles, canllawiau rheoli llinell o bell, annog defnyddio technoleg i gadw mewn cysylltiad â chydweithwyr, mentrau a arweinir gan gymheiriaid drwy 40 o hyrwyddwyr lles y cyngor,  gwasanaeth sgrinio iechyd drwy'r gwasanaeth Iechyd  Galwedigaethol a gwasanaeth cwnsela cyfrinachol i weithwyr 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn.



Sefydlom banel aml-asiantaeth i frysbennu atgyfeiriadau a rhannu arfer gorau ac arbenigedd ar fynd i'r afael ag anghenion iechyd meddwl pobl ifanc i wella eu lles.Darparom gymorth a hyfforddiant ychwanegol i staff a disgyblion yn ein holl ysgolion i adeiladu gwydnwch a sicrhau bod ein Hysgolion yn lleoedd sy'n gwybod am drawma ac yn lleoedd sy'n iach i iechyd meddwl pawb.

Cyflwynom raglenni gwella gwyliau'r ysgol  drwy gydol y flwyddyn i gefnogi lles cymdeithasol, emosiynol a  meddyliol disgyblion sy'n agored i niwed, gan dargedu pedair ysgol gynradd. Manteisiodd dros 500 o blant yr wythnos ar ystod o gyfleoedd dysgu difyr a chyffrous , gan gynnwys celf a chrefft, ysgolion coedwig, pysgota pwll , sesiynau gweithgarwch corfforol, arbrofion gwyddoniaeth a choginio.



Gweithiom yn fewnol a chyda phartneriaid i sefydlu dull cyson o ddiogelu ein dinasyddion rhag camdriniaeth, niwed ac esgeulustod. Yn ystod 2020/21, mae'r rhan fwyaf o Bersonau Diogelu Penodedig mewn ysgolion wedi cwblhau hyfforddiant diogelu blynyddol (ac mae'r hyfforddiant wedi ei drefnu ar gyfer y gweddill). Ar draws gwasanaethau'r Cyngor, mae'r holl staff naill ai wedi cwblhau  hyfforddiant diogelu gorfodol neu mae eu hyfforddiant wedi ei drefnu. Y cyfradd cydymffurfio recriwtio mwy diogel ar gyfer ysgolion oedd 97% a 99% gyfer y Gwasanaethau Corfforaethol.



Ar sail y data diweddaraf a gyhoeddwyd (2020), mae 80.1% o blant 4/5 oed y Fro yn eu pwysau iach o gymharu â chyfartaledd Cymru, sy'n 72.4%. Mae 36% o oedolion y Fro yn eu pwysau iach (mae'r cyfartaledd yn 38% yng Nghymru) ac mae 26% yn dweud eu bod yn bwyta pump dogn o ffrwythau a llysiau y dydd (mae'r cyfartaledd yn 24% yng Nghymru). Mae 55% yn actif am o leiaf 150 munud yr wythnos (mae'r cyfartaledd yn 53% yng Nghymru).

Mae cryfhau cymunedau yn ymrwymiad cyfoethogi cymunedol allweddol. Fel rhan o'r gwaith hwn, rydym wedi lansio'r prosiect gardd yn Llanilltud Fawr i wella gerddi a chysylltiadau cymunedol. Recriwtiwyd 11 o wirfoddolwyr i gefnogi'r prosiect a dargedai 10 eiddo'r cyngor. Buddsoddom hefyd £30K o gronfeydd adeiladu tai'r cyngor ar 10 prosiect a fydd o fudd i gymunedau. Recriwtiom 163 o drigolion sy'n cynorthwyo Cadwch Gymru'n Daclus yn casglu sbwriel yn y gymuned. Cefnogom gymunedau lleol glanach drwy gynnig amnest sgipiau a chymerodd 32 o bobl leol ran. Cynhaliom 453 o asesiadau anghenion cymorth tai a roddodd gymorth tai i 427 o drigolion gyda materion tai. Cymerodd 3,521 o bobl ifanc ran mewn 123 o sesiynau pêl-droed fel rhan o gyfleoedd dargyfeiriol ym mhrosiect  Kicks. Rhoesom **gymorth** cyn tenantiaeth trwy'r prosiect "Parod am Denantiaeth" i denantiaid newydd drwy Tai Newydd a phartneriaid. Cymerodd 276 o wirfoddolwyr ran ym  Mhroject Rhandiroedd Bysedd Gwyrdd Gibby.



Gweithiom mewn partneriaeth i leihau trosedd ac anhrefn yn ein cymunedau. O'r 1412 o achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol yr ymdriniwyd â hwy  yn ystod y flwyddyn, 977 (69%) yn gysylltiedig â thorri rheolau COVID-19, rhoddwyd sylw llwyddiannus i'r rhain drwy fesurau gorfodi ar y cyd a chodi mwybyddiaeth. Cyflwynom lwybr atgyfeirio newydd ar gyfer ymddygiad wrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig â thai, sydd wedi helpu i nodi atebion yn gynharach ac i atal problemau rhag gwaethygu.



Gwnaethom hefyd wella ein dulliau asesu a monitro sydd wedi galluogi ymyrraeth fwy cadarn a chynt ar gyfer achosion cam-drin domestig risg uchel. Cafodd 75% o'r achosion a oedd yn ymwneud ag unigolion a theuluoedd yr effeithiwyd arnynt gan drais a cham-drin gymorth yn llawer cynharach gan sicrhau gwasanaeth mwy ymatebol ac ateb llai dwys o ran adnoddau i bartneriaid ac asiantaethau cymorth. O'r 431 o achosion cynhadledd amlasiantaeth asesu risg (MARAC) a gynhaliwyd yn ystod y  flwyddyn mewn perthynas â cham-drin domestig risg uchel, cafodd 97 eiddo waith atgyfnerthu'r targed (mesurau diogelu priodol) i amddiffyn y dioddefwyr a'u teuluoedd. Dywedodd 100% o ddioddefwyr o'r cam-drin domestig eu bod yn teimlo'n fwy diogel o ganlyniad i atgyfnerthu'r targed a dweud eu bod yn hapus gyda'r gwasanaeth.



Aethom i bartneriaeth gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i ddefnyddio eiddo'r Fro yng Nghanolfan Chwaraeon Colcot fel Canolfan Brofi COVID a Chanolfan Hamdden Holm View fel Canolfan Imiwneiddio, sydd wedi cyfrannu at leihau lledaeniad y firws a chynllun brechu torfol llwyddiannus. Mae 289,170 (57.7%) dos gyntaf a 106,948 (21.3%) ail ddos o frechiadau wedi eu rhoi hyd yma ar draws y rhanbarth, gyda 55,000 yn Holm View.





Mae'r Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir wedi bod ar flaen y gad o ran gorfodi Rheoliadau Coronafeirws ac maent wedi cynnal bron i 2,100 o ymweliadau â busnesau i wirio cydymffurfiaeth â rheoliadau cadw pellter cymdeithasol a chau busnesa, ac wedi secondio 28 o swyddogion i gefnogi'r fenter Profi, Olrhain a Diogelu.




Mae 97% o'r sefydliadau bwyd yn 'cydymffurfio yn gyffredinol' â'r safonau hylendid bwyd ac mae gwaith wedi parhau ar-lein i gefnogi busnesau bwyd i agor yn ddiogel.

Er gwaethaf amgylchiadau anodd, rydym wedi bod yn rhagweithiol wrth ddychwelyd eiddo gwag yn ôl i ddefnydd yn unol â'n strategaeth Cartrefi Gwag. Crëwyd 9 annedd o ganlyniad i drosi eiddo gwag yn anheddau preswyl i'w defnyddio eto a daethpwyd ag 86 eiddo gwag o'r sector preifat yn ôl i ddefnydd drwy gamau uniongyrchol gan y cyngor. Cymerwyd 19.5 diwrnod ar gyfartaledd (12.5 diwrnod ar gyfer atgyweiriadau a 7 diwrnod ar y cam cynnig) i osod eiddo gwag i'r cyngor yn erbyn targed o 21 diwrnod, a oedd yn gadarnhaol o ystyried yr amgylchiadau heriol.



Llwyddom i sicrhau 35% o dai fforddiadwy ar draws y Fro ym mhob cais cynllunio tai perthnasol gan gynnwys cynllun ar gyfer 74 o anheddau fforddiadwy yn Llan-faes



Rydym wedi parhau i wneud gwelliannau i'n tai cyngor. Roedd 96% (921/961) o denantiaid y tai cyngor yn fodlon ar y gwaith a oedd wedi ei gynllunio ar eu cartref.



Er gwaethaf effaith cyfyngiadau Covid-19, lle y gwnaed gwaith dywedodd 95% o'r bobl a gafodd grant cyfleusterau i'r anabl fod y cymorth wedi eu gwneud yn fwy diogel ac yn fwy annibynnol yn eu cartref eu hunain.

**Gwnaethom gynnydd da ar raglen adeilad Tŷ'r Cyngor gan gwblhau Llys Aberhonddu a datblygiadau tai cam 1 Holm View yn y Barri, y mae'r ddau ohonynt wedi'u meddiannu'n llawn. Mae cynllun o 23 o gartrefi cyngor newydd hefyd yn cael ei adeiladu yn Hayes Road, Y Barri. Cwblhawyd 2 gartref a adeiladwyd at y diben hefyd i ddiwallu anghenion arbennig y tenantiaid.**



Derbyniodd y Gwasanaeth Datrysiadau Tai bron i 2,300 o ymholiadau digartrefedd yn gofyn am gyngor a chymorth. Mae’r gwasanaeth wedi lleoli 269 o aelwydydd mewn llety gwely a brecwast. Mae 83 o aelwydydd yn dal mewn llety gwely a brecwast ac yn cael eu cefnogi’n dda drwy ymweliadau staff, cymorthfeydd galw heibio a gwasanaethau cymorth yn ôl yr angen.



Yn unol â'n hymrwymiad i roi terfyn ar yr holl ddigartrefedd ymhlith pobl ifanc, mae Gwasanaethau Tai ac Adeiladau’r Cyngor wedi penodi hyrwyddwr LHDTC+ i fwrw ymlaen ag argymhellion 'Allan drwy'r Drws'. Mewn cydweithrediad â Stonewall Cymru, darparwyd sesiynau hyfforddi ac ymwybyddiaeth i 66 o staff rheng flaen ac uwch reolwyr hyd yma.

Cyflwynom un pwynt mynediad i holl wasanaethau cymorth cefnogi pobl sy'n gysylltiedig â thai, gyda fframwaith atgyfeirio a monitro clir. Mae hyn yn helpu i wella ymatebolrwydd y gwasanaeth i ddefnyddwyr.



Cyflwynom gymorth penodol i landlordiaid y sector rhentu preifat yn ogystal â'r cymorth sydd ar gael ar gyfer Tenantiaid y Sector Rhent Preifat. Mae'r fenter hon yn helpu i gynyddu'r opsiynau tai ar gyfer aelwydydd sy'n ddigartref neu dan fygythiad o fod yn digartrefedd ac i gefnogi rheoli tenantiaethau cynaliadwy.



**Fel rhan o wasanaethau ieuenctid atal digartrefedd ymyrryd, rydym wedi ffurfio partneriaeth ‘Pwyslais’ gyda Llamau, sy'n cynnig cyngor atal digartrefedd cyngor ym mhob ysgol uwchradd yn y Fro.**



Mewn ymateb i'r pwysau sylweddol ar lety sy'n deillio o'r pandemig, dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi caffael 116 uned llety gwely a brecwast ychwanegol mewn tri gwesty, y mae 92 uned mewn meddiant ar hyn o bryd.Rydym yn parhau i weithio mewn partneriaeth i gael y mwyaf posibl o gyfleoedd symud ymlaen ar draws pob deiliadaeth.



Ers ei lansio ym mis Ebrill 2020, mae 'siop un stop' y Fro ar gyfer cymorth tai wedi cynghori bron i 1,000 o unigolion. Nid yw 76% o'r bobl a ddefnyddiodd y gwasanaeth erioed wedi cael cymorth o'r blaen.
Hyd yn hyn, rydym wedi sicrhau canlyniadau llwyddiannus mewn 160 achos o ddigartrefedd ac wedi llwyddo i ddiwallu anghenion cysylltiedig â chymorth tenantiaeth 956 o'r 976 o bobl a ddefnyddiodd y gwasanaeth; cyfeiriwyd 302 o bobl at gymorth iechyd meddwl gyda chanlyniadau llwyddiannus; llwyddodd 260 o bobl i gael cymorth
ar gyflogaeth gan gynnwys hyfforddiant cyflogadwyedd; llwyddodd 445 o 450
i gael cyngor ar gyllidebu, budd-daliadau, grantiau a chymorth; gweithiom mewn partneriaeth â banc bwyd y Fro i gydlynu a dosbarthu parseli bwyd i'r rhai mewn angen.





## 5.3 HERIAU

Mae nifer o heriau wedi'u cyflwyno o ganlyniad uniongyrchol i'r pandemig ac mewn achosion eraill roedd llawer yn heriau a oedd yn bodoli eisoes sydd wedi'u gwaethygu ymhellach gan COVID-19. Er bod ansicrwydd parhaus y pandemig yn dal i fodoli, cafwyd cyfleoedd i ddysgu o'r profiad i archwilio a sefydlu ffyrdd newydd o weithio a fydd yn ein galluogi i drawsnewid ein gwasanaethau yn y dyfodol. Gan ein bod yn debygol o orfod dysgu byw gyda COVID-19 am flynyddoedd lawer i ddod, y brif her fydd sicrhau y gallwn ddiogelu ein gwasanaethau yn y dyfodol rhag unrhyw effeithiau negyddol neu darfu ar ddarparu gwasanaethau. Wrth i ni bontio o'n hymateb brys i adfer, mae'n rhoi cyfle unigryw i ni ddatblygu ein dealltwriaeth o'r heriau sydd o'n blaenau a sut fel cyngor rydym yn bwriadu addasu, esblygu a newid ein hymateb dros amser.

---

**Mae cynnal a gwella lefelau cyfranogiad mewn gweithgarwch corfforol pan fo adnoddau'n lleihau yn parhau i fod yn her.** Mae pandemig COVID-19 wedi bod yn gyfnod arbennig o heriol gyda phob rhaglen gyflawni uniongyrchol yn peidio â chlybiau/canolfannau hamdden ar draws y sir yn cau. Arweiniodd hyn at yr angen i ailystyried sut rydym yn darparu ein gwasanaethau yn ystod y cyfnod hwn, gan ganolbwyntio mwy ar hyrwyddo gweithgareddau teuluol a defnyddio llwyfannau ar-lein i hyrwyddo'r cyfleoedd hyn. Am gryn amser i ddod, bydd ein ffordd o ddarparu chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn wahanol iawn. Rydym yn gweithio gyda'n partneriaid i gynllunio at y dyfodol, gan gynnwys sut y gall preswylwyr ddychwelyd i wneud gweithgareddau'n ddiogel. Bydd angen canolbwyntio ar ysgogi pobl o'r newydd i gymryd rhan a sicrhau bod diogelwch yn ganolog i'r meddylfryd hwn fel bod gan breswylwyr hyder i ddychwelyd i weithgareddau. Bydd ffocws ar gynorthwyo clybiau a sefydliadau cymunedol i ailagor ac ailadeiladu. Bydd technoleg yn chwarae rhan bwysig yn hyn, gyda chynlluniau ar waith i ddatblygu rhaglenni sy'n cael eu llywio gan batrymau o ymddygiadau cyfranogi a ddangosir yn ystod ac ar ôl y pandemig. Byddwn hefyd yn parhau â gwaith ar ddwyn ynghyd pob agwedd ar hamdden a gweithgarwch corfforol o dan ymbarél Strategaeth Hamdden a fydd yn cael ei defnyddio fel cyfrwng i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd a'n hadnoddau i gynyddu gweithgarwch corfforol a chyfraddau cyfranogi ledled y Fro. Rydym hefyd yn ymwybodol iawn o'r cysylltiad sy'n dod i'r amlwg rhwng pwysau gormodol fel ffactor risg ar gyfer COVID-19 ac rydym yn cydweithio â'n partneriaid i gryfhau ein hymateb ymhellach drwy'r Cynllun Symud Mwy Bwyta'n Dda.

---

**Gallu parhau i gyflwyno rhaglen chwarae gynhwysfawr ledled Bro Morgannwg yng nghyd-destun galw cynyddol a phwysau ar ein hadnoddau.** Mae'r cylch blynyddol o sicrhau cyllid allanol i ddarparu chwarae yn y Fro yn ei gwneud yn anodd cynllunio'n strategol ar gyfer y dyfodol. Rhagwelwn y bydd darparu rhaglen chwarae uchelgeisiol a chynhwysfawr sy'n unol â gofynion deddfwriaeth newydd yn parhau i fod yn her gyda'r pwysau parhaus ar gyllidebau. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, byddwn yn parhau i edrych ar ffyrdd newydd o ymgysylltu â grwpiau cymunedol a rhanddeiliaid allweddol a gweithio gyda nhw i ddatblygu a darparu cyfleoedd chwarae mwy cynaliadwy yn y dyfodol. Mae heriau hefyd o ran sut gallwn dargedu grwpiau 'anodd eu cyrraedd' yn effeithiol i ymgysylltu â gwasanaeth fel y rhaglen chwarae a gwasanaethau cymorth y blynyddoedd cynnar er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

---

**Mae COVID-19 wedi effeithio'n sylweddol ar sut y gall ein dinasyddion gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol a'u mwynhau.** Mae cau'r Canolfannau Hamdden a chyfleusterau eraill wedi golygu na all ein trigolion ymgymryd â'u gweithgarwch corfforol arferol sydd i lawer wedi golygu newid i fathau amgen o ymarfer yn yr awyr agored. Fodd bynnag, i'r rhai sydd ag afiechyd cronig a/neu sy'n gwella o salwch/anaf, mae gohirio'r rhaglen atgyfeirio cleifion i wneud ymarfer corff o ganlyniad i'r cyfyngiadau cloi wedi cael effaith andwyol ar y grŵp cleientiaid hwn, gyda'r rhan fwyaf ohonynt dros 50 oed, yn agored i niwed ac yn dioddef o gyflwr iechyd sylfaenol. Er mwyn annog ein cleientiaid i barhau i ymgymryd â rhyw fath o weithgarwch corfforol a chefnogi rhywfaint o gyswllt cymdeithasol (gan fod llawer yn byw ar eu pennau eu hunain), mae'r Tîm Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff wedi datblygu rhaglen ar-lein. Er bod yr adborth a'r cyfranogiad sy'n gysylltiedig â'r ffordd hon o weithio wedi bod yn gadarnhaol iawn, rydym yn cydnabod nad yw'n disodli'r ffordd y byddem fel arfer yn rhyngweithio ac yn darparu rhaglen o weithgarwch corfforol wedi'i theilwra i'n cleientiaid i gefnogi eu hiechyd a'u lles. Wrth i fesurau cloi gael eu lleddfu'n raddol, yr her i'r Tîm Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff fydd sut rydym yn ail-ymgysylltu'n

effeithiol â'n 400+ o gleientiaid atgyfeirio i wneud ymarfer corff i roi hyder iddynt a gwneud iddynt deimlo'n ddiogel i ddychwelyd i weithgarwch unwaith eto.

**Bydd pandemig COVID-19 yn cael effaith sylweddol ar y galw am ein gwasanaethau nawr ac yn y dyfodol. Felly, bydd cynnal a gwella lefelau gwasanaethau a'u perfformiad wrth reoli'r galw am ein gwasanaethau ar adeg pan nad oes digon o adnoddau yn dod yn fwyfwy heriol**. Mae hyn yn berthnasol yng nghyd-destun y galw cynyddol am wasanaethau, a chymhlethdod, sy'n cael ei brofi'n gyffredinol (ac yn enwedig yn y Gwasanaethau Cymdeithasol). Mae newidiadau demograffig yn cael effaith sylweddol ar ein gallu i ateb y galw cynyddol am ein gwasanaethau. Mae niferoedd cynyddol o blant a phobl ifanc a'u teuluoedd ac oedolion y mae ganddynt anghenion mwy cymhleth. Yn debyg i'r sefyllfa ledled Cymru, yn gysylltiedig â'r galw cynyddol, mae nifer y plant a leolir ar y Gofrestr Amddiffyn Plant, sy'n destun achosion gofal ac sy'n derbyn gofal i gyd wedi cynyddu. Mae hyn yn rhoi mwy o bwysau ar ein hadnoddau presennol ac mewn cyd-destun lleoliad, mae'r gwasanaeth wedi dod yn ddibynnol ar ofal a brynir yn allanol. Mae ein cydweithfa fabwysiadu rhanbarthol wedi gweld cynnydd yn y galw am gymorth ôl-fabwysiadu a bydd ymgyrch genedlaethol drwy gyflwyno canllawiau arfer gorau, er yn gadarnhaol yng nghyd-destun gwella safonau'n genedlaethol, yn rhoi galw cynyddol sylweddol ar ein gwasanaethau ac mae diffyg canlyniadol yn yr adnoddau presennol wedi'i nodi ar draws y rhanbarth. Yn yr un modd, mae poblogaeth sy'n heneiddio ym Mro Morgannwg lle mae 20.9% ar hyn o bryd dros 65 oed a 2.5% dros 85 oed. Rhagwelir y bydd nifer y bobl sydd dros 65 oed yn cynyddu 15% a nifer y rhan dros 85 oed yn cynyddu dros 40% yn y 10 mlynedd nesaf. O ganlyniad i'n dinasyddion yn byw'n hirach, bydd nifer cynyddol yn parhau gydag anghenion mwy cymhleth a fydd, yn eu tro, yn rhoi mwy o bwysau ar ein cyllidebau a'n gallu i ddiwallu eu hanghenion gofal a chymorth. Mae angen ailgychwyn ein gwasanaethau, fel rhan o'n hadferiad o'r pandemig, mewn ffordd gynaliadwy i sicrhau y gallwn barhau i ddiwallu anghenion ein defnyddwyr gwasanaeth yn effeithiol.

Bydd **rheoli disgwyliadau cwsmeriaid o ran cael mynediad i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar adeg pan fo mwy o alw am ein gwasanaethau** yn parhau i fod yn her barhaus wrth i ni weithio drwy argyfwng COVID-19. Bu cryn dipyn o fuddsoddiad eisoes a phwyslais ar symlrwydd a dewis sut mae ein dinasyddion yn defnyddio ein gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol drwy'r Un Pwynt Mynediad o fewn y Ganolfan Cyswllt Cwsmeriaid (Cyswllt Un Fro). Er bod gennym wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig ychwanegol drwy dreialu'r Gwasanaeth Brysbennu Meddygon Teulu a sefydlu Swyddogion Llesiant, mae COVID-19 wedi oedi ein cynnydd o ran ymgorffori ac integreiddio ein prosesau gyda'n partneriaid iechyd. Bydd y dull mwy integredig hwn yn ei gwneud yn ofynnol i ni gryfhau'r brand 'Materion Llesiant' a rennir fel bod ein dinasyddion yn gwybod ac yn cydnabod mai dyma'r pwnt cyswllt cyntaf ar gyfer gwybodaeth, cyngor a chymorth.

**Bydd ein gallu i ateb y galw cynyddol am wasanaethau cymorth** ar gyfer plant a theuluoedd yn parhau i fod yn her barhaus. O ganlyniad i COVID-19, rydym wedi gweld cynnydd sylweddol yn y galw am gymorth ac ymyrraeth i deuluoedd, a adlewyrchir yn y niferoedd a'r cymhlethdod. Mae sawl peth wedi arwain at y cynnydd hwn a disgwylir i'r effaith ar blant a theuluoedd, ac felly ein gwasanaethau, fod yn barhaus. Rydym hefyd yn wynebu heriau sylweddol o ran recriwtio a chadw gweithwyr cymdeithasol mewn meysydd allweddol, sy'n effeithio ar ein gallu i ateb lefelau uwch o alw.

Yn sgil yr Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol, mae mwy o bwyslais ar ddatblygu a gweithredu trefniadau i'n galluogi i ymgymryd â chomisiynu rhanbarthol. Er gwaethaf ein dull blaengar o weithio gyda phartneriaid, **mae cydweithredu mewn perthynas â datblygu modelau amgen o ddarparu gwasanaethau yn debygol o barhau i fod yn her barhaus, yn enwedig yng ngoleuni COVID-19 wrth i sefydliadau partner geisio sefydlu eu strategaethau adfer wedi'r pandemig.** Yn gysylltiedig â hyn mae anwadalrwydd ffrydiau arian grant, sy'n effeithio ar ein gallu i ddatblygu, comisiynu a chynnal gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig sy'n gwella ein capasiti wrth barhau i fodloni ein gofynion statudol i ddarparu gwasanaethau craidd. Mae heriau hefyd yn gysylltiedig â sefydlu dulliau symlach o ddatblygu/comisiynu gwasanaethau ataliol sy'n fwy cydlynol ar draws ffiniau sefydliadol yn unol â gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae **diffyg capasiti a gwydnwch mewn marchnadoedd lleol i fodloni gofynion gofal nyrsio mewn cartrefi a gofal cartref.** Mae monitro ansawdd ein darparwyr gwasanaethau a gomisiynir yn allanol yn fwyfwy heriol oherwydd diffyg capasiti ac adnoddau i ymgymryd â'r gwaith hwn, sy'n cael ei ddwysáu ymhellach gan anwadalwch marchnadoedd allanol. O ganlyniad i COVID-19 ac o bosibl Brexit, mae'r ansefydlogrwydd hwn yn debygol o waethygu yn sgil unrhyw ddirywiad yn yr economi, a fydd yn rhoi rhagor o bwysau ar hyfywedd y farchnad gofal cartref.

Mae pwysau ar ein **gallu i sicrhau bod ein gweithdrefnau diogelu yn parhau'n gadarn a'u bod yn cael eu cymhwyso'n gyson.**

**Mae cydymffurfio â gofynion Amddifadu o Ryddid (DoLS) yn parhau i roi pwysau sylweddol ar y Gwasanaethau Cymdeithasol o ran llwyth gwaith/capasiti swyddogion a chyllidebau.** Mae hyn wedi parhau i fod yn her barhaus yn ystod COVID-19. Mae angen adolygu a monitro'r gwasanaeth hwn yng ngoleuni'r Trefniadau Amddiffyn Rhyddid (TARh) newydd.

Yn rhan o'n hadferiad o'r pandemig, mae **symud i'r modelau gweithredu a ffefrir yn golygu mabwysiadu arferion gwaith newydd a fydd yn heriol**. Bydd angen i ni sicrhau bod anghenion ein dinasyddion a'n defnyddwyr gwasanaeth yn parhau i gael eu diwallu a'u gwella.

Mae heriau'n gysylltiedig â **sicrhau bod y dinasyddion rydym yn gweithio gyda nhw yn cael eu cefnogi i gael mynediad at wasanaethau mewn gwahanol ffyrdd,** a sicrhau bod ganddynt y sgiliau cywir i ddefnyddio gwasanaethau drwy gynyddu cynlluniau cynhwysiant digidol.

Mae **bregustod y gwasanaeth Iechyd Meddwl Cymeradwy yn parhau i fod yn broblem**, wrth i ni geisio creu gwydnwch o amgylch ein gweithlu. Rydym yn rhagweld **y bydd mwy o alw ar ein gwasanaethau oherwydd effaith COVID-19 ac effaith cyfnodau estynedig o unigedd ar les meddyliol ac emosiynol pobl**.

Bydd darparu rhaglen arolygu wedi'i thargedu fel rhan o'r Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir o ystyried y gostyngiad yn yr adnoddau yn parhau i fod yn heriol, yn enwedig yn dilyn yr argyfwng COVID-19 pan oedd angen ailgyfeirio adnoddau mewn nifer o ffyrdd, ond yn enwedig gyda'n gwaith partneriaeth ar Tracio, Olrhain a Diogelu ynghyd â'r angen i weinyddu'r gofynion cau busnes ac ymbellhau cymdeithasol yn y safleoedd hynny a arhosodd ar agor. O ganlyniad, bydd hyn yn golygu y bydd **angen i ni ddarparu mwy o'n gwasanaethau gan ddefnyddio dull ar sail risg i reoli a blaenoriaethu gofynion yn well ar gyfer ein gwasanaethau.**

Er ein bod wedi ymateb yn gadarnhaol i **heriau COVID-19, rydym yn cydnabod y bydd effaith sylweddol ar y galw am ein gwasanaethau nawr ac yn y dyfodol.** O ganlyniad i'r pandemig, rydym yn rhagweld y bydd mwy o anghydraddoldebau iechyd ac economaidd a bydd mwy o angen am gymorth mewn argyfwng i deuluoedd, mwy o alw am Wasanaethau Iechyd Meddwl yn ogystal â mwy o alw am ofal a chymorth i'r rhai sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth. Rhagwelir y bydd effaith COVID-19 yn cael ei theimlo'n anghymesur gan y rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas am beth amser. Drwy ystyried y ffactorau hyn a'r galw cynyddol am ein gwasanaethau, gallwn roi cynlluniau adfer effeithiol ar waith a all addasu yn ôl anghenion newidiol ein dinasyddion.

**Mae ansicrwydd o hyd ynghylch Cronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU, sydd wedi ei chynllunio i gymryd lle arian yr UE a gollwyd o ganlyniad i'r DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd.** Mae CLlLC a Llywodraeth Cymru yn parhau i bwyso am fwy o wybodaeth. Cyflwynodd y Cyngor ymateb i ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru ar ddyfodol buddsoddi rhanbarthol, gan bwysleisio y dylai penderfyniadau a chyflawni lleol fod yn elfen o unrhyw raglen gyffredinol. Profwyd bod dull Datblygu Lleol dan Arweiniad y Gymuned yn gweithio ym Mro Morgannwg wledig ac mae Llywodraeth Cymru a CLlLC hefyd o'r farn bod hyn

yn ffactor pwysig o unrhyw gronfa newydd. Bydd diffyg arian Cyfalaf yr UE yn golygu y bydd y Fro yn gweld llai o fuddsoddi mewn projectau fel mannau chwarae, tir cyhoeddus a chynlluniau treftadaeth.

Rydym yn parhau i ganolbwyntio ein sylw ar wella ein hagwedd at gymorth i deuluoedd a gwasanaethau ataliol. Yr **her yw ein gallu i ateb y galw cynyddol am y gwasanaethau hyn tra'n sicrhau nad yw unrhyw wasanaethau a ddarperir ar draws sbectrwm ein partneriaid yn dyblygu nac yn gwrthdaro â'n nodau.**

---

Mae digartrefedd yn her genedlaethol gynyddol ac yn **her sylweddol i Fro Morgannwg sydd hefyd â llawer iawn o ddigartrefedd cudd.** Fodd bynnag, mae llawer o'r bobl hyn wedi dod yn amlwg i'r Gwasanaeth yn dilyn cyhoeddi Canllawiau Llywodraeth Cymru i awdurdodau lleol yn ystod pandemig COVID-19. Roedd hyn yn gosod dyletswydd ar yr Awdurdod i gynnig llety dros dro i bawb er mwyn osgoi lledaenu'r feirws. Mae hyn wedi bod yn her fawr dros y flwyddyn ddiwethaf, oherwydd bod rhaid dod o hyd i gartrefi parhaol yn y sector rhent cymdeithasol a phreifat, sydd eisoes dan bwysau, ar gyfer y bobl hyn. Mae angen dod o hyd i ddatrysiadau ailgartrefu arloesol, gan fod mwy na 200 o bobl sydd mewn llety dros dro ar hyn o bryd yn aros i gael eu hailgartrefu yn y Fro. Ym mis Mawrth 2021 roedd bron i 5,000 o ymgeiswyr tai ar Gofrestr Tai Bro Morgannwg.

---

Disgwylir i'r cynnydd mewn ôl-ddyledion rhent i ymgeiswyr CC sy'n trosglwyddo i'r budd-dal hwn yn y sectorau rhent cymdeithasol a phreifat arwain at **fwy o bobl cael eu troi allan o'u cartrefi ac wedyn bydd mwy o ddigartrefedd** pan fydd camau cyfreithiol a'r gallu i droi pobl allan o'u cartrefi yn ailddechrau. Mae **diffyg difrifol o lety un ystafell wely yn bryder** ar gyfer y Fro ac yn ffactor blaenoriaeth mewn cynllunio hirdymor.

---

Dengys data ar gyfer 2020/21 fod nifer y **digwyddiadau sy'n ymwneud ag Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (YG) a digwyddiadau cam-drin domestig risg uchel wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y pandemig.** Er na fydd y rhain wedi arwain at atgyfeiriadau, maent yn dal i fod angen mewnbwn ac adnoddau sylweddol. Priodolwyd y cynnydd i'r niferoedd cynyddol o bobl ifanc sydd wedi casglu mewn grwpiau mawr mewn ardaloedd lle ceir problemau fel Llynnoedd Cosmeston, Trwyn y Rhws, Aberogwr a'r Knap. Fel rhan o'r Bartneriaeth Bro Ddiogelach rydym wedi gweithio'n agos gyda'n partneriaid (gan gynnwys yr Heddlu) a'r gymuned leol i atal casgliadau mawr ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Yr her wrth symud ymlaen yw sut y gall y Cyngor roi ar waith **atebion hirdymor a fydd yn rhwystr effeithiol i ymddygiad gwrthgymdeithasol** heb amharu ar y ffordd y mae'r cyhoedd yn mwynhau ein cyrchfannau. Gwelsom hefyd gynnydd yn nifer y cymdogion sy'n rhoi gwybod bod eu cymdogion yn torri cyfyngiadau'r cyfnod cloi ac mae pryder y bydd hyn yn arwain at anghydfodau hirdymor rhwng cymdogion a phroblemau cydlyniant yn y dyfodol. Bydd y Bartneriaeth Bro Ddiogelach yn parhau i fonitro hyn.

---

Mae'r gwasanaeth Cam-drin Domestig, Asesu ac Atgyfeirio a Chynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg hefyd wedi **profi mwy o atgyfeiriadau yn ystod y cyfnod cloi ac mae wedi dod yn amlwg yr effeithir ar fwy o achosion gan COVID-19 nag a nodwyd yn wreiddiol.** Mae cymhlethdod sefyllfaoedd cam-drin domestig yn golygu mai dim ond ar ôl gweithio gyda dioddefwyr dros amser y bydd y graddau y mae'r pandemig yn effeithio ar sefyllfaoedd yn gallu cael eu deall. Rydym yn monitro gallu dioddefwyr i ddefnyddio gwasanaethau'n ofalus ac mae'n glir bod dioddefwyr yn cael trafferth o ganlyniad i gael eu 'cloi i mewn' gyda chyflawnwyr sydd weithiau'n eu rheoli a'u gorfodi'n ddifrifol. Felly, rydym yn rhagweld cynnydd arall yn y ffigurau wrth i'r cyfnod cloi barhau i gael ei lacio ac i'r gallu i ddefnyddio gwasanaethau ddod yn haws.

---

Mae prinder tai yn y Fro ac mae angen 576 o dai fforddiadwy ychwanegol y flwyddyn rhwng 2017 a 2022. Rydym yn gweithio gyda'n partneriaid i fynd i'r afael â hyn, fodd bynnag, **mae effaith COVID-19, dirwasgiad posibl a Phrydain yn gadael yr Undeb Ewropeaidd yn parhau i ychwanegu haenau o ansicrwydd ynghylch rhaglen adeiladu tai'r Cyngor** a gallai gyfrannu at brinder llafur yn ogystal ag anawsterau o ran cyflenwi deunyddiau. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r farchnad ac yn cymryd camau priodol i liniaru'r effaith drwy ymgysylltu â chontractwyr lleol a dod o hyd i ddeunyddiau amgen lle bo angen.

---

Gan ein bod ni bellach wedi bodloni **Safon Ansawdd Tai Cymru**, mae'n bwysig sicrhau bod y safon yn cael ei chynnal a bod buddsoddiad yn cael ei gynllunio yn yr un modd. Mae'r Cyngor wedi bod yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r datganiad nesaf o SATC sy'n debygol o ganolbwyntio ar leihau nifer y methiannau derbyniol a dechrau mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Bydd **lefel y buddsoddiad sydd ei angen yn amrywio bob blwyddyn** ac felly bydd angen addasu rhaglenni gwaith manwl bob blwyddyn.

## 5.4 SBOTOLAU AR: GWASANAETHAU CEFNOGI POBL DRWY BYRTH A GWASANAETHAU TRAWMA

Cydnabyddir yn gyffredinol fod cartref yn fwy na tho dros ben rhywun ac i rai pobl ffynnu yn ein cymunedau, mae cael cymorth i gynnal eu tenantiaeth a setlo i mewn i'r gymuned yn hanfodol. O ganlyniad, mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd darparu'r cymorth gorau posibl cyn gynted â phosibl **(ymyrraeth gynnar)** os yw pobl am deimlo'n ddiogel yn eu cartref, wedi'u cysylltu â'u cymuned ac osgoi dod yn ddigartref yn y dyfodol **(atal)**. Yn ystod y cyfnod rhwng 1 Gorffennaf 2020 a 31 Mawrth 2021, dywedodd 868 o bobl sy'n byw ym Mro Morgannwg wrthym fod angen help arnynt i deimlo'n ddiogel neu i gyfrannu tuag at eu diogelwch eu hunain neu ddiogelwch rhywun arall, tra bod angen cymorth ar 401 o bobl i deimlo'n fwy cysylltiedig â'u cymuned.

Mae sawl agwedd ar y gwaith a wnaed i nodi datrysiadau tai cynaliadwy gyda chymorth priodol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, canolbwyntio ar yr **hirdymor** a **chydweithio** gyda llawer o randdeiliaid statudol ac anstatudol a **chyfranogiad** ac ymgysylltiad â defnyddwyr gwasanaeth, sy'n adlewyrchu pwysigrwydd a natur gymhleth digartrefedd yn aml a'i effaith ehangach ar iechyd, lles a ffyniant. Felly, mae mynd i'r afael â'r mater hwn mewn ffordd integredig hefyd yn cyfrannu at dri Amcan Llesiant arall y Cyngor.

Rydym yn gwybod bod gwasanaethau cymorth tai o ansawdd uchel yw'r allwedd i atal digartrefedd, gan alluogi pobl i fyw'n annibynnol ar draws y continwwm o anghenion cymorth a gofal a helpu'r rhai hynny sydd fwyaf agored i niwed ganfod eu lle yn ein cymunedau. Mae hyn yn sail i weledigaeth y Cyngor o gydweithio ar gyfer dyfodol disgleiriach. Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod bod cyllidebau'n gyfyngedig, ac felly mae angen sicrhau bod y bobl fwyaf agored i niwed sy'n byw yn ein cymdeithas yn cael blaenoriaeth ar gyfer cymorth. Mae'r enghreifftiau isod yn dangos sut mae **cydweithio effeithiol** â **phartneriaid allweddol** yn sicrhau bod **adnoddau'n cael eu defnyddio a'u cyfeirio** at y bobl sydd angen y gwasanaethau hyn fwyaf, ac ar y **cyfle cynharaf** drwy gyflwyno pyrth i wasanaethau llety â chymorth a thrwy fabwysiadu dull sy'n deall trawma yn ein hymateb i fynd i'r afael â'u hanghenion. Drwy ymyrryd yn gynnar, rydym yn atal problemau rhag gwaethygu gan arwain at lai o faich ar wasanaethau cyhoeddus a gofal iechyd yn gyffredinol.

**TAITH CLEIENT 1**

Mae NL wedi profi hanes hir o gamddefnyddio cyffuriau ac alcohol a arweiniodd at gylch o droseddu, carchar a digartrefedd dros gyfnod o 25 mlynedd. Mae wedi bod i mewn ac allan o lety dros dro a pharhaol amrywiol ers yn 17 oed, ac mae ganddo berthynas dan straen gyda'i rieni, ar ôl dioddef trais yng nghartref y teulu ers yn ifanc iawn. Cysylltodd â'r awdurdod lleol am help gyda chymorth ei weithiwr prawf gan ei fod yn teimlo bod angen iddo ddod o hyd i'w le yn y gymuned yn 40 oed; anogwyd hyn yn rhannol gan y ffaith ei fod yn gwybod y byddai dychwelyd i'r carchar yn golygu dedfryd hirdymor.

***Beth wnaethon ni:*** Cafwyd trafodaeth helaeth am sefyllfa NL rhwng y Gwasanaeth Prawf a'r Timau Datrysiadau Tai a Chefnogi Pobl, gan fod dod o hyd i lety addas yn her, oherwydd ei fod wedi cael ei droi allan a'i wahardd o lawer o'r llety sydd ar gael i'r awdurdod lleol, a bod ganddo hanes o drais yn erbyn llawer o bobl gan gynnwys staff. Aethpwyd â'i achos i'r "Porth Cefnogi Pobl ar Gamddefnyddio Sylweddau a Chyfiawnder Troseddol" ac ar ôl i asesiadau risg priodol gael eu sefydlu, cytunwyd mai'r opsiwn mwyaf priodol fyddai lleoliad mewn llety â chymorth, sy'n arbenigo mewn cynorthwyo pobl i ymatal rhag camddefnyddio sylweddau. Gan ddefnyddio dull sy'n deall trawma i fynd i'r afael â'i broblemau a'i gysylltiadau â thrawma blaenorol, llwyddodd y darparwr i weithio gyda phartneriaid allweddol gan gynnwys

Tîm Alcohol a Chyffuriau'r Fro a Dyfodol i nodi cymorth arbenigol ychwanegol a fydd yn helpu problemau NL mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Drwy'r dull cydweithredol hwn, roeddem yn gallu sefydlu cynllun i helpu i leihau ei gamddefnydd o sylweddau, ac roedd hyn yn ei dro yn ei helpu i gadw draw o rai o'i ddylanwadau blaenorol a rhoi'r gorau i gymryd rhan mewn gweithgarwch troseddol. Mae NL wedi ymgysylltu â'r broses ac wedi dechrau rheoli ei gyllid ei hun ac wedi symud ymlaen i fyw'n annibynnol yn y gymuned. Pan symudodd o'r llety â chymorth am y tro cyntaf, parhaodd y darparwr i weithio gydag ef nes i'w denantiaeth gael ei sefydlu, gan gynnwys ei helpu i gael budd-daliadau a chyfleustodau i sicrhau bod ganddo siawns dda o gynnal ei denantiaeth. Mae wedi cael cymorth i ddatblygu sgiliau byw bob dydd, cael gafael ar fudd-daliadau a dysgu sut i negodi'r system fudd-daliadau, cynnal ei denantiaeth ac mae wedi cael cymorth i ddod o hyd i hyfforddiant. Mae hefyd wedi cael cymorth i gael mynediad i gampfa leol, gydag atgyfeiriad ymarfer corff gan ei feddyg teulu er mwyn darparu gweithgaredd dargyfeiriol i'w helpu i barhau i ymatal rhag camddefnyddio sylweddau.

***Canlyniadau:*** Mae NL bellach yn byw'n annibynnol yn y gymuned yn llwyddiannus ac mae wedi cynnal ei denantiaeth am dros 12 mis, heb ddychwelyd i weithgarwch troseddol na chamddefnyddio sylweddau. Mae wedi ymgysylltu â'i gynllun cymorth sydd wedi ei helpu i ddysgu'r sgiliau sydd eu hangen i gadw tenantiaeth ac mae wedi datblygu sgiliau byw bob dydd, yn ogystal â bod â'r hyder erbyn hyn i gael budd-daliadau ac addysg. Mae hefyd yn gwybod sut i gael gafael ar gymorth yn y dyfodol os yw'n teimlo ei fod yn cael trafferth gydag unrhyw agweddau ar ei denantiaeth neu gamddefnyddio sylweddau. Mae NL bellach yn cadw'n heini ac mae'n paratoi ei brydau bwyd ei hun ac yn bwyta'n iach. Mae wedi ymuno â champfa leol ac yn ymarfer yn rheolaidd.

**TAITH CLEIENT 2**

Roedd MH yn profi digartrefedd oherwydd bod ffrindiau a theulu, yr oedd yn aros ar eu soffas am fisoedd lawer, ar ôl gorfod gadael cartref y teulu yn dilyn tor-perthynas, wedi gofyn iddo adael. Nid oedd erioed wedi byw'n annibynnol ac felly nid oedd yn gwybod sut i fynd ati i gael gafael ar lety na chymorth. Fe'i cynghorwyd gan ffrindiau i gysylltu â'r Adran Datrysiadau Tai a wnaeth ei roi mewn llety dros dro brys a'i gyfeirio at y Tîm Cefnogi Pobl am gymorth sy'n gysylltiedig â thai.

***Beth wnaethon ni:*** Gan ddefnyddio dull sy'n deall trawma i fynd i'r afael â'i broblemau, cyd-gynhyrchodd y darparwr (gan ddefnyddio dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn) gynllun cymorth gyda MH, gan nodi'r meysydd lle byddai angen cymorth arno i fyw'n annibynnol a dod yn aelod actif o'r gymuned. Mae MH wedi ymgysylltu'n llawn â'r broses ac wedi dechrau rheoli ei lety, ei gyllid, ei addysg a'i waith gwirfoddoli ei hun. Mae wedi cael cymorth i ddatblygu sgiliau byw bob dydd, cael gafael ar fudd-daliadau i'w helpu i gynnal ei denantiaeth ac mae wedi cael cymorth i ddod o hyd i waith gwirfoddol.

***Canlyniadau:*** Mae NL bellach yn byw'n annibynnol yn y gymuned yn llwyddiannus ac mae wedi cynnal ei denantiaeth am dros 6 mis. Mae wedi ymgysylltu â'i ddarparwr cymorth sydd wedi ei helpu i ddysgu'r sgiliau sydd eu hangen i gadw tenantiaeth ac mae wedi datblygu sgiliau byw bob dydd, sut i gael budd-daliadau, addysg a chyflogaeth. Mae MH bellach yn gwirfoddoli mewn prosiect uwchgylchu dodrefn lleol, yn parhau i fynychu dau gwrs coleg, yn gwirfoddoli mewn sawl siop elusen ac wedi dod yn gennad i'r darparwr cymorth. Mae'n dweud ei fod yn teimlo fel person gwahanol nawr ac yn teimlo'n llawer mwy hyderus am wneud pethau'n annibynnol. Mae'n chwilio am waith parhaol â thâl ac mae'n teimlo fel ei fod wedi dod o hyd i'w le yn y gymuned.

***Pyrth Cefnogi Pobl***

Mae'r Rhaglen Cefnogi Pobl yn brosiect a ariennir gan Lywodraeth Cymru sy'n rhan o'r Rhaglen Grant Cymorth Tai (GCT). Mae'r GCT yn rhaglen grant ymyrraeth gynnar i gefnogi gweithgarwch, sy'n atal pobl rhag mynd yn ddigartref, yn sefydlogi eu sefyllfa llety, neu'n helpu pobl a allai fynd yn ddigartref i ddod o hyd i lety a'i gadw. Nid yw'r GCT yn ariannu'r ddyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i atal digartrefedd, yn hytrach mae gwasanaethau a ariennir gan y GCT yn ategu a chefnogi'r gwasanaeth statudol i sicrhau bod yr awdurdodau yn rhoi cymorth i bobl i'r cartrefi cywir gyda'r cymorth cywir i lwyddo. Mae'n cefnogi pobl sy'n

agored i niwed i fynd i'r afael â'r problemau lluosog y maent yn eu hwynebu weithiau, megis dyled, cyflogaeth, rheoli tenantiaethau, camddefnyddio sylweddau, trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a materion iechyd meddwl. Mae cymorth yn canolbwyntio ar yr unigolyn, gyda'r nod o gefnogi pobl i sicrhau a chynnal llety cynaliadwy drwy fynd i'r afael â'u hanghenion a gweithio gyda nhw i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen i gynnal tenantiaeth a gwella agweddau eraill ar eu lles.

Mae'r GCT yn gweithio ar draws ffiniau traddodiadol y nifer o wahanol sefydliadau sy'n gyfrifol am wasanaethau ar gyfer pobl sy'n agored i niwed. Rydym yn cydnabod y gellir ond cyflawni ein hagenda ar gyfer iechyd, tai, gofal cymdeithasol a diogelwch cymunedol drwy bartneriaethau modern, sy'n rhannu amcanion, rhaglenni a dulliau gweithio gweithredol.

Ar hyn o bryd mae dros 1,000 o bobl yn derbyn cymorth yn ôl yr angen a dros 50 yn byw mewn llety â chymorth ym Mro Morgannwg. Yn ogystal, mae 40 o bobl ar y rhestr aros am gymorth yn ôl yr angen a 60 ar y rhestr aros am lety â chymorth. Felly, mae'n hanfodol bod cymorth yn cael ei gyfeirio at y rhai mwyaf agored i niwed er mwyn iddo gael yr effaith fwyaf. Er mwyn cyflawni hyn, mae un pwynt mynediad, a elwir yn gyffredin yn borth, wedi'i gyflwyno ar gyfer pob grŵp cleient. Mae pob porth yn cynnwys gweithwyr proffesiynol o'r Tîm Datrysiadau Tai, y Tîm Cefnogi Pobl, darparwr y gwasanaeth a gweithwyr proffesiynol perthnasol ar gyfer pob grŵp cleientiaid. Er enghraifft, mae porth y person ifanc yn cynnwys rheolwr y Tîm Pymtheg+ yn y Gwasanaethau i Blant, a chynrychiolydd o'r Gwasanaeth Ieuenctid. Yn yr un modd, mae'r porth iechyd meddwl yn cynnwys gweithwyr proffesiynol o'r Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol yn ogystal â'r aelodaeth graidd a ddisgrifir. Mae dod â'r holl asiantaethau a gweithwyr proffesiynol perthnasol at ei gilydd yn sicrhau bod dull integredig yn cael ei ddefnyddio i gefnogi pob cleient gan ganolbwyntio ar anghenion yr unigolyn, sef 'dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn' sy'n ystyried eu cryfderau wrth lunio cymorth (cyfranogiad).

Mae rhannu gwybodaeth drwy'r broses borth hon wedi bod yn hanfodol er mwyn helpu i ddeall anghenion pob person mewn ffordd fwy cyfannol fel bod cymorth yn cael ei dargedu'n well. Mae'r dull hwn hefyd wedi arwain at atgyfeiriadau mwy priodol i wasanaethau eraill a gwell canlyniadau i'r bobl sy'n cael mynediad atynt. Isod ceir y canlyniadau ar gyfer y meysydd cymorth perthnasol ar gyfer y cyfnod rhwng Gorffennaf 2020 a Mawrth 2021 sy'n dangos bod 38% o'r bobl a gefnogwyd i deimlo'n ddiogel yn dweud eu bod wedi cwblhau'r canlyniad hwn o fewn 9 mis o ddechrau'r cymorth, ac roedd 40% yn dweud eu bod nhw bellach yn teimlo mwy o ymdeimlad o berthyn i'w cymuned o fewn yr un cyfnod amser.

Roedd 173 o bobl wedi cyflawni eu canlyniad neu wedi cael canlyniad cadarnhaol lle roedd **'teimlo'n ddiogel'** wedi ei nodi fel angen perthnasol.
Roedd 162 o bobl wedi cyflawni eu canlyniad neu wedi cael canlyniad cadarnhaol lle roedd '**cyfrannu at eu diogelwch a'u llesiant eu hunain a diogelwch a llesiant** eraill wedi ei nodi fel angen perthnasol.
Roedd 528 o bobl wedi cyflawni eu canlyniad neu wedi cael canlyniad cadarnhaol lle roedd **'rheoli llety'** wedi ei nodi fel angen perthnasol.
Roedd 171 o bobl wedi cyflawni eu canlyniad neu wedi cael canlyniad cadarnhaol lle roedd **'rheoli perthnasoedd'** wedi ei nodi fel angen perthnasol.
Roedd 162 o bobl wedi cyflawni eu canlyniad neu wedi cael canlyniad cadarnhaol lle roedd **'teimlo'n rhan o'r gymuned'** wedi ei nodi fel angen perthnasol.
Roedd 434 o bobl wedi cyflawni eu canlyniad neu wedi cael canlyniad cadarnhaol lle roedd **'rheoli arian'** wedi ei nodi fel angen perthnasol.
Roedd 74 o bobl wedi cyflawni eu canlyniad neu wedi cael canlyniad cadarnhaol lle roedd **'ymgysylltu â dysgu addysgol'** wedi ei nodi fel angen perthnasol.
Roedd 96 o bobl wedi cyflawni eu canlyniad neu wedi cael canlyniad cadarnhaol lle roedd **'ymgysylltu â chyflogaeth / gwaith gwirfoddol'** wedi ei nodi fel angen perthnasol.
Roedd 186 o bobl wedi cyflawni eu canlyniad neu wedi cael canlyniad cadarnhaol lle roedd **'yn gorfforol iach'** wedi ei nodi fel angen perthnasol.

Roedd 213 o bobl wedi cyflawni eu canlyniad neu wedi cael canlyniad cadarnhaol lle roedd **'yn feddyliol iach'** wedi ei nodi fel angen perthnasol.
Roedd 122 o bobl wedi cyflawni eu canlyniad neu wedi cael canlyniad cadarnhaol lle roedd **'â ffordd o fyw iach ac actif'** wedi ei nodi fel angen perthnasol.

***Gwasanaethau Sy'n Deall Trawma***
Mae'r gwaith gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ar Brofiadau Plentyndod Negyddol (PPNau) wedi arwain at well dealltwriaeth o'r trawma y bydd llawer o bobl yn ei brofi yn eu bywyd. Mae effaith trawma wedi cael ei chydnabod ers tro gan y Gwasanaethau Tai a Chymorth cyn y darn hwn o waith, gan fod tystiolaeth yn dangos bod cyfran sylweddol o bobl sy'n defnyddio'r rhaglenni hyn wedi profi digwyddiadau trawmatig yn ystod eu plentyndod. Fodd bynnag, drwy ffurfioli hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth o'r mater, rydym yn datblygu gweithlu sydd bellach mewn sefyllfa well i gefnogi ein cleientiaid sydd wedi profi trawma, gan arwain at ganlyniadau gwell megis gwell lles a chyfleoedd bywyd.

Er mwyn uwchsgilio'r gweithlu, mae hyfforddiant ar amgylchedd seicolegol gytbwys (ASG) wedi dod yn orfodol i bob gweithiwr cymorth. Drwy ddod i ddeall trawma, mae gweithwyr cymorth mewn sefyllfa well i gydnabod effaith trawma a chefnogi anghenion cymhleth pobl sydd wedi profi pob math o drawma gan gynnwys PPNau. Mae hyn yn sicrhau bod y cymorth a gynigir yn canolbwyntio ar yr unigolyn, yn canolbwyntio ar gryfderau'r unigolyn ac yn meithrin gwydnwch i'r unigolyn i'w helpu i ddatblygu strategaethau ymdopi hirdymor ac osgoi dychwelyd i ddigartrefedd. Mae'r dull hwn yn cael ei ymgorffori mewn lleoliadau, ymarfer a gweithdrefnau gwasanaethau gyda dysgu myfyriol yn cael ei hyrwyddo i wella arferion gwaith.

Mae'r Tîm Cefnogi Pobl yn monitro cydymffurfiaeth â hyfforddiant a chymhwyso drwy'r broses gomisiynu a monitro contractau'n rheolaidd ac yn dibynnu ar gydweithio effeithiol rhwng y Cyngor, sefydliadau darparwyr, Llywodraeth Cymru a Cymorth Cymru, yn ogystal â gweithwyr proffesiynol eraill a'r bobl rydym yn eu cefnogi. Mae'r **dull gweithredu cydgysylltiedig, amlasiantaethol** hwn o ran cefnogi pobl yn sicrhau bod **arfer sy'n seiliedig ar drawma yn cael ei ddatblygu'n gynaliadwy** ac yn cael ei **wreiddio ar y cyd** ar draws systemau a gwasanaethau ac yn cael ei **lunio gan brofiad bywyd y bobl yn ein cymunedau sydd wedi'u heffeithio gan drawma**.

Mae'r Rhaglen Cefnogi Pobl yn cefnogi amrywiaeth eang o bobl sy'n byw yn ein cymunedau gan gynnwys y rhai mwyaf agored i niwed ac felly mae cael y cymorth cywir ar yr adeg iawn o'r pwys mwyaf. Mae **gwasanaethau sy'n deall trawma** yn ein galluogi i weithio gyda'n defnyddwyr gwasanaeth i ddod o hyd i **atebion tymor hir** i helpu pobl i deimlo'n ddiogel ac yn rhan o'u cymunedau. **Mae newid ein dull gweithredu a datblygu mwy o ymwybyddiaeth, addysg ac adolygu arferion yn sicrhau bod y risg o drawma, ail-drawma neu drawma dirprwyol yn cael ei lleihau**. Mae ymateb i drawma, nawr yn fwy nag erioed, yn flaenoriaeth a chredwn y bydd ein dull gweithredu yn helpu i hyrwyddo canlyniadau gwell i ddefnyddwyr gwasanaethau, eu cymunedau a Bro Morgannwg fel rhan o'n map ffordd ar gyfer adferiad COVID-19.

# 6.0 AMCAN LLESIANT 4: PARCHU, GWELLA A MWYNHAU EIN HAMGYLCHEDD

**Ein statws perfformiad cyffredinol ar gyfer yr Amcan Llesiant hwn yw MELYN**

## 6.1 DATGANIAD SEFYLLFA

Ni allem edrych yn ôl ar 2020/21 heb sôn am yr effaith y mae pandemig y coronafeirws (COVID-19) wedi'i chael ar gyflawni'r ymrwymiadau blynyddol sy'n cyd-fynd â'n hamcan llesiant 'i barchu, gwella a mwynhau ein hamgylchedd'. Er bod y pandemig wedi newid yn sylweddol y ffordd rydym yn gweithio ac yn darparu ein gwasanaethau; mae hefyd wedi rhoi cyfleoedd i ni adnewyddu a thrawsnewid sut rydym yn eu darparu.

Mae'r amcan hwn yn cyffwrdd â holl wasanaethau a gweithgareddau'r Cyngor. Mae Amcanion Llesiant ein Cynllun Corfforaethol ac ymrwymiadau'r Cynllun Cyflawni Blynyddol ar gyfer y flwyddyn wedi'u llunio gan ein dyletswydd i barchu, gwella a mwynhau ein hamgylchedd. Rydym yn cydnabod sut mae amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach sy'n gweithio, yn cefnogi cadernid cymdeithasol, economaidd ac ecolegol tra'n cyfrannu at les unigolion, cymunedol a byd-eang. Mae economi Bro Morgannwg, gan gynnwys lletygarwch, twristiaeth, amaethyddiaeth, parthau busnes ac ynni adnewyddadwy, wedi'i seilio i raddau helaeth ar ein hamgylchedd naturiol. Mae'n ffactor pwysig sy'n denu pobl, ifanc a hŷn, i fyw, gweithio ac ymweld â'r sir, gan ddod â mewnfuddsoddiad gyda nhw.

Rydym yn cydnabod bod cysylltiad anorfod rhwng iechyd a chyfoeth â'n hamgylchedd, ac mae perthynas gref rhwng lles trigolion a'u hamgylchedd cyfagos, o ddarparu cyfleoedd hamdden, i bositifrwydd seicolegol, manteision iechyd a chysylltiad â threftadaeth a diwylliant. Felly, mae'n hanfodol ein bod yn parhau i osod safonau uchelgeisiol i ni ein hunain, ein partneriaid a'n cymunedau, gan gydweithio'n well i sicrhau ein bod yn lleihau ein heffaith negyddol ar ein hamgylchedd naturiol ac yn newid ymddygiad er mwyn sicrhau y gallwn i gyd fod yn falch o'r etifeddiaeth y byddwn yn ei gadael ar ein hôl ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Er gwaethaf heriau sylweddol y flwyddyn, rydym wedi penderfynu ein bod, ar y cyfan, wedi gwneud cynnydd cadarnhaol o ran cyflawni ymrwymiadau'r Cynllun Cyflawni Blynyddol sy'n cyfrannu at Amcan Llesiant 4 ar gyfer y cyfnod 2020/21. Mae hyn wedi cyfrannu at statws **MELYN** ar gyfer yr amcan ar ddiwedd y flwyddyn. Mae 66% (19 o 29) o weithgareddau a gynlluniwyd wedi'u cyflawni'n llwyddiannus. Ar draws yr amcan, aseiniwyd statws coch i gamau gweithredu er mwyn adlewyrchu llithriant ac roedd hyn yn cyfrif am 35% (10) o'r holl weithgareddau a gynlluniwyd ar gyfer 2020/21. O'r 10 o gamau gweithredu sy'n cyfrannu at yr Amcan Llesiant, a gafodd statws perfformiad Coch, roedd 9 (90%) yn uniongyrchol o ganlyniad i fesurau ail-flaenoriaethu gwasanaethau a wnaed mewn ymateb i effaith y pandemig COVID-19 parhaus.

O ran dangosyddion perfformiad (DP), priodolwyd statws Gwyrdd i 62% (8/13) o ddangosyddion sy'n cyd-fynd ag Amcan 4 a phriodolwyd statws Coch i 38% (5) ohonynt. Mewn perthynas â'r 5 Dangosydd Perfformiad y priodolwyd statws Coch iddynt, cafodd COVID-19 effaith ar 4 o'r mesurau. Mae gwaith mewn perthynas â'r camau gweithredu a'r dangosyddion oedd wedi llithro yn parhau'n flaenoriaeth ac felly maen nhw wedi'u cario ymlaen o fewn eu Cynlluniau Gwasanaeth priodol ar gyfer 2021/22.

Yn anochel, mae'r pandemig wedi ymddangos yn helaeth yn ein gweithgarwch eleni, ond rydym hefyd am gydnabod y gwaith rhagorol sydd wedi digwydd o dan bwysau anhygoel ac ar gyflymder eithriadol. Rydym yn ddyledus i'n gweithlu ymroddedig, ein cymuned, ein partneriaid a'n gwirfoddolwyr sydd wedi bod yn rhan o'n gwaith hyd yn oed cyn i'r pandemig ddechrau ym mis Mawrth 2020. Gan weithio gyda'n gilydd rydym wedi cefnogi ein gilydd yn ystod cyfnod o argyfwng, ac rydym i gyd wedi dysgu llawer o'n profiadau.

Er gwaethaf blwyddyn heriol, lle mae COVID-19 wedi dadleoli newid yn yr hinsawdd yn y cyfryngau, rydym wedi parhau i weithio tuag at ein haddewid i leihau ein hallyriadau carbon i sero net erbyn 2030. Ar ddechrau'r pandemig, oedwyd allyriadau carbon ar draws y byd gyda'r gostyngiad sydyn, digynsail mewn gweithgarwch dynol wrth i lawer o'r byd wynebu cyfyngiadau symud; cafodd ffatrïoedd eu cau, diffoddwyd injans cerbydau a rhwystrwyd awyrennau rhag hedfan. Wrth i gymdeithas ddod allan o'r cyfnod cloi, bydd allyriadau'n dechrau cynyddu unwaith eto, ac mae'n hanfodol gweithredu ar unwaith. Mae COVID-19 wedi newid yn sylweddol y ffordd rydym yn gweithio ac wedi cyflymu ein cynnydd mewn meysydd fel ein hagenda ddigidol a symud tuag at weithio'n hyblyg gan arwain at ostyngiad yn ein hallbwn carbon, ond rydym yn cydnabod nad yw atal bywyd arferol dros dro a chynnal cyfresi o gyfnodau cloi yn gynaliadwy nac yn ddigon i atal newid yn yr hinsawdd.



Ar 29 Gorffennaf 2019, ymunodd Cyngor Bro Morgannwg â Llywodraeth Cymru (LlC) a Chynghorau eraill ledled y DU i **ddatgan 'argyfwng hinsawdd' byd-eang**. Ers hynny rydym wedi gweithio'n benderfynol i ymgysylltu â'n gweithlu a rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys y cyhoedd a'r gymuned fusnesau i gael mewnwelediad gwerthfawr i'n helpu i lunio cyfres o ddogfennau strategol sy'n sail i'n hymateb i leihau allyriadau carbon a'r newid yn yr hinsawdd. Yn awr yn fwy nag erioed, rydym yn cydnabod, er mwyn cyflawni ein gweledigaeth o Gymunedau Cryf â Dyfodol Disglair, fod angen inni sicrhau bod y penderfyniadau a wnawn yn diwallu anghenion heddiw tra'n diogelu a gwella ein hamgylchedd a'n lles ar gyfer y dyfodol. Mae'r sgwrs yn parhau, ac er ein bod yn gwybod nad oes gennym yr holl atebion eto, rydym yn hyderus, drwy gydweithio i fynd i'r afael â'n heriau, y byddwn yn dod o hyd i atebion arloesol sydd nid yn unig yn lliniaru effaith amgylcheddol ein gweithgareddau ond hefyd yn ysgogi'r economi ac yn hyrwyddo iechyd, llesiant a thegwch.

Yn gynharach eleni, ymunom â Siarter Argyfwng Hinsawdd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) y Fro sy'n nodi ymrwymiad ar y cyd gan bartneriaid sy'n gweithio yn y Fro i gydweithio i sicrhau sector cyhoeddus carbon niwtral erbyn 2030. Mae'r Siarter yn manylu ar amrywiaeth o ymrwymiadau ynghylch pwysigrwydd arwain drwy esiampl, cymryd camau cadarnhaol a lleihau ein heffaith negyddol.

Mae uchelgais ein Cynllun Corfforaethol 2020-25, "gweithio i leihau allyriadau carbon y sefydliad i sero net cyn 2030 ac annog eraill i ddilyn ein hesiampl fel rhan o'r ymgyrch i leihau effaith negyddol ein gweithgareddau ar yr amgylchedd" yn cael ei gefnogi gan ein Cynllun Cyflawni Blynyddol (2020/21) sy'n cynnwys nifer o weithgareddau sy'n cyfrannu at fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd ar draws y Cyngor. Un o'n hymrwymiadau ar gyfer y Cynllun Cyflawni Blynyddol (CCB) ar gyfer eleni oedd datblygu cynllun pwrpasol a fyddai'n ategu Siarter y BGC ac yn manylu ymhellach ar ymateb Cyngor Bro Morgannwg i newid yn yr hinsawdd a lleihau allyriadau carbon. Gwnaed cynnydd sylweddol yn unol â'r nod hwn ac mae ein Cynllun Her Newid Hinsawdd 2021-2030 wedi'i ddatblygu, wedi'i ymgynghori arno, ac wedi'i gymeradwyo (Gorffennaf 2021). At hynny, yn ystod camau datblygu'r Cynllun, nodwyd amrywiaeth o weithgarwch sydd eisoes yn cael ei wneud ar draws y Cyngor ac rydym wedi dod â hyn i gyd at ei gilydd o dan y cynllun '**Prosiect Sero'** i sicrhau dull cyson o fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.

**Mae ein cyflawniadau allweddol o dan gynllun Prosiect Sero yn eang eu cwmpas a hyd yma maent yn cynnwys:**

- Cyflwyno **dros 100 o brosiectau arbed ynni** ar draws adeiladau'r Cyngor gan gynnwys newid hen oleuadau aneffeithlon i oleuadau LED a chyflwyno gwell rheolaethau ynni.
- **Cyrraedd targed ein Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) 2020** i roi caniatâd cynllunio sy'n bodloni **10.6% (56.68 GWh) o'r galw am drydan a ragwelir** drwy ffynonellau ynni adnewyddadwy.
- Sicrhau **cymhareb ailblannu o 2:1 wrth gael gwared ar goed** â gorchymyn cadw (GDC) neu goed mewn ardal gadwraeth (CAG) yn unol â Chanllawiau Cynllunio Atodol Coed, Coetiroedd, Gwrychoedd a Datblygiadau.
- Mae **100% o drydan** sy'n cael ei brynu gan y Cyngor bellach yn dod o ffynonellau adnewyddadwy.

- Wedi dechrau newid ein systemau gwresogi o nwy i drydan drwy **osod Pwmp Gwres o'r Ddaear yn Nhŷ Tregatwg** yn y Barri a **Phwmp Gwres Ffynhonnell Aer** yn yr Ystafell Beiriannau yn y Barri.
- Gosod **paneli solar ar 14 adeilad** gyda chapasiti cyfunol o 480 KW a phaneli ffotofoltäig (PV) ar nifer o safleoedd ysgol i **gynyddu'r defnydd o ynni adnewyddadwy.**
- Mae ein holl barciau gwledig a'r Arfordir Treftadaeth yn defnyddio **compost di-fawn** yn unig ar gyfer pob prosiect garddio. Mae'r ddau barc gwledig **wedi creu ardaloedd compostio mewnol ac yn cynhyrchu eu compost eu hunain i'w ddefnyddio ar y safle.** Rydym hefyd wedi **lleihau ein defnydd** o blaleiddiad a chwynladdwr ar ein tir.
- Defnyddiwyd cyfraniadau Adran 106 i **wella mannau agored cyhoeddus** drwy blannu blodau gwyllt, bylbiau a choed gan gynnwys gwario £10 mil ar gynllun plannu coed cynhwysfawr ym Mhenarth yn 2020/21.

Mae ein Cynllun Her Newid yn yr Hinsawdd 2021-2030 yn adlewyrchu ein blaenoriaethau strategol perthnasol a nodir yn Strategaeth Adfer Coronafeirws y Cyngor ac fe'i galluogir gan nifer o strategaethau a chynlluniau mewnol allweddol gan gynnwys ein **Cynllun Datblygu Lleol**, **Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, Cynllun Trafnidiaeth Lleol, Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol, Strategaeth Coed, Cynllun Rheoli Traethlin, Strategaeth Ddigidol** a'r **Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol**. Rydym hefyd yn datblygu **Strategaeth Seilwaith Gwyrdd** a fydd yn nodi sut rydym yn bwriadu cynnal a chadw mannau gwyrdd a datblygu mannau gwyrdd newydd yn gynaliadwy, a fydd yn sail i sut y byddwn, fel Cyngor, yn gweithio gyda'n gilydd mewn modd integredig i wella cyfleoedd a hygyrchedd i fannau gwyrdd a thrwy hynny gynyddu gweithgarwch corfforol, gwella cynhwysiant cymdeithasol a chydlyniant cymunedol, hyrwyddo twf economaidd a mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd.



Drwy gydol y pandemig, mae'r Cyngor wedi llwyddo i leihau allyriadau carbon yn sylweddol. O gymharu blwyddyn ariannol 2018/19 (cyn datgan argyfwng hinsawdd) â blwyddyn ariannol 2020/21 rydym wedi cofnodi **gostyngiad o 20.3% mewn allyriadau ac mae'r allyriadau sy'n gysylltiedig â'n hadeiladau wedi gostwng gan 21.4%.** Mae rhai o'r manteision hyn yn deillio o ddatgarboneiddio'r grid cenedlaethol tra bod mentrau eraill, megis gosodiadau ynni adnewyddadwy (paneli solar), gwella swyddfeydd, prynu cerbydau ecogyfeillgar ar gyfer fflyd y Cyngor, fel cerbydau hybrid a biodanwydd, a throsi lampau stryd i lusernau LED hefyd wedi cyfrannu. Er enghraifft, helpodd y gostyngiad yn y defnydd o oleuadau stryd i wrthbwyso cynnydd o £36,000 yng nghost trydan.

Yn ystod y flwyddyn (2020/21) gwelsom ostyngiad sylweddol yn y defnydd o drydan (23%) a gostyngiad bach yn gyffredinol yn y defnydd o nwy (7%). Gellir priodoli rhan o'r gostyngiad yn y defnydd o drydan i weithio gartref, ond mae'r rhan fwyaf o'n hadeiladau wedi'u cadw'n weithredol yn ystod y flwyddyn i'w defnyddio gan weithwyr allweddol. Yn ein hysgolion, roedd angen awyru ychwanegol, a mwy o wresogi o ganlyniad, drwy gydol gaeaf 2020 ond er gwaethaf hyn, rydym wedi sicrhau gostyngiad cyffredinol yn y defnydd o nwy. **Cyfanswm ein harbediad ariannol net ar danwydd ar gyfer 2020/21 yw tua £387,000.** Wrth i ni barhau â'n taith i ddod yn sero net erbyn 2030, mae angen i ni ddysgu o'r dulliau amgen a'r ffyrdd newydd o weithio y mae'r pandemig wedi ein gorfodi i fabwysiadu a phenderfynu pa rai y gellir eu defnyddio yn y dyfodol.

Nod ein hail Gynllun Rheoli Carbon (2018-2021) oedd lleihau allyriadau gan 12.5% o'r llinell sylfaen o 19,349,067 kWh (12,158 tunnell CO2e) erbyn 2021/22. Yn 2020/21 defnyddiwyd 16,337,457 kWh (6,264 tunnell CO2e) sy'n **ostyngiad o 32.5% mewn kWh cyffredinol o linell sylfaen 2015/16 ac o ran allyriadau mae hyn yn ostyngiad o 48.3% sy'n sylweddol uwch na tharged cynllun rheoli carbon 2021/22 o 12.5%.** Yr her yn y dyfodol agos yw cynnal y gostyngiadau hyn o gofio bod o leiaf rai o'r arbedion yn deillio o gau ysgolion yn ystod y cyfnod cloi cyntaf yn 2020.

Ym mis Mai 2021 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau ar adrodd am allyriadau ar y llwybr i allyriadau sero net erbyn 2030. Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn casglu'r data er mwyn adrodd ar ei allyriadau carbon yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru er mwyn deall maint ei ôl troed a llywio ein Cynllun Rheoli Carbon nesaf ar gyfer 2022 ymlaen.

Yn unol â'n hymrwymiad i leihau allyriadau carbon y sefydliad, rydym hefyd wedi gwneud cynnydd ar lu o weithgareddau ar draws y Cyngor. Mae enghreifftiau'n cynnwys archwilio fflyd sy’n gynaliadwy yn amgylcheddol ac opsiynau trafnidiaeth gyhoeddus glanach. Ar hyn o bryd rydym yn ymchwilio i sut y gallwn newid ein fflyd yn Gerbydau Allyriadau Isel Iawn (ULEV) dros y blynyddoedd nesaf a defnyddio £50,000 o gyllid gan Lywodraeth Cymru i gynnal adroddiad dichonoldeb Cerbydau Trydan i gyflwyno pwyntiau gwefru ceir trydan ar strydoedd teras. Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi parhau i gyflwyno'r Cynllun Nexbike llwyddiannus sy'n cynnig cludiant effeithlon o ran ynni a di-allyriadau i'n preswylwyr. Nid yn unig y mae'r cynllun hwn o fudd i'r amgylchedd drwy leihau nifer y cerbydau sy'n cymudo, gan atal tagfeydd a llygredd; mae defnyddio beiciau trydan hefyd yn cynnig budd i iechyd a lles corfforol beicwyr sy'n cyfrannu at ein hamcan o annog a hyrwyddo ffyrdd llesol ac iach o fyw. At hynny, drwy ei gwneud yn haws cymudo ar draws y Morglawdd i Ganol Dinas Caerdydd rydym yn cyflawni yn erbyn ein hymrwymiad i wella Teithio Llesol a thrafnidiaeth gynaliadwy. Yng ngoleuni'r pandemig diweddar a'r mesurau ymbellhau cymdeithasol, mae'r fenter hon hefyd wedi caniatáu i bobl ymbellhau'n gymdeithasol tra'n rhyddhau lle ar drafnidiaeth gyhoeddus. Ers ei lansio'r llynedd, mae dros 9,000 o bobl wedi llogi Nextbike (mis Tachwedd 2020 i fis Mai 2021) a chyn bo hir byddwn yn ehangu'r cynllun hwn i osod gorsafoedd docio yn Sili a Dinas Powys. Drwy gydweithio â'n partneriaid ym **Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd**, rydym hefyd yn datblygu rhaglen ar gyfer gosod pwyntiau gwefru trydan ar gyfer tacsis yn y Barri ac rydym yn archwilio safleoedd ym meysydd parcio Court Road, Thompson Street, Kendrick Road a Wydham Street, yn ogystal â Main Street, Market Street a Paget Road. Fel rhan o'r fenter hon byddwn yn hyrwyddo cerbydau trydan a bydd 2 dacsi trydan ar gael i yrwyr tacsi lleol roi cynnig ar gerbyd trydan cyn prynu un. Mae’r gwaith hwn yn cyfrannu at ein hymrwymiad i “weithio fel rhan o Brifddinas-Ranbarth Caerdydd i ddatblygu cynllunio strategol a mentrau trafnidiaeth a hyrwyddo twf economaidd cynaliadwy a chyflogaeth”.

Yn ystod y flwyddyn, ymunodd y Cyngor hefyd â'i bartneriaid sector cyhoeddus yn y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i ymrwymo i **Siarter Teithio Llesol** i staff. Drwy 14 o gamau gweithredu uchelgeisiol, mae'r Siarter yn hyrwyddo cerdded, beicio, trafnidiaeth gyhoeddus a defnyddio cerbydau allyriadau isel iawn ymhlith tua 15,000 o weithwyr. Bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar yr amgylchedd a bydd manteision iechyd hefyd yn dod ohono.

Er mwyn cydnabod y cysylltiad anorfod rhwng newid yn yr hinsawdd a cholli bioamrywiaeth, datganodd y Cyngor argyfwng natur ar 26 Gorffennaf 2021, gan roi bioamrywiaeth wrth wraidd ei benderfyniadau ochr yn ochr â newid yn yr hinsawdd. Bydd y cam beiddgar hwn i ddiogelu a gwella bioamrywiaeth y Fro nid yn unig yn sicrhau manteision o ran llesiant, ond hefyd mewn swyddi newydd, arbedion economaidd a chyfleoedd yn y farchnad. Wrth i ni symud ymlaen i 2021/22, byddwn yn parhau i weithio gyda phartneriaid ar draws y sir, y rhanbarth ac yn genedlaethol i ddatblygu a gweithredu dulliau arfer gorau a all ddiogelu bioamrywiaeth Cymru. Bydd hyn yn cynnwys gwaith gyda rhanddeiliaid lleol gan gynnwys aelodau etholedig, trigolion, pobl ifanc, busnesau a phartïon perthnasol eraill, i ddatblygu strategaeth sy'n cyd-fynd â Phrosiect Sero gyda tharged o golli dim bioamrywiaeth yn net. Byddwn hefyd yn archwilio ffyrdd o fanteisio i'r eithaf ar fanteision lleol y camau hyn mewn sectorau eraill fel cyflogaeth, iechyd, amaethyddiaeth, trafnidiaeth a'r economi.



Fel Awdurdod sy'n cynnal stoc dai, rydym yn cydnabod y gallai datgarboneiddio tai gael effaith ar ein lles amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol ac y dylid trin buddsoddi mewn tai fel blaenoriaeth. Rydym wedi ymrwymo i wella effeithlonrwydd ynni a lleihau allyriadau carbon yn ein cartrefi ac mae'r **Rhaglen Buddsoddi mewn Tai'r Cyngor** (SATC gynt) eisoes wedi cyfrannu at y nod hwn, y gellir ei ddangos drwy welliant mewn sgôr SAP (sgôr perfformiad ynni) o'r 40au

isel i 65. Mae gwelliannau wedi cynnwys ffenestri a drysau modern, toeau newydd, inswleiddio a systemau gwresogi modern. Rydym bellach yn treialu Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio yn ein stoc dai i wella gwybodaeth a gallu contractwyr lleol am wasanaethau gwresogi gwyrdd. Bydd hyn yn cefnogi ein nod o ddatgarboneiddio'r farchnad wresogi ddomestig a darparu sgôr targed TPY o A i gartrefi Cyngor cynaliadwy.

Wrth adeiladu cartrefi newydd, mae'r Cyngor wedi mabwysiadu dull 'ffabrig yn gyntaf', sy'n golygu mai ffurf adeiladu ac elfennau strwythurol y cynllun yw'r prif egwyddorion dylunio ar gyfer cyflawni perfformiad ynni gwell. Mae gan Ddulliau Adeiladu Modern ac adeiladu Gweithgynhyrchu Oddi ar y Safle rôl bwysig i'w chwarae yn ein **Rhaglen Adeiladu Tai Cyngor** gan eu bod yn caniatáu i ni leihau teithio yn ôl ac ymlaen i safleoedd adeiladu a chyfyngu ar dirlenwi cynhyrchion gwastraff tra'n darparu strwythurau mwy cynaliadwy. Mae'n ofynnol i holl adeiladau newydd y Cyngor ddefnyddio'r dulliau hyn i wella perfformiad ynni adeiladwaith yr adeilad. Rydym eisoes wedi dechrau defnyddio'r technegau hyn yn y Fro gyda 23 o unedau yn Hayes Road, y Barri ac 11 uned o lety dros dro yn Court Road, y Barri yn defnyddio'r dulliau hyn. Mae'r unedau yn Court Road, y Barri yn fyngalos ecogyfeillgar o ansawdd uchel sydd â gofod awyr agored ar ffurf ardaloedd wedi'u decio i annog rhyngweithio cymdeithasol a meithrin ymdeimlad o gymuned. Maent yn rhoi lolfa, cegin, ystafell wely ac ystafell ymolchi eu hunain i'r preswylwyr ynghyd â naws le i alw'n gartref.



Yn ystod y flwyddyn rydym wedi **ailbroffilio ein rhaglen datblygu tai gyfan i sicrhau y gallwn fodloni mandad Llywodraeth Cymru sy'n galw ar i bob cartref newydd gyflawni gradd Tystysgrif Perfformiad Ynni (TPY) o A (SAP 92) neu uwch.** Rydym hefyd wedi sicrhau cyllid grant gan Lywodraeth Cymru i ddarparu boeleri hybrid i eiddo nwy yn y cam cynllunio ac wedi parhau i nodi pecynnau inswleiddio waliau allanol i wella effeithlonrwydd ynni a lleihau costau tanwydd i'n tenantiaid. Rydym yn cydnabod y bydd dulliau fel Dulliau Adeiladu Modern a gweithgynhyrchu oddi ar y safle ynghyd â mathau eraill o ynni yn cael effaith bellgyrhaeddol gan gynnwys lleihau'r defnydd o ynni ac allyriadau carbon dilynol, lleihau costau tanwydd a thrwy hynny leihau tlodi tanwydd yn ogystal â rhoi hwb mawr ei angen i'r economi mewn hinsawdd ôl-COVID-19/Brexit.

Rydym hefyd yn **gweithio tuag at ddatgarboneiddio ein hysgolion newydd** sy'n cefnogi ein nod o "fuddsoddi yn ein hysgolion i ddarparu'r amgylchedd dysgu cywir ar gyfer yr 21ain ganrif". Gwnaethom gynnydd da o ran dylunio ysgol carbon isel yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant ac o ran adeiladu'r ysgol carbon sero net gyntaf yng Nghymru yn Ysgol Gynradd Llancarfan. Rydym hefyd ar y trywydd iawn i gwblhau prosiect Cymunedau Dysgu Uwchradd y Barri sydd wedi gweld buddsoddiad o £88.6 miliwn mewn tair ysgol uwchradd i greu canolfannau dysgu modern gydag ôl troed carbon isel. Yn ystod y flwyddyn rydym hefyd wedi cydweithio i wella ein hamgylchedd lleol, ansawdd aer a llwybrau teithio llesol o amgylch ysgolion drwy sicrhau 1,200 o goed o Coed Cadw (500 eisoes wedi'u plannu), mabwysiadu Strategaeth Bioamrywiaeth sy'n benodol i ysgolion, gosod podiau sgwter, raciau beic, podiau beic a darparu 100 o feiciau cydbwyso i'n holl Ysgolion Cynradd. Bydd y gwelliannau hyn hefyd yn cyfrannu at amcanion llesiant ein Cynllun Corfforaethol eraill megis cefnogi dysgu a gweithio gyda'n cymunedau ac ar eu rhan.



Mae cyfoeth o fannau gwyrdd a glas ym Mro Morgannwg sy'n darparu manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol i drigolion, busnesau ac ymwelwyr. Mae'r nodweddion hyn yn darparu adnoddau hamdden helaeth sy'n bwysig i iechyd a lles trigolion, gan greu lleoliad deniadol ar gyfer twristiaeth a chynefinoedd naturiol ar gyfer bioamrywiaeth. Gyda'i gilydd, mae'r asedau hyn yn ffurfio Seilwaith Gwyrdd Bro Morgannwg ac yn yr un modd â mathau eraill o seilwaith, mae angen eu rheoli a buddsoddi ynddynt er mwyn sicrhau bod y manteision y maent yn eu cynnig yn parhau ac yn cael eu gwella. Yn unol â hynny, mae'r Cyngor yn datblygu **Strategaeth Seilwaith Gwyrdd** a fydd yn darparu fframwaith ar gyfer rheoli a chynnal a chadw seilwaith gwyrdd

yn gynaliadwy yn y tymor hir a llywio'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) newydd a fydd yn dechrau yn haf 2021.

Yn ystod 2020/21 rydym wedi bod yn defnyddio meddalwedd mapio (System Gwybodaeth Ddaearyddol) i nodi ein mannau gwyrdd a deall darlun ein Seilwaith Gwyrdd yn y Fro. Mae'r gwaith hwn wedi ein galluogi i nodi swyddogaethau presennol ein hasedau seilwaith gwyrdd, meysydd sy'n ddiffygiol o ran darpariaeth a chyfleoedd i greu Seilwaith Gwyrdd gwell, newydd neu gysylltiedig, ac mae'n llywio ein Strategaeth Seilwaith Gwyrdd. Wrth symud ymlaen byddwn yn parhau i ymgysylltu â'n rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys tirfeddianwyr, partïon trydydd sector, datblygwyr a'n cymunedau i nodi cyfleoedd i ddatblygu a hyrwyddo rhwydwaith o fannau gwyrdd amlswyddogaethol sydd â gwerth hamdden, gweledol a bioamrywiaeth. Ochr yn ochr â'r gwaith hwn rydym eisoes yn darparu nifer o brosiectau Seilwaith Gwyrdd ar draws y sir megis Cynllun Seilwaith Gwyrdd y Barri lle mae coed newydd yn cael eu plannu ar hyd Heol Gladstone ac mae gwaith tirlunio mwy sylweddol yn cael ei gynnal ar gylchfan Jenner Park / Court Road. Rydym hefyd yn asesu ac yn delio â Chlefyd Coed Ynn ar draws y Fro. Comisiynwyd arolygon coed ac maent yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i nodi coed sydd wedi'u heintio y mae angen eu symud a phlannu coed eraill yn eu lle, a bydd y gweithgaredd hwn yn parhau yn y tymor hir. Er mwyn cefnogi'r gwaith hwn, rydym wedi adolygu ein Strategaeth Coed i sicrhau ein bod yn parhau i gynnal a chynyddu nifer y coed a'r gorchudd coed ledled y sir.



Rydym yn gyfarwydd â chyngor Iechyd Cyhoeddus Cymru sy'n argymell bod pob oedolyn yn cymryd rhan mewn o leiaf 150 munud o weithgarwch corfforol cymedrol bob wythnos, neges a atgyfnerthwyd yn genedlaethol yn ystod y cyfnodau clo. Mae hyn wedi annog pobl i ryngweithio ag amgylchoedd cyfarwydd mewn ffyrdd newydd, gyda natur yn rhoi cysur ac yn achubiaeth i lawer, yn enwedig yn ystod y cyfnod clo ac mae hyn wedi cynyddu gwerthfawrogiad o natur fel ffactor allweddol wrth gynnal iechyd meddwl cadarnhaol. Gyda hyn mewn golwg, rydym wedi ymrwymo'n gadarn i ddiogelu a gwella ein mannau gwyrdd a glas a gwella ein dealltwriaeth o bwysigrwydd ein hamgylchedd naturiol. Cyhoeddwyd ein hymroddiad i'r achos hwn wrth i ni ddatgan argyfwng natur yn ddiweddar (Gorffennaf 2021) lle'r oeddem yn **ymrwymo i ddiogelu ein hamgylchedd naturiol a bioamrywiaeth a gweithio tuag at nod o 'golli dim bioamrywiaeth net'**. Mae ein Cynllun Her Newid Hinsawdd a Phrosiect Sero wedi'u cysylltu'n anorfod â'r argyfwng natur ac rydym eisoes wedi datgan ymrwymiadau o fewn y Cynllun Her Newid Hinsawdd i gynyddu nifer y rhandiroedd ledled y Fro, plannu mwy o goed brodorol a gwella ein mannau gwyrdd a glas drwy gyllid Adran 106. Bydd datgan argyfwng natur yn creu gweithgarwch mwy penodol yn y maes hwn wrth i ni gydweithio â'n cymunedau a'n partneriaid i ddiogelu bioamrywiaeth a mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Yn gysylltiedig â hyn, mae ein **Blaengynllun Bioamrywiaeth** yn amlinellu sut y bydd y Cyngor yn "ceisio cynnal a chyfoethogi bioamrywiaeth wrth arfer eu swyddogaethau'n briodol ac wrth wneud hynny hyrwyddo gwydnwch ecosystemau". Mae'r Cynllun yn manylu ar y dulliau a'r camau gweithredu a fydd yn cael eu defnyddio i gyflawni ein nodau i atal dirywiad bioamrywiaeth, lleihau effeithiau newid yn yr hinsawdd a hyrwyddo datblygu cynaliadwy tra'n helpu hefyd i gyflawni ymrwymiadau'r Cyngor dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Bydd gweithredu'r Cynllun yn sicrhau bod pob elfen o les yn cael ei hystyried gyda'i gilydd ac yn hwyluso cydweithio. Caiff cynnydd ei adolygu a'i adrodd bob tair blynedd a chaiff y Cynllun ei adolygu a'i ddiweddaru ar ddiwedd pob cyfnod adrodd o 3 blynedd er mwyn sicrhau ei fod yn parhau'n berthnasol.

Fel rhan o'n hymrwymiad i weithredu ein Blaengynllun Bioamrywiaeth a sefydlu **Partneriaeth Natur Leol** (PNL), mae ein swyddog PNL ymroddedig wedi ymgysylltu â dros 20 o grwpiau cymunedol ledled y Fro i ddod â chymunedau ynghyd a gweithredu dros natur. Mae rhai o'n cyflawniadau dan y bartneriaeth hon yn cynnwys prynu gwerth £61,000 o offer torri glaswellt i helpu grwpiau cymunedol i reoli natur ar garreg eu drws a dyfarnu grantiau bioamrywiaeth o hyd at £500 i grwpiau cymunedol lleol i helpu i wella bioamrywiaeth yn eu hardal gymunedol. Mae'r Gwasanaeth Cefn Gwlad hefyd wedi sicrhau cyllid ar gyfer prosiect dyfrgwn a fydd yn helpu i bennu ble mae poblogaethau dyfrgwn wedi'u lleoli yn y Fro. Rydym wedi ymgysylltu â'r gymuned, ac mae dros 40 o unigolion wedi cofrestru i helpu i gynnal yr arolwg.



Gan weithio mewn partneriaeth â'r PNL rydym hefyd wedi cyflwyno trefn arloesol ar gyfer torri glaswellt i amrywiaeth o fannau gwyrdd ym Mro Morgannwg i greu dolydd llawn blodau gwyllt. Mae'r cynllun hwn yn ffordd o wrthbwyso carbon sy'n golygu ei fod yn helpu i niwtraleiddio allyriadau carbon, gan gyfrannu felly at ein hymrwymiad i leihau ein hallyriadau carbon i sero net cyn 2030. Erbyn hyn mae gennym bron i 250,000 m2 o ardaloedd blodau gwyllt ledled y Fro sy'n fuddiol iawn i'n bywyd gwyllt lleol a'n hamgylchedd. Mae torri glaswellt yn llai aml hefyd yn helpu i hybu bioamrywiaeth gan ei fod yn helpu pryfed ac anifeiliaid sy'n peillio. Mae'r dull a ddefnyddir i gasglu ein toriadau glaswellt hefyd yn helpu i leihau lefel y maetholion yn y pridd, gan annog blodau gwyllt i dyfu wrth iddynt ffynnu mewn pridd heb lawer o faetholion. Er mwyn sicrhau nad yw'r glaswellt hirach yn effeithio ar fwynhad unrhyw un o’n mannau gwyrdd, mae llwybrau wedi'u torri drwy ardaloedd mwy y gellir eu defnyddio gan ymwelwyr ac at ddibenion hamdden anffurfiol.

Er gwaethaf heriau'r pandemig, mae'r Cyngor yn parhau i fod yn ymrwymedig i gyflawni amrywiaeth o brosiectau amgylcheddol drwy'r **Cynllun Cyfoethogi Cymunedol** i gyfoethogi'r ardal leol, gwella cymdogaethau a chryfhau cymunedau. Ers i'r cynllun ddechrau, rydym wedi dathlu llawer o lwyddiannau gan gynnwys gweithio mewn partneriaeth â Cadwch Gymru'n Daclus i recriwtio 163 o drigolion lleol i gynnal sesiynau codi sbwriel cymunedol a chefnogi cymunedau lleol glanach drwy gynnig amnestau sgip. Mae'r cynllun hwn hefyd yn gyfrifol am 'Ardd Pawb' yn Margaret Avenue, Colcot, y Barri sy'n fuddsoddiad sylweddol i ddod â safle adfeiliedig i ddefnydd gan y gymuned leol. Drwy weithio ar y cyd ag Ysgol Gynradd Colcot, Horizon Engineering, tenantiaid a phreswylwyr Colcot, sefydlwyd man agored cymunedol gyda man chwarae a gardd gymunedol. Ym mis Rhagfyr 2020, sicrhawyd cyllid ychwanegol drwy Cyfoeth Naturiol Cymru i wneud gwaith pellach, sef adeiladu canolfan addysgol ar y safle. Rhoddwyd caniatâd cynllunio a bydd gwaith ar y safle i ddarparu'r ganolfan addysgol yn parhau yn ystod 2021/22. Mae tri chynllun amgylcheddol blaenoriaeth ychwanegol wedi'u nodi ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod, sef cynllun Parcio Fairoaks, prosiect yn Nhre-beferad i wella parcio a chynllun Gwella Ystad Buttrills.

Rydym hefyd wedi **datblygu'r Gronfa Cymunedau Cryf a buddsoddi cyllid a chyfraniadau trydydd parti i gefnogi meithrin gallu cymunedol ledled y Fro**, bydd gan hyn rôl allweddol i'w chwarae wrth i ni adfer o'r pandemig. Yn ystod 2020/21, dyrannwyd yr holl gyllid i brosiectau cymunedol ac mae'r Cyngor yn gweithio gyda noddwyr prosiectau i ddeall y canlyniadau. Ers ei sefydlu yn 2017, dyrannwyd grantiau gwerth cyfanswm o £781,722 i 56 o brosiectau ledled y sir sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i ansawdd bywyd ac ystod y gwasanaethau sydd ar gael i bobl a chymunedau yn y Fro. Bydd y grantiau Cymunedau Cryf a gymeradwywyd hyd yma’n cyfrannu at gyflawni prosiectau gyda chyfanswm gwerth dros £2.74 miliwn. Mae'r cynllun hefyd wedi bod yn arf amhrisiadwy wrth ddyrannu cyllid Adran 106, ac fe'i defnyddiwyd fel ffynhonnell arian cyfatebol ar gyfer cronfeydd eraill gan Lywodraeth Cymru a chyllid y Loteri. Rydym wedi derbyn dros 270 o ymholiadau gan grwpiau sydd wedi ymrwymo i wneud newidiadau positif yn yr ardaloedd y maen nhw’n byw ynddynt.

Un arall o'n hymrwymiadau sy'n cyd-fynd â'r amcan hwn yw darparu gwasanaethau rheoli gwastraff effeithiol a lleihau effaith ein gwastraff ar yr amgylchedd. Mae'r Cyngor yn dilyn dull a argymhellir gan Lywodraeth Cymru o reoli ac ailgylchu gwastraff gan **fabwysiadu'r Glasbrint Casgliadau yn llawn a gweithio gyda Rhaglen Weithredu’r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau** (WRAP) ac, er gwaethaf y pandemig, rydym wedi parhau i wneud cynnydd tuag at ddarparu gwasanaeth rheoli gwastraff effeithiol. Gan weithio ar y cyd â'n preswylwyr, ein partneriaid a busnesau, rydym wedi llwyddo i leihau ein gwastraff a'i effaith ar yr amgylchedd tra'n gwella perfformiad ailgylchu o flwyddyn i flwyddyn. Wrth i ni barhau i symud tuag at system casglu gwastraff wedi’i wahanu ar draws y Fro, ein dull yw sicrhau y gellir olrhain deunyddiau wedi'u hailgylchu yn well i gyrchfannau terfynol yn y DU a deunydd o ansawdd uchel y gellir ei ailddefnyddio. Ym mis Hydref 2020, gwnaethom gyflwyno cam 2 y Glasbrint Casgliadau yn llwyddiannus drwy weithredu’r system casglu gwastraff wedi’i wahanu yn y Barri. Bwriadwn ymestyn hyn i Benarth y flwyddyn nesaf ar ôl cyflwyno Gorsaf Trosglwyddo Gwastraff yn y Barri.

**Mae newidiadau i'r Glasbrint Casgliadau wedi galluogi'r Cyngor i gyrraedd targedau ailgylchu cenedlaethol a bydd yn helpu i wneud ein gwasanaeth rheoli gwastraff yn fwy cynaliadwy yn ariannol yn y tymor hir**. Mae'r ffaith i ni gyflwyno cyfyngiadau ar fagiau du ym mis Medi 2018 yn parhau i gael effaith gadarnhaol ar berfformiad gwastraff ac ailgylchu, gan ein galluogi i gynyddu cyfranogiad mewn ailgylchu ymhellach a lleihau twf gwastraff trefol. Yn ystod 2020/21 mae'r newidiadau hyn wedi helpu'r Cyngor i gyflawni cyfradd ailgylchu o 71% (70% yn 2019/20) sy'n fwy na'r targed statudol o 64% a tharged Cymru o 70% erbyn 2025. Yn ogystal, rydym yn parhau i weithio mewn partneriaeth â Chyngor Dinas Caerdydd i wella'r driniaeth gwastraff organig a sicrhau gwasanaeth rheoli gwastraff cynaliadwy mewn ymateb i'r heriau amgylcheddol a lleihau carbon y mae Cymru yn eu hwynebu. Bydd y trefniant hwn yn cyfrannu ymhellach at wella ein perfformiad o ran ailgylchu a chompostio gwastraff.

Rydym yn gwneud newidiadau sylweddol i'n gwasanaethau rheoli gwastraff ac yn cydnabod y budd o gael strategaeth gyffredinol i'n helpu i barhau ar y llwybr hwn tra'n adlewyrchu'r nodau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ehangach (gan gynnwys lleihau carbon ac atal gwastraff). Gyda hyn mewn golwg, rydym yn datblygu **Strategaeth Rheoli Gwastraff** a chefnogi cynllun gweithredu yn unol â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol sy'n nodi disgwyliad bod cyrff cyhoeddus yn edrych o leiaf ddeng mlynedd i'r dyfodol.



Mae gwobrau mawreddog amrywiol rydym wedi'u hennill yn ystod y flwyddyn yn dyst i'n **hymrwymiad i leihau llygredd** a chydnabod yr effaith andwyol y mae'n ei chael ar yr amgylchedd a lles pobl. Daeth mewnlifiad o bobl i fwynhau ein cyrchfannau arfordirol a chefn gwlad yn sgil y tywydd poeth, y pandemig a'r cyfyngiadau dilynol, ond roeddem yn gallu ymateb i'r her ac ehangu ein gweithgareddau glanhau a gorfodi i sicrhau lle diogel a glân i'n hymwelwyr. Er enghraifft, yn Ynys y Barri, sy'n denu hyd at 30,000 mil o ymwelwyr ar ddiwrnod poeth o haf, roedd y traeth yn cael ei chribo ac roedd sbwriel yn cael ei godi bob bore, gyda sesiynau codi sbwriel ychwanegol yn mynd rhagddynt gyda'r nos ar y penwythnos. Gosodwyd biniau enfawr yn y prif faes parcio a nifer o finiau llai o amgylch Ynys y Barri, gwnaethom gyhoeddiadau cyhoeddus rheolaidd dros yr uwch-seinydd i atgoffa pobl i waredu eu gwastraff a gosodwyd ffynhonnau dŵr ledled yr Ynys (a'r Fro yn ehangach) mewn ymdrech i annog pobl i beidio â defnyddio plastig untro. Gan weithio mewn partneriaeth â Heddlu De Cymru, roedd ein swyddogion gorfodi hefyd yn patrolio'r ardal, yn siarad â'r cyhoedd ac yn cyhoeddi Hysbysiadau Diogelu'r Cyhoedd am droseddau sbwriel a pharcio yn ogystal â mynd ag alcohol o bobl oedd yn ymddwyn yn wrthgymdeithasol. Dylem hefyd sôn am gyfraniad amhrisiadwy'r gwirfoddolwyr, gan gynnwys trigolion lleol, pobl ifanc a phlant ysgol a welwyd yn clirio'r sbwriel yn ddiflino o'r traeth drwy gydol yr haf. Derbyniodd gweithwyr y Cyngor ganmoliaeth hefyd am eu cyfraniad gwirfoddol a thynnwyd sylw atynt yn neges wythnosol y Rheolwr Gyfarwyddwr i'r holl staff.

Er gwaethaf nifer y bobl a'r sbwriel a adawyd ar ôl yn aml gan leiafrif bach o ymwelwyr, roeddem wedi gallu cynnal ein safonau glendid a'n statws dyfarnu. Yn ystod Haf 2020, **cyflawnodd 7 o'n traethau ddyfarniadau sy'n gwarantu amgylchedd glân, diogel, deniadol, wedi'i gynnal a'i gadw'n dda i ymwelwyr.** Dyfarnwyd Fflagiau Glas a gydnabyddir yn rhyngwladol gan y Sefydliad Addysg Amgylcheddol i Fae Whitmore, Southerndown a Marina Penarth, gyda'r ddau gyntaf hefyd yn derbyn Gwobrau Glan Môr, gyda Jacksons Bay a Cold Knap. Y Wobr Glan Môr yw'r safon genedlaethol ar gyfer y traethau gorau ac mae'n symbol o ansawdd sy'n sicrhau bod ymwelwyr yn gallu mwynhau darn arfordirol glân, deniadol sy'n cael ei reoli'n dda. Rydym hefyd yn gweithio'n agosach gyda'n cymunedau i sicrhau gwelliannau amgylcheddol i barciau, mannau chwarae, rhandiroedd a safleoedd hamdden awyr agored. Fel rhan o'r gwaith hwn, **mae pob un o'r 10 o'n parciau wedi cadw'r Faner Werdd nodedig a ddyfarnwyd gan Cadwch Gymru'n Daclus.**

Yn ystod cyfnodau'r cyfyngiadau symud a orfodwyd, gwelsom gynnydd digynsail mewn Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (YG) ar draws ein hardaloedd arfordirol a'n mannau prydferth poblogaidd. Ar ddechrau'r pandemig gwelsom gynnydd o gymaint â 378% mewn digwyddiadau gwrthgymdeithasol ym mis Mai 2021 a chynnydd cyfartalog o 187% ar gyfer y flwyddyn (Ebrill 2020-Mawrth 2021). Arweiniodd y cyfyngiadau symud ynghyd â thywydd arbennig o gynnes yn yr haf at nifer o gynulliadau mawr iawn lle'r oedd unigolion yn ymddwyn yn wrthgymdeithasol drwy gamddefnyddio alcohol, graffiti, sbwriel, aflonyddwch sŵn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol arall. O dan y **Bartneriaeth Bro Ddiogelach,** buom yn gweithio'n agos gyda'n partneriaid (gan gynnwys yr Heddlu) a'r gymuned leol i liniaru ac atal cynulliadau torfol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn llwyddiannus a diogelu ein mannau prydferth. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod mwy i'w wneud o hyd i addysgu ac atal cyflawnwyr a diogelu ein hamgylchedd naturiol a'n dinasyddion.




Er mwyn lleihau effaith niweidiol llygredd ar ein hamgylchedd ymhellach ac ar les pobl, rydym wedi sefydlu **tîm gorfodi integredig** (sy'n cynnwys gorfodi parcio sifil, gorfodi'r amgylchedd, a gorchmynion diogelu mannau cyhoeddus) i fynd i'r afael â throseddau rheoli gwastraff, troseddau priffyrdd, is-ddeddfau a gorchmynion diogelu mannau cyhoeddus (GDMC). Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom gyflwyno car camera newydd a ddaeth yn weithredol ym mis Hydref 2020 ac a weithredodd y tu hwnt i'r disgwyl, gan fynd i'r afael â pharcio anniogel, yn enwedig o amgylch ysgolion sy'n aml yn llawn tagfeydd ac yn berygl i ddisgyblion a rhieni. Yn ystod yr wythnosau cyntaf o weithredu, nododd ein car camera fwy na 200 o droseddau.  Mae swyddogion gorfodi hefyd wedi bod yn gweithio gyda'r cyhoedd i godi ymwybyddiaeth er mwyn gwella cydymffurfiaeth a lleihau troseddu.

Daeth newid yn yr hinsawdd yn real iawn i lawer o'n dinasyddion yn ystod y gaeaf. Effeithiodd y llifogydd ar 23 Rhagfyr 2020, a achoswyd gan law eithafol (gostyngodd 33mm o law dros gyfnod o 11 awr) ar eiddo preswyl a busnesau ar draws Bro Morgannwg. Yr ardaloedd yr effeithiwyd arnynt fwyaf oedd Dinas Powys, Sili a Phenarth yn ogystal ag ardaloedd cyfagos eraill i raddau llai. Amcangyfrifir bod dros 100 o eiddo a busnesau wedi cael eu difrodi o ganlyniad i lifogydd mewnol. Fel rhan o'n hymateb brys, cydlynodd ein Huned Amddiffyn Sifil ymateb i sicrhau cyswllt a chydgysylltu effeithiol â'n sefydliadau partner gan gynnwys Heddlu De Cymru a Gwasanaeth Tân De Cymru. Gwnaethom glirio'r llifogydd o’r priffydd ar unwaith a darparu dros 1,300 o fagiau tywod a 64 sgip i helpu trigolion gan bostio diweddariadau rheolaidd ar ein gwefan a'n sianeli cyfryngau cymdeithasol. Mae ein swyddogion yn parhau i weithio mewn partneriaeth â Cyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru i fwrw ymlaen â'r gwaith o ymchwilio i'r digwyddiad. Defnyddir y gwersi a ddysgwyd o'r digwyddiad hwn i lywio'r broses o nodi unrhyw gamau pellach sydd eu hangen yn y dyfodol i reoli peryglon llifogydd yn y Fro ymhellach. Ochr yn ochr â chanllawiau newydd gan Lywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, bydd y dysgu o ddigwyddiadau llifogydd diweddar yn llywio'r adolygiad o'n **Strategaeth Rheoli Risg Lleol** yn y flwyddyn i ddod.

Mae'r gwaith o gyflwyno cynllun rheoli perygl llifogydd ar gyfer pentref Llan-faes yn parhau, er ei fod wedi'i ohirio yn sgil effaith y pandemig. **Mae gweithredu cynlluniau o'r fath yn cyfrannu at ein hagenda atal drwy leihau'r tebygolrwydd o lifogydd mewn lleoliadau/eiddo penodol a lleihau'r perygl o niwed i breswylwyr. Mae hefyd yn cydbwyso anghenion tymor byr i ddiogelu bywyd, eiddo a'r amgylchedd ar unwaith tra'n cyfrannu at les unigolion a theuluoedd yn y gymuned yn y tymor hwy**. Mae cynllun Llan-faes yn cyfeirio’n benodol at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'i phum ffordd o weithio drwy sicrhau bod bywyd yn y Fro yn gwella drwy ddylunio a blaenoriaethu adnoddau da yn y tymor hwy i drigolion ac ymwelwyr â'r ardal. Mae'r datrysiadau ataliol a gynigir yn helpu i leihau’r perygl o lifogydd ac wedi'u cynllunio i beidio ag achosi niwed i eraill. Mae'r broses o ddatblygu'r cynllun hwn wedi cynnwys y gymuned leol a rhanddeiliaid eraill fel Cyfoeth Naturiol Cymru, gan gyflawni'r agenda cynnwys. Bydd ein Strategaeth Seilwaith Gwyrdd hefyd yn cynnig cyfeiriad o ran gwneud y defnydd gorau o atebion i helpu i liniaru llifogydd a achosir gan newid yn yr hinsawdd, gwyrddio’r amgylchedd adeiledig a chyfrannu at reoli dŵr yn gynaliadwy.

Wrth gyflawni ein swyddogaeth gynllunio statudol, rydym wedi ymrwymo i ddiogelu, cadw a, lle bo'n bosibl, gwella ein hamgylchedd naturiol ac adeiledig a threftadaeth ddiwylliannol. Gyda hyn mewn golwg, rydym wedi sicrhau bod **yr holl benderfyniadau cynllunio a wnaed yn ystod y flwyddyn wedi'u gwneud yn unol â Pholisïau perthnasol y Cynllun Datblygu Lleol a Chanllawiau Atodol**. Yn ystod y flwyddyn, penderfynwyd ar 1,238 o geisiadau cynllunio. Ymysg y rhain roedd 26 o Ganiatadau Adeilad Rhestredig; 165 Ceisiadau coed; 91 CAG (Gwaith i goed mewn ardal gadwraeth) a 74 GDC (Gwaith i goed sydd wedi'u gwarchod gan Orchymyn Diogelu Coed). Gwnaethom hefyd ddatrys 367 o achosion gorfodi cynllunio ac archwilio 100% o strwythurau peryglus o fewn un diwrnod o'u hadrodd gan gymryd camau priodol.



Rydym wedi parhau i weithio gyda datblygwyr ac eraill i sicrhau bod datblygiadau newydd yn gynaliadwy, wedi'u hintegreiddio â chymunedau lleol ac yn darparu seilwaith angenrheidiol. Rydym wedi **buddsoddi mewn nifer o fannau agored ar gyfer cyfleusterau chwaraeon a hamdden gan ddefnyddio cyfraniadau datblygwyr** gan gynnwys cwblhau ardal gemau aml-ddefnydd newydd yng Nghaeau Chwarae King George V, Llandochau; uwchraddio ardaloedd chwarae Gwenfô a Pharc Belle Vue, Penarth; gosod offer rhyngweithiol newydd yn y Parc Canolog, y Barri ac ardal gemau aml-ddefnydd newydd ar gyfer y Wig. Bydd y buddsoddiad hwn yn sicrhau bod datblygiadau newydd yn darparu cyfleusterau hamdden a chwaraeon priodol i'n dinasyddion eu mwynhau tra'n cyfrannu'n gadarnhaol at les corfforol a meddyliol ein dinasyddion.

Mae'r pandemig COVID-19 byd-eang wedi arwain at lawer o newidiadau yn y ffordd rydym yn gweithio, sut rydym yn darparu gwasanaethau a sut rydym yn byw ein bywydau. Bydd y newidiadau hyn yn peri i ni ystyried ar beth i ganolbwyntio er mwyn mynd i'r afael ag argyfyngau hinsawdd a natur wrth i ni geisio adfer mewn modd sy'n gynaliadwy o ran yr hinsawdd sy'n dda i natur. Mae gennym y cyfle i adeiladu ar yr enillion a wnaed yn ystod y pandemig a chydnabod yr effaith enfawr y mae natur a'r amgylchedd yn ei chael ac yn parhau i'w chael ar ein lles corfforol a meddyliol yn yr hirdymor.

Wrth i ni ddatblygu ein cynigion ar gyfer gwaith y flwyddyn nesaf, byddwn yn canolbwyntio ar y meysydd hynny y gallwn gael yr effaith gadarnhaol fwyaf. Byddwn yn parhau i weithio ar y cyd i fynd i'r afael â'r heriau allweddol sy'n gysylltiedig â sicrhau bod ein ffordd tuag at adferiad yn wyrdd a bod y newidiadau mewn ymddygiad yr ydym am eu cadw yn cael eu hannog a'u cefnogi'n effeithiol. Er enghraifft, cadw elfennau o gynnydd o ran gweithio gartref, gwasanaethau ar-lein a gostyngiad mewn teithiau car ynghyd â datblygu teithio amgen cynaliadwy a newidiadau i sut rydym yn rheoli ein hadeiladau, ein gwastraff a'n defnydd o ynni. Yn ogystal, bydd angen i ni ailystyried sut rydym yn cynnwys pobl mewn sgwrs gymunedol er mwyn sicrhau ei fod yn ddiogel ac yn ystyrlon ac yn adlewyrchu newidiadau sy'n deillio o'r pandemig.

## 6.2 CYFLAWNIADAU

# Amcan 4: Parchu, gwella a mwynhau ein hamgylchedd

Mewn ymateb i'r agenda Newid yn yr Hinsawdd rydym wedi darparu cyfleusterau sgwter a storio mewn 16 ysgol, wedi gosod stondinau parcio beiciau ym Mhenarth, wedi ymgysylltu â phreswylwyr ar fapiau rhwydwaith teithio llesol ac wedi cynhyrchu a hyrwyddo gweithgarwch cynlluniau teithio llesol fel rhan o annog newidiadau teithio cynaliadwy a gwella ein hamgylchedd lleol.



Rydym wedi cymhwyso Dulliau Adeiladu Modern (MMC) mewn 2 gynllun datblygu tai newydd 23 uned yn Hayes Road, y Barri ac 11 uned yn Court Road y Barri ac rydym yn ymchwilio cyfleoedd ar gyfer datblygiad tai fforddiadwy carbon niwtral

Wedi ei hadeiladu yn unol â Safonau BREEAM (dull asesu cynaliadwy ar gyfer prosiectau seilwaith mawr) ac wrth ddefnyddio deunyddiau carbon isel,mae disgyblion bellach yn mwynhau eu cyfleusterau modern newydd yn Ysgol Uwchradd Whitmore, a gwblhawyd 4 mis cyn y disgwyl.



Yn ystod 2020/21 buom yn cydweithio i wella'r amgylchedd lleol a llwybrau teithio llesol o amgylch ysgolion gan blannu 500 o goed (ac mae 700 yn fwy ar y gweill), mabwysiadu Strategaeth Bioamrywiaeth ar gyfer ysgolion,gosod podiau sgwter, raciau beiciau, podiau beiciau a thros 100 o feiciau cydbwyso.

Fel rhan o Raglen Adeiladu Tai'r Cyngor, rydym wedi ymgorffori systemau gwresogi trydan a dŵr poeth ynni effeithlon i leihau'r defnydd o ynni a lleihau costau tanwydd i'n tenantiaid. Rydym hefyd wedi gwella cysur thermol a symudiad aer yn ein cartrefi newydd drwy osod naill ai Awyru

Mecanyddol ac Adfer Gwres (MVHR) neu unedau Awyru Echdynnu Mecanyddol Uniongyrchol (DMEV), yn ôl y gofyn.

Gweithiom mewn partneriaeth i greu 'Coedwig Fechan' gyntaf Cymru ym Mharc Pencoedtre, y Barri, i ddenu bywyd gwyllt, gwella ansawdd yr aer, cael gwared ar nwyon tŷ gwydr niweidiol a helpu i leihau llifogydd lleol.



Cawsom 7 gwobr traeth yn ystod 2020/21 i gydnabod yr amgylchedd a'r cyfleusterau a reolir yn dda.

Mae 24 o barciau a mannau gwyrdd a 2 barc gwledig yn y Fro wedi cael Gwobr fawreddog y Faner Werdd a Gwobr y Faner Werdd Gymunedol yn ystod y flwyddyn.

Cyflawnom 100+ o brosiectau arbed ynni ar draws adeiladau’r cyngor gan gynnwys newid hen oleuadau aneffeithlon yn oleuadau LED a chyflwyno gwell rheolaethau ynni.Mae 68% o oleuadau stryd y Cyngor wedi'i newid yn oleuadau LED ac mae cynlluniau ar y gweill i gynyddu hyn i 92% erbyn haf 2021.

Gwnaethom gynnydd da o ran dylunio ysgol carbon isel yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant ac o ran adeiladu'r ysgol carbon sero net gyntaf yng Nghymru yn Ysgol Gynradd Llancarfan. Mae'r Cyngor hefyd wedi dyrannu £300k yn ychwanegol i gefnogi datgarboneiddio cynlluniau’r Ganolfan Dysgu a Llesiant ac Ehangu Ysgol y Deri, sy'n cael ei ategu gan grant ychwanegol gwerth £900k gan Lywodraeth Cymru.Dyfarnodd Llywodraeth Cymru £1,050,000 yn ychwanegol i'r Cyngor i gefnogi mesurau datgarboneiddio fel rhan o'r Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif.

Mewn partneriaeth â Bro Ddiogelach a Swyddogion Diogelwch Cymunedol yr Heddlu, lansiom Broject yr Ardd yn Llanilltud Fawr I  wella'r gerddi a'r cysylltiadaucymunedol. Gwnaethom dargedu 10 o eiddo'r Cyngor gan recriwtio 11 gwirfoddolwr ar gyfer y prosiect.

Sefydlom Bartneriaeth Natur Leol sydd eisoes wedi ymwneud â thros 20 o grwpiau cymunedol, dyfarnu £500 o grantiau amrywiaeth, cyflwyno trefn torri glaswellt arloesol a hyrwyddo mynediad at offer i helpu i wella bioamrywiaeth yn yr amgylchedd lleol.

Gwnaethom gynnydd sylweddol o ran gweithio ystwyth o ganlyniad uniongyrchol i'r pandemig ac mae dros 70% o staff y cyngor yn parhau i weithio gartref. Bydd y gostyngiad sylweddol mewn teithio, argraffu a defnyddio adeiladau mawr yn cael effaith gadarnhaol ar leihau ein hallyriadau carbon.

Mae ein holl barciau gwledig a'r Arfordir Treftadaeth yn defnyddio compost di-fawn yn unig ar gyfer pob prosiect garddio. Mae'r ddau barc gwledig wedi creu ardaloedd compostio mewnol ac maent yn cynhyrchu eu compost eu hunain i'w defnyddio ar y safle. Rydym hefyd wedi gostwng faint o blaladdwyr a chwynladdwyr a ddefnyddir ar draws ein tir.

Mae casgliadau sbwriel a gwasanaethau ailgylchu wedi parhau a chyflwynom ail gam y Glasbrint Casglu a Thrin Gwastraff yn llwyddiannus yn y Barri yn ystod mis Hydref 2020.Gostyngodd halogiad gan 60% yn yr wythnos gyntaf ac er gwaethaf y pandemig, paratowyd 71% o'r gwastraff cartref  i'w ailddefnyddio a/neu ei ailgylchu, gan ragori ar ein targed statudol, sef 64% a tharged Cymru, sef 70% erbyn 2025.



Mae uno ein hadrannau Parciau a Glanhau yn parhau i sicrhau defnyddio adnoddau sydd i'w weld yn y ffigurau glendid strydoedd yn well ac yn fwy effeithiol. Rhagorodd canran y priffyrdd ar lefel glendid dderbyniol hefyd ar y targed gyda 100% o'r priffyrdd a archwiliwyd o safon glanweithdra uchel neu dderbyniol.

Mae 'Gardd Pawb' a gwblhawyd yn Margaret Avenue, Colcot yn fuddsoddiad sylweddol o ran ailddechrau defnyddio safle adfeiliedig gan y gymuned leol, sy'n gwella'r ardal leol a'r cymdogaethau cyfagos.

Parhaom i fuddsoddi mewn nifer o fannau agored ar gyfer cyfleusterau chwaraeon a hamdden gan ddefnyddio cyfraniadau datblygwyr gan gynnwys cwblhau ardal gemau aml-ddefnydd newydd yng Nghaeau Chwarae Brenin Siôr V,Llandochau; uwchraddio ardal chwarae yng Ngwenfô; gosod offer rhyngweithiol Newydd ym Mharc Canolog, y Barri ac ardal gemau amlddefnydd newydd ar gyfer caeau chwarae'r Wig.

Gall dympio gwrthrychau estron mewn mannau amhriodol gael effaith enfawr ar yr amgylchedd naturiol, cymdeithasol ac economaidd. Felly, rydym yn falch o adrodd, yn ystod 2019/20, y cliriodd y Cyngor 381 o achosion o dipio anghyfreithlon dros gyfnod o 352 diwrnod sy'n golygu mai 0.9 diwrnod oedd nifer cyfartalog y diwrnodau a gymerid i glirio achosion o dipio anghyfreithlon, gwelliant ers y llynedd (1.44 diwrnod).



## 6.3 HERIAU

Mae nifer o heriau wedi'u cyflwyno o ganlyniad uniongyrchol i'r pandemig ac mewn achosion eraill roedd llawer yn heriau a oedd yn bodoli eisoes sydd wedi'u gwaethygu ymhellach gan COVID-19. Er bod ansicrwydd parhaus y pandemig yn dal i fodoli, cafwyd cyfleoedd i ddysgu o'r profiad i archwilio a sefydlu ffyrdd newydd o weithio a fydd yn ein galluogi i drawsnewid ein gwasanaethau yn y dyfodol. Gan ein bod yn debygol o orfod dysgu byw gyda COVID-19, y brif her fydd sicrhau y gallwn ddiogelu ein gwasanaethau yn y dyfodol rhag unrhyw effeithiau negyddol neu darfu ar ddarparu gwasanaethau. Wrth i ni bontio o'n hymateb brys i adfer, mae'n rhoi cyfle unigryw i ni ddatblygu ein dealltwriaeth o'r heriau sydd o'n blaenau a sut fel Cyngor rydym yn bwriadu datblygu a newid ein hymateb dros amser.

---

Rydym yn cydnabod nad yw'r oedi dros dro yn ein bywydau arferol a'r cyfnod clo dilynol yn gynaliadwy nac yn ddigon i atal newid yn yr hinsawdd ac **mae gennym lawer o waith i'w wneud os ydym eisiau lleihau ein hallyriadau carbon i sero net cyn targed Llywodraeth Cymru yn 2030.** Bydd angen i ni gyflwyno sylwadau i Lywodraeth Cymru a'r DU, i ddarparu'r pwerau, adnoddau a chymorth technegol mae eu hangen ar awdurdodau lleol yng Nghymru i'n helpu ni i gyrraedd targed 2030 yn llwyddiannus. Bydd angen i ni hefyd barhau i weithio gyda phartneriaid ar draws y rhanbarth i ddatblygu dulliau arfer gorau a'u rhoi ar waith er mwyn cyflawni gostyngiadau carbon a helpu i gyfyngu ar y cynhesu byd-eang. Byddwn yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid lleol gan gynnwys Cynghorwyr, trigolion, pobl ifanc, busnesau a phartïon eraill perthnasol i ddatblygu strategaeth yn unol â'r targed o allyriadau sero net erbyn 2030 ac edrych ar ffyrdd o sicrhau'r buddion lleol gorau posibl o ganlyniad i'r camau hyn mewn sectorau eraill megis cyflogaeth, iechyd, amaethyddiaeth, trafnidiaeth a'r economi.

Er mwyn cydnabod y cysylltiad **anorfod rhwng newid yn yr hinsawdd a cholli bioamrywiaeth, datganodd y Cyngor argyfwng natur ym mis Gorffennaf 2021**, gan roi bioamrywiaeth wrth wraidd ei benderfyniadau a'i gynlluniau adfer, ochr yn ochr â newid yn yr hinsawdd. Rydym yn croesawu cefnogaeth Llywodraeth Cymru i Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang ôl-2020 y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol a byddwn yn ceisio ymgysylltu â'r Fframwaith a ragwelir gyda **nodau a thargedau clir i gyflawni ein nod o 'dim colled net o fioamrywiaeth'**. Bydd hwn yn gyfnod heriol i ni wrth i ni gyflwyno sylwadau i Lywodraethau Cymru a'r DU i ddarparu'r pwerau, yr adnoddau a'r cymorth technegol angenrheidiol i awdurdodau lleol ledled Cymru a'n galluogi i gydweithio a chyflawni'r nod hwn. Byddwn yn parhau i weithio gyda phartneriaid i ddatblygu a gweithredu dulliau arfer gorau a all ddiogelu bioamrywiaeth Cymru. Byddwn hefyd yn gweithio gyda'n rhanddeiliaid lleol gan gynnwys Cynghorwyr, trigolion, pobl ifanc, busnesau a phartïon perthnasol eraill, i **ddatblygu strategaeth sy'n cyd-fynd â Phrosiect Sero** a fydd hefyd yn archwilio ffyrdd o sicrhau'r manteision lleol mwyaf posibl mewn sectorau eraill fel cyflogaeth, iechyd, amaethyddiaeth, trafnidiaeth a'r economi.

---

**Rhagwelir y bydd newid yn yr hinsawdd yn arwain at fwy o stormydd, cynnydd yn lefel y môr a newidiadau mewn patrymau glaw.** Gwelsom **effaith glaw eithafol ym mis Rhagfyr 2020 a achosodd lifogydd a difrod i dros 100 o eiddo preswyl a busnes yn Ninas Powys, Sili a Phenarth** a'r ardaloedd cyfagos. Yn ogystal, gall effeithiau llai amlwg ddigwydd, er enghraifft, gallai newidiadau yn y tymheredd, dŵr daear a llystyfiant effeithio ar erydu arfordirol oherwydd effeithiau ar hindreulio clogwyni neu lifogydd wrth i newidiadau defnydd tir a llystyfiant effeithio ar ymatebion dŵr ffo. Bydd canllawiau newydd a lwfansau newid yn yr hinsawdd yn cael eu hymgorffori mewn asesiadau strategol ar lefel cynllun er mwyn **meithrin gwydnwch yn erbyn newidiadau yn y dyfodol.** Bydd gweithredu **systemau draenio cynaliadwy** o ansawdd da ar ddatblygiadau newydd hefyd yn helpu i liniaru rhai o'r effeithiau hyn ar y risg o lifogydd, tra'n helpu i reoli effeithiau eraill fel tymheredd uwch ac effeithiau ynys wres drefol. Yn ogystal, bydd parhau i fonitro ffryntiadau arfordirol critigol a chyrsiau dŵr yn hwyluso gwell dealltwriaeth o'r newidiadau gwirioneddol sy'n digwydd dros amser. Mae'r pandemig COVID-19 wedi effeithio ar ddarparu gweithgareddau rheoli risg llifogydd ac arfordirol gan ohirio ymchwiliadau i achosion diweddar o

lifogydd ac effeithio ar gyflawni gwaith. Wrth i arferion gwaith newydd gael eu rhoi ar waith, mae'r effeithiau hyn wedi lleihau ac mae ymchwiliadau, arolygiadau a chyflawni cynlluniau newydd bellach yn parhau.

---

Un maes allweddol sydd wedi gofyn am gryn sylw yn ystod COVID-19 ac wrth lacio cyfyngiadau’r cyfnod cloi fu **rheoli ein parciau a'n cyrchfannau.** Wrth i gyfyngiadau’r cyfnod cloi gael eu codi, bu cynnydd yn nifer yr ymwelwyr ag arfordir a Pharciau Gwledig Bro Morgannwg er gwaethaf mesurau ymbellhau cymdeithasol a'r cyfyngiadau cynnar a osodwyd ar deithio. Cafwyd enghreifftiau hefyd o **ymddygiad gwrthgymdeithasol** a arweiniodd at gau'r meysydd parcio yn Ogwr. Wrth symud ymlaen, byddwn yn parhau i reoli ein mannau agored cyhoeddus, yn enwedig ein hardaloedd arfordirol a'n parciau i **sicrhau bod ein trigolion a'n hymwelwyr yn ddiogel a bod ein hamgylchedd naturiol yn cael ei ddiogelu.**

---

Mae COVID-19 wedi **tynnu sylw at y mynediad annigonol ac anghyfartal at fannau gwyrdd o safon.** Yn y cyfnod hwn o argyfwng cenedlaethol, mae pwysigrwydd mynediad at fannau gwyrdd a’r byd natur ar gyfer iechyd corfforol a meddyliol wedi cael ei amlygu'n glir. Mae’r cyfnod cloi wedi bod yn gysylltiedig â risgiau iechyd corfforol a meddwl i'r rhai a fu’n gaeth i'w cartrefi ac mae'r rhain **yn effeithio'n anghymesur ar iechyd meddwl a chorfforol pobl o gymunedau mwy difreintiedig** a'r rhai sy'n byw ar eu pennau eu hunain, neu heb fynediad i erddi, balconïau na mannau gwyrdd. Nid yw mynediad at fannau gwyrdd o safon yn cael ei yrru'n gyfartal, ac mae gan gymunedau difreintiedig lai o lawer o gyfleoedd i fanteisio ar nid yn unig eu gerddi neu fannau awyr agored eraill eu hunain, ond ar fannau gwyrdd sy'n agos i'w cartref hefyd. Mae'r cyfleoedd cyfyngedig hyn i ddefnyddio gofod awyr agored yn effeithio'n arbennig ar blant sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig sy'n destun "tlodi gwyrdd".

---

**Mae anallu clybiau a sefydliadau i gynhyrchu incwm ar hyn o bryd yn rhwystr sylweddol i unrhyw drosglwyddo asedau posibl.** O ganlyniad, heb unrhyw incwm ar gael i'r sefydliadau hyn, mae trafodaethau ynghylch trosglwyddo asedau newydd gan gynnwys meysydd chwaraeon, parciau, mannau agored, rhandiroedd, cyfleusterau cyhoeddus a chlybiau yn parhau i gael eu gohirio nes i ni ddechrau adfer o COVID-19.

---

**Mae costau ynni cynyddol ar gyfer cyflenwadau trydan heb eu mesur mewn perthynas â goleuadau stryd yn parhau’n her allweddol o gofio cyllidebau is a'r angen i sicrhau arbedion sylweddol,** ond dylid lliniaru hyn drwy gwblhau’n sylweddol strategaeth lleihau ynni goleuadau stryd y Cyngor.

---

Er bod y Fro wedi **rhagori ar y targed ailgylchu statudol a bennwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2020/21**, sef 70%, **mae angen i ni leihau lefelau halogi er mwyn cyflawni uchelgais 2025 o weithio tuag at ddyfodol diwastraff**. Erbyn 2025, bydd **angen i ni fod wedi lleihau ein gwastraff yn sylweddol** ac anelu at reoli unrhyw wastraff a gynhyrchir mewn ffordd sy'n gwneud y gorau o'n hadnoddau gwerthfawr. Drwy gydol 2021/22 byddwn yn parhau i ddisodli'r system gwastraff ailgylchadwy cymysg gyda system wahanu. Mae'r newidiadau hyn i drefniadau casglu yn cael eu gweithredu ledled Cymru fel rhan o ymgyrch Llywodraeth Cymru i **leihau lefelau halogi mewn casgliadau ailgylchu** a galluogi i hyd yn oed mwy o'r hyn a daflwn gael ei anfon i safleoedd llosgi neu dirlenwi. Byddwn yn parhau i sicrhau ein bod yn ymgysylltu â phreswylwyr ac yn eu cefnogi i wneud y newidiadau hyn mor hawdd â phosibl.

Rydym wedi **llwyddo i redeg a chwblhau ein holl rowndiau gwastraff domestig ac ailgylchu bob dydd drwy bandemig COVID-19.** Fodd bynnag, mae’r pandemig wedi gohirio'r symudiad tuag at system ailgylchu deunyddiau ar wahân ym Mhenarth a Dinas Powys yn ogystal â chyflawni’r Orsaf Trosglwyddo Gwastraff.

Rydym yn cydnabod y **byddem yn elwa at gael Strategaeth Rheoli Gwastraff gyffredinol** i'n helpu i barhau i ddarparu ein gwasanaethau rheoli gwastraff a newidiadau. Gyda hyn mewn golwg, rydym yn datblygu Strategaeth Rheoli Gwastraff a chefnogi cynllun gweithredu yn unol â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol sy'n nodi disgwyliad bod cyrff cyhoeddus yn edrych o leiaf ddeng mlynedd i'r dyfodol. Bydd hyn yn cael ei adrodd i'r Cabinet yn ystod 2021/22.

---

**Er bod cyllid Salix bellach ar gael i ddisodli 3,713 o lusernau eraill i LED ar lwybrau strategol, mae'r gwaith hwn wedi'i ohirio oherwydd y pandemig**. Ar hyn o bryd mae 68% o oleuadau stryd y Cyngor wedi'u trosi'n LED, sy'n brin o'r targed o 90%. Mae'r contractwr a benodwyd ar gyfer y gwaith hwn wedi rhaglennu'r gwaith i'w gwblhau ym mis Awst 2021.  Bydd cwblhau'r cynllun hwn yn cyfrannu at ein nod o leihau allyriadau carbon y sefydliad i sero net cyn 2030 a lleihau effaith negyddol ein gweithgareddau ar yr amgylchedd.

## 6.4 SBOTOLAU AR: YSGOL GYNRADD YNYS Y BARRI YN "CYDWEITHIO AR GYFER DYFODOL MWY DISGLAIR"

Yn dilyn datgan **argyfwng hinsawdd,** ymrwymodd Cyngor Bro Morgannwg i Siarter Argyfwng Hinsawdd y BGC, datblygodd Gynllun Her Newid Hinsawdd a chreodd Brosiect Sero. Mae Prosiect Sero yn dwyn ynghyd yr ystod eang o waith a chyfleoedd sydd ar gael i **fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd, lleihau allyriadau carbon y Cyngor i sero-net erbyn 2030 ac annog eraill i wneud newidiadau cadarnhaol.** Fel rhan o'r ymgynghoriad ar Gynllun Her Newid Hinsawdd y Prosiect Sero ceisiwyd adborth drwy gynnal arolwg ar-lein, ymgyrch cyfryngau cymdeithasol a phleidleisiau Twitter, sesiynau Zoom cyhoeddus a sesiynau Zoom penodol gyda Fforwm Strategaeth 50+ y Fro a Gwasanaeth Ieuenctid y Fro **i sicrhau bod ein cymuned yn cael ei chynnwys a bod llais pob cenhedlaeth yn cael ei glywed.** Mae'r sgwrs yn parhau ac mae adborth a syniadau yn cael eu croesawu drwy gyfeiriad e-bost y prosiect projectzero@valeofglamorgan.gov.uk.

Mae ein Cynllun Her Newid Hinsawdd yn manylu ar ddeunaw her a oedd yn seiliedig ar yr angen **i ddangos arweinyddiaeth gref, cyflawni ein cyfrifoldeb i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol a gwneud gwahaniaeth nawr ac yn yr hirdymor.** Wrth ymateb i'r heriau hyn, rydym hefyd wedi addo annog newid ymddygiad a gwrando ar bryderon ein plant a'n pobl ifanc. Gyda hyn mewn golwg, rhoddodd y Rheolwr Gyfarwyddwr wahoddiad agored i bob Pennaeth i gysylltu â'r Cyngor i drafod sut y gallem i gyd **gydweithio ar gyfer dyfodol mwy disglair yng nghyd-destun newid yn yr hinsawdd a'r argyfwng natur rhyng-gysylltiedig a ddatganwyd ym mis Gorffennaf 2021.** Yn sgil  y gwahoddiad hwn, rydym wedi clywed barn ein plant a'n pobl ifanc ar newid yn yr hinsawdd a'u gobeithion ar gyfer y dyfodol. Mae hefyd wedi caniatáu i ni **weithio mewn ffordd integredig**, dod ynghyd fel arbenigwyr i rannu ein gwybodaeth a chryfhau ein perthynas waith.

Yn ystod Gwanwyn/Haf 2021, derbyniodd Ysgol Gynradd Ynys y Barri wahoddiad y Rheolwr Gyfarwyddwr a dechreuodd swyddogion o bob rhan o'r Cyngor gan gynnwys y rhai mewn gwasanaethau corfforaethol, rheoli gwastraff, arlwyo, eiddo, trafnidiaeth a gwasanaethau cefn gwlad weithio gyda'r ysgol i **ymgorffori Prosiect Sero yn y cwricwlwm ysgol gyfan**. Wedi'i ysbrydoli gan Ddatganiad Tyst David Attenborough, roedd yr ysgol yn awyddus i ddarparu profiad dysgu dilys i'r plant i ddod â'r dimensiwn byd-eang i gyd-destun cymunedol lleol. Mae'r profiad dysgu arloesol hwn hefyd yn cyd-fynd yn dda â **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol** sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru **weithio'n well gydag eraill (gan gynnwys ei gilydd) a chymryd ymagwedd ataliol fwy cydgysylltiedig, hirdymor fel bod eu penderfyniadau'n cael effaith gadarnhaol ar bobl sy'n byw yn y dyfodol yn ogystal â'r rhai sy'n byw heddiw.**

I ddechrau, cyfarfu swyddogion y Cyngor â staff addysgu yn ystod diwrnod HMS cyn cymryd rhan mewn Wythnos Gyfoethogi lle cymerodd yr ysgol gyfan ran mewn gweithgareddau i ddysgu mwy am **newid yn yr hinsawdd, natur, bioamrywiaeth, trafnidiaeth, ynni glân, bwyd a'r amgylchedd.**



Yn ystod yr wythnos, rhannodd disgyblion Ysgol Gynradd Ynys y Barri eu gweithgareddau arloesol yn y dosbarth drwy Twitter ac ystyriwyd newidiadau y gallent eu gwneud i **ddod yn ysgol fwy carbon niwtral.** Cymerodd y disgyblion ran hefyd mewn gweithgareddau megis mapio eu llwybrau teithio llesol eu hunain ym Mae Jacksons a ysbrydolwyd gan ein swyddogion trafnidiaeth; dysgu am filltiroedd bwyd a chynnwys siwgr bwyd gyda'n swyddogion arlwyo; profi cynhyrchion ynni adnewyddadwy a dysgu am ynni glân gyda'n Rheolwr Ystadau; dysgu yn yr awyr agored am fioamrywiaeth a chefn gwlad gyda'n Ceidwad Cefn Gwlad; a chlywed am bwysigrwydd rheoli gwastraff ac effaith llygredd gan ein swyddog Prosiect Gwastraff. Roedd y profiad ymarferol, **trochol hwn wedi dod â'r dysgu'n fyw** i'r plant a'r staff. Cynhyrchodd yr ysgol fideo You Tube gwych – "Ysgol Gynradd Ynys y Barri ar y cyd â Chyngor Bro Morgannwg - Prosiect Sero" i arddangos ei thaith ddysgu.

Gwyddom fod y profiad dysgu ymarferol hwn o fudd i'n plant a'n pobl ifanc ac y gall meithrin ethos sy'n ein dysgu ni am bwysigrwydd ein hardal hefyd **ddylanwadu ar ymddygiad.** Mae'r profiad dysgu synhwyraidd hwn, lle mae plant yn yr awyr agored, **wedi'u trochi ym myd natur a'n mannau gwyrdd a glas lleol hefyd yn cyfrannu at ein nodau ffordd o fyw egnïol ac iach tra'n cael effaith gadarnhaol ar iechyd meddwl a lles ein plant a'n pobl ifanc.**

## Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif

Gan adeiladu ar y llwyddiant hwn, lluniodd ein tîm Ysgolion yr 21ain Ganrif adroddiad ar ddysgu yn yr awyr agored ar gyfer Ysgol Gynradd y Wig a Marcroes, yn archwilio syniadau ar gyfer datblygu ar dir yr ysgol yn y dyfodol. Fel rhan o'r adroddiad, nododd y tîm y camau cadarnhaol a oedd eisoes wedi'u cymryd yn yr ysgol i ddatblygu eu mannau gwyrdd a chefnogi dysgu disgyblion. Hyd yn hyn, mae Ysgolion y Wig a Marcroes wedi sefydlu llawer o fannau dysgu yn yr awyr agored, gan gynnwys prosiect gardd cynefinoedd, prosiect chwarae yn yr awyr agored i blant meithrin ac ardal Ysgol Goedwig. At ei gilydd, mae'r prosiectau hyn wedi gosod gwelyau planhigion sy'n cynnwys cymysgedd o rywogaethau i ddenu pryfed peillio, gwesty pryfed, tŷ draenogod a phwll bach. Mae llu o rywogaethau bywyd gwyllt a phlanhigion yn yr holl gynefinoedd, gan gynnwys ceirios gwyllt, coed castan, coed ysgaw a phlanhigion llysieuol sy'n denu peillwyr. Plannwyd rhagor o hadau blodau gwyllt a fydd yn datblygu dros y flwyddyn a ddaw.

Yn ystod y flwyddyn mae ein tîm Ysgolion yr 21ain Ganrif hefyd wedi **cydweithio ag ysgolion** i'w helpu i'w cysylltu â phrosiectau fel cynllun coed ffrwythau Cyfoeth Naturiol Cymru. Cofrestrodd 24 o ysgolion i dderbyn 5 coeden ffrwythau yr un, a gwelodd prosiect blodau gwyllt Castell Ffwl-y-mwn (gyda Wild Wales Seeds) 44 o ysgolion yn cofrestru i dderbyn pecynnau o flodau gwyllt (pob un yn gorchuddio hyd at 850m2).

Mae'r mentrau hyn yn dangos ein dull cyfannol o gyflawni nodau ein Cynllun Corfforaethol. Mae'r gweithgareddau a amlygwyd yn dangos **cyfraniad uniongyrchol tuag at gyflawni ein hamcanion llesiant trawsbynciol a llawer o'n hymrwymiadau yn y Cynllun Cyflawni Blynyddol** gan gynnwys gwella ansawdd aer, gwrthbwyso ein hallyriadau carbon, gwyrddio ein hystadau, gwella llesiant, buddsoddi yn ein hysgolion i ddarparu'r amgylchedd dysgu cywir, annog gweithgarwch corfforol a theithio llesol a diogelu ein bioamrywiaeth. Maent hefyd wedi **cyfrannu tuag at wella sgiliau mwy meddal ein gweithlu.** Er enghraifft, mae ein swyddogion wedi gorfod addasu'n gyflym eleni a meddwl am ffyrdd arloesol o drosglwyddo eu harbenigedd ac ymgysylltu â chynulleidfa ifanc. Mae swyddogion wedi croesawu technoleg drwy "ddeialu i mewn" i'r ystafell ddosbarth, maent wedi dysgu sut i gyflwyno a chyfleu eu syniadau mewn ffordd ystyrlon, maent wedi meithrin perthynas â chydweithwyr nad ydynt erioed wedi gweithio gyda nhw o'r blaen. Mewn blwyddyn a gafodd ei dominyddu gan bandemig byd-eang, mae ein gweithlu wedi ymateb i'r her, ac wedi arwain y ffordd ar gyfer newid, gan ddylanwadu ar ymddygiad i sicrhau y gallwn adael etifeddiaeth ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

## 7.0 YR HYN A DDYWEDODD EIN HARCHWILWYR AMDANOM

Yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, mae angen i Archwilydd Cyffredinol Cymru lunio adroddiad blynyddol ar gynghorau Cymru a chyrff cyhoeddus eraill gyda'r teitl, yr 'Adroddiad Gwella Blynyddol (AGB)', sy'n crynhoi'r gwaith archwilio a wnaed yn ystod 2019-2020. Mae'r adroddiad yn dwyn ynghyd canfyddiadau allweddol yr holl waith archwilio a wnaed yn y Cyngor yn ystod 2019-20 gan gynnwys canfyddiadau cyrff arolygu a rheoleiddio eraill fel Estyn (arolygiaeth Ei Mawrhydi ar gyfer ysgolion yng Nghymru) ac Arolygiaeth Gofal Cymru (CIW).

Cyhoeddwyd Crynodeb Archwilio Blynyddol y Cyngor (a elwid gynt yn Adroddiad Gwella Blynyddol) yn hwyrach nag arfer, ym mis Chwefror 2021, ac roedd yn cwmpasu'r cyfnod 2019 hyd at hydref 2020. Roedd y dull hwn yn gyson â'r hyblygrwydd a gynigwyd drwy drefniadau llywodraethu brys gan Lywodraeth Cymru mewn ymateb i'r pandemig COVID-19. Mae hyn wedi galluogi i derfynau amser statudol gael eu llacio mewn rhai meysydd er mwyn gallu dargyfeirio adnoddau gwasanaeth cyhoeddus sydd dan bwysau difrifol i feysydd blaenoriaeth ar adeg argyfwng cenedlaethol. I gydnabod y straen ar wasanaethau cyhoeddus, mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi ymateb drwy ail-lunio ei rhaglen waith reoleiddio a gweithio'n hyblyg i leihau ei heffaith ar ymateb cyrff cyhoeddus i COVID-19. O ganlyniad, mae'r gwaith a wnaed wedi canolbwyntio ar gefnogi cynllunio gwaith adfer, cynaliadwyedd ariannol a dysgu o COVID-19, sydd wedi rhoi adborth amser real i'r Cyngor ar faterion allweddol mewn amrywiaeth o fformatau.

Er nad yw ein rheoleiddwyr wedi cyflawni’r holl waith archwilio ar y safle, rydym wedi parhau i weithio o bell gyda'n cydweithwyr yn Swyddfa Archwilio Cymru i gwblhau nifer o ddarnau o waith o raglen waith archwilio 2019/2020 y Cyngor. Yn ogystal, mae gwaith wedi parhau i ail-lunio neu ohirio gwaith archwilio a gynlluniwyd yn flaenorol ar gyfer 2020/21 wrth i flaenoriaethau newydd ddod i'r amlwg oherwydd effaith pandemig y coronafeirws. Yn ystod y cyfnod hwn, mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi canolbwyntio ar gefnogi cyrff cyhoeddus i wella eu hymatebion sy'n datblygu i COVID-19 drwy gasglu arferion newydd ac arferion eraill wrth iddynt ddod i'r amlwg, gan eu dadansoddi'n gyflym i dynnu sylw at bwyntiau dysgu perthnasol a rhannu'r cipolwg dilynol yn gyflym gyda chydweithwyr yn y sector cyhoeddus yng Nghymru.

Yn y cyfamser, rydym wedi parhau i wneud cynnydd ar y Cynigion Gwella presennol a nodwyd mewn adroddiadau blynyddoedd blaenorol. Mae traciwr Cipolwg y Cyngor yn ymgorffori ein holl gynigion rheoleiddio ar gyfer gwella yn ogystal â meysydd i'w datblygu ymhellach a nodwyd gan y Cyngor a bydd hyn yn cael ei fonitro bob mis gan Fwrdd Cipolwg a bob hanner blwyddyn gan y Pwyllgor Archwilio a'r Cabinet.

## 7.1 CRYNODEB ARCHWILIO BLYNYDDOL (2019 - HYDREF 2020)

Roedd cynnwys Crynodeb Archwilio Blynyddol 2020 yn gadarnhaol ar y cyfan a’r casgliad oedd bod y Cyngor yn cyflawni’r gofynion statudol sydd arno ar y cyfan o ran gwella parhaus.

Er na wnaed unrhyw argymhellion ffurfiol gan yr Archwilydd Cyffredinol yn ei Grynodeb Archwilio Blynyddol 2020 ar gyfer Cyngor Bro Morgannwg, gwnaed 11 o gynigion ar gyfer gwella (CG) mewn perthynas ag adolygiadau lleol penodol ar wasanaethau hamdden allanol y Cyngor (2 CG), y Rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau (5 CG) a threfniadau rheoli gwastraff (4 CG). Adlewyrchir cynnydd diweddar yn erbyn y cynigion hyn yn y Traciwr Cipolwg.

Yn ogystal ag adolygiadau lleol penodol, bob blwyddyn, mae Swyddfa Archwilio Cymru hefyd yn cynnal astudiaethau ar draws y sector llywodraeth leol i wneud argymhellion ar gyfer gwella gwerth am arian. Rhwng 2019 a hydref 2020, cyhoeddwyd 6 adroddiad o'r fath mewn perthynas â: Gofal Cymdeithasol 'Drws Ffrynt'; Adolygiad o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus; Gweithredu'r Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol; Cysgu ar y Stryd yng Nghymru 'Problem Pawb; Cyfrifoldeb Neb'; Deddfu Gwell a Masnacheiddio mewn Llywodraeth Leol.

Yn unol â threfniadau rheoli perfformiad corfforaethol, rhoddir ystyriaeth gan wasanaethau perthnasol y cyngor i'r canfyddiadau a geir mewn adroddiadau lleol a chenedlaethol wrth iddynt gael eu cyhoeddi, ac mae camau gweithredu wedi'u cynnwys yn Nhraciwr Cipolwg y Cyngor drwy gydol y flwyddyn fel y bo'n briodol. Caiff y camau hyn eu monitro gan y Bwrdd Cipolwg a'u hadrodd i Bwyllgorau Craffu, y Cabinet a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wrth i waith i fynd i'r afael â hwy fynd yn ei flaen. Bydd cynnydd yn erbyn ein camau rheoleiddio hefyd yn cael ei fonitro gan gydweithwyr Swyddfa Archwilio Cymru drwy gydol y flwyddyn fel rhan o Gynllun Rheoleiddio Blynyddol 2021/22.

Er gwaethaf heriau sylweddol y flwyddyn ddiwethaf, gwnaed cynnydd cadarnhaol wrth ymateb i'n meysydd gwella rheoleiddio gyda 10 o'r 38 o gamau gweithredu ar y traciwr wedi'u cwblhau ar 1 Ebrill 2021. Mae 25 o gamau gweithredu ar y traciwr yn ymwneud â chynigion rheoleiddio lleol y cwblhawyd 5 ohonynt ac mae gwaith ar y trywydd iawn i gwblhau 20 ohonynt. Mae'r camau gweithredu a gwblhawyd yn ymwneud â'r adolygiad dilynol o'n trefniadau corfforaethol ar gyfer diogelu plant. O'r 13 cam gweithredu sy'n ymwneud ag argymhellion rheoleiddio cenedlaethol a chynigion gwella, mae 5 wedi'u cwblhau gyda gwaith yn mynd rhagddo ar y camau sy'n weddill. Mae'r camau gweithredu a gwblhawyd yn ymwneud â'r adolygiad o sut mae llywodraeth leol yn rheoli'r galw o ran digartrefedd ac effeithiolrwydd awdurdodau cynllunio lleol Cymru.

Gellir gweld Adroddiad Crynodeb Archwilio Blynyddol Bro Morgannwg 2020 yma.

## 7.2 TRACIWR CIPOLWG

Caiff cynnydd o ran ein meysydd gwella ei fonitro trwy'r Bwrdd Cipolwg bob mis a'i adrodd i'r Tîm Rheoli Corfforaethol. Mae Traciwr Gweithrediadau Bwrdd Cipolwg y Cyngor yn ymgorffori ein holl gynigion rheoleiddio ar gyfer gwella yn ogystal â meysydd i'w datblygu ymhellach a nodwyd gan y Cyngor. Adroddir ar gynnydd yn erbyn ein cynigion rheoleiddio ddwywaith y flwyddyn i'r Pwyllgor Archwilio a'r Cabinet.

Oherwydd pryd y cafodd yr adroddiad hwn ei gyhoeddi, darparwyd diweddariad cynnydd mwy diweddar yn erbyn ein meysydd gwella rheoleiddio yn y ddolen isod. Ar 1 Medi 2021, mae'r cynnydd cyffredinol yn parhau'n gadarnhaol. O'r 34 o gamau gweithredu sy'n ymwneud â chynigion rheoleiddio lleol mae 9 wedi'u cwblhau a 25 yn mynd rhagddynt.

Mae 13 cam gweithredu arall yn ymwneud â chynigion rheoleiddio cenedlaethol ar gyfer gwella a nodwyd gan ein rheoleiddwyr ac mewn perthynas â'r rhain, mae 5 wedi'u cwblhau. Gellir gweld cynnydd yn erbyn ein Traciwr Cipolwg (cynigion rheoleiddio) ar 1 Medi 2021 yma.

## 7.3 BARN Y PENNAETH ARCHWILIO MEWNOL AR Y CYNGOR: LLYWODRAETHU, RHEOLI RISG A RHEOLAETH FEWNOL 2020/2021

Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus yn ei gwneud yn ofynnol i'r Pennaeth Archwilio Mewnol roi barn archwilio mewnol i gefnogi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Rhaid i'r farn archwilio mewnol ddod i gasgliad ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol y Cyngor. Mae'r adroddiad <https://www.valeofglamorgan.gov.uk/Documents/_Committee%20Reports/Governance-and-Audit/2021/21-07-20/Annual-IA-Report.pdf>yn:

- Cynnwys barn ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol y Cyngor;
- Cyflwyno crynodeb o'r gwaith archwilio a wnaed;
- Tynnu sylw at unrhyw broblemau a allai effeithio ar lefel y sicrwydd a roddir;
- Rhoi crynodeb o berfformiad y gwasanaeth;
- Rhoi sylwadau ar gydymffurfiaeth â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus.

Yn ystod y flwyddyn, cwblhawyd 30 o adolygiadau gyda barn archwilio a gwnaed 80 o argymhellion canolig ac uchel. O'r adolygiadau hyn, rhoddwyd barn archwilio o sicrwydd sylweddol i 17% (5), sicrwydd rhesymol i 70% (21) a sicrwydd cyfyngedig i 13% (4). Mae'r gwaith o weithredu'r holl argymhellion archwilio yn cael ei fonitro'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod y gwelliannau gofynnol yn cael eu gwneud.

Gan ystyried canlyniadau'r adolygiadau archwilio mewnol a gwblhawyd yn ystod 2020/21, mae'r argymhellion a wnaed ac sy'n ystyried ffynonellau sicrwydd eraill, barn flynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol y Cyngor ar gyfer 2020/21 yw **sicrwydd rhesymol**. Ni nodwyd unrhyw broblemau rheoli trawsgysylltiol sylweddol a fyddai'n effeithio ar amgylchedd rheoli cyffredinol y Cyngor ac mae'r gwendidau a nodwyd yn benodol i wasanaethau.

Cynhaliwyd y rhan fwyaf o'r adolygiadau archwilio arfaethedig yn ystod 2020/21 er gwaethaf y pandemig a'r effaith a gafodd ar y galw am wasanaethau yn ogystal â'r effaith o addasu i weithio o bell (cwblhawyd 73% o'r archwiliadau a gynlluniwyd gydag 80% wedi'u cwblhau o fewn yr amser a gynlluniwyd, ac roedd y ddau berfformiad yn uwch na chyfartaleddau Grŵp Prif Archwilwyr Cymru). Er i'r pandemig gael rhywfaint o effaith ar gyflawni'r cynllun archwilio mewnol ar gyfer 2020/21, roedd lefel y ddarpariaeth Archwilio Mewnol yn ddigonol i'r Pennaeth Archwilio allu rhoi barn. Lle na wnaed gwaith wedi'i gynllunio, cafwyd sicrwydd lle bo hynny'n bosibl o ffynonellau eraill megis gwaith blaenorol ac archwiliadau eraill. Ni chynhaliwyd rhai adolygiadau a gynlluniwyd yn ystod y flwyddyn yn dilyn ceisiadau gan wasanaethau a oedd dan bwysau dwys; bydd y rhain yn cael eu hystyried yng nghynllun 2021/22. Yn ogystal, bydd dau archwiliad a ddechreuodd yn 2020/21 yn cael eu cwblhau yn ystod 2021/22.

Wrth gyflwyno'r farn archwilio flynyddol hon, dylid nodi na all sicrwydd byth fod yn absoliwt. Y mwyaf y gall archwiliad mewnol ei ddarparu yw sicrwydd rhesymol nad oes unrhyw wendidau mawr mewn prosesau rheoli risg, llywodraethu a rheolaeth. Dim ond y materion a godwyd yn yr adroddiad hwn yw'r rhai a ddaeth i'n sylw yn ystod ein gwaith archwilio mewnol ym mlwyddyn ariannol 2020/21 ac nid ydynt o reidrwydd yn ddatganiad cynhwysfawr o'r holl wendidau sy'n bodoli, nac o'r holl welliannau y gallai fod eu hangen.

Derbyniodd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol asesiad allanol yn unol â'r Safonau yn 2017 a disgwylir un arall yn 2022. Ni nodwyd unrhyw feysydd o ddiffyg cydymffurfio a fyddai'n effeithio ar gwmpas na gweithrediad cyffredinol gweithgarwch Archwilio Mewnol a nododd yr asesiad nad oedd unrhyw wyriadau sylweddol o'r Safonau. Nid oes unrhyw newidiadau sylweddol wedi digwydd o ran yr arferion gwaith ers sefydlu'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol ym mis Ebrill 2019. O ganlyniad, mae'r Gwasanaeth yn parhau i gydymffurfio â'r Safonau yn ystod 2020/21.

## 7.4 DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL 2020/2021

Mae'n ofynnol i'r Cyngor, fel rhan o'i drefniadau ar gyfer llywodraethu corfforaethol, gynnal adolygiad blynyddol o reolaeth a llywodraethu mewnol ac mae'n rhaid cynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol (DLlB) a ddeilliodd o hynny yn y Datganiad Cyfrifon. Mae'r DLlB felly yn darparu asesiad o drefniadau llywodraethu corfforaethol y Cyngor ac arfarniad o'r rheolaethau sydd ar waith i reoli risgiau allweddol y Cyngor a nodi lle roedd angen gwneud gwelliannau. Mae'r adroddiad yn disgrifio sut mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'i God Llywodraethu Corfforaethol sy'n cyd-fynd â Fframwaith CIPFA a SOLACE- Cyflawni Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol 2016 gan ganolbwyntio ar yr egwyddorion canlynol:

A - Ymddwyn gyda gonestrwydd, gan ddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol, a pharchu'r rheol gyfreithiol. B - Sicrhau ymgysylltu agored a chynhwysfawr â rhanddeiliaid.
C - Diffinio deilliannau yn nhermau buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy.
Ch - Pennu'r ymyriadau y mae eu hangen i optimeiddio'r gwaith o gyflawni'r deilliannau a fwriedir.
D - Datblygu capasiti'r endid, gan gynnwys gallu ei arweinwyr a'r unigolion oddi mewn iddo.
Dd - Rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref.
E - Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio er mwyn sicrhau atebolrwydd effeithiol.

Daeth y DLlB i'r casgliad, o'r adolygiad, yr asesiad a'r gwaith monitro parhaus a wnaed, **y gellid rhoi sicrwydd rhesymol bod y trefniadau llywodraethu ar gyfer Cyngor Bro Morgannwg yn parhau i gael eu hystyried yn addas i'r diben yn unol â'r fframwaith llywodraethu.**

Un o'r prif faterion a godwyd ac a amlygwyd dros y blynyddoedd diwethaf oedd gallu'r Cyngor i barhau i gyflawni ei amcanion gwasanaeth a sicrhau canlyniadau cadarnhaol i'w gwsmeriaid a'i gleientiaid yng ngoleuni gostyngiadau parhaus yng Nghyllid Llywodraeth Cymru. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae cyllid allanol i gefnogi pwysau ariannol ychwanegol sy'n deillio o COVID-19 wedi'i hawlio lle bo hynny'n bosibl gan Lywodraeth Cymru drwy'r Gronfa Caledi. Bydd hyn yn parhau yn 2021/22. Bydd rhagdybiaethau ar gyfer cyllidebau'r blynyddoedd i ddod yn parhau i gael eu hadolygu a'u diwygio i adlewyrchu'r amgylchiadau sy'n newid.

Byddai'r DLlB yn cael ei adolygu fel rhan o'r archwiliad allanol ar y Datganiad Cyfrifon a dylai adlewyrchu unrhyw faterion llywodraethu hyd at y dyddiad y bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon ar gyfer 2020/2021. Mae effaith pandemig COVID 19 wedi'i hystyried ac wedi'i chynnwys o fewn y DLlB.

## 7.5 COFRESTR O RISGIAU CORFFORAETHOL: DATGANIAD CRYNHOI SEFYLLFA DIWEDD Y FLWYDDYN 2020/2021

### Trosolwg:

Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd 16 o risgiau corfforaethol ar y Gofrestr a oedd yn cynnwys RG16 a ychwanegwyd: COVID-19 a ychwanegwyd at y Gofrestr yn ystod chwarter cyntaf blwyddyn 2020/21.

### Statws Risg:

Sgoriodd 5 risg yn rhai canolig/uchel, sgoriodd 10 risg yn rhai canolig a sgoriodd 1 risg yn un ganolig/isel. Mae gan y risg COVID-19 statws risg canolig/uchel (8) ar y Gofrestr. Mae'r statws risg hwn yn adlewyrchu'r effaith sylweddol y mae'r pandemig wedi'i chael ar fywydau pawb a'r pwysau y mae wedi'i roi ar ein gallu a'n hadnoddau fel sefydliad i sicrhau parhad wrth ddarparu gwasanaethau. Gweler isod **Tabl Crynodeb Risg Gorfforaethol.**

### Cynlluniau Rheoli Risg:

Roedd cynnydd da wedi'i wneud yn ystod Chwarter 4 ar y cyfan mewn perthynas â'r camau gweithredu sy'n gysylltiedig â'r Cynlluniau Rheoli Risg ar draws pob agwedd ar y Gofrestr.

- Mae cyfanswm o 136 o gamau lliniaru yn cael eu monitro ar hyn o bryd drwy'r Gofrestr, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt hefyd yn cyd-fynd â gweithgarwch Cynllun Corfforaethol.
- Yn ystod Chwarter 4, rydym wedi gallu pennu statws CMG i 135 o'r camau lliniaru hyn. Lle nad oedd yn bosibl nodi statws CMG ar gyfer cam gweithredu, nodwyd hyn fel Dd/B (ddim yn berthnasol) yn erbyn y cam gweithredu a darparwyd esboniad yn y Cynllun Rheoli Risg perthnasol.
- Cwblhawyd cyfanswm o 64% o gamau gweithredu (87) a dyrannwyd statws coch i 36% (48) oherwydd llithriad. Ar gyfer llawer o'r camau gweithredu y dyrannwyd statws coch iddynt, nodwyd COVID-19 fel rheswm cyfrannol dros unrhyw lithriad.

### Trywydd:

Drwy gydol y flwyddyn, mae'r rhan fwyaf o'r risgiau ar y Gofrestr wedi aros yn sefydlog ac eithrio'r risgiau Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig, Diwygio Lles a Diogelwch Gwybodaeth sydd i gyd wedi gweld newid yn eu sgôr risg a/neu statws risg cysylltiedig yn ystod y flwyddyn.

### Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig

- Yn ystod chwarter 1, cynyddodd y risg hon ei safle risg o sgôr o 4 i 6 ar y Gofrestr. Er ni wnaeth hyn newid ei statws canolig cyffredinol. Diwygiwyd y sgôr risg i adlewyrchu'r effaith yr oedd COVID-19 yn ei chael ar ein gallu i ddatblygu'r agenda iechyd a gofal cymdeithasol integredig, yn enwedig yng nghyd-destun yr agweddau gwleidyddol / deddfwriaethol ac adnoddau o'r risg sy'n dod i'r amlwg.
- Mae pandemig COVID-19 hefyd wedi cael effaith sylweddol ar adnoddau, gan ei fod wedi golygu bod angen adleoli rhai o'n staff a'n cydweithwyr iechyd i gefnogi swyddogaethau sy'n hanfodol i fusnes. O ganlyniad, mae hyn wedi dargyfeirio adnoddau oddi wrth ddatblygu rhai agweddau ar ein prosiectau trawsnewid a'n cynlluniau datblygu gwasanaethau a oedd hefyd yn effeithio ar amserlenni prosiectau. Barnwyd bod sgôr risg o 6 yn gywir, er gwaethaf effaith COVID-19, mae'r risg yn parhau i gael ei rheoli'n dda drwy'r camau lliniaru presennol.
- Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd y risg hon wedi cynnal ei statws canolig (6) i adlewyrchu'r pryderon sy'n gysylltiedig â COVID-19 a'n ffocws ar adferiad sy'n benodol i COVID. Yn ystod y chwarter diwethaf, mae'r Gwasanaethau Oedolion wedi defnyddio eu profiad a'r hyn a ddysgwyd o'r pandemig i lywio eu gwaith cynllunio ar gyfer gweithredu cam nesaf gwaith y prosiect integreiddio dros y 12 mis nesaf. Tua diwedd y flwyddyn, cafodd y Cyngor gadarnhad o'r cyllid trawsnewid sy'n parhau yn 2021-22, ac o ganlyniad rydym yn fwy hyderus y bydd gennym yr adnoddau ariannol sydd ar gael i barhau i weithredu'r gwaith prosiect hwn yn 2021/22. Er bod COVID wedi effeithio'n sylweddol ar allu ein gweithlu i ddatblygu ein gwaith integreiddio, rydym yn parhau i fod yn obeithiol y bydd hyn yn lleihau dros amser. Disgwyliwn y bydd y trywydd a ragwelir yn gostwng dros amser unwaith y bydd cyfyngiadau'n cael eu llacio'n llawn a

staff a adleoliwyd yn dychwelyd i'w rolau gwreiddiol. Bydd hyn yn rhoi'r gallu i ni ailddechrau ein gwaith prosiect a datblygu'r agenda integreiddio'n llawn unwaith eto.

### Diogelwch Gwybodaeth

- Yn ystod chwarter 2, gostyngodd y risg Diogelwch Gwybodaeth o sgôr safle canolig/uchel (9) ar y Gofrestr i ganolig (6).
- Er gwaethaf y bygythiadau parhaus sy'n gysylltiedig â diogelwch gwybodaeth, diwygiwyd y sgôr risg i ddechrau i adlewyrchu bod mesurau lliniaru ychwanegol wedi'u rhoi ar waith i fynd i'r afael â'r bygythiad cynyddol o ymosodiadau seiber. Yn ystod y cyfnod hwn, cafodd meddalwedd Diogelu Bygythiadau Uwch (Microsoft Defender) ei phrynu a'i chyflwyno ar ffurf modiwlau ychwanegol yn benodol ar gyfer Microsoft 365.
- Er bod y feddalwedd Diogelu Bygythiadau Uwch (DBU) (a elwir hefyd yn Microsoft Defender), wedi bod yn effeithiol o ran lleihau rhai o'r risgiau sy'n gysylltiedig â diogelwch gwybodaeth, dros y flwyddyn ddiwethaf bu cynnydd yn nifer yr ymosodiadau meddalwedd wystlo a brofwyd gan awdurdodau lleol. Mae ymosodiadau meddalwedd wystlo byd-eang ar gynnydd, ac yn fwy diweddar mae'r DU wedi gweld cynnydd dramatig yn y mathau hyn o fygythiadau. Mae ymosodiadau meddalwedd wystlo yn fath penodol iawn o fygythiad na all y rheolydd DBU presennol yn unig ddarparu digon o amddiffyniad ar ei gyfer.
- O ganlyniad, rhagwelir y bydd y sgôr risg hon yn aros yn sefydlog ar sgôr o 6 (Canolig) o ystyried y bygythiad presennol, ac mae ganddi'r potensial i gynyddu ymhellach os na roddir sylw i'r math unigryw hwn o fygythiad wrth symud ymlaen. Mewn ymateb i'r agwedd newydd hon ar y risg, datblygwyd achos busnes i'w ystyried gan y Bwrdd Llywodraethu Gwybodaeth i'n galluogi i wella ein diogelwch meddalwedd wystlo. Mae'r gwasanaeth yn hyderus y bydd yn cryfhau ymhellach ac yn atgyfnerthu lliniaru effeithiol yn erbyn ymosodiadau seiber drwy fabwysiadu'r rheolaeth ychwanegol hon.

### Diwygio Lles

- Yn ystod chwarter 3, cynyddodd y risg Diwygio Lles ei safle risg o sgôr o 4 i 6 ar y Gofrestr, ond ni wnaeth hyn newid ei statws canolig cyffredinol o'r risg. Mae'r sgôr risg hon wedi'i diwygio i adlewyrchu'r effaith y mae COVID-19 yn ei chael ar yr agweddau ar ddarparu gwasanaethau, lles ac adnoddau'r risg.
- Mae'r dirywiad yn yr economi wedi arwain at gynnydd mewn diweithdra a thwf yn nifer y bobl sy'n hawlio Credyd Cynhwysol a rhyddhad y Dreth Gyngor. Mae pryder bod cynnydd yn y rheiny sy'n hawlio Credyd Cynhwysol a mathau eraill o ryddhad yn debygol o waethygu problemau sy'n ymwneud â dyled a thlodi a allai adael pobl mewn sefyllfa nad ydynt yn gallu talu eu morgeisi / cynnal tenantiaethau, talu biliau a fforddio bwyd. Mae hyn yn ei dro yn rhoi pwysau ar wasanaethau tai a digartrefedd i ddod o hyd i atebion a fydd yn galluogi pobl i barhau i fyw yn eu cartrefi ac atal digartrefedd.
- O safbwynt adnoddau, mae'r cynnydd mewn Credyd Cynhwysol a hawlwyr rhyddhad y Dreth Gyngor hefyd yn herio gallu ein gweithlu i ymateb i'r galw cynyddol am gymorth ariannol a allai fod â goblygiadau incwm mewn perthynas â chasglu'r dreth gyngor.
- Ar ddiwedd y flwyddyn, parhaodd y risg hon i gynnal ei sgôr risg o 6 (statws canolig) i adlewyrchu'r pwysau parhaus fel yr amlinellir uchod sy'n gysylltiedig â'r pandemig.

### Trywydd a Ragwelir:

Ar ddiwedd y flwyddyn, mae’r trywydd a ragwelir ar gyfer risgiau ar y Gofrestr wedi aros yr un fath ar y cyfan, ac eithrio risgiau cynaliadwyedd amgylcheddol a diwygio lles y rhagwelir y byddant yn gwaethygu dros amser.

### Cynaliadwyedd Amgylcheddol

Mae'r risg hon wedi cynnal ei llwybr ar i fyny i adlewyrchu y bydd y pwysau sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd yn parhau i gynyddu dros amser. Mae'r llwybr hwn ar i fyny hefyd yn adlewyrchu effeithiau'r problemau llifogydd a gafwyd mewn rhai rhannau o'r Fro yn ystod chwarter 3. Rhagwelir hefyd y bydd y risg diwygio lles yn cynyddu dros amser o ganlyniad i'r risgiau sy'n gysylltiedig ag effaith ariannol a chymdeithasol y newidiadau.

Mae'r prif newidiadau eraill i'r trywydd a ragwelir dros chwarter olaf y flwyddyn wedi bod mewn perthynas â Brexit, COVID ac Ail-lunio, rhagwelir y byddant yn symud o'u llwybr ar i fyny i sefyllfa fwy sefydlog. Mae hyn yn adlewyrchu datblygiadau mwy diweddar yn y tirlun risg a pholisi mewn perthynas â'r risgiau hyn a'r camau lliniaru rydym wedi'u datblygu a'u rhoi ar waith i reoli'r risgiau.

## COVID-19

Rhagwelir bod y risg hon yn debygol o gynnal sefyllfa sefydlog uwch, sy'n ystyried y cynnydd eithriadol sy'n parhau i gael ei wneud gyda'r rhaglen frechu. Erbyn diwedd cyfnod chwarter 4 (Mawrth 2021), er bod nifer o gyfyngiadau wedi aros yn eu lle, fe wnaethon ni ddechrau gweld effaith ar gyfraddau haint COVID-19 gyda datblygiad llwyddiannus y rhaglen frechu.

Mae'n annhebygol y gwelwn unrhyw newid sylweddol yn y risg hon tan haf 2021 (Chwarter 2) ar y cynharaf, pan obeithiwn y bydd cynnydd pellach wedi'i wneud o ran brechu gweddill y boblogaeth gyda dos cyntaf a chyfran sylweddol o'r ail ddos wedi'u rhoi i ran fwyaf o grwpiau blaenoriaeth y JCVI. Rhagwelir y bydd y sefyllfa well o ran iechyd y cyhoedd yn parhau i gael ei chynnal yn ystod y chwarteri yn y dyfodol a fydd yn ei dro yn galluogi cymdeithas i ddychwelyd i normalrwydd. Fodd bynnag, o ddysgu o wersi'r flwyddyn ddiwethaf, rydym yn dal i fonitro datblygiadau COVID yn ofalus, gan ei fod yn parhau i fod yn fygythiad sylweddol i'r Cyngor oherwydd ei natur anrhagweladwy.

## Brexit

Roedd Chwarter 4 yn nodi dechrau perthynas fasnachu wahanol iawn rhwng y DU a'r UE. Er i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd ar 31 Ionawr 2020, cafwyd blwyddyn bontio a oedd yn caniatáu trafodaethau ar gytundeb masnachu newydd. Mae'r cytundeb masnachu newydd yn diffinio sut rydym yn byw, yn gweithio ac yn masnachu gyda'r UE a daeth i rym ar 1 Ionawr 2021. Rhagwelir y bydd y risg hon yn cynnal sefyllfa sefydlog uwch dros y misoedd nesaf gan fod y cyfnod pontio wedi dod i ben i adlewyrchu'r newidiadau mewn perthynas â'n polisi mewnfudo a hawliau dinasyddion, trefniadau ariannu sy'n gysylltiedig â'r Gronfa Ffyniant Gyffredin a materion posibl yn y gadwyn gyflenwi ac yn enwedig pwysau cost sy'n gysylltiedig â rhai deunyddiau crai.

## Ail-lunio

Rydym yn rhagweld bod y risg hon yn debygol o gynnal sefyllfa sefydlog ar statws risg canolig/uchel dros y flwyddyn sydd i ddod, o ganlyniad i'r effaith y mae'r pandemig wedi'i chael ar ein cymunedau a'r galw cynyddol y mae wedi'i roi ar ein gwasanaethau. O ganlyniad, mae hyn yn parhau i fod yn risg i'r gwaith o ddarparu'r Rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau. Mae'r Rhaglen Ail-lunio bellach wedi mabwysiadu dull mwy cyfannol sy'n ymgorffori tair agwedd allweddol ar drawsnewid mewn perthynas â'n cymunedau, ein gwaith a'n hadnoddau sy'n cynnwys elfennau allweddol ein Strategaeth Adfer a'i blaenoriaethau. Mae ein Rhaglen Ail-lunio hefyd yn rhan annatod o'n Cynllun Corfforaethol. Drwy syntheseiddio hyn ynghyd â'r Rhaglen Ail-lunio, mae'n ein rhoi mewn sefyllfa llawer cryfach i allu cyflawni trawsnewid yn effeithiol yn unol â'n hymrwymiadau yn y Cynllun Corfforaethol ac mewn ymateb i'r hyn a ddysgwyd o'r Pandemig. Mae risgiau corfforaethol eraill hefyd yn gysylltiedig â risg y Gwasanaethau Ail-lunio, felly gallai rheoli'r risgiau corfforaethol eraill hyn yn effeithiol helpu i reoli a chael llai o effaith ar y risg Ail-lunio.

Rhagwelir y bydd Diogelu a WCCIS yn symud o'u sefyllfa sefydlog a ragwelir tuag at lwybr ar i fyny, tra rhagwelir y bydd y risg Diogelwch Gwybodaeth yn symud o'i safle blaenorol i lawr i safle sefydlog. Rhagwelir y bydd y risg Diogelwch Gwybodaeth dros y 6 mis nesaf yn lleihau wrth i ni geisio cryfhau ein rheolaethau ac atgyfnerthu polisi gyda staff wedi'u hategu gan reolaethau technegol pellach ac nid polisi papur yn unig.

## Diogelu

Mae natur y risg hon wedi newid gan fod y pandemig wedi effeithio ar blant a phobl ifanc ac oedolion sydd mewn perygl o gael eu cam-drin a neu eu hecsbloetio'n rhywiol. Yn ystod y pandemig, mae plant a phobl ifanc wedi bod mewn perygl uchel gan fod cysylltiadau wyneb yn wyneb traddodiadol â gwasanaethau statudol fel athrawon, gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, sy'n helpu i liniaru ac ymateb i unrhyw risgiau

newydd, wedi'u lleihau. Yn gyffredinol, mae oedolion ag anghenion gofal a chymorth a allai fod wedi bod yn hunan-warchod wedi teimlo'n fwy ynysig gan nad oeddent yn gallu cael mynediad at wasanaethau wyneb yn wyneb yn y ffordd arferol, ac o ganlyniad maent mewn mwy o berygl o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso. Er bod gwasanaethau wedi addasu eu prosesau i weithredu'n ddigidol, nid yw'n disodli'r budd o gysylltiad wyneb yn wyneb rheolaidd o ran materion diogelu. Mae'r pandemig wedi cynyddu ein hymwybyddiaeth o'r 'Ddyletswydd i Adrodd' ac rydym wedi cynnal ymgyrch ar Facebook i wella ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r Gwasanaethau Cymdeithasol a'r 'Rhif ffôn 101' i bobl gael adrodd am unrhyw bryderon am ddiogelwch/lles plant, pobl ifanc ac oedolion. Rydym wedi rhagweld bod y risg hon yn debygol o gynyddu dros amser, gan fod pryder y bydd effaith COVID-19 a'r cyfyngiadau cysylltiedig yn cyfrannu at gynnydd yn y galw am wasanaethau plant a phobl ifanc ac oedolion. Rhagwelir y bydd y cynnydd yn y galw ynghyd â phwysau ar gapasiti presennol y gweithlu i recriwtio a chadw staff (yn enwedig o fewn y Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc) yn debygol o sbarduno'r newid yn y statws risg hwn. Mae ein harsylwadau'n dangos ein bod yn gweld mwy o ddifrifoldeb o achosion, y mae rhai ohonynt yn gysylltiedig â thrais domestig. Yn ogystal, mae mwy o gymhlethdod o achosion sy'n cael eu cyflwyno fel materion aml-haen sy'n aml yn gysylltiedig â pherthnasoedd, cyllid a materion tai. Bydd y gwaith o fonitro'r risg hon yn cael ei adolygu'n barhaus i'n galluogi i adlewyrchu unrhyw newidiadau dilynol i'r risg yn y Gofrestr.

**WCCIS**

Rhagwelir y gallai'r risg hon godi mewn perthynas ag agweddau adnoddau, darparu gwasanaethau a lles y risg. Mae hyn oherwydd bod rhai materion perfformiad yn genedlaethol wedi'u nodi gyda'r system. Er mwyn sicrhau bod sefyllfa gywir o ran perfformiad y system yn cael ei chynnal, rydym yn parhau i adrodd ar unrhyw faterion a nodwyd gennym yn lleol fel y gall Uwch Fwrdd Rheoli WCCIS sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru ac awdurdodau eraill sy'n defnyddio'r system ymchwilio iddynt ac uwchgyfeirio. Mae'r materion perfformiad a nodwyd yn cael eu datblygu ar hyn o bryd gan Uwch Fwrdd Rheoli WCCIS mewn trafodaeth â'r darparwr Advance. Byddwn yn parhau i gynnal briff gwylio ar y materion datblygu sy'n gysylltiedig â WCCIS.

| Cyfeirnod Risg | Risg | Sgôr Risg Cynhenid | Sgôr Effeithiolrwydd Rheolaethau | Sgôr Risg Gweddilliol | | | Trywydd[1] | Trywydd a Ragwelir[2] |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Tebygolrwydd | Effaith | Cyfanswm | | |
| 1 | Ail-lunio Gwasanaethau | 9 (C/U) | 4 (C) | 2 | 2 | (C) | ↔ | ↔ |
| 2 | Newid Deddfwriaethol a Diwygio Llywodraeth Leol | 12 (U) | 2 (C/I) | 2 | 3 | **6 (C)** | ↔ | ↔ |
| 3 | Ad-drefnu a Buddsoddi mewn Ysgolion | 12 (U) | 4 (C) | 2 | 2 | **4 (C)** | ↔ | ↔ |
| 4 | Gwastraff | 12 (U) | 2 (C/I) | 4 | 2 | **8 (C/U)** | ↔ | ↓ |
| 5 | Anghenion y Gweithlu | 9 (C/U) | 4 (C) | 2 | 2 | **4 (C)** | ↔ | ↔ |
| 6 | Diogelwch Gwybodaeth | 12 (U) | 2 (C/I) | 2 | 3 | **6 (C)** | ↔ | ↔ |
| 7 | Cynaliadwyedd Amgylcheddol | 12 (U) | 4 (C) | 2 | 3 | **6 (C)** | ↔ | ↑ |
| 8 | Diwygio Lles | 12 (U) | 4 (C) | 2 | 3 | **6 (C)** | ↔ | ↑ |
| 9 | Cydymffurfiaeth Adeiladau Cyhoeddus | 9 (C/U) | 4 (C) | 2 | 2 | **4 (C)** | ↔ | ↔ |
| 10 | Diogelu | 9 (C/U) | 6 (C) | 1 | 3 | **3 (C/I)** | ↔ | ↑ |
| 11 | Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig | 9 (C/U) | 4 (C) | 3 | 2 | **6 (C)** | ↔ | ↓ |
| 12 | Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid Anawdurdodedig | 12 (U) | 2 (C/I) | 4 | 2 | **8 (C/U)** | ↔ | ↔ |
| 13 | System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS) | 16 (UI) | 2 (C/I) | 2 | 3 | **6 (C)** | ↔ | ↑ |
| 14 | Brexit | 12 (U) | 2 (C/I) | 3 | 3 | **9 (C/U)** | ↔ | ↔ |
| 15 | Anghenion Dysgu Ychwanegol | 9 (C/U) | 2 (C/I) | 3 | 3 | **9 (C/U)** | ↔ | ↔ |
| 16 | COVID-19 | 16 (UI) | 2 (C/I) | 2 | 4 | **8 (C/U)** | ↔ | ↔ |

## CRYNODEB RISG CORFFORAETHOL

Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb o'r Risgiau Corfforaethol a rannwyd yn ôl eu statws risg o ran eu sgôr risg cynhenid (cyn-reoli), y sgôr risg rheoli (pa mor effeithiol y mae'r rheolaethau'n rheoli'r risg) a'r sgôr risg gweddilliol (sgôr ôl-reoli). Mae'r tabl hefyd yn rhoi amlinelliad o gyfeiriad pob risg, o ran a yw'r risg yn cynyddu neu'n lleihau yn ogystal â rhagweld ei chyfeiriad teithio yn y dyfodol.

[1]Mae'r **trywydd** yn cymharu sgôr risg gweddilliol ar gyfer y chwarter cyfredol â'r chwarter blaenorol i ganfod a yw'r risg yn cynyddu / lleihau neu ddim yn newid.

[2] Mae'r **trywydd a ragwelir** yn rhagweld cyfeiriad y risg yn y dyfodol gan ystyried ffactorau sy'n debygol o effeithio arno

↑ Risg yn cynyddu, ↓ Risg yn gostwng, ↔ Risg yn aros yn sefydlog

## 8.0 EIN BLWYDDYN MEWN RHIFAU: DANGOSYDDION PERFFORMIAD

Ysgrifennwyd yr adroddiad hwn ar adeg o her i'r Cyngor wrth iddo barhau i ymateb a chynllunio ei adferiad o bandemig COVID-19. Rydym wedi asesu cynnydd o ran ein gweithgareddau Cynllun Cyflawni Blynyddol ar gyfer y cyfnod ac wedi defnyddio data perfformiad lleol lle mae wedi bod ar gael. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid yw agweddau penodol ar berfformiad, yn bennaf data meincnodi a gwybodaeth dangosyddion perfformiad genedlaethol diwedd y flwyddyn wedi bod ar gael i'n galluogi i gymharu ein perfformiad gan fod ein rhwymedigaethau ystadegol statudol gan Lywodraeth Cymru a Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus Cymru wedi'u hatal. Rydym wedi cyflwyno data'n ddiweddar ar gyfer y Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus ar gyfer y cyfnod 2019/20 a 2020/21 a bydd ein perfformiad mewn perthynas â gweddill Cymru yn cael ei adrodd ar ôl i'r setiau data gael eu cyhoeddi. Mae gwybodaeth am ein perfformiad drwy gydol y flwyddyn wedi'i hadrodd i Gabinetau a Phwyllgorau Craffu'r Cyngor bob chwarter, gan gynnwys adroddiad diwedd blwyddyn (Chwarter 4) ym mis Gorffennaf 2021.

Isod ceir detholiad o ddangosyddion perfformiad ar draws ein pedwar amcan lles ar gyfer y cyfnod 2020/21 y mae data ar gael ar ei gyfer ac sy'n cymharu ein perfformiad presennol â pherfformiad y llynedd (2019/20). Rhaid nodi bod y pandemig parhaus wedi effeithio'n negyddol ar berfformiad mewn rhai meysydd, yn enwedig lle bu angen ail-flaenoriaethu adnoddau mewn ymateb i heriau COVID-19.

---

### AMCAN LLES 1: Gweithio gyda, a thros ein cymunedau

o 62,723 ↑
**79,683** – Nifer y tanysgrifwyr i 'Cyswllt UnFro'

**78%** - Arfarnu Cyflogeion ↓
o 95%

o 1.4% ↑
**1%**
- disgyblion 16 oed sy'n gadael yr ysgol nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth

**3.10%**
- disgyblion 18 oed sy'n gadael yr ysgol nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth ↓
o 1.55%

o 0.80% ↑
**0.62%**
- Pobl ifanc 17 oed nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth

o 10.5 diwrnod ↑
**8.6 diwrnod**
- diwrnodau gwaith a gollwyd oherwydd absenoldeb salwch fesul cyflogai

↑ o 8.4%
**5.4%**
- trosiant cyflogeion gwirfoddol

**63.8%** - cwynion yr ymdriniwyd â hwy o fewn amserlenni ↓
o 69.3%

---

## AMCAN LLES 2: Ategu dysgu, cyflogaeth a thwf economaidd cynaliadwy

o 2,075

**5,300** - nifer yr wythnosau o gyfleoedd hyfforddi a gafodd eu creu drwy Raglen Fuddsoddi Ysgolion yr 21ain Ganrif

**£1.403m** - buddsoddiad i wella trafnidiaeth

o £1.798m

o 24

**50** - nifer y lleoliadau gwaith a chyfleoedd prentisiaeth a grëwyd o fewn y Cyngor

**9.61%** - cyfradd swyddi gwag gyfartalog yn ein prif canol drefi

o 9.49%
(15.9 Cyfartaledd Cymru)

o 361

**350** - nifer y tenantiaethau'n cael eu cynnal 6 mis ar ôl derbyn cyngor ariannol

**90%** - apeliadau cynllunio wedi'u gwrthod

o 90%

o 160

**217** - nifer y trigolion sy'n cymryd rhan drwy'r fenter Cymunedau am Waith a Mwy (CaW+)

o 42

**63** - nifer y cyfleoedd prentisiaeth a gafodd eu creu drwy Raglen Fuddsoddi Ysgolion yr 21ain Ganrif

**89.82%** - Nifer y ceisiadau cynllunio'n cael eu penderfynu o fewn terfynau amser

o 93%

o 89

**93** - nifer y cofnodion swyddi drwy'r fenter Cymunedau am Waith a Mwy (CaW+)

**1.372m** - nifer yr ymweliadau twristiaeth â Bro Morgannwg

o 4.33m

**£2.193m** - Arian A106 wedi'i sicrhau

o £3,713m

**99** - nifer y trigolion sy'n cymryd rhan drwy'r fenter Cymunedau am Waith a Mwy (CaW+)

o 116

**5.1%** - Nifer y ffyrdd A mewn cyflwr gwael

o 6%

## AMCAN LLES 3: Cynorthwyo pobl gartref ac yn eu cymuned

**100%** - ysgolion a arlwyir gan y cyngor sy'n cael cynnig opsiynau bwyd iach

o 100%

**332 diwrnod** - nifer y diwrnodau a gymerwyd i ddarparu Grant Cyfleusterau i'r Anabl

o 183 diwrnod

o 20.8 diwrnod

**19 diwrnod** - nifer y diwrnodau a gymerwyd i osod eiddo gwag

**57.9%** Nifer yr Asesiadau Plant a gynhaliwyd yn brydlon

o 65.7%

o 9.67 diwrnod

**4.4 diwrnod** - Nifer y diwrnodau a gymerwyd ar gyfartaledd i gwblhau holl waith atgyweirio tai'r cyngor

o 97.37%

**97.53%** - Canran y sefydliadau bwyd oedd yn cydymffurfio i raddau helaeth â'r safonau hylendid bwyd

**253,938** - nifer yr ymweliadau â'n cyfleusterau chwaraeon a hamdden

o 1.544m

**100%** - nifer y cartrefi sy'n bodloni Safonau Ansawdd Tai Cymru

o 100%

o 98.2%

**96%** - tenantiaid sy'n fodlon ar waith gwella wedi'i raglennu i'w cartref

**229** - nifer yr unedau tai fforddiadwy a ddarperir

o 285

o 11.5%

**7.75%** - nifer y plant mewn gofal yn symud 3 gwaith neu fwy

**10.5%** - Eiddo preifat gwag a ddaeth yn rhai oedd yn cael eu defnyddio eto

o 13.9%

o 97.3%

**97.5%** - nifer y dioddefwyr cam-drin domestig sy'n teimlo'n fwy diogel o ganlyniad i galedu targedau (mesurau diogelwch a gymerwyd)

**0.88%** - rhent a gollwyd am fod eiddo'n wag

o 0.76%

o 75.2%

**76.90%** - Teuluoedd a ataliwyd yn llwyddiannus rhag mynd yn ddigartref

**10.5%** - eiddo preifat gwag a ddaeth yn rhai oedd yn cael eu defnyddio eto

o 13.9%

## AMCAN LLES 4: Parchu, gwella a mwynhau ein hamgylchedd

o 216,905m2

↑

**245,697m2** o dir parciau, mannau agored a phriffyrdd wedi eu hau gyda hadau blodau gwyllt neu eu cynnal fel ardal naturiol.

o 70.37%

↑

**70.8%** - gwastraff cartref a gasglwyd naill ai wedi'i baratoi i'w ailddefnyddio a/neu ei ailgylchu

o 1.44 diwrnod

↑

**0.92 diwrnod** - nifer y diwrnodau, ar gyfartaledd, cyn i dipio anghyfreithlon gael ei glirio

**7** - nifer y gwobrau traeth a gyflawnwyd

⇔

o 7

**10** - nifer y parciau a dderbyniodd y Faner Werdd:

⇔

o 10

o 98.87%

↑

**100%** - priffyrdd o safon glendid uchel neu dderbyniol

o 67%

↑

**68.2%** - goleuadau stryd y cyngor wedi'u trosi i rai LED

o 128.88kg

↑

128.22kg - gwastraff gweddilliol a gynhyrchir fesul person